

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

25/03/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol](#)

[1. Questions to the Minister for Natural Resources](#)

[2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi](#)

[2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty](#)

[3. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21\(iv\): Diwydiant Dur Cymru](#)

[3. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21\(iv\): The Welsh Steel Industry](#)

[4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Diwydiannau Creadigol](#)

[4. Welsh Conservatives Debate: The Creative Industries](#)

[5. Dadl Plaid Cymru: Arfau Niwclear](#)

[5. Plaid Cymru Debate: Nuclear Weapons](#)

[6. Cyfnod Pleidleisio](#)

[6. Voting Time](#)

[7. Dadl Fer: Cadw Lonydd Gwyrdd yn Wyrdd: Gweithio i Annog Pobl i Beidio â Gyrru oddi ar y Ffordd yng Ngogledd Cymru](#)

[7. Short Debate: Keeping Green Lanes Green: Working to Discourage Off-roading in North Wales](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The first item this afternoon is questions to the Minister for Natural Resources, and question 1 is Gwenda Thomas.

1. Questions to the Minister for Natural Resources

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, a daw cwestiwn 1 gan Gwenda Thomas.

Treial Rheoli Dalgylch Tawe

The Tawe Catchment Management Trial

13:31 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dreial rheoli dalgylch Tawe? OAQ(4)0272(NR)

1. Will the Minister make a statement on the Tawe catchment management trial? OAQ(4)0272(NR)

13:31 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

I thank the Member for Neath for her question. The Tawe area trial is one of three that Natural Resources Wales is undertaking. The trials inform its approach to sustainable natural resource management and focus on working with others on an area basis. They also support preparations for the requirements of the Environment (Wales) Bill, subject to Assembly approval.

Diolch i'r Aelod dros Gastell-nedd am ei chwestiwn. Mae treial ardal Tawe yn un o dri threial y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cynnal. Mae'r treialon yn llywio ei ddull o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn canolbwyntio ar weithio gydag eraill ar sail ardal. Maent hefyd yn cefnogi paratoadau ar gyfer gofynion Bil yr Amgylchedd (Cymru), yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad.

13:31

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for that response. By improving the river ecosystem, the Tawe trial will, no doubt, help make the surrounding areas better, healthier places to live and play. But, in addition, it can also bring significant economic benefits. As a Natural Resources Wales report on catchment management notes, the Tawe is a fascinating and beautiful place, with a vibrant history. Tourism is vital in the area and visitors are attracted by recreations such as angling, outdoor activities, national parks and EU-designated bathing waters. Now, the Countryside Alliance estimates that angling is worth more than £3 billion to the UK economy as a whole, and the Federation of Welsh Anglers suggests that at least £150 million of this comes to Wales. Given this, Minister, could you outline to me what measures are being introduced in this trial to improve the prospects for angling along the River Tawe?

Diolch i chi am eich ymateb, Weinidog. Drwy wella ecosystem yr afon, bydd treial Tawe, heb os, yn helpu i wneud yr ardaloedd cyfagos yn lleoedd gwell ac iachach i fyw a chwarae. Ond gall hefyd gynnwys manteision economaidd sylweddol. Fel y mae adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar reoli dalgylchoedd yn ei nodi, mae ardal y Tawe yn lle diddorol a hardd, ag iddi hanes bywiog. Mae twristiaeth yn hanfodol yn yr ardal a chaiff ymwelwyr eu denu gan weithgareddau hamdden megis pysgota, gweithgareddau awyr agored, parciau cenedlaethol a dyfroedd ymdrochi dynodedig yr UE. Nawr, mae'r Gynghrair Cefn Gwlad yn amcangyfrif fod pysgota'n werth dros £3 biliwn i economi'r DU yn ei chyfanrwydd, ac mae Ffederasiwn Pysgotwyr Cymru yn awgrymu bod o leiaf £150 miliwn o hwn yn dod i Gymru. O ystyried hyn, Weinidog, a allech amlinellu pa fesurau sy'n cael eu cyflwyno yn y treial i wella'r rhagolygon ar gyfer pysgota ar hyd Afon Tawe?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:32

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Indeed. I'm grateful for the Member's question, and the Member continues to champion her region and constituency. Natural Resources Wales, as the delivery body for Welsh Government, is committed to angling. This includes working with local community angling interest groups in the construction of fish passes on the Tawe, which has provided access to more than 15 km-worth of additional spawning area for migratory fish. The Member is quite right to say that angling is an important activity in Wales, not only making a significant contribution to the Welsh economy, but also helping to improve the health and wellbeing of individuals taking part.

Yn bendant. Diolch am gwestiwn yr Aelod, ac mae'r Aelod yn parhau i hyrwyddo ei rhanbarth a'i hetholaeth. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y corff cyflawni ar ran Llywodraeth Cymru, wedi ymrwymo i bysgota. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda grwpiau sydd â diddordeb mewn pysgota yn y gymuned leol ar waith adeiladu ysgolion pysgod ar y Tawe, sydd wedi darparu mynediad ar gyfer pysgod mudol i fwy na 15 km o ardal silio ychwanegol. Mae'r Aelod yn llygad ei lle yn dweud bod pysgota yn weithgaredd pwysig yng Nghymru, a'i fod yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru, gan helpu hefyd i wella iechyd a lles yr unigolion sy'n cymryd rhan.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:33

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you may already be aware that a number of my constituents are keen to see the restoration and connection of the Swansea Neath and Tennant canals somewhere in the area of the lower reaches of the Tawe river there. I agree with them and Gwenda Thomas that the plans have great potential for the economy, as well as the wellbeing of local constituents, many of whom live in areas of high deprivation. Would you support the view that the likely route corridors should remain protected against any future development in that area, even though the connection plans, by their very nature, are quite long term?

Weinidog, efallai eich bod eisoes yn ymwybodol fod nifer o fy etholwyr yn awyddus i weld gwaith yn digwydd ar adfer a chysylltu camlesi Abertawe Castell-nedd a Thennant rywle yn rhannau isaf afon Tawe yn yr ardal honno. Rwy'n cytuno â hwy a Gwenda Thomas fod potensial mawr gan y cynlluniau o ran yr economi, yn ogystal â lles etholwyr lleol, gyda llawer ohonynt yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd mawr. A fydddech yn cefnogi'r farn y dylai'r coridorau llwybr tebygol barhau i gael eu diogelu rhag unrhyw ddatblygu yn yr ardal honno yn y dyfodol, er bod y cynlluniau cysylltu, o ran eu natur, yn eithaf hirdymor?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:34

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member will be aware of my statutory duty as a planning Minister and that I wouldn't be able to comment on particular issues. But, I think it is important to have a long-term view of developments in communities, wherever they are, and it is something that I would encourage local authorities to consider very carefully when making planning considerations.

Bydd yr Aelod yn ymwybodol o fy nyletswydd statudol fel Gweinidog cynllunio ac felly'n ymwybodol o'r ffaith na fyddwn yn gallu rhoi sylwadau ar faterion penodol. Ond rwy'n credu ei bod yn bwysig cael safbwynt hirdymor ar ddatblygiadau mewn cymunedau, lle bynnag y maent, ac mae'n rhywbeth y byddwn yn annog awdurdodau lleol i'w ystyried yn ofalus iawn wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:34	<p>Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, given that NRW identifies physical modification, which is usually because of building development, as the biggest challenge for rivers in the catchment area not achieving good status, I'm wondering how you will work with the local authority in this regard. Will there need to be consideration for the planning committee of Neath Port Talbot council, for example?</p>	<p>Weinidog, o gofio bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi mai addasiadau ffisegol, yn sgil datblygiadau adeiladu fel arfer, yw'r her fwyaf i afonydd y dalgylch rhag cyflawni statws da, tybed sut y byddwch yn gweithio gyda'r awdurdod lleol yn hyn o beth. A fydd angen rhoi ystyriaeth i bwyllgor cynllunio Cyngor Castell-nedd Port Talbot, er enghraifft?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:34	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>Again, not being specific to any particular area, Presiding Officer, in view of my statutory role as planning Minister, the issue of consultation is really important in ensuring that all groups are involved in planning decisions, and the consultation process for activity around that is something that we're developing within the Planning (Wales) Bill structure but also in the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, which I'm very pleased that the Member supported only last week.</p>	<p>Unwaith eto, heb sôn yn benodol am unrhyw ardal yn arbennig, Lywydd, o ystyried fy rôl statudol fel Gweinidog cynllunio, mae mater ymgynghori yn bwysig iawn er mwyn sicrhau bod pob grŵp yn rhan o benderfyniadau cynllunio, ac mae'r broses ymgynghori ar gyfer gweithgaredd yn ymwneud â hynny'n rhywbeth rydym yn ei ddatblygu yn rhan o strwythur Bil Cynllunio (Cymru) yn ogystal â Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ac rwy'n falch iawn fod yr Aelod wedi cefnogi'r Bil hwnnw yr wythnos diwethaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Cloddio Glo Brig		Opencast Mining	
13:35	<p>Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography</p> <p>2. Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch rheoliadau cynllunio mewn perthynas â chloddio glo brig? OAQ(4)0274(NR)</p>	<p>2. What discussions have taken place between the UK Government and the Welsh Government regarding planning regulations in relation to opencast mining? OAQ(4)0274(NR)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:35	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>Planning powers are fully devolved, and a comprehensive planning framework is in place, controlling opencast coal operations here in Wales.</p>	<p>Mae pwerau cynllunio wedi'u datganoli yn llwyr, ac mae fframwaith cynllunio cynhwysfawr ar waith sy'n rheoli gweithfeydd glo brig yma yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:35	<p>Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, your Labour parliamentary colleagues voiced some concern in January that the Coal Industry Act 1994 had, in effect, allowed the then UK Government to salt away moneys that could have gone to restoration. And, in reply, the current Minister said he would want to work closely with devolved administrations to overcome the problem of unrestored sites. Yet, a freedom of information request from my office shows that neither Governments have corresponded on the issue for at least five years, and we are now coming up to a year since the failure to restore opencast mining sites report came out, and still no response from your Government. Now, can I please ask that we see some urgency on this issue, especially given that we've had two public meetings in the last few weeks—one in the Margam area, one in the Cwmllynfell area—where people are demanding restoration?</p>	<p>Weinidog, lleisiodd eich cydweithwyr seneddol Llafur rywfaint o bryder ym mis Ionawr fod Deddf Diwydiant Glo 1994 i bob pwrpas wedi caniatáu i Lywodraeth y DU ar y pryd roi arian o'r neilltu a allai fod wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith adfer. Ac wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog presennol y byddai'n dymuno cydweithio'n agos â gweinyddiaethau datganoledig i oresgyn problem safleoedd heb eu hadfer. Eto i gyd, mae cais rhyddid gwybodaeth gan fy swyddfa yn dangos nad yw'r naill Lywodraeth na'r llall wedi gohebu ar y mater ers o leiaf bum mlynedd. Mae hi bron yn flwyddyn bellach ers cyhoeddi'r adroddiad ar y methiant i adfer safleoedd cloddio glo brig, ac rydym yn dal i aros am ymateb gan eich Llywodraeth eto fyth. Nawr, a gaf fi ofyn, os gwelwch yn dda, am weld rhywfaint o frys yn cael ei roi i'r mater hwn, yn enwedig o gofio ein bod wedi cael dau gyfarfod cyhoeddus yn yr ychydig wythnosau diwethaf—un yn ardal Margam, un yn ardal Cwmllynfell—lle y mae pobl yn galw am weld safleoedd yn cael eu hadfer?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 13:36 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Indeed, the Member is right to raise this alongside the issues that my colleagues, Dai Rees and Gwenda Thomas, raise on a regular basis with me. This is certainly an issue for many communities across Wales. The First Minister has made it very clear, in regards to responsibilities around this, and it's something I will pursue with some vigour.
- Yn wir, mae'r Aelod yn iawn i grybwyll hyn ochr yn ochr â'r materion y mae fy nghyd-Aelodau, Dai Rees a Gwenda Thomas, yn eu dwyn i fy sylw yn rheolaidd. Mae'n sicr yn broblem i lawer o gymunedau ledled Cymru. Mae'r Prif Weinidog wedi ei gwneud yn glir iawn, o ran y cyfrifoldebau sy'n ymwneud â hyn, ac mae'n rhywbeth y byddaf yn mynd ar ei drywydd gyda pheth egni.
- 13:36 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, as Bethan Jenkins has already pointed out, I attended a meeting last night where the feelings of constituents and local people were running high about the restoration issue. To that end, I noted that, in fact, paragraph 2.260 of the budget document of the UK Government quoted:
- Weinidog, fel y mae Bethan Jenkins eisoes wedi ei nodi, bûm mewn cyfarfod neithiwr lle roedd gan etholwyr a phobl leol deimladau cryf i'w mynegi ynglŷn â mater adfer. I'r perwyl hwnnw, nodais fod paragraff 2.260 o ddogfen gyllideb Llywodraeth y DU yn dweud hyn:
- 'The government will work closely with the Scottish Coal Task Force and industry stakeholders to explore alternative options for addressing the environmental liabilities associated with unrestored opencast mines in Scotland.'
- 'Bydd y llywodraeth yn gweithio'n agos gyda Thasglu Glo yr Alban a rhanddeiliaid y diwydiant i archwilio opsiynau eraill ar gyfer mynd i'r afael â'r rhwymedigaethau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â gweithfeydd glo brig heb eu hadfer yn yr Alban.'
- Have they made any approaches to Wales to actually make the same offer to the Welsh Government, to explore similar liabilities for the opencast sites here in Wales?
- A ydynt wedi cysylltu â Chymru i roi'r un cynnig i Lywodraeth Cymru mewn gwirionedd, i archwilio rhwymedigaethau tebyg ar gyfer safleoedd glo brig yma yng Nghymru?
- 13:37 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm not aware of any approach by the UK Government, but local planning authorities are responsible for ensuring that opencast coal sites are restored. We will seek also an urgent discussion with the UK Government on this important matter.
- Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gysylltiad gan Lywodraeth y DU, ond awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod safleoedd glo brig yn cael eu hadfer. Fe fyddwn hefyd yn ceisio cael trafodaeth ar frys gyda Llywodraeth y DU ar y mater pwysig hwn.
- 13:37 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, as you know, constituents in Cwmllynfell are concerned about the effect that a planning application relating to the East Pit opencast would have on their community. I know you can't comment on that application, but I think you are free to answer a more general question on devolved competence. In reaching a planning decision, what weight should a local authority place on an applicant's failure to comply with planning conditions placed upon it in a previous successful planning application?
- Weinidog, fel y gwyddoch, mae etholwyr yng Nghwmllynfell yn pryderu am yr effaith y gallai cais cynllunio mewn perthynas â safle glo brig East Pit ei gael ar eu cymuned. Rwy'n gwybod nad ydych yn gallu rhoi sylwadau ar y cais hwnnw, ond rwy'n credu eich bod yn rhydd i ateb cwestiwn mwy cyffredinol ar gymhwysedd datganoledig. Wrth ddod i benderfyniad cynllunio, pa bwysau y dylai awdurdod lleol ei roi ar fethiant ymgeisydd i gydymffurfio ag amodau cynllunio a osodwyd arno mewn cais cynllunio blaenorol a fu'n llwyddiannus?
- 13:38 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- A reasonable question there, Presiding Officer, in a general context. I expect all planning authorities to act appropriately and to take into account the M-TAN 2, and the 'Planning Policy Wales' document, and take that through the planning processes, as they should deliver a cohesive planning approach to any development.
- Mae hwnnw'n gwestiwn rhesymol mewn cyd-destun cyffredinol, Lywydd. Rwy'n disgwyl i bob awdurdod cynllunio weithredu'n briodol a rhoi ystyriaeth i M-TAN 2, yn ogystal â dogfen 'Polisi Cynllunio Cymru', a mynd â hynny drwy'r prosesau cynllunio, gan y dylent fabwysiadu ymagwedd cynllunio gydlynol mewn perthynas ag unrhyw ddatblygiad.

13:38	Peter Black Bywgraffiad Biography Minister, one of the issues that arose last night in the public meeting regarding the Parc Slip opencast site was the flooding of the hole there, and the danger of that flooding to nearby properties. It soon became very apparent that, although the local authority was working with Celtic Energy to try to resolve this issue, there's been very little, if any, involvement of Natural Resources Wales in trying to alleviate this flooding, or to work with the local authority on how to deal with it. Could I ask that you look into this, and write to the local Members, as to what exactly Natural Resources Wales can do to assist Neath Port Talbot council, and Bridgend council in terms of tackling this potential flooding hazard for residents living near that opencast pit?	Weinidog, un o'r materion a gododd neithiwr yn y cyfarfod cyhoeddus ynghylch safle glo brig Parc Slip, oedd y llifogydd yn y twll yno, a'r perygl i eiddo cyfagos. Er bod yr awdurdod lleol yn gweithio gyda Celtic Energy i geisio datrys y mater, daeth yn amlwg yn fuan iawn mai ychydig iawn, os o gwbl, o ran y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei chwarae yn y broses o geisio lliniaru'r llifogydd, neu weithio gyda'r awdurdod lleol ar sut i ddelio â hwy. A gaf fi ofyn i chi edrych ar hyn ac ysgrifennu at yr Aelodau lleol o ran beth yn union y gall Cyfoeth Naturiol Cymru ei wneud i gynorthwyo Cyngor Castell-nedd Port Talbot, a chyngor Pen-y-bont ar Ogwr i fynd i'r afael â'r perygl o lifogydd posibl i drigolion sy'n byw ger y gwaith glo brig?	Senedd.tv Fideo Video
13:39	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography Indeed, and I am aware of the community issues that Members have raised in the Chamber today. I will write to Members, updating them on the current situation in that area.	Yn bendant, ac rwy'n ymwybodol o'r materion cymunedol y mae Aelodau wedi'u crybwyll yn y Siambr heddiw. Byddaf dyn ysgrifennu at yr Aelodau, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y sefyllfa bresennol yn yr ardal honno.	Senedd.tv Fideo Video
	Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau	Questions Without Notice from Party Spokespeople	
13:39	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography We now move to questions from the party spokespeople, and first this afternoon is the Plaid Cymru spokesperson, Llyr Gruffydd.	Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau, ac yn gyntaf y prynhawn yma mae llefarydd Plaid Cymru, Llyr Gruffydd.	Senedd.tv Fideo Video
13:39	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography Diolch, Lywydd. Weinidog, mae ffermwyr a'u hymgynghorwyr yn dweud wrthyf i ei bod hi'n cymryd llawer mwy o amser i gwblhau ffurflenni cais am daliadau eleni. Ac, o ystyried yr holl—	Thank you, Presiding Officer. Minister, farmers and their advisers tell me that it is taking far longer to complete application forms for payments this year. And, given	Senedd.tv Fideo Video
13:39	Rebecca Evans Bywgraffiad Biography <i>Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food</i> I'm sorry, Presiding Officer; just bear with me a second.	Mae'n ddrwg gen i, Lywydd; a wnewch chi fod yn amyneddgar gyda mi am eiliad.	Senedd.tv Fideo Video
13:40	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Unless somebody speaks, you won't know whether it's working, so can you say something, Llyr?	Oni bai bod rhywun yn siarad, ni fyddwch yn gwybod a yw'n gweithio, felly a allwch chi ddweud rhywbeth, Llyr?	Senedd.tv Fideo Video
13:40	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography Iawn, diolch yn fawr iawn i chi.	Okay, thank you very much.	Senedd.tv Fideo Video
13:40	Rebecca Evans Bywgraffiad Biography It's fine.	Mae'n iawn.	Senedd.tv Fideo Video

13:40

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yr oeddwn yn ei ofyn oedd: mae yna ffermwyr yn dweud wrthyf i ei bod yn cymryd llawer iawn yn hirach i gwblhau eu ffurflenni ar gyfer taliadau amaethyddol eleni ac, o ystyried yr holl broblemau, wrth gwrs, gyda gweithredu'r cynllun newydd, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig estyniad, o safbwynt cyflwyno'r ceisiadau, i'r 15 Mehefin. A gaf fi ofyn pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi i wneud defnydd o'r estyniad posibl hwnnw yng Nghymru, ac, os ydyw'n rhywbeth yr ydych yn ystyried ei gyflwyno, a allwch chi ddweud wrthym hefyd beth fyddai'r oblygiadau posibl o safbwynt eich gallu chi i wneud taliadau sylweddol ar 1 Rhagfyr?

The question that I was asking was this: farmers are telling me that it takes far longer to complete their forms for agricultural payments this year and, given all the problems that there have been with implementing the new programme, the European Commission has offered an extension, in terms of submitting applications, to 15 June. Can I ask you what consideration you have given to utilising that possible extension in Wales, and, if it is something that you are considering introducing, can you also tell us what the possible implications would be in terms of your ability to make significant payments on 1 December?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that question. I am considering making that extension at the moment and I'm doing so in consultation with the industry. I think that we need to understand, though, that there would be knock-on impacts were we to have an additional month in which to fill in those payment forms, and that would result in a knock-on then of one or two months in terms of how early we'd be able to make the payments in the next year. It would also have a knock-on effect on our ability to run some of the pillar 2 programmes as well. So, it would have some serious implications were we to do it.

Diolch i chi am y cwestiwn. Rwy'n ystyried gwneud yr estyniad ar hyn o bryd ac rwy'n gwneud hynny drwy ymgynghori â'r diwydiant. Rwy'n credu bod angen i ni ddeall, serch hynny, y byddai yna sgil-ffeithiau pe bai gennym fis ychwanegol i lenwi'r ffurflenni taliadau hynny, a byddai hynny'n cael arwain at sgil-ffaith o un neu ddau fis arall o ran pa mor gynnar y byddem yn gallu gwneud y taliadau y flwyddyn nesaf. Yn ogystal â hynny, byddai'n cael sgil-ffaith ar ein gallu i gyflawni rhai o'r rhaglenni colofn 2 hefyd. Felly, byddai goblygiadau difrifol pe baem yn ei wneud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'm pleased to say that farmers seem to be having a very good experience with our online system this year. As of today, we have over 2,000 online single application forms already submitted, either in draft or fully, so I think that the experience and the feedback of our online system is very good. Although there are problems over the border, I just remind our farmers in Wales that the system is working very well and encourage them to use the online system.

Rwy'n falch o ddweud fod ffermwyr i'w gweld yn cael profiad da iawn gyda'n system ar-lein eleni. Mae dros 2,000 o ffurflenni cais ar-lein wedi dod i law erbyn heddiw, naill ai ar ffurf ddrafft neu'n llawn, felly rwy'n credu bod profiad ac adborth ein system ar-lein yn dda iawn. Er bod problemau ar yr ochr arall i'r ffin, rwy'n atgoffa ein ffermwyr yng Nghymru fod y system yn gweithio'n dda iawn ac yn eu hannog i ddefnyddio'r system ar-lein.

13:41

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog. Rwy'n siŵr y byddai nifer yn awyddus i gael gwell syniad o bryd yr ydych yn disgwyl y byddwch yn gwneud y penderfyniad, ond, dyna ni—fe wnawn ni aros i glywed.

Thank you, Minister. I'm sure many would be eager to have a better idea of when you expect to make that decision, but, there we are—we'll wait to hear that.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae ffermwyr hefyd, wrth gwrs, yn teimlo'n flin, a dweud y lleiaf, oherwydd penderfyniad y Llywodraeth i atal ffermwyr rhag hawlio tir ar gyfer taliad sylfaenol pan fod mwy na 100 o goed yr hectar ar y tir hwnnw. Canlyniad hynny, wrth gwrs, yw y bydd yna lawer o dir cynhyrchiol sydd â choed arno yn anghymwys ar gyfer ei gynnwys o fewn y gyfundrefn sydd ohoni. Mae'n ymddangos hefyd ar yr un pryd, wrth gwrs, fod yna rai gwledydd eraill wedi penderfynu peidio â chyflwyno'r newidiadau yna. Onid ydych chi felly yn cytuno bod cyflwyno'r newid hwn yng Nghymru yn golygu bod ffermwyr Cymru mewn gwirionedd yn cael eu cosbi'n annheg o'i gymharu â'u cymheiriaid mewn gwledydd eraill?

Farmers also, of course, feel angry, to say the least, because of the Government's decision to prevent farmers from claiming land for the basic payment when there are more than 100 trees per hectare on that land. The outcome of that, of course, is that there will be a great deal of productive land that does have trees growing on it that will not qualify to be included within the regime as it currently exists. It also appears, simultaneously, that some nations have decided not to introduce those particular changes. Wouldn't you therefore agree that introducing this change in Wales means that Welsh farmers, in a way, are penalised unfairly as compared with their peers in other countries?

- 13:42 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I don't believe that farmers are being penalised unfairly. What we are doing in Wales is sticking very closely to what the European Commission expects of us in terms of interpreting their regulations. I know that England won't be applying the maximum tree density in the way that we are, because trees there are covered by cross-compliance. But, my understanding is that that applies only in the bird-rearing season, which is unlikely to meet European Commission agreement in terms of cross-compliance anyway. The difference between England and Wales is that England has a very large fund set aside for disallowance and they've been fined, for example, over £600 million since 2006. Our disallowance is less than 1 per cent of the amount that England's disallowance is and we don't have the large fund for disallowance fines by virtue of the fact that our CAP package is so much smaller than England's.
- Nid wyf yn credu bod ffermwyr yn cael eu cosbi'n annheg. Yr hyn rydym yn ei wneud yng Nghymru yw glynu'n agos iawn at yr hyn y mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ei ddisgwyl gennym o ran dehongli eu rheoliadau. Gwn na fydd Lloegr yn cymhwyso'r dwysedd coed uchaf yn y ffordd rydym ni'n ei wneud, oherwydd bod y coed yno'n cael eu cynnwys yn yr amodau trawsgydymffurfio. Ond yn ôl yr hyn rwy'n ei ddeall, yn ystod y tymor magu adar yn unig y mae hynny'n gymwys, sy'n annhebygol o gydymffurfio ag amodau cytundeb y Comisiwn Ewropeaidd o ran trawsgydymffurfio beth bynnag. Y gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr yw bod gan Loegr gronfa fawr iawn wedi ei neilltuo ar gyfer cosbau ariannol ac maent wedi cael dirwyon, er enghraifft, o dros £600 miliwn ers 2006. Mae ein cosbau ariannol yn llai nag 1 y cant o gosbau ariannol Lloegr ac nid oes gennym gronfa fawr ar gyfer dirwyon cosbau ariannol yn rhinwedd y ffaith fod ein pecyn PAC gymaint yn llai o faint nag un Lloegr.
- 13:43 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y realiti yw, wrth gwrs, y bydd yna felly dir cynhyrchiol nad yw'n gymwys i'w gynnwys yn y gyfundrefn, a, hefyd, canlyniad ymarferol arall, o bosibl, yw y bydd yna filoedd o goed yn cael eu cwmpo. Yn sicr, mae hynny'n rhedeg yn erbyn dymuniad y Llywodraeth mewn strategaethau eraill. A gaf fi, felly, ofyn i chi, Weinidog, oherwydd efallai eich bod yn ymwybodol bod eich canghellor cysgodol chi, fel plaid, wedi dweud yr wythnos yma mewn cyfweiliad ei fod ef o blaid lleihau budd-daliadau i ffermwyr, a ydych chi'n cytuno?
- The reality, of course, is that there will be productive land that won't actually qualify to be included within the regime, and another practical outcome, possibly, is that thousands of trees will be felled. Of course, that runs contrary to the Government's own desires in other strategies. Can I, therefore, ask you, Minister, as perhaps you will be aware that your shadow chancellor, as a party, stated this week in an interview that he is in favour of reducing payments to farmers, whether you agree?
- 13:44 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'd start by saying that felling trees is no way to get around these rules, because the rules relating to felling trees remain in place and anyone found illegally doing so will certainly face financial penalties. In terms of our CAP payments to our farmers in Wales, our pillar 1 payments are particularly important in terms of providing the basic farm income support to allow our farmers to keep on farming. With regard to pillar 2, those payments are extremely important in terms of professionalising our industry to make it modern and resilient for the future.
- Hoffwn ddechrau drwy ddweud nad yw torri coed yn ffordd o osgoi dilyn y rheolau hyn, oherwydd mae'r rheolau sy'n ymwneud â thorri coed yn dal i fod yn weithredol a bydd y sawl a gaiff ei ddal yn gwneud hynny'n anghyfreithlon yn sicr yn wynebu cosbau ariannol. O ran ein taliadau PAC i'n ffermwyr yng Nghymru, mae ein taliadau colofn 1 yn arbennig o bwysig o ran darparu'r cymorth incwm sylfaenol i'n ffermydd er mwyn i'n ffermwyr allu parhau i ffermio. O ran colofn 2, mae'r taliadau hynny'n eithriadol o bwysig er mwyn proffesiynoli ein diwydiant i'w wneud yn fodern ac yn gydnherth ar gyfer y dyfodol.
- 13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, William Powell.
- Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, William Powell.
- 13:44 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch yn fawr, Lywydd. Deputy Minister, staying with the topic of CAP payments, but in a wider context, what assessment have you made of the importance of our membership of the European Union to the prospects for the future of Welsh agriculture?
- Diolch yn fawr, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, gan aros ar bwnc taliadau PAC, ond mewn cyd-destun ehangach, pa asesiad rydych wedi'i wneud o bwysigrwydd ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd i'r rhagolygon ar gyfer dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru?

- 13:45 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Our membership of the European Union is absolutely critical to the prospects of Welsh agriculture. You'll be aware the First Minister has said on many occasions that, without it, agriculture in Wales would face a very bleak future. So, in terms of the benefits that we have from the common agriculture policy, but also from being members of a common market where we can freely trade our goods, it's absolutely critical for our industry.
- Mae ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn gwbl hanfodol i'r rhagolygon ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru. Fe fyddwch yn ymwybodol fod y Prif Weinidog wedi dweud ar sawl achlysur y byddai amaethyddiaeth yng Nghymru yn wynebu dyfodol llwm iawn pe na bawn yn aelodau ohoni. Felly, o ran y manteision a gawn o'r polisi amaethyddol cyffredin, ond hefyd o fod yn aelodau o farchnad gyffredin lle y gallwn fasnachu ein nwyddau'n rhydd, mae'n gwbl hanfodol ar gyfer ein diwydiant.
- 13:45 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm very grateful for that response, Deputy Minister. For the first time since 1983, I'm sure you are as aware as I am that we face, potentially, with the coming general election, the possibility that a process will be unleashed in terms of a referendum that could lead to Wales being dragged out of the European Union as a result of a vote in the UK. If that were to happen, clearly there would be major implications. I'm very keen, Deputy Minister, to know what scenario planning you and your officials are undertaking to safeguard the future of Welsh agriculture and the wider rural economy, should those in my view disastrous steps actually happen.
- Diolch yn fawr am eich ymateb, Ddirprwy Weinidog. Am y tro cyntaf ers 1983, rwy'n siŵr eich bod mor ymwybodol â minnau ein bod, gyda'r etholiad cyffredinol sydd ar y gorwel, yn wynebu'r posibilrwydd y bydd proses yn cael ei chychwyn i gynnal refferendwm a allai arwain at lusgo Cymru allan o'r Undeb Ewropeaidd o ganlyniad i bleidlais yn y DU. Pe bai hynny'n digwydd, yn amlwg fe fyddai'r goblygiadau'n fawr. Ddirprwy Weinidog, rwy'n awyddus iawn i wybod pa waith rydych chi a'ch swyddogion yn ei wneud ar gynllunio senarios ar gyfer diogelu dyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru a'r economi wledig ehangach pe bai'r camau trychinebus hynny, yn fy marn i, yn digwydd mewn gwirionedd.
- 13:46 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that the scenario that you describe suggests really why we should be working for a Labour Government post 7 May.
- Rwy'n credu bod y senario rydych yn ei disgrifio'n awgrymu mewn gwirionedd pam y dylem fod yn gweithio tuag at Lywodraeth Lafur o 7 Mai ymlaen.
- 13:46 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Deputy Minister, thank you for that response, but I'm not going to take up the suggestion directly. However, I would suggest that, whatever the outcome of the general election on 7 May, it may well be time for us to contemplate having with our rural communities—the farmers' leaders, the young farmers, but also the wider leaders within our rural economy—a national conversation about the importance of our membership of and full engagement with the European Union, and I would ask you to give some consideration to that taking place.
- Ddirprwy Weinidog, diolch i chi am eich ateb, ond nid wyf am weithredu ar eich awgrym ar fyrder. Serch hynny, beth bynnag fydd canlyniad yr etholiad cyffredinol ar 7 Mai, fe fyddwn yn awgrymu y gallai fod yn bryd i ni ystyried cael sgwrs genedlaethol am bwysigrwydd ein haelodaeth a'n hymgysylltiad llawn â'r Undeb Ewropeaidd gyda'n cymunedau gwledig—arweinwyr ffermwyr, y ffermwyr ifanc, ond hefyd arweinwyr ein heconomi wledig yn ehangach—a byddwn yn gofyn i chi roi rhywfaint o ystyriaeth i sicrhau bod hynny'n digwydd.
- 13:46 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I will give that due consideration. Thank you.
- Byddaf yn rhoi ystyriaeth haeddiannol i hynny. Diolch yn fawr.
- 13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Welsh Conservatives' spokesperson, Russell George.
- Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Russell George.
- 13:47 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Deputy Minister, I would like to raise with you a number of issues relating to animal welfare, if I may. The five-year anniversary of the ban on the use of electronic collars on dogs and cats was celebrated yesterday, and I'm sure the Deputy Minister will be aware that there is a petition before the Petitions Committee regarding provisions relating to invisible boundary fences. Can I ask what the Welsh Government's definitive view is on this issue?
- Diolch i chi, Lywydd. Ddirprwy Weinidog, hoffwn dynnu eich sylw at nifer o faterion sy'n ymwneud â lles anifeiliaid, os caf. Roedd y ffaith fod pum mlynedd ers y gwaharddiad ar ddefnyddio coleri electronig ar gŵn a chathod yn cael ei dathlu ddoe, ac rwy'n siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol fod deiseb gerbron y Pwyllgor Deisebau ynghylch darpariaethau ar gyfer ffensys ffin anweladwy. A gaf fi ofyn beth yw barn derfynol Llywodraeth Cymru ar y mater?

13:47

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I know this is a matter of particular interest to you and also to the Petitions Committee. My officials are currently in discussion with the Wales animal health and welfare framework, to seek their views on whether or not the legislation that we have is actually meeting its original policy intent, and whether it's appropriate from a veterinary and a scientific viewpoint, given that we are five years into it, taking account of all the recent research in the field and so on. The matter was on the agenda for the framework group in their recent meeting just this month, so I'll be looking forward to having the feedback from their discussions. I understand they were looking to create a terms of reference for that piece of work, so I'd be happy to update Members further on that work.

le, rwy'n gwybod bod hwn yn fater o ddiddordeb arbennig i chi, a hefyd i'r Pwyllgor Deisebau. Mae fy swyddogion wrthi'n cynnal trafodaethau â grŵp fframwaith iechyd a lles anifeiliaid Cymru, i glywed eu barn ynglŷn ag a yw'r ddeddfwriaeth sydd gennym yn cyflawni bwriad y polisi gwreiddiol mewn gwirionedd, ac a yw'n briodol o safbwynt milfeddygol a gwyddonol, o gofio bod pum mlynedd ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth, ac o ystyried yr holl ymchwil diweddar yn y maes ac yn y blaen. Roedd y mater ar agenda cyfarfod diweddar y grŵp fframwaith y mis hwn, felly byddaf yn edrych ymlaen at gael adborth o'u trafodaethau. Rwy'n deall eu bod yn ystyried creu cylch gorchwyl ar gyfer y gwaith hwnnw, felly fe fyddwn i'n fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yn ei gylch.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister. I look forward to that update shortly. Continuing on the theme of dog welfare, the new dog-breeding regulations, which gained cross-party support here, come into force on 30 April, but there is still some concern that there are insufficient resources for local authorities to enforce the new regulations. Can I ask you, Deputy Minister, what support the Welsh Government will be providing to local authorities?

Diolch, Ddirprwy Weinidog. Rwy'n edrych ymlaen at glywed y newyddion diweddaraf yn fuan. Gan barhau ar thema lles cŵn, mae'r rheoliadau newydd ar fridio cŵn, a gafodd gefnogaeth drawsbleidiol yma, yn dod i rym ar 30 Ebrill, ond mae rhywfaint o bryder o hyd nad oes digon o adnoddau i awdurdodau lleol ar gyfer gorfodi'r rheoliadau newydd. A gaf fi ofyn i chi, Ddirprwy Weinidog, pa gymorth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i awdurdodau lleol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My officials have provided local authorities with training on the new regulations, so that they'll understand what's required of them, what's required of the breeders and so on. In my discussions with local authorities, they haven't indicated any concerns as to the resources that they have. My understanding is that they feel they have adequate resources to undertake the work.

Mae fy swyddogion wedi rhoi hyfforddiant ar y rheoliadau newydd i awdurdodau lleol er mwyn iddynt ddeall yr hyn sy'n ofynnol ganddynt, a'r hyn sy'n ofynnol gan fridwyr ac yn y blaen. Yn fy nhrefnadaethau gydag awdurdodau lleol, nid ydynt wedi nodi unrhyw bryderon ynghylch yr adnoddau sydd ganddynt. Fy nealltwriaeth i yw eu bod yn teimlo fod ganddynt adnoddau digonol i wneud y gwaith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Oh, right. Okay, thank you, Deputy Minister. I certainly would say that I'm aware that there are some local authorities who are concerned about the financial implications for them of being able to enforce the regulations, but I certainly would encourage you to have conversations also with your colleague, the Minister for Public Services in that regard, as I'm sure we all want to see the regulations implemented effectively and consistently across Wales.

O, iawn. Iawn, diolch, Ddirprwy Weinidog. Fe fyddwn yn sicr yn dweud fy mod yn ymwybodol fod rhai awdurdodau lleol yn pryderu am y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm wrth allu gorfodi'r rheoliadau, ond yn sicr rwy'n eich annog i gael sgysiau gyda'ch cyd-Aelod, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, ynglŷn â hynny hefyd, gan fy mod yn siŵr ein bod i gyd am weld y rheoliadau'n cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn gyson ledled Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Can I turn lastly to the issue of the welfare of large farm animals that require rescue assistance? You wrote to me in February to say that it was the responsibility of owners to ensure that animals are protected from injury. Whilst I accept that to be true, given the fact that North Wales Fire and Rescue Authority has decided to end its animal rescue services, what contingency plans, can I ask, does Welsh Government have in place to ensure that there are sufficient resources and expertise to rescue animals when they do get into distress through no fault of their owners or keepers?

A gaf fi droi yn olaf at fater lles anifeiliaid fferm mawr sydd angen cymorth achub? Fe ysgrifennoch ataf ym mis Chwefror i ddweud mai cyfrifoldeb perchnogion oedd sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu diogelu rhag niwed. Er fy mod yn derbyn hynny, o gofio bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi penderfynu rhoi diwedd ar ei wasanaethau achub anifeiliaid, a gaf fi ofyn pa gynlluniau wrth gefn sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith i sicrhau bod digon o adnoddau ac arbenigedd ar gyfer achub anifeiliaid sy'n dioddef heb fod bai ar eu perchnogion neu eu ceidwaid?

13:50	Rebecca Evans Bywgraffiad Biography Well, the situation does remain very much as in the letter, as you describe, in the sense that it is the responsibility of animal owners and keepers under the Animal Welfare Act 2006 to ensure that their animals are safe, and they should always take appropriate precautions to make sure that that's the case. The matters you describe are really for the North Wales Fire and Rescue Authority, but if you think there's merit in meeting to discuss this further, I'd be happy to do so.	Wel, mae'r sefyllfa'n parhau fel yn y llythyr, fel rydych yn ei ddisgrifio, yn yr ystyr mai cyfrifoldeb perchnogion a cheidwaid anifeiliaid yw sicrhau bod eu hanifeiliaid yn ddiogel o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, a dylent ddilyn y rhagofalon priodol bob amser i sicrhau hynny. Mae'r materion rydych yn eu disgrifio yn faterion ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn gwirionedd, ond os credwch ei bod yn werth cael cyfarfod i drafod hyn ymhellach, byddwn yn hapus i wneud hynny.	Senedd.tv Fideo Video
Adfer Tir wedi'i Halogi		The Remediation of Contaminated Land	
13:50	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography 3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dir wedi'i halogi? OAQ(4)0279(NR)	3. Will the Minister make a statement on contaminated land? OAQ(4)0279(NR)	Senedd.tv Fideo Video
Aled Roberts Bywgraffiad Biography		7. Will the Minister provide an update on discussions between the Welsh Government and the UK Government on the remediation of contaminated land?	
7. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar adfer tir halogedig? OAQ(4)0281(NR)		7. Will the Minister provide an update on discussions between the Welsh Government and the UK Government on the remediation of contaminated land? OAQ(4)0281(NR)	
13:50	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography Presiding Officer, I understand that you have given your permission for the grouping of questions 3 and 7. Part 2A of the Environmental Protection Act of 1990 was introduced to ensure the risks from contaminated land to human health, property and the environment are managed appropriately. Local authorities, our primary regulators, are responsible for implementing this legislation.	Lywydd, rwy'n deall eich bod wedi caniatáu i gwestiynau 3 a 7 gael eu grwpio. Cafodd rhan 2A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ei chyflwyno er mwyn sicrhau bod peryglon tir halogedig i iechyd pobl, eiddo a'r amgylchedd yn cael eu rheoli'n briodol. Awdurdodau lleol, ein rheoleiddwyr sylfaenol, sy'n gyfrifol am weithredu'r ddeddfwriaeth hon.	Senedd.tv Fideo Video
13:51	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography Thank you for your answer, Minister. One of the concerns surrounding fracking is the potential it has to contaminate land. We know of examples in terms of agricultural land that has suffered as a result of that process. Now, I recently wrote to the Westminster Government asking them not to issue any further licences, either for exploration or, indeed, for the extraction of unconventional gases, because we know the will of this Assembly and that we now have a clear statement of our opposition to fracking here in Wales. We also know, following the St David's Day announcement, that the powers to issue those licences will come here to Wales. So, will you undertake now to write, as Minister, to the Department of Energy and Climate Change Ministers asking that no further decisions be made in that respect, because to do so would be wholly inappropriate?	Diolch am eich ateb, Weinidog. Un o'r pryderon mewn perthynas â'r broses ffracio yw'r posibilrwydd o halogi tir. Rydym yn gwybod am enghreifftiau o dir amaethyddol sydd wedi dioddef o ganlyniad i'r broses. Nawr, ysgrifennais yn ddiweddar at Lywodraeth San Steffan yn gofyn iddynt beidio â chyhoeddi unrhyw drwyddedau pellach, naill ai ar gyfer archwilio neu'n wir, ar gyfer echdynnu nwyon anghonfensiynol, gan y gwyddom beth yw dymuniad y Cynulliad hwn a bod gennym bellach ddatganiad clir o'n gwrthwynebiad i ffracio yma yng Nghymru. Rydym hefyd yn gwybod, yn dilyn cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi, y bydd y pwerau i gyhoeddi'r trwyddedau hynny yn dod yma i Gymru. Felly, a wnewch chi ymrwymo i ysgrifennu, fel Gweinidog, at Weinidogion yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn gofyn iddynt beidio â gwneud unrhyw benderfyniadau pellach ar hynny, gan y byddai gwneud hynny'n gwbl anaddas?	Senedd.tv Fideo Video
13:52	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography The issue of energy consenting is one for the Minister for the Economy, Science and Transport. I will make sure that she is aware of the question raised by the Member today.	Mater i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yw caniatadau ynni. Byddaf yn gwneud yn siŵr ei bod yn ymwybodol o'r cwestiwn a ofynnwyd gan yr Aelod heddiw.	Senedd.tv Fideo Video

- 13:52 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, rwyf yn croesawu'ch cyhoeddiad chi yr wythnos diwethaf i drigolion Coed-poeth a Brymbo, fod Llywodraeth Cymru yn barod i dalu eu cyfraniad nhw. Mae hynny, wrth gwrs, yn creu problem mewn ardaloedd eraill, lle mae yna dreth dirlenwi yn creu anhawster i'r cyngor lleol. Wrth inni ystyried bod treth dirlenwi yn cael ei datganoli, a wnewch chi edrych ar y problemau sy'n cael eu creu, achos rwy'n meddwl bod y broblem a gafwyd yng Nghoed-poeth a Brymbo yn mynd i fod yn un sy'n cael ei gweld ar draws Cymru—ac wrth gwrs, roedd y trigolion wedi cael arolwg amgylcheddol a oedd yn dweud bod y tir yn glir?
- Minister, I do welcome your announcement of last week made to the residents of Coedpoeth and Brymbo, that the Welsh Government is willing to pay their contribution. That, of course, does create a problem in other areas, where there is a landfill tax that creates difficulties for the local council. While we bear in mind that landfill tax is to be devolved, will you look at the problems being created here, because I do think that the problem faced in Coedpoeth and Brymbo is one that will be repeated across the country—and, of course, the residents there had had an environmental survey carried out, which said that the land was clear?
- 13:53 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I think there are several factors here that we have to consider. I'm grateful for the Member's positive comments on the relief to the many constituents in Coedpoeth and Brymbo. I think the issue here particularly was the way that the local authority decided to dispose of the waste through recycling as opposed to landfill, and not with the complexity of that particular issue. I welcome Wrexham's approach to that in terms of recycling as opposed to landfilling, but it doesn't appropriate itself to the Blanford landfill tax example that was given elsewhere. It is something that we are very aware of, and, following on from discussions on this, the lessons learned will be about what the implications are for the broader areas across Wales.
- Gwnaf, rwy'n credu bod nifer o ffactorau yma y mae'n rhaid i ni eu hystyried. Rwy'n ddiolchgar am sylwadau cadarnhaol yr Aelod ar y gostyngiadau i'r nifer o etholwyr yng Nghoed-poeth a Brymbo. Rwy'n credu mai'r broblem yma yn arbennig oedd y ffordd y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu cael gwared ar y gwastraff drwy ailgylchu yn hytrach na mewn safleoedd tirlenwi, ac nid cymhlethdod y mater dan sylw. Rwy'n croesawu agwedd Wrexham tuag at hynny o ran ailgylchu yn hytrach na thirlenwi, ond nid yw'n addas ei gymharu ag enghraifft treth tirlenwi Blanford a roddwyd yn rhywle arall. Mae'n rhywbeth rydym yn ymwybodol iawn ohono, ac i ddilyn y trafodaethau ar hyn, bydd y gwersi a ddysgir yn ymwneud â beth fydd y golygiadau ar gyfer yr ardaloedd ehangach ledled Cymru.
- 13:53 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- As has been mentioned, you recently intervened, Minister, to contribute funds to tackle lead contamination at Coedpoeth and Brymbo. You may be aware that there's also a very similar issue of lead contamination in my own constituency at the Van near Llanidloes. It's a long-standing issue regarding lead contamination and, as a result, properties are not able to be sold. Can I ask you, Minister, if you could provide me with an assurance that you will provide support to my constituents in the same way as you have provided support in north Wales?
- Fel sydd wedi cael ei grybwyll, yn ddiweddar, Weinidog, fe gyfrannoch arian ar gyfer mynd i'r afael â halogiad plwm yng Nghoed-poeth a Brymbo. Efallai eich bod yn ymwybodol hefyd fod achos tebyg iawn o halogiad plwm yn fy etholaeth, yn y Fan ger Llanidloes. Mae'n broblem halogiad plwm sydd wedi bodoli ers amser hir ac o ganlyniad, nid oes modd gwerthu tai. A gaf fi ofyn i chi, Weinidog, a allwch roi sicrwydd i mi y byddwch yn rhoi cymorth i fy etholwyr yn yr un modd ag y darparwyd cymorth gennych yng ngogledd Cymru?
- 13:54 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Well, I'm certainly happy for the Member to write to me on the specific issue, but let me be very clear here: the legislation is clear in terms of the principle of the polluter pays, and if that isn't the case then it certainly moves to the householder, and then the local authority. We are the last port of call. The issue in Coedpoeth and Brymbo is, we believe, unique in the circumstances that were presented to us.
- Wel, rwy'n sicr yn hapus i'r Aelod ysgrifennu ataf ar y mater penodol hwn, ond gadewch i mi fod yn glir iawn yma: mae'r ddeddfwriaeth yn glir ar yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu, ac os nad yw hynny'n digwydd, yna mae'n sicr yn trosglwyddo i ddeiliad yr annedd, ac yna i'r awdurdod lleol. Ni yw'r cam terfynol. Mae'r broblem yng Nghoed-poeth a Brymbo, yn ein barn ni, yn unigryw o ran yr amgylchiadau a gyflwynwyd i ni.
- 13:55 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Having written to you about the same issue—Coedpoeth and Brymbo—and raised it in the Chamber, again, I welcome your announcement. I'm wondering if you could clarify whether this sets a precedent in Wales, and also clarify the situation around the Blanford precedent, which was argued by the residents affected in Coedpoeth and Brymbo. Like others, I'm now being asked questions, for example, by residents of Brynford in Flintshire, whose homes are built on land contaminated by leadworking some centuries ago.
- Ar ôl ysgrifennu atoch ynglŷn â'r un mater—Coed-poeth a Brymbo—a'i godi yn y Siambr, unwaith eto rwy'n croesawu eich cyhoeddiad. Tybed a allwch egluro a yw hyn yn gosod cysail yng Nghymru, ac egluro'r sefyllfa hefyd mewn perthynas â chynsail Blanford a ddadleuwyd gan y trigolion a effeithiwyd yng Nghoed-poeth a Brymbo. Fel amryw o rai eraill, rwyf bellach yn cael cwestiynau gan drigolion Brynffordd yn Sir y Fflint, er enghraifft, y mae eu cartrefi wedi eu hadeiladu ar dir a halogwyd gan waith plwm rai canrifoedd yn ôl.

13:55	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>The Blane field example is one for the UK Government, and not for us. I absolutely can be clear: this does not set a precedent in any way, shape or form. This is a unique decision on the elements that were presented to us by the Coedpoeth and Brymbo situation, which were highly complex. I'm grateful again for the Member's positive response.</p>	<p>Mae enghraifft Blane field yn un ar gyfer Llywodraeth y DU, ac nid i ni. Gallaf yn sicr fod yn glir ar hyn: nid yw'n gosod cynsail mewn unrhyw ffordd o fath yn y byd. Mae'n benderfyniad unigryw yn seiliedig ar yr elfennau a gododd o sefyllfa Coed-poeth a Brymbo, a oedd yn gymhleth iawn. Rwy'n ddiolchgar unwaith eto am ymateb cadarnhaol yr Aelod.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Cymunedau Cynaliadwy		Sustainable Communities	
13:55	<p>Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography</p> <p><i>4. Pa wahaniaeth fydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei wneud o ran cryfhau cymunedau cynaliadwy? OAQ(4)0280(NR)</i></p>	<p><i>4. What difference will the Well-being of Future Generations (Wales) Bill make to the strengthening of sustainable communities? OAQ(4)0280(NR)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:56	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for Cardiff Central for her question. The Bill makes a difference by putting in place statutory wellbeing goals and governance principles for public bodies. All communities need prosperity, cohesiveness and resilience to change. The Bill seeks to ensure that local people, groups and businesses are involved in the long-term stewardship of the community.</p>	<p>Diolch i'r Aelod dros Ganol Caerdydd am ei chwestiwn. Mae'r Bil yn gwneud gwahaniaeth drwy osod amcanion lles statudol ac egwyddorion llywodraethu ar gyfer cyrff cyhoeddus. Mae pob cymuned angen ffyniant a chydlyniant a gallu i wrthsefyll newid. Mae'r Bil yn ceisio sicrhau bod pobl, grwpiau a busnesau lleol yn rhan o stiwardiaeth hirdymor y gymuned.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:56	<p>Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography</p> <p>'The Wales we Want' consultation made it very clear that people want vibrant communities and local businesses. Unfortunately, the Llanedeyrn community has the Maelfa shopping centre, which I know you're familiar with, Minister, which has been awaiting redevelopment for probably 15 years. Even though a preferred provider was appointed two years ago, nothing has happened, and people feel pretty abandoned and desperate about it. Given that construction industry activity is at its lowest level since 2007, what hope do you think we can provide, and what comfort can be given by the Well-being of Future Generations (Wales) Bill?</p>	<p>Roedd ymgynghoriad 'Y Gymru a Garem' yn ei gwneud yn glir iawn fod pobl eisiau cymunedau a busnesau lleol bywiog. Mae gan gymuned Llanedern ganolfan siopa Maelfa, ac rwy'n gwybod eich bod yn gyfarwydd â hi, Weinidog. Yn anffodus, mae wedi bod yn aros i gael ei hailddatblygu ers 15 mlynedd siŵr o fod. Er i'r darparwr gael ei bennu ddwy flynedd yn ôl, nid oes dim wedi digwydd, ac mae pobl yn teimlo'n anobeithiol ynglŷn â'r mater, ac wedi'u hanghofio. O ystyried bod gweithgarwch y diwydiant adeiladu ar ei lefel isaf ers 2007, pa obaith y credwch y gallwn ei roi, a pha gysur y gellir ei roi drwy Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:57	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>Again, I thank the Member for her question. Indeed, thank you for the tour around Llanedeyrn the other evening. I was there with Jo Stevens, the next MP for Cardiff Central, only the other night. It is clear to me that there is development needed in that area. Of course, I wouldn't want to speak specifically about the actual development, but I would encourage all authorities and the private sector to engage in the whole process of the future generations principles. This makes sense for a better future—a future generation for everybody.</p>	<p>Unwaith eto, diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Yn wir, diolch i chi am y daith o gwmpas Llanedern y noson o'r blaen. Roeddwn i yno gyda Jo Stevens, yr AS nesaf dros Ganol Caerdydd, y noson o'r blaen. Mae'n amlwg i mi fod angen datblygu yn yr ardal honno. Wrth gwrs, ni fyddwn eisiau siarad yn benodol am y datblygiad ei hun, ond byddwn yn annog pob awdurdod a'r sector preifat i gymryd rhan ym mhroses gyfan egwyddorion cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn gwneud synnwyr ar gyfer sicrhau dyfodol gwell i bawb.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:57	Paul Davies Bywgraffiad Biography Minister, as you know, we, on this side of the Chamber, supported amendments on sustainable development at Stage 3 of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, but, given the overall bureaucratic burden of this Bill, we could not support it at Stage 4. Could you, therefore, tell us how establishing public service boards as statutory bodies, at a cost of £9.5 million, will actually result in an increase in sustainable development across Wales?	Weinidog, fel y gwyddoch, roeddem ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn cefnogi diwygiadau i ddatblygu cynaliadwy yng Ngham 3 Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ond o ystyried baich biwrocraidaidd cyffredinol y Bil, nid oedd modd i ni eu cefnogi yng Ngham 4. A allwch ddweud wrthym felly sut y bydd sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus fel cyrff statudol, ar gost o £9.5 miliwn, yn arwain, mewn gwirionedd, at gynnydd mewn datblygu cynaliadwy ledled Cymru?	Senedd.tv Fideo Video
13:58	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography I'm very grateful for the question from the Member. Unfortunately, it wasn't the Member—	Rwy'n ddiolchgar iawn am y cwestiwn gan yr Aelod. Yn anffodus, nid yr Aelod—	Senedd.tv Fideo Video
13:58	Paul Davies Bywgraffiad Biography Answer the question.	Atebwch y cwestiwn.	Senedd.tv Fideo Video
13:58	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography It wasn't the spokesperson who was able to deliberate that with us today.	Nid y llafarydd oedd yn gallu trafod hynny gyda ni heddiw.	Senedd.tv Fideo Video
13:58	Paul Davies Bywgraffiad Biography Answer the question. Answer the question.	Atebwch y cwestiwn. Atebwch y cwestiwn.	Senedd.tv Fideo Video
13:58	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography The fact of the matter is you have no principles of sustainable development. None—	Y ffaith yw nad oes gennych unrhyw egwyddorion datblygu cynaliadwy. Dim—	Senedd.tv Fideo Video
13:58	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Order. I call Members to answer the question, not you.	Trefn. Fi sy'n galw ar Aelodau i ateb y cwestiwn, nid chi.	Senedd.tv Fideo Video
13:58	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography The party opposite have been very clear on opposing sustainable development principles here in Wales, and it's disappointing that the Member continues to use that excuse of not supporting it at Stage 4. You had a choice to support a future generation fit for the people of Wales, where 7,000 people involved in that process said it was the right thing. You, opposite, on the benches there, voted against that, and you should remember that. The people of Wales will.	Mae'r blaid gyferbyn â mi wedi bod yn glir iawn ynglŷn â gwrthwynebu egwyddorion datblygu cynaliadwy yma yng Nghymru, ac mae'n siomedig fod yr Aelod yn parhau i ddefnyddio'r esgus o beidio â'i gefnogi yng Ngham 4. Roedd gennych ddewis i gefnogi dyfodol a fyddai'n addas ar gyfer pobl Cymru, lle y dywedodd 7,000 o bobl a oedd yn rhan o'r broses honno mai dyna oedd y peth iawn i'w wneud. Fe bleidleisioch chi gyferbyn, ar y meinciau yn y fan honno, yn erbyn hynny, a dylech gofio hynny. Bydd pobl Cymru yn cofio hynny.	Senedd.tv Fideo Video
13:58	Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography Minister, it's not obvious in the Bill what contribution the education system in Wales can make to a sustainable Wales. Could you spell out—not literally, of course—what role you see the education system playing, please? [Laughter.]	Weinidog, nid yw'n amlwg yn y Bil pa gyfraniad y gall y system addysg yng Nghymru ei wneud i Gymru gynaliadwy. A wnewch chi egluro pa ran rydych yn ei gweld ar gyfer y system addysg, os gwelwch yn dda? [Chwerthin.]	Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The whole principle of sustainable development—. Again, I'm grateful to the Member, of course, for supporting the principle and the passage of the Bill. This is about encouraging all public bodies, on a statutory footing now, to change the way they make decisions, by consulting with people of all walks of life, including young people, too, in the education system, about what's best for their community. Huw Lewis, of course, the Minister for Education and Skills, is heavily involved in this process, and was one of the instigators of this particular Bill, right at the outset.

Mae holl egwyddor datblygu cynaliadwy—. Unwaith eto, rwy'n ddiolchgar i'r Aelod, wrth gwrs, am gefnogi'r egwyddor a thaith y Bil drwy'r Siambr. Mae hyn yn ymwneud ag annog pob corff cyhoeddus, ar sail statudol yn awr i newid y ffordd y maent yn gwneud penderfyniadau, drwy ymgynghori gyda phobl o bob lliw a llun, gan gynnwys pobl ifanc hefyd, yn y system addysg, am yr hyn sydd orau ar gyfer eu cymuned. Mae Huw Lewis, wrth gwrs, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, yn rhan fawr o'r broses hon, ac roedd yn un o sefydlwyr y Bil ar y cychwyn cyntaf.

13:59 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Minister, would you agree with me that community cohesiveness can be greatly enhanced if the last pub in the village is able to be retained? I raised the issue yesterday of the Radnor Arms in Llowes in my constituency, which, much to the dismay of local people and the community council, has been granted planning permission by Powys County Council to be turned into a private residence. Your colleague the Minister for Communities and Tackling Poverty says that she will consult on community asset transfer later on this year, but what role do you see for the planning function and for local authority planning departments to protect these very important facilities for communities?

Weinidog, a fydddech yn cytuno â mi y gellid gwella cydlyniant cymunedol yn fawr pe gellid cadw'r dafarn olaf yn y pentref? Ddoe, soniais am y Radnor Arms yn Llowes yn fy etholaeth sydd wedi cael caniatâd cynllunio gan Gyngor Sir Powys i gael ei droi'n gartref preifat er mawr siom i'r bobl leol a'r cyngor cymuned. Mae eich cyd-Aelod, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, yn dweud y bydd yn ymgynghori ar drosglwyddo asedau cymunedol yn nes ymlaen eleni, ond yn eich barn chi, pa rôl sydd gan y swyddogaeth gynllunio ac adrannau cynllunio awdurdodau lleol i warchod y cyfleusterau hynod o bwysig hyn yn ein cymunedau?

14:00 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I think the Member is right to raise the issue of mixed community assets, without making particular reference to the particular planning consent that's being granted in her area. What this boils down to is applying the future generations principles to the development of a local development plan, which I know is void in her constituency. I would encourage her local authority to work very actively to achieve a positive LDP, which I would hope therefore would give added protection to the community that she represents.

Rwy'n credu bod yr Aelod yn iawn i godi mater asedau cymunedol cymysg, heb gyfeirio'n benodol at y caniatâd cynllunio penodol sy'n cael ei roi yn ei hardal. Yn y bôn, yr hyn sydd ei angen yw cymhwyso egwyddorion cenedlaethau'r dyfodol i greu cynllun datblygu lleol, a gwn fod hwnnw'n ddi-rym yn ei hetholaeth. Byddwn yn annog ei hawdurdod lleol i weithio'n egniol iawn i sicrhau bod ganddo Gynllun Datblygu Lleol cadarnhaol a fyddai'n rhoi mwy o ddiogelwch, gobeithio, i'r gymuned y mae'n ei chynrychioli.

Potensial Ynni Morlynnoedd Llanw

The Energy Potential of Tidal Lagoons

14:00 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y potensial ynni ar raddfa fach sydd gan forlynnoedd llanw?
OAQ(4)0286(NR)

5. Will the Minister make a statement on the small-scale energy potential of tidal lagoons? OAQ(4)0286(NR)

14:01 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for Monmouth for his question. There are a number of proposals for large-scale tidal lagoons around the Welsh coast. I support all forms of marine technology that can harness the energy potential from Welsh waters within acceptable financial and environmental limits.

Diolch i'r Aelod dros Fynwy am ei gwestiwn. Mae yna nifer o gynigion ar gyfer morlynnoedd llanw ar raddfa fawr o amgylch arfordir Cymru. Rwy'n cefnogi pob math o dechnoleg forol sy'n gallu defnyddio potensial ynni dyfroedd Cymru o fewn terfynau ariannol ac amgylcheddol derbyniol.

- 14:01 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. I'm pleased you've focused on large-scale tidal lagoons, because that's what I actually wanted to ask you about anyway. There are proposals, as you'll be aware for four tidal lagoons off the coast of Wales, two of them in the Severn estuary. I'm sure you agree with me that this represents an exciting energy potential for Wales, producing potentially around 8 per cent of the UK's energy needs. However, there are environmental issues that have to be dealt with. I appreciate that this level of energy is a UK issue; what framework are you putting in place so that you, as Minister for Natural Resources here, are able to work alongside the UK Government and the project deliverers of the tidal lagoons to make sure that these environmental issues are addressed and we can capitalise on the potential?
- 14:01 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- There are some statutory processes in place for the consideration of applications for tidal lagoons and all other energy consents. We do welcome marine technologies here in Wales, but subject not to predetermination of any application. Natural Resources Wales, local authorities, the UK Government and Welsh Government work very closely on seeking the best opportunities for exploiting these energy technologies for the benefit of Wales and the broader union, as we see.
- 14:02 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I have supported the use of tidal lagoons to produce renewable energy for several years, and the first one will hopefully be built in Swansea. This is a chance for Wales to become a world leader in the technology. What is the Welsh Government doing to ensure the protection of migratory fish, such as salmon, when the lagoons are built?
- 14:02 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Mike Hedges for his question. Natural Resources Wales is responsible for the management of migratory fish stocks. The environmental impact assessments carried out on the projects by developers have to have regard to the protection of the environment.
- 14:03 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I declare an interest as a community shareholder in the putative Swansea bay tidal lagoon, which I hope will be the first of several around the coast of Wales. We know, of course, that the strike price for this first development will be high—higher than other comparable sources of energy—but we also know that it will open the door to a lower strike price, comparable to that of nuclear, for example, if other lagoons are then constructed. So, what work can you do with the UK Government to urge them to take this, if you like, slight leap in the dark in order to ensure this new technology comes to Wales, that we get the skills on the back of this technology, we get the job development on the back of this technology and, of course, we capture the huge resources of energy that are in the waters around our nation?
- Diolch i chi, Weinidog. Rwy'n falch eich bod wedi canolbwyntio ar forlynnnoedd llanw ar raddfa fawr, am mai am hynny roeddwn eisiau eich holi yn eu cylch beth bynnag. Mae yna gynigion, fel rydych yn gwybod, ar gyfer pedwar morlyn llanw oddi ar arfordir Cymru, dau ohonynt yn aber yr Afon Hafren. Rwy'n siŵr eich bod yn cytuno â fod fod hwn yn botensial ynni cyffrous i Gymru, a fyddai'n cynhyrchu oddeutu 8 y cant o anghenion ynni'r DU o bosibl. Fodd bynnag, mae yna faterion amgylcheddol sy'n rhaid ymdrin â hwy. Rwy'n sylweddoli bod y lefel hon o ynni yn fater ar gyfer y DU; pa fframwaith rydych yn ei roi ar waith er mwyn i chi, fel y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yma, allu gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth y DU a darparwyr prosiectau'r morlynnnoedd llanw i wneud yn siŵr bod y materion amgylcheddol hyn yn cael sylw a sicrhau y byddwn yn gallu manteisio ar y potensial?
- Mae yna rai prosesau statudol ar waith ar gyfer ystyried ceisiadau am forlynnnoedd llanw a'r holl gydsyniadau ynni eraill. Rydym yn croesawu technoleg forol yma yng Nghymru, ond yn ddarostyngedig i beidio â gwneud penderfyniad ar unrhyw gais ymlaen llaw. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos iawn i geisio dod o hyd i'r cyfleoedd gorau i fanteisio ar y technolegau ynni hyn er budd Cymru a'r undeb ehangach, fel y gwelwn.
- Weinidog, rwyf wedi cefnogi'r defnydd o forlynnnoedd llanw i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ers nifer o flynyddoedd, a bydd y cyntaf, gobeithio, yn cael ei adeiladu yn Abertawe. Mae hwn yn gyfle i Gymru arwain y byd yn y dechnoleg. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau y bydd pysgod mudol, megis eogiaid, yn cael eu diogelu pan gaiff y morlynnnoedd eu hadeiladu?
- Diolch i Mike Hedges am ei gwestiwn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am reoli stociau pysgod mudol. Mae'n rhaid i'r asesiadau effaith amgylcheddol sy'n cael eu gwneud ar y prosiectau gan ddatblygwyr roi sylw i ddiogelu'r amgylchedd.
- Weinidog, rwy'n datgan diddordeb fel cyfranddaliwr cymunedol ym morlyn llanw arfaethedig bae Abertawe, ac rwy'n gobeithio mai dyma'r cyntaf o nifer a fydd yn ymddangos o amgylch arfordir Cymru. Wrth gwrs, fe wyddom y bydd y pris gosod ar gyfer y datblygiad cyntaf hwn yn uchel—yn uwch na ffynonellau ynni eraill tebyg—ond rydym hefyd yn gwybod y bydd yn agor y drws ar bris gosod is, tebyg i bris niwclear, er enghraifft, os caiff morlynnnoedd eraill eu hadeiladu wedyn. Felly, pa waith a allwch ei wneud gyda Llywodraeth y DU i bwysio arnynt i gymryd y llam bach hwn i'r tywyllwch, fel petai, er mwyn sicrhau bod y dechnoleg newydd hon yn dod i Gymru, ein bod yn cael y sgiliau yn sgil y dechnoleg hon, ein bod yn datblygu swyddi yn sgil y dechnoleg hon ac wrth gwrs, ein bod yn manteisio ar yr adnoddau ynni enfawr yn y dyfroedd o amgylch ein gwlad?

14:03 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As I said, we are working with all agencies to seek a positive approach and welcoming marine energy. I spoke at the Marine Energy Pembrokeshire annual seminar last Thursday, showing my commitment to the sector, and it is about working together to see how best we can benefit—not only harnessing the energy consent, but actually the whole economic value of this process as we move forward.

Fel y dywedais, rydym yn gweithio gyda'r holl asiantaethau i ddod o hyd i ddull cadarnhaol o weithredu a chroesawu ynni morol. Siaradais yn seminar flynyddol Ynni Morol Sir Benfro ddydd lau diwethaf, gan ddangos fy ymrwymiad i'r sector, ac mae'n ymwneud â gweithio gyda'n gilydd i weld sut y gallwn fanteisio i'r eithaf—gan sicrhau nid yn unig y caniatâd ynni, ond hefyd holl werth economaidd y broses hon mewn gwirionedd wrth i ni symud ymlaen.

14:04 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I too welcome the introduction of this type of scheme. I think it's a huge opportunity for us in Wales. But, can I follow up the question from Mike Hedges? I've also been approached by the Afan anglers with regard to the fishing aspects and the movement of fish, both within the bay and up the rivers. As you have indicated already in your previous answers, there is an environmental impact assessment undertaken by the developers, but this is where the problem comes: we have the developers bringing their own environmental impact assessment in and then we have opposition people putting their environmental impact assessment in. Will you consider taking the role of an independent environmental impact assessment to ensure that we can actually get these right, without having to go to the courts, where we may end up with a long judicial review of these cases?

Weinidog, rwyf innau hefyd yn croesawu'r math hwn o gynllun. Rwy'n credu ei fod yn gyfle enfawr i ni yng Nghymru. Ond a gaf fi ddilyn ymlaen o'r cwestiwn gan Mike Hedges? Mae pysgotwyr yr Afan hefyd wedi cysylltu â mi ynglŷn â'r agweddau pysgota a mudo pysgod yn y bae a'r afonydd. Fel rydych wedi nodi eisoes yn eich atebion blaenorol, mae asesiad o'r effaith amgylcheddol wedi cael ei wneud gan y datblygwyr, ond dyma lle y mae'r broblem yn codi: mae'r datblygwyr yn cyflwyno'u hasesiad o'r effaith amgylcheddol eu hunain, wedyn mae'r bobl sy'n gwrthwynebu'n cyflwyno'u hasesiad hwy o'r effaith amgylcheddol. A wnewch chi ystyried cyflawni swyddogaeth asesydd annibynnol o'r effaith amgylcheddol i sicrhau y gallwn gael y rhain yn gywir, heb orfod mynd i'r llysoedd, lle y gallem wynebu adolygiad barnwrol hir o'r achosion hyn yn y pen draw?

14:04 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would hate to think, on one side or the other, that the environmental impact assessment was wrong in any way. I think what we have to do is make sure we have a process that people have confidence in and is open and transparent. The EIAs are subject to public consultation and decision-makers such as Natural Resources Wales, and I would hate to think that any arm's-length body of Government or non-Government organisation have concerns about the process. If the Member has any detail, I'd be more than happy to receive that from him.

Byddai'n gas gennyf feddwl, ar y naill ochr neu'r llall, fod yr asesiad o'r effaith amgylcheddol yn anghywir mewn unrhyw ffordd. Rwy'n credu mai'r hyn sy'n rhaid i ni ei wneud yw sicrhau bod gennym broses y mae gan bobl hyder ynddi, ac sy'n agored a thryloyw. Mae'r asesiadau o'r effaith amgylcheddol yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau megis Cyfoeth Naturiol Cymru, a byddai'n gas gennyf feddwl bod unrhyw gorff hyd braich y Llywodraeth neu sefydliad anllywodraethol â phryderon ynglŷn â'r broses. Os oes gan yr Aelod unrhyw fanylion ar hynny, byddwn yn fwy na pharod i'w cael ganddo.

Rheoli'r Defnydd o Faglau

Controlling the Use of Snares

14:05 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

6. *Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i reoli'r defnydd o faglau yng Nghymru? OAQ(4)0277(NR)*

6. *What is the Welsh Government doing to control the use of snares in Wales? OAQ(4)0277(NR)*

14:05 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

My officials have been working with interested parties to develop the Welsh Government code of best practice for the use of snares in Wales, and I will publish this code shortly.

Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda phartion â diddordeb ar ddatblygu cod Llywodraeth Cymru o'r arfer gorau wrth ddefnyddio maglau yng Nghymru, a byddaf yn cyhoeddi'r cod hwn cyn bo hir.

14:05 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister. I was shocked to learn that, according to Department for Environment, Food and Rural Affairs statistics, more than one-third of people who set snares were not aware of regulations covering their use. I welcome the refreshed Welsh Government guidance on snares, but how can we make sure that those who use them are aware of this guidance, and therefore not inflicting unnecessary suffering? Of course, as the code of conduct is voluntary and non-statutory, it can only go so far. If we can't improve awareness, will the Deputy Minister consider whether a ban on snaring should be introduced?

Diolch, Ddirprwy Weinidog. Syndod i mi oedd clywed nad yw dros un rhan o dair o'r bobl sy'n gosod maglau yn ymwybodol o'r rheoliadau ar eu defnydd, yn ôl ystadegau Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Rwy'n croesawu canllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar faglau, ond sut y gallwn sicrhau bod y bobl sy'n eu defnyddio yn ymwybodol o'r canllawiau hyn, fel nad ydynt yn achosi dioddefaint diangen? Wrth gwrs, gan fod y cod ymddygiad yn wirfoddol ac yn anstatudol, hyn a hyn yn unig y gall ei gyflawni. Os na allwn wella ymwybyddiaeth, a wnaiff y Dirprwy Weinidog ystyried a ddylid cyflwyno gwaharddiad ar faglau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm planning to improve awareness of the new code, and my officials, as I say, are working with interested parties to make sure the code will be widely disseminated to all relevant groups that use snares once the new code is published. And I hope that that will then help to ensure that there is no unnecessary suffering, because that is really what's behind the code itself.

Rwy'n bwriadu gwella ymwybyddiaeth o'r cod newydd, ac mae fy swyddogion, fel y dywedais, yn gweithio gyda phartion â diddordeb i wneud yn siŵr y bydd y cod newydd yn cael ei ledaenu'n eang i'r holl grwpiau perthnasol sy'n defnyddio maglau ar ôl ei gyhoeddi. Ac rwy'n gobeithio y bydd hynny wedyn yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw ddiodeffaint diangen am mai dyna sy'n sail i'r cod ei hun mewn gwirionedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

At present, there's no legislative framework available to either regulate or ban snares, and, as you know, the Law Commission is currently reviewing the regulatory framework for wildlife more generally, but that does include snares. So I look forward to considering their final report when it's published later this spring. Perhaps I'd have more to say after that.

Ar hyn o bryd, nid oes fframwaith deddfwriaethol ar gael i reoleiddio neu wahardd maglau, ac fel y gwyrddoch, mae Comisiwn y Gyfraith wrthi'n adolygu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer bywyd gwylt yn fwy cyffredinol, ond mae hynny'n cynnwys maglau. Felly, rwy'n edrych ymlaen at ystyried eu hadroddiad terfynol pan gaiff ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y gwanwyn. Efallai y bydd gennyf fwy i'w ddweud ar ôl hynny.

14:06 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition
Minister, from my personal point of view, I would like to see a ban on snares, to be honest with you; I see no modern use for them at all. But, I do accept they're there, and I do accept the role the internet plays in providing this type of facility for people to use. As a colleague raised earlier, about electric dog collars, there is an abuse of the system via the internet, and I appreciate you can't legislate on the internet because it's worldwide, but what discussions do you have with colleagues in other Governments around the United Kingdom to better inform people about the dangers and the horrors of using snares and other animal welfare issues that can be bypassed by purchasing things off the internet?

Weinidog, o fy safbwynt i'n bersonol, hoffwn weld gwaharddiad ar faglau a bod yn onest; ni wela unrhyw ddefnydd modern iddynt o gwbl. Ond rwy'n derbyn eu bod yno, ac rwy'n derbyn y rôl y mae'r rhyngwrwyd yn ei chwarae'n darparu'r math hwn o gyfleuster i bobl ei ddefnyddio. Fel y crybwyllodd fy nghyd-Aelod yn gynharach ynghylch coleri cŵn electronig, mae'r system yn cael ei chamddefnyddio drwy'r rhyngwrwyd ac rwy'n sylweddoli na allwch ddeddfu ar y defnydd o'r rhyngwrwyd gan ei fod yn fyd-eang, ond pa drafodaethau rydych yn eu cael gyda chydweithwyr yn y Llywodraethau eraill o gwmpas y Deyrnas Unedig i hysbysu pobl yn well am beryglon ac erchyllterau defnyddio maglau a materion lles anifeiliaid eraill y gellir eu hosgoi drwy brynu pethau oddi ar y rhyngwrwyd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The only snares that are legally used in Wales are free-running snares, and the aim of that particular type of snares is to try and minimise the capture of animals who aren't intended to be caught in those snares, and also to minimise the suffering to those animals that are caught in those snares.

Yr unig faglau sy'n gyfreithlon i'w defnyddio yng Nghymru yw maglau dirwyn, a nod y math penodol hwn o fagl yw ceisio lleihau nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu dal na fwiadwyd eu dal mewn maglau o'r fath, a hefyd i leihau'r dioddefaint i anifeiliaid sy'n cael eu dal yn y maglau hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of the internet, if anybody is purchasing illegal snares through the internet, obviously, we'd be interested or that would have to be informed to the police. We're looking very closely to see what other countries both in Europe and in the UK are doing with regards to snares. I know that Scotland have introduced legislation to tighten up their rules on snares, and that includes, for example, that snares must have the name of the owner and the operator of the snare on it, and so on. So, we're looking closely at what's being done elsewhere, with a view really to considering the Law Commission's report alongside all that when it comes out.

O ran y rhyngwyd, os oes unrhyw un yn prynu maglau anghyfreithlon drwy ddefnyddio'r rhyngwyd, yn amlwg byddai gennym ddi-ddordeb neu byddai'n rhaid rhoi gwybod i'r heddlu. Rydym yn edrych yn ofalus iawn ar yr hyn y mae gwledydd eraill yn Ewrop ac yn y DU yn ei wneud mewn perthynas â maglau. Gwn fod yr Alban wedi cyflwyno deddfwriaeth sy'n tynhau eu rheolau ar faglau, ac mae hynny'n cynnwys, er enghraifft, y gofyniad i nodi enw'r perchennog a'r gweithredwr ac yn y blaen ar y fagl. Felly, rydym yn edrych yn ofalus ar yr hyn sy'n cael ei wneud mewn manau eraill, gyda bwriad mewn gwirionedd i ystyried adroddiad Comisiwn y Gyfraith ochr yn ochr â hynny i gyd pan gaiff ei gyhoeddi.

14:08 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I'd also like to see the end of the use of snares. I notice you said that they minimise suffering, but they don't eliminate suffering. So, do you think that the use of snares is barbaric?

Hoffwn innau hefyd weld diwedd ar y defnydd o faglau. Sylwaf eich bod wedi dweud eu bod yn lleihau dioddefaint, ond nid ydynt yn cael gwared ar ddi-doddefaint. Felly, a ydych yn credu bod y defnydd o faglau yn farbaraid?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:08 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Where there is the use of snares, it needs to be done in a way that reduces the suffering to animals. Obviously, we'll be looking to our animal health and welfare framework group to provide us with some more advice as to what the science and the evidence says in terms of the use of snares in respect of suffering.

Pan fydd maglau'n cael eu defnyddio, mae angen ei wneud mewn ffordd sy'n lleihau'r dioddefaint i anifeiliaid. Yn amlwg, byddwn yn gofyn i'n grŵp fframwaith iechyd a lles anifeiliaid am fwy o gyngor ynglŷn â'r hyn y mae'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth yn ei ddweud o ran y defnydd o faglau mewn perthynas â dioddefaint.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Question 7 was grouped with question 3, so question 8, Alun Ffred Jones.

Cafodd cwestiwn 7 ei grwpio gyda chwestiwn 3, felly daw cwestiwn 8 gan Alun Ffred Jones.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Yr Iaith Gymraeg

The Welsh Language

14:09 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl yr iaith Gymraeg yn y broses gynllunio? OAQ(4)0278(NR)

8. Will the Minister make a statement on the role of the Welsh language in the planning process? OAQ(4)0278(NR)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:09 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
The Welsh language should be considered by all local planning authorities in the preparation of their local development plan. It is an important process that the planning system plays as part of supporting the language. TAN 20 makes it very clear.

Dylai'r iaith Gymraeg gael ei hystyried gan yr holl awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi eu cynllun datblygu lleol. Mae'r system gynllunio yn chwarae rhan bwysig yn cefnogi'r iaith. Mae TAN 20 yn gwneud hynny'n glir iawn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:09 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Diolch yn fawr. Mae croeso i'r cynigion yn y Bil Cynllunio (Cymru) newydd parthed yr iaith Gymraeg, er nad ydyn nhw yn ehangu fawr ddim ar nodyn cyngor technegol 20. Ond pam nad ydy'r Llywodraeth yn fodlon caniatáu i'r Gymraeg gael yr un gwerth ag iechyd a'r amgylchedd o fewn astudiaethau ardrawiad, mewn rhai ceisiadau cynlluniau penodol?

Thank you. The proposals in the new Planning (Wales) Bill in relation to the Welsh language are welcome, although they don't go much further than technical advice note 20. But, why isn't the Government willing to allow the Welsh language to be given the same weighting as health and the environment within impact assessments in some specific planning applications?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:10 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'm grateful for the Member's question. Of course, he's heavily involved in the planning Bill process, where we are still working with parties to see what the planning Bill process may deliver for the Welsh language. I'm grateful for his support, and that of others, across this Chamber, in developing a more general principle around the Welsh language and how that is enacted through the planning regime.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Wrth gwrs, mae'n rhan fawr o broses y Bil cynllunio, lle rydym yn dal i weithio gyda'r pleidiau i weld beth y gall proses y Bil cynllunio ei gyflawni ar gyfer yr iaith Gymraeg. Rwy'n ddiolchgar am ei gefnogaeth, a chefnogaeth pobl eraill ar draws y Siambr hon wrth fynd ati i ddatblygu egwyddor fwy cyffredinol o ran yr iaith Gymraeg a sut y deddfir mewn perthynas â hynny drwy'r gyfundrefn gynllunio.

14:10 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, at Stage 2, of course, you rejected the opposition parties' amendments relating to the language in individual planning applications. I think that Members have shown that practicable, reasonable and proportionate measures are possible through regulation, which is, of course, stronger than guidance. What will you be taking from those amendments—because I note that the door is still open on this—to inform any of your own amendments, which you might be bringing forward at Stage 3?

Weinidog, yng Ngham 2, wrth gwrs, fe wrthodoch welliannau'r gwrthbleidiau a oedd yn ymwneud â'r iaith mewn ceisiadau cynllunio unigol. Rwy'n credu bod Aelodau wedi dangos bod mesurau ymarferol, rhesymol a chymesur yn bosibl drwy reoleiddio, sydd, wrth gwrs, yn gryfach na chanllawiau. Beth fyddwch chi yn ei gymryd o'r gwelliannau hynny—oherwydd rwy'n nodi bod y drws yn parhau i fod ar agor ar hyn—yn sail i unrhyw rai o'ch gwelliannau eich hun y gallech fod yn eu cyflwyno yng Ngham 3?

14:11 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'm grateful for the Member's question. Discussions are still continuing with opposition party Members, in order that we can draft amendments for laying at the next stage.

Rwy'n ddiolchgar am gwestiwn yr Aelod. Mae'r trafodaethau'n parhau gydag Aelodau'r gwrthbleidiau er mwyn i ni allu drafftio gwelliannau i'w cyflwyno ar y cam nesaf.

Planhigion Anffrodorol Goresgynol

14:11 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â rhywogaethau o blanhigion anffrodorol goresgynol yng Nghymru? OAQ(4)0282(NR)

14:11 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Delyn for her question. We tackle invasive species by working with a range of organisations to determine priority actions to control their spread.

14:11 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In my constituency, the Alun and Chwiler living landscape project is doing excellent work tackling Himalayan balsam along the riverside near Mold; it causes soil erosion and shades out native plants along river banks. Wales Environment Link have suggested that increasing monitoring of the species is vital, and, indeed, of all invasive species, to halt their spread. So, what steps are the Welsh Government going to take to ensure comprehensive monitoring of invasive species as a means to protect our river banks and waterways?

Invasive Non-native Plants

9. Will the Minister make a statement on Welsh Government action to tackle invasive non-native plant species in Wales? OAQ(4)0282(NR)

Diolch i'r Aelod dros Ddelyn am ei chwestiwn. Rydym yn mynd i'r afael â rhywogaethau goresgynol drwy weithio gydag ystod o sefydliadau i bennu camau gweithredu â blaenoriaeth i reoli eu hymlediad.

Yn fy etholaeth i, mae prosiect tirlun byw Alun a Chwiler yn gwneud gwaith ardderchog yn mynd i'r afael â Jac y neidiwr ar hyd glan yr afon ger yr Wyddgrug; mae'n achosi erydiad pridd ac yn taflu cysgod dros blanhigion brodorol ar hyd glannau'r afon. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru wedi awgrymu bod yn rhaid cynyddu gwaith ar fonitro'r rhywogaeth, ac yn wir, yr holl rywogaethau goresgynol, i atal eu hymlediad. Felly, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'w rhoi ar waith i sicrhau bod rhywogaethau goresgynol yn cael eu monitro'n gynhwysfawr er mwyn diogelu ein glannau afonydd a'n dyfrffyrdd?

- 14:12 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Indeed, the Member is right: monitoring is vital to enable the early detection of invasive non-native plant species, providing a better chance of preventing their spread and, therefore, minimising their impact, longer-term. The Welsh Government works with partners, including Natural Resources Wales, the Welsh Local Government Association and voluntary groups around Wales, in order to monitor, and take action and control, these invasive non-native species.
- Yn wir, mae'r Aelod yn iawn: mae monitro'n hanfodol er mwyn sicrhau bod rhywogaethau o blanhigion anffodrol goresgynnol yn cael eu canfod yn gynnar, i roi gwell gobaith o atal eu hymlediad, ac felly leihau eu heffaith, yn fwy hirdymor. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a grwpiau gwirfoddol ledled Cymru, ac yn gweithredu a chymryd rheolaeth er mwyn monitro'r rhywogaethau anffodrol goresgynnol hyn.
- 14:12 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I make no apologies for yet again mentioning the spread of Japanese knotweed throughout our country, and its prevalence on land across Wales. I know that others from the Swansea area share my view. I know that you have a strategy, but I would like an update, please. I would ask you what funding you've allocated to fight the Japanese knotweed menace on public land. It seems to be prevalent across the public areas of South Wales West, in particular, the Swansea area. I'd like to know what the budget currently is, and whether you believe that it's a realistic amount.
- Weinidog, nid wyf am ymddiheuro am sôn, unwaith eto, am ymlediad clymog Japan ar hyd a lled ein gwlad a'i ymlediad ar dir oedd ledled Cymru. Gwn fod pobl eraill o ardal Abertawe o'r un farn â mi. Rwy'n gwybod bod gennych strategaeth, ond hoffwn y wybodaeth ddiweddaraf, os gwelwch yn dda. Hoffwn ofyn i chi pa gyllid rydych wedi ei ddyrannu ar gyfer ymladd bygythiad clymog Japan ar dir cyhoeddus. Mae'n ymddangos ei fod yn gyffredin ar draws ardaloedd cyhoeddus de-orllewin Cymru ac ardal Abertawe yn arbennig. Hoffwn wybod beth yw'r gyllideb ar hyn o bryd, ac a ydych yn credu ei fod yn swm realistig.
- 14:13 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm very grateful for the Member's question—it's usually Mike Hedges who asks me the question regarding Swansea. The Welsh Government has made available an additional £20,000 to fund projects that look at controlling and eradicating invasive species in this financial year. I'm also supporting a two-year trial at Swansea University, examining the chemical control of Japanese knotweed. These knotweed field trials are the largest of their kind ever undertaken in Europe or north Africa, and should provide additional information to aid the management of this weed in the constituencies that the Member raises.
- Rwy'n ddiolchgar iawn am gwestiwn yr Aelod—Mike Hedges yw'r Aelod sydd fel arfer yn gofyn y cwestiwn i mi am Abertawe. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £20,000 ychwanegol i ariannu prosiectau sy'n edrych ar reoli a dileu rhywogaethau goresgynnol yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Rwyf hefyd yn cefnogi treial dwy flynedd o hyd ym Mhrifysgol Abertawe, sy'n archwilio prosesau cemegol ar gyfer rheoli clymog Japan. Y profion maes hyn ar y clymog yw'r profion mwyaf o'u math i gael eu cynnal yn Ewrop neu ogledd Affrica, a dylent ddarparu gwybodaeth ychwanegol i helpu i reoli'r chwyn hwn yn yr etholaethau y mae'r Aelod yn eu crybwyll.
- 14:13 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, last year, of course, you accepted my invitation to come and visit me in my caravan and see the efforts of volunteers at Poppit Sands, at St Dogmael's, to rid that area of the dreaded Himalayan balsam. [Interruption.] Minister, summer is coming—will you be keeping that promise? [Laughter.]
- Weinidog, y llynedd, wrth gwrs, fe dderbynioch fy ngwahoddiad i ymweld â mi yn fy ngharafán a gweld ymdrechion gwirfoddolwyr ar Draeth Poppit yn Llandudoch i gael gwared ar y Jac y neidiwr bondigrybwyll o'r ardal honno. [Torri ar draws.] Weinidog, mae'r haf yn dod—a fyddwch yn cadw'r addewid hwnnw? [Chwerthin.]
- 14:14 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I look forward to joining the Member on the sands of that particular area during the summer months.
- Edrychaf ymlaen at ymuno â'r Aelod ar dywod yr ardal honno yn ystod misoedd yr haf.
- 14:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Question 10, William Powell. Keep up, William Powell, keep up.
- Cwestiwn 10, William Powell. Dewch, William Powell, dewch yn eich blaen.

Coetiroedd Cymunedol

Community Woodlands

- 14:14 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd coetiroedd cymunedol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0285(NR)
 10. Will the Minister make a statement on the importance of community woodlands in Mid and West Wales? OAQ(4)0285(NR)
- 14:14 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 I thank the Member for Mid and West Wales for his question. The Welsh Government's strategy, 'Woodlands for Wales', describes the importance of woodlands to communities in all parts of Wales. We are working in partnership with a range of organisations to enable communities to access their many social, economic and environmental benefits.
 Diolch i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru am ei gwestiwn. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, 'Coetiroedd i Gymru', yn disgrifio pwysigrwydd coetiroedd i gymunedau ym mhob rhan o Gymru. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o sefydliadau i alluogi cymunedau i gael mynediad at nifer o'u manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- 14:14 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 I'd like to thank the Minister very much for that response. The 'Woodlands and You' initiative—known as WAY—is, of course, one prime route by which the Welsh Government can support community woodland groups in taking forward their objectives, yet the promotion of this important initiative by NRW has been somewhat limited, and take-up has also been somewhat disappointing. The representative group Llais y Goedwig estimates that there have only been so far 13 agreements granted to community groups, with a further six in negotiation. What, Minister, are you prepared to do to encourage NRW to commit greater energy to this important scheme so that the benefits can be felt across mid and west Wales and beyond?
 Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Gweinidog am yr ymateb. Un ffordd bwysig y gall Llywodraeth Cymru gynorthwyo grwpiau coetiroedd cymunedol i ddatblygu eu hamcanion yw menter 'Coetiroedd a Chi' wrth gwrs. Eto i gyd mae gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru yn hyrwyddo'r fenter bwysig hon wedi bod braidd yn gyfyngedig, ac mae nifer y rhai sydd wedi manteisio ar y fenter wedi bod braidd yn siomedig hefyd. Mae grŵp cynrychiadol Llais y Goedwig yn amcangyfrif mai 13 o gytundebau yn unig a roddwyd i grwpiau cymunedol hyd yn hyn, gyda chwech arall yn cael eu trafod ar hyn o bryd. Weinidog, beth rydych chi'n barod i'w wneud i annog Cyfoeth Naturiol Cymru i ymrwymo mwy o'u hegni i'r cynllun pwysig hwn er mwyn i'r manteision gael eu teimlo ar draws canolbarth a gorllewin Cymru a thu hwnt?
- 14:15 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Of course, there are many actions that can take place and NRW are just part of that jigsaw in this. Llais y Goedwig, as the Member raises, was established in 2009 to support and raise the profile of community woodlands across Wales. The group is part-funded, indeed, by NRW in 2014-15. I think they also have an important part to play in the work of promoting woodlands in the areas he mentions today.
 Wrth gwrs, mae yna nifer o gamau gweithredu yn bosibl a rhan yn unig o'r jig-so yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn hyn o beth. Fel y mae'r Aelod yn nodi, cafodd Llais y Goedwig ei sefydlu yn 2009 i gefnogi a chodi proffil coetiroedd cymunedol ledled Cymru. Mae'r grŵp yn cael ei ariannu'n rhannol, yn wir, gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2014-15. Rwy'n credu bod ganddynt ran bwysig i'w chwarae hefyd yn y gwaith o hyrwyddo coetiroedd yn yr ardaloedd y mae'n eu crybwyll heddiw.
- 14:15 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
 Minister, I recently attended the opening of the Thomas Parry woodland project in Haverfordwest, where I saw first-hand the benefits of protecting and enhancing our woodlands, and it was great to see pupils from a local school there as well, where they were learning about the benefits of protecting the environment. In light of this visit, can you tell us how the Welsh Government is encouraging communities to become more involved in decision making about local woodlands? What discussions are you having with your colleague the Minister for Education and Skills to ensure that schools and children and young people have the opportunity to become more involved with projects like this?
 Weinidog, yn ddiweddar mynychais agoriad prosiect coetiroedd Thomas Parry yn Hwlfordd, lle y gwelais â'm llygaid fy hun fanteision diogel a gwella ein coetiroedd, a braf oedd gweld disgyblion o ysgol leol yno hefyd, yn dysgu am fanteision gwarchod yr amgylchedd. Yn sgil yr ymweliad, a allwch ddweud wrthym sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog cymunedau i gymryd mwy o ran wrth wneud penderfyniadau am goetiroedd lleol? Pa drafodaethau rydych yn eu cael gyda'ch cyd-Aelod, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, i sicrhau bod ysgolion a phlant a phobl ifanc yn cael cyfle i gymryd mwy o ran mewn prosiectau fel hyn?

14:16	<p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I've already started meeting with many organisations across Wales. Indeed, my colleague Huw Lewis also meets with many of them—NRW, national parks, areas of outstanding natural beauty. We've met with them. They encourage open access to these precious areas of landscape—25% of the landscape in Wales is covered by a protected landscape. We should celebrate that and encourage all organisations to make the most of that and encourage other groups that perhaps don't have direct access to them to do so.</p>	<p>Rwyf eisoes wedi dechrau cyfarfod â llawer o sefydliadau ar draws Cymru. Yn wir, mae fy nghydweithiwr, Huw Lewis, yn cyfarfod â llawer ohonynt hefyd—Cyfoeth Naturiol Cymru, parciau cenedlaethol, ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol. Rydym wedi cyfarfod â hwy. Maent yn annog mynediad agored i'r tirweddau gwerthfawr hyn—mae 25% o dirlun Cymru yn dirwedd warchoddedig. Dylem ddathlu hynny ac annog pob sefydliad i wneud yn fawr o hynny a denu grwpiau eraill nad oes ganddynt fynediad uniongyrchol i'r manau hyn o bosibl.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister.</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi</p> <p>Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We now move to item 2, which is questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty. Question 1 is from Mike Hedges.</p>	<p>2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty</p> <p>Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Daw cwestiwn 1 gan Mike Hedges.</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p>Dechrau'n Deg</p>	<p>Flying Start</p>	
14:17	<p>Mike Hedges Bywgraffiad Biography</p> <p><i>1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen Dechrau'n Deg? OAQ(4)0312(CTP)</i></p>	<p><i>1. Will the Minister make a statement on Flying Start? OAQ(4)0312(CTP)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty</i></p> <p>Thank you. Recently published data show 32,627 children have benefited from Flying Start services up until December 2014. This represents 99% of our target for 2014-15 as a whole. We're well on target to double the number of children benefiting from Flying Start to 36,000 by 2016.</p>	<p>Diolch yn fawr. Mae data a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos bod 32,627 o blant wedi elwa o wasanaethau Dechrau'n Deg hyd at fis Rhagfyr 2014. Mae hyn yn 99% o'n targed ar gyfer 2014-15 yn gyfan. Rydym yn bendant ar y trywydd cywir i ddyblu nifer y plant sy'n elwa o Dechrau'n Deg, sef 36,000 erbyn 2016.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>Mike Hedges Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister. I'm one of the people who really support Flying Start. Does the Minister agree that Flying Start is important because it helps to ensure that children are not starting school with a developmental age below their chronological age? Can I also invite the Minister to officially open the new Flying Start at Plasmarl school, which I've asked questions about to you and your predecessor over a very long time?</p>	<p>Diolch i chi, Weinidog. Rwy'n un o'r bobl sy'n cefnogi Dechrau'n Deg yn fawr iawn. A yw'r Gweinidog yn cytuno bod Dechrau'n Deg yn bwysig oherwydd ei fod yn helpu i sicrhau nad yw oedran datblygiadol plant sy'n dechrau yn yr ysgol yn is na'u hoedran cronolegol? A gaf fi hefyd wahodd y Gweinidog i agor rhaglen newydd Dechrau'n Deg yn swyddogol yn ysgol Plasmarl, rhaglen y bŵm yn gofyn cwestiynau i chi a'ch rhagflaenydd yn ei chylch ers amser hir iawn?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:18

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Certainly, yes, I'd be very happy to accept that invitation. Flying Start is a fantastic programme. It aims to provide children living in some of our most disadvantaged areas right across Wales with a better start in life, and we know from a recent analysis of management information that 85% of Flying Start children aged three are meeting or exceeding developmental norms for speech and language skills, and I think that's a really important part of Flying Start. Our data also show that 92% of children aged three are meeting or exceeding developmental norms in interactive social skills. I've been very fortunate to visit several Flying Start settings across Wales. Last week, I was in Carl Sargeant's constituency, where I visited one at Bryn Deva, and it is amazing to see the fantastic work going on in these settings.

Diolch yn fawr. Yn sicr, fe fyddwn i'n hapus iawn i dderbyn y gwahoddiad hwnnw. Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen wych. Ei nod yw darparu dechrau gwell mewn bywyd i blant sy'n byw yn rhai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig ledled Cymru, a gwyddom o ddadansoddiad diweddar o wybodaeth reoli fod 85% o blant tair oed Dechrau'n Deg yn bodloni neu'n rhagori ar normau datblygiadol o ran sgiliau lleferydd ac iaith, ac rwy'n credu bod hynny'n rhan wirioneddol bwysig o Dechrau'n Deg. Mae ein data hefyd yn dangos bod 92% o blant tair oed yn bodloni neu'n rhagori ar normau datblygiadol o ran sgiliau cymdeithasol rhyngweithiol. Rwyf wedi bod yn ffodus iawn i gael ymweld â nifer o leoliadau Dechrau'n Deg ledled Cymru. Yr wythnos diwethaf, roeddwn yn etholaeth Carl Sargeant, lle'r ymwelais ag un ym Mryn Defa, ac mae'n anhygoel gweld y gwaith gwych sy'n digwydd yn y lleoliadau hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, will you agree that this particular scheme, which the Welsh Conservatives endorsed from its beginning, has truly demonstrable benefits? Would the Minister also agree that it's important that local authorities administering the scheme in certain areas have sufficient flexibility to enable them to enhance certain facilities that are demonstrably needed in their particular area?

Weinidog, a wnewch chi gytuno fod manteision gwirioneddol amlwg i'r cynllun arbennig hwn a gefnogwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig o'r cychwyn? A fyddai'r Gweinidog hefyd yn cytuno ei bod yn bwysig sicrhau bod digon o hyblygrwydd gan awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r cynllun mewn ardaloedd penodol i'w galluogi i wella cyfleusterau sydd eu hangen yn amlwg yn eu hardal?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I think that people right across this Chamber welcome Flying Start and can see the very good work going on. There is some flexibility in the scheme. Obviously, it's a geographical scheme, but there is a bit of flexibility. Local authorities receive a small element of outreach funding, and they can be flexible in the children that they choose to apply that to, but I do accept that it is only a small part of the scheme.

Byddwn, rwy'n credu bod pobl ar draws y Siambr hon yn croesawu Dechrau'n Deg ac yn gallu gweld y gwaith da iawn sy'n digwydd. Mae rhywfaint o hyblygrwydd yn y cynllun. Yn amlwg, mae'n gynllun daearyddol ond mae'n cynnig ychydig o hyblygrwydd. Mae awdurdodau lleol yn derbyn elfen fach o gyllid allgymorth, a gallant fod yn hyblyg o ran y plant y maent yn dewis gwario hwnnw arnynt, ond rwy'n derbyn mai rhan fechan o'r cynllun yn unig ydyw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n cefnogi ac yn croesawu'r ffaith bod Dechrau'n Deg wedi ehangu mor sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf achos mae tystiolaeth bod cefnogaeth ac ymyrraeth gynnar ym mywyd plentyn yn gwneud cymaint o les i dwf y plentyn ac addysg y plentyn yn nes ymlaen. Un o'r gwendidau a'r beirniadaethau sydd wedi bod yn y gorffennol o Dechrau'n Deg yw'r diffyg darpariaeth iaith Gymraeg, ac nad yw hynny wedi matsio, fel petai, gydag argaeledd addysg ddwyieithog yn yr ardal. Pa gamau a ydych chi'n eu cymryd i wella hynny gyda'r Gweinidog addysg? A ydych chi, erbyn hyn, yn fodlon bod Dechrau'n Deg yn cynnig y dewis iaith yn ogystal â'r gefnogaeth arall sydd ar gael?

I support and welcome the fact that Flying Start has expanded so significantly over recent years because there is evidence that support and early intervention in the life of a child can make so much of a difference to the development and education of that child later on. One of the weaknesses and criticisms that's been made in the past of Flying Start is the lack of Welsh-medium provision, and that that hasn't matched, as it were, the availability of bilingual education in an area. What steps are you taking to improve that situation with the education Minister? Are you now content that Flying Start does offer the language of choice as well as the other support available?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I do. I haven't received any criticism; I can't think of any criticism that I've received since I've been in post. I visited a fantastic Flying Start settlement with your and my colleague Elin Jones, and certainly there is the provision. I don't think anybody has come to me to say that a parent has not been able to access Flying Start through the language of their choice.

Ydw. Nid oes unrhyw feirniadaeth wedi'i chyflwyno i mi; ni allaf feddwl am unrhyw feirniadaeth a gefais ers i mi fod yn y swydd. Ymwelais â lleoliad Dechrau'n Deg gwych gyda'n cyd-Aelod, Elin Jones, ac yn sicr mae'r ddarpariaeth yno. Nid wyf yn credu bod neb wedi dod ataf i ddweud nad yw rhiant wedi gallu cael darpariaeth Dechrau'n Deg yn eu dewis iaith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n awyddus iawn i weld y rhaglen yma'n llwyddo hefyd, ond un o'r gwendidau eraill a nodwyd yn yr adroddiad gwerthuso oedd nad oedd y data ar gychwyn y rhaglen yn gryf iawn. A ydych chi, fel Llywodraeth, erbyn hyn, yn casglu data er mwyn i ni weld yn union beth ydy sail y llwyddiant wrth i ni ystyried, hwyrach, y rhaglen i'r dyfodol?

I'm also very eager to see this scheme succeeding, but one of the other weaknesses that was noted in the evaluation report was that the data at the beginning of the programme were not very robust. Are you by now, as a Government, collecting the data so that we can see the basis of the success as we consider, perhaps, the programme for the future?

14:21 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, absolutely. We have made it much more robust. I'm very happy with the evaluation and the data that we're currently accessing and I'm very keen to see that passed on to other programmes in my portfolio, also. But, I think, certainly, I am very happy with it, as I say, at the current time. It's certainly going to be able to advise me as to how we take this scheme forward in future years, also.

Yn bendant, ydym. Rydym wedi ei wneud yn llawer mwy cadarn. Rwy'n hapus iawn gyda'r gwerthusiad a'r data rydym yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd ac rwy'n awyddus iawn i weld hynny'n cael ei drosglwyddo i raglenni eraill yn fy mhortffolio hefyd. Ond rwy'n sicr yn hapus iawn ag ef ar hyn o bryd, fel rwy'n ei ddweud. Mae'n sicr yn mynd i allu fy nghyngori sut i symud y cynllun yn ei flaen yn y dyfodol hefyd.

Lesddeiliaid yn Nhorfaen

Leaseholders in Torfaen

14:21 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

2. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n effeithio ar lesddeiliaid yn Nhorfaen? OAQ(4)0307(CTP)

2. Will the Minister provide an update on issues affecting leaseholders in Torfaen? OAQ(4)0307(CTP)

14:21 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you. I met Duncan Forbes, the chief executive of Bron Afon Community Housing association, on 11 March this year to discuss leaseholder issues. My officials are currently exploring ways in which these issues might be resolved. As you know, leasehold issues are complex, but I will be considering potential options.

Diolch yn fawr. Cyfarfûm â Duncan Forbes, prif weithredwr Cymdeithas Tai Cymunedol Bron Afon, ar 11 Mawrth eleni i drafod y materion yn ymwneud â lesddeiliaid. Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn archwilio ffyrdd y gellid datrys y materion hyn. Fel y gwyddoch, mae materion lesddaliadau yn rhai cymhleth, ond byddaf yn ystyried opsiynau posibl.

14:22 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. I'm very grateful for the sympathetic approach you've adopted to the longstanding issues affecting leaseholders in Torfaen since you've been in post, and I welcome the fact that you've written to all social landlords reminding them of their responsibilities to leaseholders and of the implications of the landmark leasehold valuation tribunal decision we saw last October in Torfaen.

Diolch i chi, Weinidog. Rwy'n ddiolchgar iawn am eich cydymdeimlad tuag at faterion hirsefydlog sy'n effeithio ar lesddeiliaid yn Nhorfaen ers i chi fod yn y swydd, ac rwy'n croesawu'r ffaith eich bod wedi ysgrifennu at bob landlord cymdeithasol yn eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau i lesddeiliaid a goblygiadau penderfyniad y tribiwnlys prisio lesddaliadau pwysig a welsom fis Hydref diwethaf yn Nhorfaen.

Minister, I know that you're currently looking at whether the Welsh Government has the power to cap leasehold charges as they've done in England, but prior to making a decision next month, can you provide any update on those deliberations and will you pledge to continue to do everything you can to support leaseholders in Torfaen?

Weinidog, gwn eich bod ar hyn o bryd yn edrych i weld a oes gan Lywodraeth Cymru bŵer i gapio taliadau lesddaliadol fel y maent wedi'i wneud yn Lloegr, ond cyn gwneud penderfyniad y mis nesaf, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hynny ac a wnewch chi addo parhau i wneud popeth yn eich gallu i gefnogi lesddeiliaid yn Nhorfaen?

- 14:22 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, thank you. I wrote to you, I think it was yesterday, and also to Nick Ramsay who has raised these issues with me, to give you an update and I am absolutely committed to looking into this matter. It's very difficult not to be sympathetic. I mean, I was very grateful to you for raising this concern with me and I met with one of your constituents and it was very difficult to hear her story.
- le, diolch. Ysgrifennais atoch, rwy'n credu mai ddoe oedd hi, a hefyd at Nick Ramsay, sydd wedi crybwyll at y materion, i roi'r newyddion diweddaraf i chi ac rwy'n hollol ymrwymedig i edrych i mewn i'r mater. Mae'n anodd iawn peidio â bod yn gydymdeimladol. Hynny yw, roeddwn yn ddiolchgar iawn i chi am dynnu fy sylw at y pryder hwn. Fe gyfarfûm ag un o'ch etholwyr ac roedd gwrandao arni'n dweud ei stori yn anodd iawn.
- Within my department, I've established a very small dedicated team to look at the options and to advise me. I'm not going to be able to make a decision very quickly; they're very complex areas, as you can appreciate. I think looking at capping charges is one possible solution, but it's too soon to say whether that will be the best way forward. I need to look at all the options. I'm sorry; as I say, because of the complexity of the work, I'm not able to give you a specific date when I'll be able to make a decision, but I am anxious to find a way forward as quickly as possible.
- Yn fy adran, rwyf wedi sefydlu tîm bach ymroddedig i edrych ar yr opsiynau ac i roi cyngor i mi. Nid wyf yn mynd i allu gwneud penderfyniad yn gyflym iawn; maent yn feysydd cymhleth iawn, fel y gallwch werthfawrogi. Rwy'n credu bod ystyried capio taliadau yn un ateb posibl, ond mae'n rhy gynnar i ddweud ai dyna'r ffordd orau ymlaen. Mae angen i mi edrych ar yr holl opsiynau. Mae'n ddrwg gennyf; fel y dywedais, oherwydd cymhlethdod y gwaith, ni allaf roi dyddiad penodol i chi o ran pa bryd y byddaf yn gallu gwneud penderfyniad, ond rwy'n awyddus iawn i ddod o hyd i ffordd ymlaen cyn gynted ag y bo modd.
- 14:23 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you're right; it is complex, but it cannot be right that somebody who's bought a studio flat that is valued at less than £50,000 receives a bill from a housing association for modification to the block that the flat is in that comes to half the market value of that property and will not be realised on the sale of the property. Private individuals wouldn't take these sorts of maintenance improvement decisions lightly. Can you do what you can to influence the housing associations to make sure that they are a little bit less cavalier with other people's money?
- Weinidog, rydych yn llygad eich lle; mae'n gymhleth, ond ni all fod yn iawn fod rhywun sydd wedi prynu fflat stiwdio sy'n werth llai na £50,000 yn cael bil gan gymdeithas tai am addasiadau i'r bloc y mae'r fflat ynddo, bil sy'n hanner gwerth yr eiddo hwnnw ar y farchnad, na chaiff ei ennill yn ôl pan fydd yr eiddo'n cael ei werthu. Ni fyddai unigolion preifat yn gwneud y mathau hyn o benderfyniadau ynghylch gwella cynnal a chadw yn ysgafn. A allwch wneud popeth o fewn eich gallu i ddylanwadu ar y cymdeithasau tai i wneud yn siŵr eu bod ychydig yn llai ffwrdd-â-hi gydag arian pobl eraill?
- 14:24 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I gave most of that answer to Lynne Neagle and I am very keen to see how widespread the issue is right across Wales. I've only had complaints about one housing association at the moment, so I've written to all registered social landlords to remind them of their duties and responsibilities. It is very, very complex and, obviously, leaseholders entered into contracts that they knew they were doing. I have to make sure that you balance it with the tenants as well, but, as I said, please be assured I will be looking at this very carefully over the coming months.
- Rhoddais y rhan fwyaf o'r ateb hwnnw i Lynne Neagle ac rwy'n awyddus iawn i weld pa mor gyffredin yw'r broblem ledled Cymru. Nid wyf ond wedi cael cwynion am un gymdeithas dai ar hyn o bryd, felly rwyf wedi ysgrifennu at bob landlord cymdeithasol cofrestredig i'w hatgoffa am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Mae'n gymhleth iawn, ac yn amlwg, roedd lesddeiliaid wedi arwyddo contractau gan wybod eu bod yn gwneud hynny. Mae'n rhaid i mi wneud yn siŵr eich bod yn cydbwysu'r cyfan gyda'r tenantiaid hefyd, ond fel y dywedais, gallwch fod yn sicr y byddaf yn edrych ar hyn yn ofalus iawn dros y misoedd nesaf.
- 14:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to questions from the party spokespeople and first this afternoon, the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Peter Black.
- Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau ac yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.
- 14:24 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Minister, with reference to the 'Communities First: a process evaluation' final report, I notice that, in that report, those who were reporting said that there was an issue with regard to,
- Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, gan gyfeirio at adroddiad terfynol 'Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad proses', rwy'n sylwi, yn yr adroddiad hwnnw, fod y rhai a oedd yn cyflwyno adroddiadau wedi dweud fod problem mewn perthynas â'r canlynol:

'The emphasis on results may encourage delivery teams to target the easiest to reach and treat within a community in order to achieve a green status on a RAG dashboard.'

Given that there have been issues around how Communities First is properly evaluated, can I ask you what is being done in relation to that particular finding to ensure that the use of Communities First moneys is rigorously monitored and that Communities First partnerships are aiming to reach those who need it the most as opposed to those who are easiest to reach?

'Efallai y bydd y pwyslais ar ganlyniadau yn annog timau cyflawni i dargedu'r bobl hawsaf i'w cyrraedd a'u trin yn y gymuned er mwyn sicrhau statws gwyrdd ar ddangosfwrdd grŵp yr awdurdodau perthnasol.'

O ystyried bod problemau wedi bod ynglŷn â sut y mae gwerthuso rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn yn briodol, a gaf fi ofyn i chi beth sy'n cael ei wneud o ran y canfyddiad penodol hwnnw er mwyn sicrhau bod y defnydd o arian Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei fonitro'n drylwyr a bod partneriaethau rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn anelu at gyrraedd y rhai sydd ei hangen fwyaf yn hytrach na'r rhai sydd hawsaf eu cyrraedd?

14:25 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad Biography](#)

I am working through that report now, because, obviously, this has been a flagship tackling poverty programme for the Welsh Government for many years, and I want to look at it very closely to see what we need to do differently beyond 2016. I think it's really important that Communities First reaches the people it needs to do. Whether we need to have a refocus of the programme going forward will be something that I will be considering, but we're working through the report now. I think it encourages me that we are evaluating the programme as best as we can. You'll be aware of the new outcome framework alignment that I'm bringing forward with Communities First, Families First and Flying Start.

Rwy'n gweithio drwy'r adroddiad hwnnw'n awr oherwydd, yn amlwg, mae hon wedi bod yn rhaglen flaenllaw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer trechu tiodi ers blynyddoedd lawer, ac rwy'n dymuno edrych arni'n agos iawn i weld beth sydd angen i ni ei wneud yn wahanol wedi 2016. Credaf ei bod yn bwysig iawn fod Cymunedau yn Gyntaf yn cyrraedd y bobl y mae angen iddi eu cyrraedd. Byddaf yn ystyried a fydd angen i ni newid ffocws y rhaglen wrth barhau, ond rydym wrthi'n gweithio drwy'r adroddiad. Mae'n galonogol i mi ein bod yn gwerthuso'r rhaglen gystal ag y gallwn. Fe fyddwch yn ymwybodol o'r dull newydd o alinio'r fframwaith canlyniadau rwy'n ei gyflwyno gyda Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:26 **Peter Black** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. The problem with flagships is that, when the wind stops blowing, they just stay there becalmed. I think the danger is that, without a proper assessment of the value added of the Communities First money, we are going to end up with a lot of money spent, but with those communities still struggling to achieve the objectives that we've set for them. Can I ask you, therefore, again, what new performance measures you're considering in relation to Communities First? How are you tackling the criticism in the evaluation report that genuine community participation is not always being achieved or facilitated in a way that is of benefit to the implementation of the programme?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Y broblem gyda phrosiectau blaenllaw yw eu bod yn tueddu i aros yn llongydd pan fydd y gwyntoedd wedi gostegu. Heb asesiad cywir o werth ychwanegol arian Cymunedau yn Gyntaf, credaf mai'r perygl yw y bydd llawer o arian wedi'i wario yn y pen draw ond bydd y cymunedau hynny'n dal i gael trafferth cyflawni'r amcanion rydym wedi'u gosod ar eu cyfer. A gaf fi ofyn i chi, felly, unwaith eto, pa ddulliau newydd o fesur perfformiad rydych yn eu hystyried o ran Cymunedau yn Gyntaf? Sut rydych chi'n ymdrin â'r feirniadaeth yn yr adroddiad gwerthuso nad yw cyfranogiad cymunedol gwirioneddol bob amser yn cael ei sicrhau neu ei hwyluso mewn ffordd sydd o fudd i weithrediad y rhaglen?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad Biography](#)

The outcomes framework is being developed, as you know. We've got very robust performance measures for all activity within the programme. That's monitored very carefully. If I have information that a target isn't being reached, for instance, from a particular cluster, we will go back. Officials will go in to ensure that they are met the next time we look at it. I think value added is very important and, clearly, we are seeing a great deal of value added from Communities First, if you look at the number of people getting into employment and the number of people having much healthier lifestyles. But, as I say, it is something that we need to look at. It's been a flagship policy for 16 years. I'm not saying it needs changing radically, but we do need to look to make sure that it does stay a flagship policy.

Mae'r fframwaith canlyniadau yn cael ei ddatblygu, fel y gwyddoch. Mae gennym ddulliau cadarn iawn o fesur perfformiad ar gyfer pob gweithgaredd yn y rhaglen. Mae hynny'n cael ei fonitro'n ofalus iawn. Os bydd gennyf wybodaeth nad yw targed yn cael ei gyrraedd o glwstwr arbennig er enghraifft, byddwn yn mynd yn ôl. Bydd swyddogion yn sicrhau eu bod yn cael eu cyrraedd y tro nesaf y byddwn yn edrych arno. Rwy'n credu bod gwerth ychwanegol yn bwysig iawn, ac yn amlwg, rydym yn gweld llawer iawn o werth ychwanegol gan Cymunedau yn Gyntaf os edrychwch ar nifer y bobl sy'n cael gwaith a nifer y bobl â ffordd o fyw lawer iachach. Ond fel y dywedais, mae'n rhywbeth y mae angen inni edrych arno. Mae wedi bod yn bolisi blaenllaw ers 16 mlynedd. Nid wyf yn dweud bod angen ei newid yn radical, ond mae angen i ni geisio sicrhau ei fod yn parhau i fod yn bolisi blaenllaw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:27	Peter Black Bywgraffiad Biography Thank you again, Minister. One of the criticisms is that there are, in fact, too many performance indicators and those aren't focused enough on the outcomes in terms of those individual communities. A constant theme through the report is the need to monitor the activities actively, simply because, 'Some Cluster delivery teams are also struggling to conceive how they can effectively target these groups within the confines of the Programme budget, staff resources and requirement to provide outcomes data.' So, there are clear issues around this. I'd be grateful if you could tell us when you're likely to be able to report back on the Government's response to this report and the action plan you'll be putting into place to deal with the issues it raises.	Diolch unwaith eto, Weinidog. Un o'r beirniadaethau yw bod gormod o ddangosyddion perfformiad mewn gwirionedd ac nad ydynt yn canolbwyntio digon ar ganlyniadau'r cymunedau unigol hynny. Un thema gyson drwy'r adroddiad yw'r angen i fonitro'r gweithgareddau yn weithredol, yn syml, oherwydd '[Bod] rhai timau cyflawni'r Clystyrau hefyd yn ei chael hi'n anodd dychmygu sut y gallant dargedu'r grwpiau hyn yn effeithiol o fewn cyfyngiadau cyllideb y Rhaglen, adnoddau staff a'r angen i ddarparu data canlyniadau.' Felly, mae problemau amlwg ynghylch hyn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym pryd y byddwch yn debygol o allu adrodd yn ôl ar ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad hwn a'r cynllun gweithredu y byddwch yn ei roi ar waith i fynd i'r afael â'r problemau y mae'n tynnu sylw atynt.	Senedd.tv Fideo Video
14:28	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography I'll be reporting before the summer recess.	Byddaf yn adrodd yn ôl cyn toriad yr haf.	Senedd.tv Fideo Video
14:28	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography We now move to the Welsh Conservatives' spokesperson, Mark Isherwood.	Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Mark Isherwood.	Senedd.tv Fideo Video
14:28	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography Diolch, Lywydd. I want to concentrate on your departmental role in the co-production agenda. Last night, I chaired a meeting of the cross-party group on neurological conditions, focused on the role of co-production in delivering health and social services, which, of course, falls also very much within your department. It was a packed meeting and there was unanimous support for this agenda. The 'Together We Can' report states that services for co-production, 'must explore new delivery relationships and partnerships, including linking with the wider community and voluntary sectors that go beyond traditional health and social care.' What action are you and your department taking, working with colleagues in other departments, to ensure that this transition involves the people and the communities who stand to benefit most from progress?	Diolch, Lywydd. Dymunaf ganolbwyntio ar eich rôl adrannol yn yr agenda gydgyhyrchu. Neithiwr, bûm yn cadeirio cyfarfod y grŵp trawsbleidiol ar gyflyrau niwrolegol, a ganolbwyntiai ar rôl cydgyhyrchu wrth ddarparu iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, sydd i raddau helaeth, wrth gwrs, yn rhan o'ch adran chi. Roedd yn gyfarfod llawn ac roedd cefnogaeth unfrydol i'r agenda hon. Mae adroddiad 'Together We Can' yn datgan bod yn rhaid i wasanaethau ar gyfer cydgyhyrchu, 'archwilio perthnasoedd a phartneriaethau darparu newydd, gan gynnwys cysylltu â'r gymuned ehangach a'r sectorau gwirfoddol sy'n mynd y tu hwnt i iechyd a gofal cymdeithasol traddodiadol.' Pa gamau rydych chi a'ch adran yn eu cymryd, gan weithio gyda chydweithwyr mewn adrannau eraill, i sicrhau bod y cyfnod pontio hwn yn cynnwys y bobl a'r cymunedau a allai elwa fwyaf o gynnydd?	Senedd.tv Fideo Video
14:29	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography As the Member is aware, I do not like the word 'co-production'. I prefer 'active communities'. You're quite right: it is completely cross-Government. I work very closely with all my ministerial colleagues in relation to this agenda. I just met with the Minister for Public Services yesterday. I will be very happy to have a further meeting with the Minister for Health and Social Services to take that point forward.	Fel y gwyr yr Aelod, nid wyf yn hoff o'r gair 'cydgyhyrchu'. Mae'n well gen i 'gymunedau gweithredol'. Rydych yn hollol iawn: mae'n gwbl draws-Lywodraethol. Rwy'n gweithio'n agos iawn gyda fy holl gyd-Weinidogion ar yr agenda hon. Bûm yn cyfarfod gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ddoe ddiwethaf. Byddaf yn falch iawn o gael cyfarfod pellach gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i fwrw ymlaen â'r pwynt hwnnw.	Senedd.tv Fideo Video

14:30

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I agree with you that it doesn't matter what we call it; it's what it does that matters. But, actually, it's based upon a meaning that was first developed in the United States 30 years ago and implemented in Australia around 20 years ago and has spread across the world. There are organisations in Wales using that term, and many others delivering on the basis of that term. So, I hope the Welsh Government will get over the terminology. It's not my first choice either, but it means what it means and I hope you will embrace it.

On that basis, you will be aware that Community Housing Cymru and Cymorth Cymru have launched the 'Let's Keep on Supporting People' campaign, focused on funding and the difference that can make to support vulnerable people in Wales. Now I expect that you will respond by referring to austerity, but the point they're making is that the budget cut in Supporting People of £10 million is a cut in a preventative service, which will lead to greater costs on Welsh Government budgets as a consequence of the cut taken. Again in the spirit of co-production, working with the third sector organisations, the communities and the individuals affected, how can you better influence the design of service delivery to ensure that smart funding will achieve the best outcomes with the budget available?

Diolch yn fawr. Cytunaf â chi nad oes ots beth rydym yn ei alw; yr hyn y mae'n ei wneud sy'n bwysig. Ond mewn gwirionedd, mae'n seiliedig ar ystyr a ddatblygwyd gyntaf yn yr Unol Daleithiau 30 mlynedd yn ôl a'i roi ar waith yn Awstralia tua 20 mlynedd yn ôl ac sydd wedi lledaenu dros y byd. Mae sefydliadau yng Nghymru sy'n defnyddio'r term, a nifer o rai eraill yn darparu ar sail y term hwnnw. Felly, gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cymru yn dod dros y derminoleg. Nid dyma fy newis cyntaf innau chwaith, ond mae'n golygu'r hyn y mae'n ei olygu a gobeithiaf y byddwch yn croesawu hynny.

Ar y sail honno, fe fyddwch yn ymwybodol fod Cartrefi Cymunedol Cymru a Cymorth Cymru wedi lansio ymgyrch 'Gadewch i ni barhau i Gefnogi Pobl', sy'n canolbwyntio ar gyllid a'r gwahaniaeth y gall ei wneud i gefnogi pobl sy'n agored i niwed yng Nghymru. Nawr, rwy'n tybio y byddwch yn ymateb drwy gyfeirio at galedi, ond y pwynt y maent yn ei wneud yw bod y toriad o £10 miliwn yng nghyllideb Cefnogi Pobl yn doriad i wasanaeth ataliol a fydd yn arwain at fwy o gostau i gyllidebau Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'r toriad. Unwaith eto yn ysbryd cydgynhyrchu, gan weithio gyda sefydliadau'r trydydd sector, y cymunedau a'r unigolion sy'n cael eu heffeithio, sut y gallwch ddylanwadu'n well ar gynllun y ddarpariaeth er mwyn sicrhau y bydd cyllido clyfar yn darparu'r canlyniadau gorau gyda'r gyllideb sydd ar gael?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:31

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We do, as a Welsh Government, absolutely embrace active communities, as I said. You're quite right; you have to refer to austerity and we can only spend what we have and we can only give out what we've got. But I think you're right: it is about being smarter and cleverer, and, certainly, all the programmes within my portfolio are having to make very difficult decisions. But it is about protecting those front-line services and ensuring that as much money as possible is out there in the communities.

Rydym ni, fel Llywodraeth Cymru, yn croesawu cymunedau gweithredol yn gyfan gwbl, fel y dywedais. Rydych chi'n hollol iawn; mae'n rhaid i chi gyfeirio at galedi ac ni allwn ond gwario'r hyn sydd gennym ac ni allwn ond rhoi'r hyn sydd gennym. Ond rwy'n meddwl eich bod yn iawn: mae'n ymwneud â bod yn fwy craff ac yn glyfrach, ac yn sicr, mae'r holl raglenni yn fy mhorthfolio yn gorffod gwneud penderfyniadau anodd iawn. Ond mae'n ymwneud â diogelu'r gwasanaethau rheng flaen a sicrhau bod cymaint o arian â phosibl yno yn y cymunedau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:31

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Again, I would be interested to know if there was a cost-benefit analysis to see what greater costs will be incurred by Welsh Government budgets because of this decision. My final question is again on a similar theme with a social enterprise, Dŵr Cymru Welsh Water. You're probably aware that they've launched a new social tariff, 'HelpU', designed in four tiered bands that will be based on the level of household income below £12,500, to support over 100,000 low-income households by 2020. I previously questioned you, and you've responded positively, about the need to reconsider definitions of poverty and eligibility for poverty schemes based more on need and resource. What engagement have you had, or will you engage, with Dŵr Cymru Welsh Water over, as I understand, the detailed work that they've undertaken to identify this model as an effective measure for eligibility?

Unwaith eto, byddai diddordeb gennyf mewn gwybod a fu dadansoddiad cost a budd i weld pa gostau pellach a ddaw i gyllidebau Llywodraeth Cymru oherwydd y penderfyniad hwn. Mae fy nghwestiwn olaf eto ar thema debyg gyda menter gymdeithasol, Dŵr Cymru. Mae'n siŵr eich bod yn ymwybodol eu bod wedi lansio tariff cymdeithasol newydd, 'HelpU', wedi'i gynllunio mewn pedwar band haenog a fydd yn seiliedig ar lefel incwm y cartref o dan £12,500, er mwyn cefnogi mwy na 100,000 o gartrefi ar incwm isel erbyn 2020. Gofynnais i chi o'r blaen, ac fe ymateboch yn gadarnhaol, ynglŷn â'r angen i ailystyried diffiniadau o dlodi a chymhwyster ar gyfer cynlluniau tlodi a'u seilio'n fwy ar angen ac adnoddau. Pa ymgysylltiad a gawsoch neu y byddwch yn ei gael gyda Dŵr Cymru ynglŷn â'r gwaith manwl y maent wedi'i wneud, yn ôl yr hyn a ddeallaf, ar nodi'r model hwn fel dull effeithiol o fesur cymhwysedd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:32

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'll be very happy to meet with them to discuss it further.

Byddaf yn hapus iawn i gyfarfod â hwy i drafod ymhellach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas. Llefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.
- 14:33 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Weinidog, a gaf i ddiolch yn fawr iawn i chi am eich llythyr diweddar mewn ymateb i gwestiynau blaenorol ynglŷn â beth roedd eich adran chi yn ei wneud mewn ymateb i doriadau i fudd-daliadau? Rŷch chi'n nodi yn eich llythyr fod dau dasglu wedi'u sefydlu gennych i edrych ar y mater yma. Onid y gwir yw, Weinidog, fod digon o dystiolaeth ar gael yn barod, bod y trydydd sector wedi gwneud gwaith mawr o ran casglu enghreifftiau o effaith hyn, a bod digon o waith academiaidd ar gael i esbonio'r sefyllfa? Pam yn union ŷch chi wedi sefydlu y ddau dasglu?
Minister, may I thank you very much for your recent letter in response to previous questions about what your department was doing in response to cuts to benefits? You note in your letter that two taskforces have been established to look at this matter. Is not the truth, Minister, that there is sufficient evidence available already, that the third sector has done excellent work in collecting evidence on the impact of this, and that there is sufficient academic work available to explain the situation? Why exactly did you establish these two taskforces?
- 14:33 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I thought it was important that we had one, that we had the ministerial taskforce, to have a Welsh Government overview of this, and also a taskforce to look specifically at how housing tenants are able to manage the cuts to welfare reform.
Roeddwn i'n meddwl ei bod yn bwysig fod gennym un, fod gennym y tasglu gweinidogol, er mwyn cael trosolwg Llywodraeth Cymru ar hyn, a thasglu hefyd i edrych yn benodol ar sut y mae tenantiaid tai yn ymdopi â'r toriadau diwygio lles.
- 14:34 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Gan eich bod wedi sefydlu y ddau dasglu, Weinidog, a allwch chi fy nghyfeirio at unrhyw beth sydd wedi digwydd o ganlyniad i sefydlu y ddau dasglu na fyddai wedi digwydd ar wahân i'r ffaith bod y ddau dasglu yma wedi'u sefydlu?
As you've established the two taskforces, Minister, can you refer me to any action that has been taken as a result of the establishment of the two taskforces that wouldn't have happened otherwise?
- 14:34 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Well, I thought it was important. Obviously, it is not a devolved issue; it's a reserved issue, but I am the Minister with the link between the Welsh Government and the UK Government. But, obviously, other Ministers are very interested in what's going on in relation to welfare and reform and it impacts on their portfolios. So, it was felt important that there was this overview from all Ministers.
Wel, roeddwn yn meddwl ei fod yn bwysig. Yn amlwg, nid yw'n fater datganoledig; mae'n fater a gadwyd yn ôl, ond fi yw'r Gweinidog sy'n cysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Ond yn amlwg, mae gan Weinidogion eraill ddiddordeb mawr yn yr hyn sy'n digwydd o ran lles a diwygio ac mae'n effeithio ar eu portffolios. Felly, teimlwyd ei bod yn bwysig cael y trosolwg hwn gan yr holl Weinidogion.
- 14:34 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Wel, nid wyf yn glir o hyd beth yn union y mae'r ddau dasglu wedi'i gyflawni a beth yn union y maen nhw wedi ychwanegu at yr hyn oedd yn wybyddus eisoes. A gaf fi eich cyfeirio at un enghraifft yn unig, sef y dreth ystafell wely? Cymru, wrth gwrs, yw'r unig wlad ddatganoledig lle nad yw'r Llywodraeth yn gwneud dim i gynorthwyo'r bobl sy'n dioddef o ganlyniad i hyn. Mae Llywodraeth yr SNP yn yr Alban wedi talu'r dreth yma ar ran ei phobl, mae Llywodraeth Gogledd Iwerddon wedi sicrhau nad yw hi'n cael ei gweithredu yng Ngogledd Iwerddon, ac mae pobl yng Nghymru yn dioddef o ganlyniad i hyn. Pan fyddwch yn meddwl am hyn yn sgil beirniadaeth ddiweddar Gerry Holtham fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy na chwyno am y setliad ariannol, beth yn union y mae'ch adran chi a'ch Llywodraeth chi yn ei wneud?
Well, I'm still not clear about exactly what these two taskforces have achieved and what they've added to what was already known. Can I refer you to one example, namely the bedroom tax? Wales, of course, is the only devolved nation where the Government is doing nothing to assist people who are suffering as a result of this. The SNP Government in Scotland have paid this tax on behalf of their people, the Government in Northern Ireland have ensured that it won't be implemented in Northern Ireland, and the people of Wales are suffering as a result of this. When you think of this in the wake of Gerry Holtham's recent criticism that Welsh Government should do more than complain about the financial settlement, what exactly is your department and your Government doing?

14:35	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography Well, I don't accept that the Welsh Government is doing nothing about the bedroom tax. For one thing, I give funding within the social housing grant to ensure that more one and two-bedroomed properties are being built. I don't think that's been done by all four administrations. So, I don't accept that as a criticism at all.	Wel, nid wyf yn derbyn nad yw Llywodraeth Cymru yn gwneud dim am y dreth ystafell wely. Yn un peth, rwy'n rhoi cyllid o fewn y grant tai cymdeithasol i sicrhau bod mwy o eiddo un a dwy ystafell wely yn cael eu hadeiladu. Nid wyf yn credu bod hynny wedi cael ei wneud gan bob un o'r pedair gweinyddiaeth. Felly, nid wyf yn derbyn hynny fel beirniadaeth o gwbl.	Senedd.tv Fideo Video
14:35	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Before we move to the next question, can I remind Members to try and keep their questions as concise as possible? They seem to be getting rather long today. Question 3, Christine Chapman.	Cyn inni symud at y cwestiwn nesaf, a gaf fi atgoffa'r Aelodau i geisio cadw eu cwestiynau mor gryno â phosibl? Maent i'w gweld yn mynd braidd yn hir heddiw. Cwestiwn 3, Christine Chapman.	Senedd.tv Fideo Video
Adeiladu Cartrefi Newydd		The Building of New Homes	
14:36	Christine Chapman Bywgraffiad Biography <i>3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adeiladu cartrefi newydd yng Nghymru? OAQ(4)0302(CTP)</i>	<i>3. Will the Minister make a statement on the building of new homes in Wales? OAQ(4)0302(CTP)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:36	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography Thank you. We have a positive trend in house-building activity in Wales. This is reflected in the latest housing statistics, which show annual completions during 2013-14 were the highest recorded in four years. We've delivered 6,890 additional affordable homes since April 2011, which is excellent progress towards our target of 10,000.	Diolch yn fawr. Mae gennym duedd gadarnhaol mewn gweithgarwch adeiladu tai yng Nghymru. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr ystadegau tai diweddaraf, sy'n dangos mai nifer y tai a gwblhawyd yn ystod 2013-14 oedd yr uchaf a gofnodwyd mewn pedair blynedd. Rydym wedi darparu 6,890 o dai fforddiadwy ychwanegol ers mis Ebrill 2011, sy'n gynnydd ardderchog tuag at ein targed o 10,000.	Senedd.tv Fideo Video
14:36	Christine Chapman Bywgraffiad Biography Thank you, Minister. We know that many young adults in Wales continue to live at home with their parents until well into their 30s, and that some families remain in the queue for social housing. However, I do very much welcome the steps taken by Welsh Government, through schemes like Help to Buy, which, as you state, has supported the recent 31 per cent increase in new homes built in Wales. This is in stark contrast to the UK coalition Government, which has presided over the lowest level of house building in peacetime since the 1920s. Minister, will you continue to ensure that people across Wales have access to high-quality, safe, and affordable homes?	Diolch, Weinidog. Gwyddom fod llawer o oedolion ifanc yng Nghymru yn parhau i fyw gartref gyda'u rhieni tan eu bod yn eu 30au, a bod rhai teuluoedd yn dal i aros yn y ciw am dai cymdeithasol. Fodd bynnag, croesawaf y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru, drwy gynlluniau megis Cymorth i Brynu, sydd, fel y nodwch, wedi cefnogi'r cynnydd diweddar o 31 y cant yn nifer y cartrefi newydd a adeiladwyd yng Nghymru. Mae'n gwrthgyferbynnu'n llwyr â Llywodraeth glymblaid y DU, sydd wedi llywodraethu dros y lefel isaf o weithgarwch adeiladu tai mewn cyfnod o heddwch ers y 1920au. Weinidog, a fyddwch yn parhau i sicrhau bod pobl ledled Cymru yn gallu manteisio ar gartrefi diogel fforddiadwy, o ansawdd uchel?	Senedd.tv Fideo Video
14:37	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography Yes, absolutely. We have several schemes—you've mentioned Help to Buy—to help people purchase a home. I'm also really encouraged that local authorities are now starting to come forward with plans to build more council houses—Flintshire and other local authorities are looking to do that. But it's very important that people are able to buy a house, or able to rent a house, if they so wish.	Byddaf, yn bendant. Mae gennym nifer o gynlluniau—fe sonioch am Cymorth i Brynu—i helpu pobl i brynu cartref. Mae'n fy nghalonogi'n fawr hefyd fod awdurdodau lleol bellach yn dechrau cyflwyno cynlluniau i adeiladu mwy o dai cyngor—mae Sir y Fflint ac awdurdodau lleol eraill yn bwriadu gwneud hynny. Ond mae'n bwysig iawn fod pobl yn gallu prynu tŷ, neu'n gallu rhentu tŷ, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.	Senedd.tv Fideo Video

- 14:37 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Although new homes registered in Wales last year did increase, fuelled in part by belated Welsh Government adoption of the UK Government's Help to Buy scheme, this was still less than the lowest region in England, north-east England, which has a smaller population than Wales by almost 500,000. Given the importance of Help to Buy, why have you only announced an extension beyond 31 March 2016, when the UK Chancellor announced a year ago that the Help to Buy scheme in England will be extended for an extra four years?
- Er bod nifer y cartrefi newydd a gofrestrwyd yng Nghymru y llynedd wedi cynyddu, yn rhannol am fod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu cynllun Cymorth i Brynu Llywodraeth y DU yn hwyr yn y dydd, roedd y nifer hwn yn dal yn is na'r rhanbarth isaf yn Lloegr, sef gogledd-ddwyrain Lloegr, gyda phoblogaeth o bron i 500,000 yn llai na Chymru. O ystyried pwysigrwydd Cymorth i Brynu, pam nad ydych ond wedi cyhoeddi estyniad y tu hwnt i 31 Mawrth 2016 yn unig, pan gyhoeddodd Canghellor y DU flwyddyn yn ôl y bydd y cynllun Cymorth i Brynu yn Lloegr yn cael ei ymestyn am bedair blynedd ychwanegol?
- 14:38 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- No, I've done exactly the same as England have done. I was very pleased to announce last month my intention to extend the Help to Buy scheme to beyond March 2016. At this time, I'm not able to provide specific details in relation to the scheme until after the next UK spending review. Once we know our final budget settlement, I'll be able to do that. But I thought it was really important to make that announcement to make sure we have that level playing field with England. I thought it was really important for the house builders to know that too.
- Na, rwyf wedi gwneud yn union fel y mae Lloegr wedi'i wneud. Roeddwn yn falch iawn o gyhoeddi fy mwriad fis diwethaf i ymestyn y cynllun Cymorth i Brynu y tu hwnt i fis Mawrth 2016. Ar hyn o bryd, ni allaf roi manylion penodol mewn perthynas â'r cynllun tan ar ôl adolygiad nesaf y DU o wariant. Pan fyddwn yn gwybod beth yw ein setliad cyllidebol terfynol, byddaf yn gallu gwneud hynny. Ond roeddwn i'n meddwl ei bod yn bwysig iawn i mi wneud y cyhoeddiad er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr un chwarae teg â Lloegr. Roeddwn i'n credu ei bod yn wirioneddol bwysig i'r adeiladwyr tai wybod hynny hefyd.
- 14:38 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae dod ag adeiladau gwag yn ôl i ddefnydd yn cyflawni'r un nod yn union, wrth gwrs, ag adeiladu cartrefi newydd. Mae yna gynllun grant yn gweithredu yng Ngwynedd, lle mae £10,000 yn cael ei gyfrannu tuag at ddod â thai gwag yn ôl i'w rhentu ar rent cymedrol, ac mae o'n profi'n llwyddiant ysgubol yn fy etholaeth i. A ydy hwn yn gynllun cenedlaethol, ac, os ydy o, faint o dai gwag rydych chi'n amcanu y gallent ddod yn ôl i gael eu defnyddio a'u rhentu yn y sector cyhoeddus?
- Bringing empty properties back into use achieves exactly the same aim, of course, as building new homes. There's a grant scheme operational in Gwynedd, where £10,000 is contributed towards bringing empty homes back for rent at a reasonable rent, and it's proving to be a great success in my own constituency. Is this a national scheme, and, if so, how many vacant properties do you estimate could be brought back into use and be made available for rent in the public sector?
- 14:39 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, it is a national scheme, and the funding is available right across Wales. Our target was 5,000; we are, I think, almost at 5,000 now, so it is something that I would look to maybe extend and see if we can have a more ambitious target, because it has been extremely successful.
- Ydy, mae'n gynllun cenedlaethol, ac mae'r arian ar gael ledled Cymru. Ein targed oedd 5,000; rwy'n meddwl ein bod bron â chyrraedd 5,000 yn awr, felly mae'n rhywbeth y byddwn yn ceisio ei ymestyn efallai a gweld os gallwn gael targed mwy uchelgeisiol, oherwydd mae wedi bod yn hynod o lwyddiannus.
- 14:39 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I agree that bringing empty homes back into use is a useful contribution to the housing crisis, but Help to Buy is only useful if there are homes available to buy, and, with the construction industry at its lowest level since 2007, sitting on their hands, particularly in relation to private housing and commercial developments, what resources would be available to enable people to adapt their existing homes, if, for example, they become disabled and need to move, but there simply are no suitable homes for them to move into?
- Cytunaf fod defnyddio cartrefi gwag unwaith eto yn gyfraniad defnyddiol i'r argyfwng tai, ond nid yw Cymorth i Brynu ond yn ddefnyddiol os oes cartrefi ar gael i'w prynu, a gyda'r diwydiant adeiladu ar ei lefel isaf ers 2007, yn segur, yn enwedig mewn perthynas â thai preifat a datblygu masnachol, pa adnoddau a fyddai ar gael i alluogi pobl i addasu eu cartrefi presennol os ydynt, er enghraifft, yn dod yn anabl ac angen symud ond nad oes unrhyw gartrefi addas ar gael i symud iddynt?

14:40

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We provide grant funding to help finance adaptations through a range of interventions, including the physical adaptation grant. You'll be aware that all new social builds are built to the development quality requirement standards and they've been designed to cater for disability in later life. I think many people do want lifetime homes. So, that's a very positive thing that I think we're doing.

We gave funding of £6.5 million through the physical adaptation grant in 2013-14 and that supported over 1,400 tenants to adapt their homes. I've made £8 million available in 2014-15 for the same purpose.

Cymunedau yn Gyntaf yn Nwyrain Abertawe

14:41

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei hymweliad â chlwtwr Cymunedau yn Gyntaf dwyrain Abertawe? OAQ(4)0298(CTP)

14:41

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I was very pleased to visit this cluster at the Member's invitation. It was good to have an opportunity to see the difference this tackling poverty programme makes in changing lives for the better. I'd like to acknowledge the commitment of the Communities First staff in supporting people in their community.

14:41

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the Minister for her answer, and more importantly for visiting the east side cluster, which was very well liked and appreciated—not just by the staff, but by a number of users of the scheme who were present there? Was the Minister as impressed as I was by the local residents describing how they had benefited from the different Community First themes?

14:41

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, it was good to meet a few people. We met a woman who'd gone to university because of the support that she'd received there, a woman who had starting volunteering after losing her husband—she felt much more a part of the community and didn't feel so isolated—and we met somebody who'd gone on to secure employment through the support of the Communities First team. It was a fantastic visit, and I was very grateful to meet them. Thank you.

Rydym yn darparu cyllid grant i helpu i ariannu addasiadau drwy ystod o ymyriadau, gan gynnwys y grant addasiadau ffisegol. Fe fyddwch yn ymwybodol fod pob adeilad cymdeithasol newydd yn cael ei adeiladu yn ôl safonau'r gofynion ansawdd datblygu ac maent wedi eu llunio i ddarparu ar gyfer anabledd yn hwyrach mewn bywyd. Rwy'n meddwl bod llawer o bobl eisiau cartrefi am oes. Felly, mae hynny'n beth cadarnhaol iawn rydym yn ei wneud yn fy marn i.

Rhoesom gyllid o £6.5 miliwn drwy'r grant addasiadau ffisegol yn 2013-14 a chefnogodd hynny dros 1,400 o denantiaid i addasu eu cartrefi. Rwyf wedi sicrhau bod £8 miliwn ar gael yn 2014-15 i'r un diben.

Communities First in Swansea East

4. Will the Minister make a statement on her visit to the east Communities First cluster in Swansea? OAQ(4)0298(CTP)

Diolch yn fawr. Roeddwn yn falch iawn o ymweld â'r clwtwr hwn ar wahoddiad yr Aelod. Roedd yn dda cael cyfle i weld y gwahaniaeth y mae'r rhaglen trechu tlodi yn ei wneud i newid bywydau er gwell. Hoffwn gydnabod ymroddiad staff Cymunedau yn Gyntaf yn cefnogi pobl yn eu cymuned.

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei hateb, ac yn bwysicach fyth am ymweld â chlwtwr yr ochr ddwyreiniol, a gafodd ei hoffi a'i werthfawrogi'n fawr—nid gan y staff yn unig, ond gan nifer o ddefnyddwyr y cynllun a oedd yn bresennol yno? A wnaed cymaint o argraff ar y Gweinidog ag arnaf fi gan y trigolion lleol yn disgrifio sut y maent wedi elwa o wahanol themâu Cymunedau yn Gyntaf?

Do, roedd yn dda cael cyfarfod â phobl. Cyfarfuom â menyw a oedd wedi mynd i'r brifysgol oherwydd y gefnogaeth roedd hi wedi'i gael yno, menyw a oedd wedi dechrau gwirfoddoli ar ôl colli ei gŵr—roedd hi'n teimlo'n fwy o ran o'r gymuned ac yn teimlo'n llai ynysig—a chyfarfuom â rhywun a oedd wedi mynd ymlaen i gael gwaith drwy gefnogaeth y tîm Cymunedau yn Gyntaf. Roedd yn ymweliad gwych, ac roeddwn yn ddiolchgar iawn am gael eu cyfarfod. Diolch yn fawr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:42 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Perhaps, Minister, I could invite you to the neighbouring north-eastern cluster and in particular to the Flying Start provision adjacent to Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan, which offers Welsh-language provision to families who are eligible for Flying Start in an area that isn't particularly Welsh-speaking. Certainly, the mothers I spoke to there saw the opportunity for early acquisition of Welsh-language skills, alongside English, as a real enhancement of their children's life chances. Can you confirm whether it's your intention to perhaps require language opportunity and needs assessments from Communities First to help inform the development of Flying Start in their cluster areas?

Weinidog, efallai y gallwn eich gwahodd i glwstwr cyfagos y gogledd-ddwyrain ac yn arbennig i ddarpariaeth Dechrau'n Deg ger Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan, sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg i deuluoedd sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg mewn ardal lle nad oes llawer o siaradwyr Cymraeg. Yn sicr, roedd y mamau y siaradais â hwy yno'n ystyried bod y cyfle i gael sgiliau cynnar yn y Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg yn gwella cyfleoedd bywyd eu plant yn fawr. A allwch gadarnhau a yw'n fwriad gennych efallai i ofyn am asesiad o gyfleoedd ac anghenion ieithyddol gan Cymunedau yn Gyntaf er mwyn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu Dechrau'n Deg yn eu hardaloedd clwstwr?

14:42 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you. I'd be very happy to visit, as the Member suggested. That isn't something that I've considered since I've been in portfolio. But, again, as we take forward the two programmes, it's something I could look at.

Diolch yn fawr. Byddwn yn hapus iawn i ymweld, fel yr awgrymodd yr Aelod. Nid yw hynny'n rhywbeth rwyf wedi'i ystyried ers i mi fod yn gyfrifol am y portffolio hwn. Ond eto, wrth i ni frwr ymlaen â'r ddwy raglen, mae'n rhywbeth y gallwn edrych arno.

14:42 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, yn amlwg, yn rhan o glwstwr Cymunedau'n Gyntaf dwyrain Abertawe, mae grŵp o famau—rydych wedi clywed amdanynt o'r blaen—sef y Bonymaen Young Mums, sydd wedi bod yn derbyn addysg ar gynhwysiad ariannol ac maen nhw nawr wedi mynd allan yn y gymuned i ddelifro ar hynny yn bositif iawn yn y gymuned hynny. A yw hyn yn rhywbeth y gallwch chi ei drawsnewid ar draws Cymunedau'n Gyntaf ar hyd a lled Cymru, ac nid yn unig yn yr ardal yma?

Minister, clearly, as part of the Swansea east cluster of Communities First—you will have heard of this group before—there is a group of mothers there, the Bonymaen Young Mums, who have been receiving education on financial inclusion and they are now out in the communities delivering that extremely positively within that community. Is this something that you could replicate across Communities First the length and breadth of Wales, and not only in this area?

14:43 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, it's certainly something that we can look at. As I say, I'm certainly looking very closely at Communities First now, to see what can be done differently and what can be done better, and certainly financial inclusion—. I was aware of the group and it's great to see people going out and doing it and showing people how they can do it for themselves. So, yes, it's certainly something we can consider.

Ydy, mae'n sicr yn rhywbeth y gallwn edrych arno. Fel y dywedais, rwy'n sicr yn edrych yn ofalus iawn yn awr ar Cymunedau yn Gyntaf, er mwyn gweld beth y gellir ei wneud yn wahanol a beth y gellir ei wneud yn well, ac yn sicr ar gynhwysiant ariannol—. Roeddwn yn ymwybodol o fodolaeth y grŵp ac mae'n wych gweld pobl yn mynd allan a gwneud hynny, a dangos i bobl sut y gallant wneud hynny eu hunain. Felly, ydy, mae'n sicr yn rhywbeth y gallwn ei hystyried.

14:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Question 5 OAQ(4)0304(CTP) is withdrawn. Question 6, Elin Jones.

Mae cwestiwn 5 OAQ(4)0304(CTP) wedi ei dynnu yn ôl. Cwestiwn 6, Elin Jones.

Tlodi Gwledig

Rural Poverty

14:43 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

6. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fesurau i fynd i'r afael â thlodi gwledig? OAQ(4)0310(CTP)

6. Will the Minister provide an update on measures to tackle rural poverty? OAQ(4)0310(CTP)

- 14:44 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch. We are improving outcomes in rural areas through our key tackling poverty programmes and the rural development programme has tackling poverty as a cross-cutting theme for the first time. Last week, I attended a rural housing conference and announced funding for the continuation of six rural housing enablers.
- Diolch. Rydym yn gwella canlyniadau mewn ardaloedd gwledig drwy ein rhaglenni trechu tloedi allweddol ac mae trechu tloedi yn cael ei gynnwys fel thema drawsbynciol yn y rhaglen datblygu gwledig am y tro cyntaf. Yr wythnos diwethaf, bûm mewn cynhadledd ar dai gwledig a chyhoeddais gyllid ar gyfer parhau i gynnal chwe swyddog galluogi tai gwledig.
- 14:44 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Weinidog, er nad oes ffynhonnell ariannu Cymunedau'n Gyntaf bellach yng Ngheredigion, mae grwpiau yn Nhregaron a Fforwm Penparcau yn parhau â'r gwaith gwrthdloedi yn eu cymunedau nhw. Mae yna waith gwych yn cael ei wneud gan y grwpiau yma, er bod yr arian yn brin. A wnewch chi dderbyn gwahoddiad oddi wrthyf i i ymweld â'r grwpiau yma i glywed am eu gwaith nhw ac am eu cynlluniau nhw ar gyfer y dyfodol?
- Minister, although there isn't now a Communities First funding source in Ceredigion, groups in Tregaron and the Penparcau Forum are continuing with the anti-poverty work within their own communities. There is excellent work being done by these groups, although the funding is scarce. Will you accept an invitation from me to visit these groups to hear of their work and of their plans for the future?
- 14:44 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, of course, I'd be very happy to do so.
- Gwnaf, wrth gwrs, rwy'n hapus iawn i wneud hynny.
- 14:44 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Work, affordable housing, fuel prices, cost of living and childcare—those are the causes of poverty. They are the same everywhere, whether that's urban or rural, but rural communities do face particular challenges, and lack of affordable housing is one of the most serious. So, I very much welcome your decision to continue funding the rural housing enablers, Minister. Can you give an indication of how many more affordable homes the extended project is expected to deliver?
- Gwaith, tai fforddiadwy, prisiau tanwydd, costau byw a gofal plant—dyna yw achosion tloedi. Maent yr un fath ym mhob man, mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig, ond mae cymunedau gwledig yn wynebu heriau penodol, a diffyg tai fforddiadwy yw un o'r rhai mwyaf difrifol. Felly, croesawaf eich penderfyniad i barhau i ariannu'r swyddogion galluogi tai gwledig, Weinidog. A allwch chi roi syniad faint yn fwy o dai fforddiadwy y disgwylir i'r prosiect estynedig eu darparu?
- 14:45 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. After I visited the conference, I went on to visit the citizens advice bureau in Newtown, and I very much heard that that was absolutely the case. Obviously, poverty is the same in rural and urban areas, although, sometimes, people in rural areas face different problems. Lack of affordable housing was something that was raised with me, as you say, as one of the biggest problems, and that's why I thought it was really important to continue to fund the rural housing enablers. I do expect them to deliver a further 200 affordable homes, and I think that will make a very significant difference in those areas.
- Diolch yn fawr. Ar ôl i mi fynychu'r gynhadledd, ymwelais â'r ganolfan cyngor ar bopeth yn y Drenwydd, a chlywais fod hynny'n bendant yn wir. Yn amlwg, mae tloedi yr un fath mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol, er bod pobl mewn ardaloedd gwledig weithiau'n wynebu problemau gwahanol. Fel y dywedwch, roedd diffyg tai fforddiadwy yn rhywbeth y tynnwyd fy sylw ato fel un o'r problemau mwyaf, a dyna pam rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn parhau i ariannu'r swyddogion galluogi tai gwledig. Rwy'n disgwyl iddynt ddarparu 200 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol, ac rwy'n credu y bydd hynny'n gwneud gwahaniaeth sylweddol iawn yn yr ardaloedd hynny.

14:46	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Minister, obviously, the ability to overcome poverty in rural areas is about creating a dynamic economy so that you can create jobs and employment. The biggest industry in rural areas is agriculture. The previous Government brought forward a planning policy to try and facilitate more rural enterprise dwellings. Have you had a discussion with the planning Minister to see what assessment the Government have made of the progress in implementing some of these consents, given that you were recently attending a housing conference on rural properties? To date, the evidence that I have shows that it's a very patchy picture out there and TAN6 is clearly not being used effectively in some council areas.	Weinidog, yn amlwg, mae'r gallu i drechu tlodi mewn ardaloedd gwledig yn ymwneud â chreu economi ddeinamig er mwyn gallu creu swyddi a chyflogaeth. Y diwydiant mwyaf mewn ardaloedd gwledig yw amaethyddiaeth. Cyflwynodd y Llywodraeth flaenorol bolisi cynllunio i geisio hwyluso mwy o anheddau mentrau gwledig. A ydych wedi trafod gyda'r Gweinidog cynllunio i weld pa asesiad y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud o'r cynnydd o ran gweithredu rhai o'r caniatadau hyn, o gofio eich bod wedi mynychu cynhadledd tai ar eiddo gwledig yn ddiweddar? Hyd yn hyn, mae'r dystiolaeth sydd gennyf yn creu darlun anghyson iawn ac mae'n amlwg nad yw TAN6 yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol mewn rhai ardaloedd cyngor.
14:46	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I'd be very happy to meet with the Minister for Natural Resources and provide the Member with an update.	Rwy'n hapus iawn i gyfarfod â'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelod.
	Rhaglenni Atgyweirio Cymdeithasau Tai	Housing Association Repair Programmes
14:46	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<i>7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglenni atgyweirio cymdeithasau tai? OAQ(4)0309(CTP)</i>	<i>7. Will the Minister make a statement on housing association repair programmes? OAQ(4)0309(CTP)</i>
14:46	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Thank you. I am pleased to say housing associations are reporting that 83 per cent of their homes now meet the Welsh housing quality standard. This is up 8 percentage points on last year. I expect all social landlords to achieve this standard by 2020.	Diolch yn fawr. Rwy'n falch o ddweud bod y cymdeithasau tai yn adrodd bod 83 y cant o'u cartrefi bellach yn cyrraedd safon ansawdd tai Cymru. Mae hyn 8 pwynt canran yn uwch na'r llynedd. Rwy'n disgwyl i bob landlord cymdeithasol gyrraedd y safon erbyn 2020.
14:47	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Thank you, Minister. Will you make sure that these repair programmes of housing associations are proportionate to the problems they're trying to address? I've been helping someone who was notified by a housing association of plans to replace, and bill her for, the mansard roof of her flat, because it was below the Welsh Government standard, only six years after the roof was replaced and still well within the 25-year guarantee of the contractors. We all want properties to be well maintained and we obviously welcome repair programmes, but I'm sure you'd agree with me that unnecessary work is also as bad as not doing any work at all.	Diolch i chi, Weinidog. A wnewch chi sicrhau bod rhaglenni atgyweirio'r cymdeithasau tai yn gymesur â'r problemau y maent yn ceisio mynd i'r afael a hwy? Rwyf wedi bod yn helpu rhywun a gafodd wybod gan gymdeithas tai am gynlluniau i osod to mansard newydd ar ei fflat a'i bilio amdano am ei fod yn is na safon Llywodraeth Cymru, gwta chwe blynedd ar ôl ailosod y to ac ymhell o fewn gwarant 25 mlynedd y contractwyr. Rydym i gyd am weld eiddo'n cael ei gynnal yn dda ac rydym yn croesawu rhaglenni atgyweirio wrth gwrs, ond rwy'n sicr y byddech yn cytuno â mi bod gwaith diangen yr un mor ddrwg â pheidio â gwneud unrhyw waith o gwbl.
14:47	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Absolutely. It has to be proportionate, and, as I mentioned in a previous answer, I wrote to RSLs reminding them of their responsibility and their duties.	Yn hollol. Mae'n rhaid iddo fod yn gymesur, ac fel y soniais mewn ateb blaenorol, ysgrifennai at Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn eu hatgoffa am eu cyfrifoldeb a'u dyletswyddau.

14:47	<p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Following stock transfers, Minister, we are seeing major programmes of improvement taking place right across Wales. I would be interested in your view on the Welsh Government's role in ensuring that this work is carried out to a high standard, so that we do have quality work, value for money and efficacy in the programme, because there have been many issues in terms of the quality of the work carried out.</p>	<p>Yn dilyn trosglwyddo stoc, Weinidog, rydym yn gweld rhaglenni gwella pwysig yn digwydd ledled Cymru. Byddai gennyf ddiddordeb yn eich barn ar rôl Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei gyflawni i safon uchel, er mwyn i ni gael gwaith o ansawdd, gwerth am arian ac effeithiolrwydd yn y rhaglen, oherwydd mae llawer o broblemau wedi bod o ran ansawdd y gwaith a wnaed.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:48	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>That's a very important issue that the Member raises. All social landlords have been asked to develop a WHQS compliance policy by the end of March next year, and that includes the requirement to have independent verification of their work to achieve the standard. That will pick up value for money and benefits for tenants and communities. Officials monitor progress on WHQS through business plans, through annual data returns and also on regular visits. It's really important that officials are out there, visiting these housing developments.</p>	<p>Mae'r Aelod yn crybwyll mater pwysig iawn. Gofynnwyd i bob landlord cymdeithasol ddatblygu polisi cydymffurfiaeth â Safonau Ansawdd Tai Cymru erbyn diwedd mis Mawrth y flwyddyn nesaf, ac mae hynny'n cynnwys y gofyniad am wiriad annibynnol o'u gwaith i gyrraedd y safon. Bydd hynny'n cynyddu budd a gwerth am arian i denantiaid a chymunedau. Mae swyddogion yn monitro cynnydd ar y safonau ansawdd drwy gynlluniau busnes, drwy ffurflenni data blynyddol a hefyd ar ymweliadau rheolaidd. Mae'n bwysig iawn fod y swyddogion allan yno yn ymweld â'r datblygiadau tai hyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:49	<p>Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography</p> <p>Mae diffygion tai lle mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw a thrwsio yn gallu arwain at broblemau iechyd, wrth gwrs. Wrth sylweddoli nad ydy'r gwasanaeth iechyd yn graig o arian ar hyn o bryd, pa drafodaethau yr ydych chi wedi'u cael efo'r Gweinidog iechyd ynglŷn â'r posibilrwydd o ddefnyddio cyllidebau ar y cyd i fynd i'r afael â rhai o'r materion yma? Er enghraifft, rwy'n gwybod, yn Sunderland, roedd meddygon teulu yn cael rhoi inswleiddio tai ar bresgripsiwn.</p>	<p>Problems within homes where maintenance and repair work is required can lead to health problems, of course. Whilst I realise that the health service isn't made of money at present, what discussions have you had with the health Minister regarding the possibility of using joint budgets to tackle some of these issues? For example, I know, in Sunderland, GPs were allowed to provide insulation for houses on prescription.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:49	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>I work very closely with the Minister for Health and Social Services regarding adaptations, and I don't think we've discussed insulation particularly, but I'm very interested to have a look at what's gone on in Sunderland, because we know that a little bit of money, sometimes, in helping somebody with an adaptation in their home, can save the health service a great deal of money further down the line. So, we're very happy to look at anything that could help in that way.</p>	<p>Rwy'n gweithio'n agos iawn gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag addasiadau, ac nid wyf yn credu ein bod wedi trafod inswleiddio yn benodol, ond rwy'n awyddus iawn i weld yr hyn sy'n digwydd yn Sunderland, oherwydd gwyddom fod ychydig bach o arian, weithiau, i helpu rhywun i addasu eu cartref, yn gallu arbed llawer iawn o arian i'r gwasanaeth iechyd yn y dyfodol. Felly, rydym yn hapus iawn i edrych ar unrhyw beth a allai fod o gymorth yn y ffordd honno.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Cymorth i Brynu—Cymru		Help to Buy—Wales	
14:49	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p><i>8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun cymorth i brynu? OAQ(4)0299(CTP)</i></p>	<p><i>8. Will the Minister make a statement on the help-to-buy scheme? OAQ(4)0299(CTP)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:50	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you. The Help to Buy—Wales scheme has been a great success, having already supported the construction and sale of over 1,300 homes across Wales, two thirds of which have been purchased by first-time buyers. The impact of the scheme is evident in the latest house-building statistics, highlighting a continuing positive trend in construction activity across Wales.</p>	<p>Diolch. Mae'r cynllun Cymorth i Brynu—Cymru wedi bod yn llwyddiant mawr, ac mae eisoes wedi cefnogi'r gwaith o adeiladu a gwerthu dros 1,300 o gartrefi ledled Cymru, gyda dwy ran o dair o'r rheini wedi eu prynu gan brynwyr tro cyntaf. Mae effaith y cynllun yn amlwg yn yr ystadegau adeiladu tai diweddaraf, gan amlygu tuedd gadarnhaol gyson mewn gweithgaredd adeiladu ledled Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:50

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. You'll be aware that there have been some issues regarding whether the householders who have bought properties under the Help to Buy scheme can improve their properties and what they would have to pay back if they did that. Although it is fairly clear that if someone builds an extension, that is going to be a substantial increase in the value of the property, for someone putting down, for example, flooring or other things, it's not so clear cut in terms of what is and what is not an improvement. Could I ask whether you could look at this and maybe provide some better guidance for people buying properties under Help to Buy so that they're very clear as to what is and what does not constitute an improvement?

Diolch am eich ateb, Weinidog. Fe fyddwch yn ymwybodol fod rhai materion wedi codi ynglŷn â gallu deiliaid tai sydd wedi prynu eiddo o dan y cynllun Cymorth i Brynu i wella eu heiddo a'r hyn y byddai'n rhaid iddynt ei ad-dalu pe baent yn gwneud hynny. Er ei bod yn weddol glir pe bai rhywun yn adeiladu estyniad, y byddai'n cynyddu gwerth yr eiddo yn sylweddol, i rywun sy'n gosod llawr, er enghraifft, neu bethau eraill, nid yw mor glir beth sy'n welliant a beth nad yw'n welliant. A gaf fi ofyn i chi edrych ar hyn a rhoi canllawiau gwell i bobl sy'n prynu eiddo o dan Cymorth i Brynu fel eu bod yn glir iawn ynglŷn â'r hyn sy'n welliant a'r hyn nad yw'n welliant?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:50

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. This is something that's been raised with me before, and we are making it very clear. Home improvements only prohibit significant structural work, such as loft conversions, extensions and conservatories. There is nothing to prevent owners from undertaking small DIY jobs to make their homes more comfortable. You mentioned the laying of a new floor, and new carpets, painting and decorating. The reason they exist, as you know, is that, as with any shared equity scheme, the value of the loan is directly linked to the value of the property, but I think it is important that people are aware of the restrictions. We are looking at what we need to do in relation to guidance.

Ie. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi ei grybwyll wrthyf o'r blaen, ac rydym yn gwneud pethau'n glir iawn. Nid yw gwella cartrefi ond yn gwahardd gwaith strwythurol sylweddol yn unig, fel addasu'r atig, estyniadau a heulfannau. Nid oes dim i atal perchnogion rhag gwneud gwaith bach eu hunain i wneud eu cartrefi'n fwy cyfforddus. Fe sonioch am osod llawr newydd, a charpedi newydd, peintio ac addurno. Y rheswm drostynt, fel y gwyddoch, fel gydag unrhyw gynllun rhannu ecwiti, yw bod gwerth y benthyciad yn uniongyrchol gysylltiedig â gwerth yr eiddo, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig i bobl fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau. Rydym yn edrych ar yr hyn sydd angen i ni ei wneud o ran canllawiau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:51

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, with regard to the Help to Buy scheme, I of course share the UK Government's attitude to support people who aspire to become home owners. This is in stark contrast to your Government's suspension of the right to buy. It's sheer hypocrisy, is it not, when, on the one hand, you work with the UK Government and the Help to Buy schemes in the private sector, while at the same time closing the door on that aspiration in the social and public sector housing area?

Weinidog, o ran y cynllun Cymorth i Brynu, rwyf fi wrth gwrs yn rhannu agwedd Llywodraeth y DU o ran cefnogi pobl sy'n dyheu i fod yn berchnogion tai. Mae hyn yn gwrthgyferbynu'n llwyr â'ch Llywodraeth chi sy'n atal yr hawl i brynu. Onid yw'n rhagrith llwyr eich bod, ar y naill law, yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r cynlluniau Cymorth i Brynu yn y sector preifat, ac ar y llaw arall yn cau'r drws ar y dyhead hwnnw ym maes tai'r sector cymdeithasol a'r sector cyhoeddus?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:52

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Our consultation on ending right to buy and right to acquire has been met with a great deal of thanks. There are very few people who've contacted me to complain. Some have. However, it's absolutely right. We have seen a huge number of housing lost from our council housing stocks and social housing stocks. There are too many people waiting for housing. We're out to consultation now. I will look at all responses in due course, but I am very happy with the fact that we have gone to consultation to end right to buy.

Mae ein hymgyngoriad ar ddoe â'r hawl i brynu a'r hawl i gaffael i ben wedi cael cryn dipyn o groeso. Ychydig iawn o bobl a gysylltodd â mi i gwyno. Mae ambell un wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'n hollol gywir. Rydym wedi colli nifer helaeth o dai o'n stociau tai cyngor a'n stociau tai cymdeithasol. Mae gormod o bobl yn aros am dai. Rydym wrthi'n cynnal ymgynghoriad ar hyn o bryd. Byddaf yn edrych ar yr holl ymatebion maes o law, ond rwy'n hapus iawn gyda'r ffaith ein bod wedi cynnal ymgynghoriad ar roi terfyn ar yr hawl i brynu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:52	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography In a couple of years, of course, Minister, we can see some of the equity loans repaid by those who used Help to Buy. So, has the Welsh Government undertaken any assessment of whether this will cause financial difficulty to home owners, particularly in the event maybe of substantial rises in the housing market, and what steps can the Welsh Government take to mitigate this, given the interest that we all have of course in ensuring that people can remain within their own homes?	Wrth gwrs, mewn ychydig o flynyddoedd, Weinidog, byddwn yn gweld rhai o'r benthyciadau ecwiti yn cael eu had-dalu gan y rhai a ddefnyddiodd Cymorth i Brynu. Felly, a yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad i weld a fydd hyn yn achosi anhawster ariannol i berchnogion tai, yn enwedig efallai pe bai'r farchnad dai yn gwella'n sylweddol, a pha gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i liniaru hyn, o ystyried awydd pob un ohonom, wrth gwrs, i sicrhau bod pobl yn gallu parhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain?	Senedd.tv Fideo Video
14:53	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography Yes, this is something that I've asked officials to look at because I think it is very important. As you say, it is going to be two years down the line when this starts. It is important that we make sure that people are in a position to not become homeless or not have to face any such trauma. So, this is a piece of work that is currently being undertaken.	Ie, mae hyn yn rhywbeth rwyf wedi gofyn i swyddogion edrych arno gan fy mod yn credu ei fod yn bwysig iawn. Fel y dywedwch, mae'n mynd i fod yn ddwy flynedd cyn i hyn ddechrau. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod pobl mewn sefyllfa i beidio â mynd yn ddiartref neu orfod wynebu trawma o'r fath. Felly, mae hwn yn waith sydd ar y gweill ar hyn o bryd.	Senedd.tv Fideo Video
Grwpiau Cymunedol Gwirfoddol		Voluntary Community Groups	
14:53	Darren Millar Bywgraffiad Biography <i>9. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi grwpiau cymunedol gwirfoddol? OAQ(4)0303(CTP)</i>	<i>9. What action is the Welsh Government taking to support voluntary community groups? OAQ(4)0303(CTP)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:53	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography Thank you. The Welsh Government is committed to supporting communities and volunteers across Wales. In the financial year 2014-15, I have provided over £7.19 million to support an infrastructure that helps community groups to continue their important work. I have today issued a written statement on assets of community value, which outlines my intention to carry out a consultation in May of this year.	Diolch yn fawr. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi cymunedau a gwirfoddolwyr ledled Cymru. Ym mlwyddyn ariannol 2014-15, rwyf wedi darparu dros £7.19 miliwn i gefnogi seilwaith sy'n helpu grwpiau cymunedol i barhau â'u gwaith pwysig. Heddiw, rwyf wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar asedau o werth cymunedol, sy'n amlinellu fy mwriad i gynnal ymgynghoriad ym mis Mai eleni.	Senedd.tv Fideo Video
14:54	Darren Millar Bywgraffiad Biography Thank you for that response, Minister. You'll be aware of the excellent organisation, Men's Sheds, which is expanding its network of clubs across the whole of Wales. Indeed, I paid a recent visit to one of the Men's Sheds in my own constituency, in Colwyn Bay, where many elderly people in particular who have little interaction elsewhere are able to come along, spend some time with other guys and, really, do something useful with their time, which acts as an amazing feat of helping them overcome that social isolation. What work, particularly, will you do to encourage and promote the work of Men's Sheds across Wales, given the excellent outcomes that it has for men?	Diolch am eich ateb, Weinidog. Fe fyddwch yn ymwybodol o'r sefydliad rhagorol, Siediau Dynion, sy'n ehangu ei rwydwaith o glybiau dros Gymru gyfan. Yn wir, yn ddiweddar ymwelais ag un o'r Siediau Dynion yn fy etholaeth i, ym Mae Colwyn, lle y gall llawer o bobl oedrannus, yn arbennig, pobl nad ydynt yn rhyngweithio llawer mewn mannau eraill, ddod draw a threulio amser gyda dynion eraill, a gwneud rhywbeth defnyddiol gyda'u hamser, mewn gwirionedd. Mae hyn yn cyflawni'r gamp anhygoel o'u helpu i oresgyn unigedd cymdeithasol. Pa waith penodol a wnewch i annog a hyrwyddo gwaith Siediau Dynion ledled Cymru o ystyried y canlyniadau ardderchog y mae'n eu sicrhau i ddynion?	Senedd.tv Fideo Video
14:54	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography I haven't actually visited one myself, and I haven't had any contact from them, as far as I'm aware, but I'm very happy to visit the one in the Member's constituency if he'd like to invite me. I'm very happy to continue to work, as we do, with so many parts of the voluntary sector.	Nid wyf wedi ymweld ag un fy hun, a chyn belled ag y gwn i, nid ydynt wedi dod i gysylltiad â mi, ond rwy'n hapus iawn i ymweld â'r un yn etholaeth yr Aelod os hoffai fy ngwahodd. Rwy'n hapus iawn i barhau i weithio, fel y gwnawn, gyda chymaint o rannau o'r sector gwirfoddol.	Senedd.tv Fideo Video

14:55

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

My constituency, Cardiff North, is absolutely filled with small voluntary community groups, like other people's constituencies, which do a tremendous job. There are lots of friends of hospitals and friends of parks, but, since the local authority cuts, a number of new bodies have grown up, like the library group, which I'll be attending this evening. Could the Minister tell me what she thinks will be the long future of the groups that have grown up as a result of the recent local authority cuts?

Mae fy etholaeth i, Gogledd Caerdydd, fel etholaethau pobl eraill, yn llawn o grwpiau cymunedol gwirfoddol bach sy'n gwneud gwaith ardderchog. Ceir llawer o gyfeillion ysbytai a chyfeillion parciau, ond ers y toriadau yng nghyllid awdurdodau lleol, mae nifer o gyrff newydd wedi ymddangos, fel y grŵp llyfrgell y byddaf yn ei fynychu heno. A allai'r Gweinidog ddweud wrthyf beth yn ei barn hi fydd dyfodol hirdymor y grwpiau sydd wedi ymddangos yn sgil y toriadau diweddar yng nghyllid awdurdodau lleol?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:55

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Yes, we've certainly seen an increase in the number of organisations and groups, to which the Member refers. I think you're quite right—this kind of community-based intervention is absolutely replicated right across our communities. I was reading an article this morning that said that one in three people in Wales will volunteer this year, which I think is, you know, a tremendous achievement and we owe them a great deal of thanks.

Diolch. Do, rydym yn sicr wedi gweld cynnydd yn nifer y sefydliadau a'r grwpiau y mae'r Aelod yn cyfeirio atynt. Rwy'n meddwl eich bod yn hollol iawn—mae'r math hwn o ymyriad yn y gymuned i'w weld yn ein holl gymunedau. Roeddwn yn darllen erthygl y bore yma a ddywedai y byddai un o bob tri o bobl yng Nghymru yn gwirfoddoli eleni, ac rwy'n meddwl bod hwnnw'n gyflawniad anhygoel ac y dylem ddiolch yn fawr iddynt.

I think the answer really depends on the nature of the individual organisation—why it's been set up and what their vision is for the future. But, I think they're very much valued and I hope they'll continue to develop and flourish.

Credaf fod yr ateb yn dibynnu mewn gwirionedd ar natur y sefydliad unigol—pam y cafodd ei sefydlu a beth yw ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Ond rwy'n credu eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn ac rwy'n gobeithio y byddant yn parhau i ddatblygu ac i ffynnu.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:56

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, another organisation that draws very much on the work of community volunteers is Dial-a-Ride across Wales and in mid and west Wales particularly, given the rurality of that area. They do a lot to enhance the quality of the lives of people across the whole area, particularly giving access and socialisation to those who would otherwise not enjoy it. Minister, in the spirit of the invitations that you've kindly been accepting this afternoon—also to the Men's Sheds—I wonder whether I could invite you to visit a Dial-a-Ride community volunteer scheme in my own region, so as to understand, at first hand, the value that they have and also how they can be made more resilient in these difficult financial times.

Weinidog, sefydliad arall sy'n pwysu'n helaeth ar waith gwirfoddolwyr cymunedol yw Galw'r Gyrrwr ledled Cymru, ac yn arbennig yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, o ystyried natur wledig yr ardal honno. Maent yn gwneud llawer i wella ansawdd bywydau pobl dros yr ardal gyfan, yn enwedig o ran darparu mynediad a chyfle i gymdeithasu i'r rhai na fyddent fel arall yn eu mwynhau. Weinidog, yn ysbryd y gwahoddiadau rydych wedi bod mor garedig â'u derbyn y prynhawn yma—i Siediau Dynion hefyd—tybed a gawn eich gwahodd i ymweld â chynllun gwirfoddoli cymunedol Galw'r Gyrrwr yn fy rhanbarth i, er mwyn ichi allu gweld eu gwerth drosoch eich hun a hefyd sut y gellir eu gwneud yn fwy cydnherth yn y cyfnod ariannol anodd hwn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:57

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I'd be very happy to accept that invitation. I think it's really important, as a Minister, that you do get out there in the communities and you do visit these schemes and programmes to see the fantastic work they're doing and to understand the difficulties that they sometimes face. So, yes, I'd be very happy to do so.

Cewch, rwy'n yn hapus iawn i dderbyn y gwahoddiad. Credaf ei bod yn bwysig iawn, fel Gweinidog, eich bod yn mynd allan i'r cymunedau ac yn ymweld â'r cynlluniau a'r rhaglenni hyn er mwyn gweld y gwaith gwych y maent yn ei wneud ac er mwyn deall yr anawsterau y maent yn eu hwynebu weithiau. Felly, byddwn yn hapus iawn i wneud hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:57

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I note your response to Darren Millar on a statement issued today. My question is on the voluntary community groups in my constituency that are interested in using community asset transfer to take over ownership of operations and facilities owned by Neath Port Talbot council. Can I take it now that we can respond to your statement and make any observations that these local organisations would want to do in regard to an appeal process possibly being set up?

Nodaf eich ymateb i Darren Millar ynghylch datganiad a gyhoeddwyd heddiw. Mae fy nghwestiwn ynglŷn â'r grwpiau gwirfoddoli cymunedol yn fy etholaeth sydd â diddordeb mewn defnyddio cynllun trosglwyddo asedau cymunedol i gael perchnogaeth ar weithrediadau a chyfleusterau sy'n eiddo i gyngor Castell-nedd Port Talbot. A gaf fi gymryd yn awr y gallwn ymateb i'ch datganiad a gwneud unrhyw sylwadau y byddai'r cyrff lleol hyn am eu gwneud o ran sefydlu proses apelio, o bosibl?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:57

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, absolutely. I published a written statement this morning, as I said. I'll be going out to consultation and it's really important that all Members and constituents put forward their views. That will help me when I take my deliberations forward. I'm very keen to have a Welsh view on this, so, please, yes, do ensure everyone who wishes to, submits to the consultation.

Gallwch, yn bendant. Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig y bore yma, fel y dywedais. Byddaf yn cynnal ymgynghoriad ac mae'n wirioneddol bwysig fod yr holl Aelodau ac etholwyr yn lleisio eu barn. Bydd hynny'n fy helpu pan fyddaf yn bwrw ymlaen â'r gwaith. Rwy'n awyddus iawn i gael safbwynt Cymreig ar hyn, felly ie, os gwelwch yn dda, sicrhewch fod pawb sy'n dymuno gwneud hynny yn cyfrannu at yr ymgynghoriad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2015

Hate Crime Awareness Week 2015

14:58

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2015? OAQ(4)0301(CTP)

10. Will the Minister make a statement on Welsh Government support for Hate Crime Awareness Week 2015? OAQ(4)0301(CTP)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:58

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes. I issued a written statement last week outlining funding for police and crime commissioners to work within communities to increase reporting of hate crime. I will also host a national conference during Hate Crime Awareness Week in mid October this year to increase awareness of cyber hate and bullying.

Gwnaf. Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig yr wythnos diwethaf yn amlinellu cyllid i'r comisiynwyr heddlu a throseddau allu gweithio yn y cymunedau i gynyddu lefelau adrodd am droseddau casineb. Byddaf hefyd yn cynnal cynhadledd genedlaethol yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yng nghanol mis Hydref eleni i godi ymwybyddiaeth o seibergasineb a seiberfwlio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:58

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for that response. I was grateful also for your written statement of 12 March, updating Members on the activities and impact of Hate Crime Awareness Week 2014.

Diolch i chi am eich ymateb, Weinidog. Roeddwn yn ddiolchgar hefyd am eich datganiad ysgrifenedig ar 12 Mawrth, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am weithgareddau ac effaith Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2014.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, following the tragic terrorist attacks in Paris in January, the Israeli Prime Minister made a call for European Jews to settle in Israel because they could not be considered safe in Europe. Will you therefore agree with me, Minister, that we must make it clear that all communities can feel safe and welcome in Wales and that hate crime has no place here?

Weinidog, yn dilyn yr ymosodiadau terfysgol erchyll ym Mharis ym mis Ionawr, galwodd Prif Weinidog Israel ar Iddewon Ewrop i symud i Israel i fyw gan na ellid ystyried eu bod yn ddiogel yn Ewrop. A wnewch chi gytuno â mi felly, Weinidog, fod yn rhaid i ni ei gwneud yn glir y gall pob cymuned deimlo'n ddiogel yng Nghymru ac nad oes lle yma i droseddau casineb?

14:59

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I absolutely agree with your sentiments. Wales has a very strong history of being welcoming to all people of all races, religions and backgrounds. I did meet with members of the Jewish reform synagogue in Cardiff during Hate Crime Awareness Week last October, and although the community has dramatically decreased in Wales over the years, members did tell me how proud they felt to identify themselves as Welsh and Jewish. They also raised some concerns with me, and have since raised some concerns with me, with regard to personal safety, particularly in the current international climate, where tensions are heightened. I'm very clear that any hate crime or incident is not to be tolerated. I think we've got excellent support right across Wales, through the national hate crime report and support centre. I strongly encourage all victims to come forward and report. Only then will we know the true scale of the problem.

Cytunaf yn llwyr â'ch teimladau. Mae gan Gymru hanes cryf o fod yn groesawgar tuag at bawb o bob hil, crefydd a chefnidir. Cyfarfûm ag aelodau o'r synagog ddiwygiedig Iddewig yng Nghaerdydd yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb fis Hydref diwethaf, ac er bod y gymuned wedi lleihau'n ddramatig o ran ei maint yng Nghymru dros y blynyddoedd, dywedodd yr aelodau wrthyf pa mor falch oeddent i ystyried eu hunain yn Gymry ac yn Iddewon. Fe dynnwyd fy sylw hefyd at rai o'u pryderon, ac maent wedi mynegi pryderon wrthyf ers hynny, ynghylch diogelwch personol, yn enwedig yn yr hinsawdd ryngwladol bresennol, a thensiynau cynyddol. Rwy'n glir iawn na ddylid goddef unrhyw droseddau na digwyddiadau casineb. Rwy'n credu bod genym gefnogaeth ardderchog ledled Cymru, drwy'r ganolfan genedlaethol ar gyfer darparu cymorth ac adrodd am droseddau casineb. Rwy'n annog pob dioddefwr i adrodd am droseddau. Drwy hynny'n unig y cawn wybod wir faint y broblem.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I recently had the privilege of opening the Anne Frank historical photographic exhibition at Pembrokeshire College, where local schools were encouraged to visit and learn about the importance of tolerance, diversity and respecting our society. Now, the Welsh Government's 'Tackling Hate Crimes and Incidents: A Framework for Action' recognises the important role that schools can play in promoting respect in our society. Can you provide an update on what steps the Welsh Government has taken to deliver on actions in delivery area 1 of that particular framework, and can you tell us how the Welsh Government has specifically worked with schools to tackle hate crime and promote respect through the national curriculum?

Weinidog, cefais y fraint yn ddiweddar o agor arddangosfa ffotograffig hanesyddol Anne Frank yng Ngholeg Sir Benfro, lle y câi ysgolion lleol eu hannog i ymweld a dysgu am bwysigrwydd goddefgarwch, amrywiaeth a pharchu ein cymdeithas. Nawr, mae 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl bwysig y gall ysgolion ei chwarae yn hyrwyddo parch yn ein cymdeithas. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â pha gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith i gyflawni'r camau gweithredu ym maes cyflawni 1 o'r fframwaith penodol hwnnw, ac a allwch ddweud wrthym sut y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n benodol gydag ysgolion i fynd i'r afael â throseddau casineb a hyrwyddo parch drwy'r cwricwlwm cenedlaethol?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I've worked very closely with my colleague, the Minister for Education and Skills on this issue. We also provided funding for Holocaust Memorial Day and, at that commemoration service in Cardiff, it was very good to see young people from several schools, who had been out to Auschwitz on visits and then came and told us about their views. I think it's really important that the younger generation are very aware of what went on, and certainly, as a Government, we're very keen to support that.

Rwyf wedi gweithio'n agos iawn gyda fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y mater hwn. Rydym hefyd wedi darparu cyllid ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost, ac yn y gwasanaeth coffa hwnnw yng Nghaerdydd, roedd yn braf iawn gweld pobl ifanc o sawl ysgol a oedd wedi bod ar ymweliad ag Auschwitz yn dod i ddweud eu barn. Credaf ei bod yn bwysig iawn i'r genhedlaeth iau fod yn ymwybodol iawn o'r hyn a ddigwyddodd, ac yn sicr, fel Llywodraeth, rydym yn awyddus iawn i gefnogi hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:01

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, one potentially effective way of reducing hate crime in Wales is the use of restorative justice. What financial assistance can the Welsh Government provide in order to support research into the effectiveness of restorative justice in preventing further offences amongst the perpetrators of hate crime, please?

Weinidog, un ffordd a allai fod yn effeithiol o ran lleihau troseddau casineb yng Nghymru yw'r defnydd o gyfiawnder adferol. Pa gymorth ariannol y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu er mwyn cefnogi ymchwil i effeithiolrwydd cyfiawnder adferol ar gyfer atal troseddau pellach ymhlith y rhai sy'n cyflawni troseddau casineb, os gwelwch yn dda?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:01	Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography This is something that would fall in the portfolio of my colleague, the Minister for Public Services, but I'm very happy to have a discussion with him to see what we can do, specifically in relation to hate crimes and restorative justice.	Dyma fater a fyddai'n rhan o bortffolio fy nghyd-Aelod, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, ond rwy'n hapus iawn i gael trafodaeth gydag ef i weld beth y gallwn ei wneud, yn benodol o ran troseddau casineb a chyfiawnder adferol.	Senedd.tv Fideo Video
15:01	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Thank you, Minister.	Diolch, Weinidog.	Senedd.tv Fideo Video
15:01	3. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Diwydiant Dur Cymru Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography We now move to item 3, which is a debate by individual Members under Standing Order 11.21, and I call on Aled Roberts to move the motion. Cynnig NNDM5713 Aled Roberts, Paul Davies, Rhun ap Iorwerth Cefnogwyd gan Mike Hedges, Ann Jones, Jenny Rathbone, Keith Davies, Mark Isherwood, Julie Morgan, John Griffiths, Byron Davies, Peter Black. Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru: 1. Yn nodi cyfraniad economaidd diwydiant dur Cymru a'r miloedd o swyddi y mae'n eu cefnogi; 2. Yn gresynu at y ffaith bod y mewnfurion tramor sy'n llifo i mewn i'r farchnad wedi creu sefyllfa anghyfartal; a 3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu'r siarter ar gyfer dur cynaliadwy Prydeinig a fydd yn arwain at sefyllfa lle bydd pob proses gaffael llywodraeth mewn perthynas â barrau atgyfnerthu dur carbon yn bodloni safon cyrchu cyfrifol BES 6001. <i>Cynigiwyd y cynnig.</i>	3. Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): The Welsh Steel Industry Ymudwn yn awr at eitem 3, sef dadl gan Aelodau unigol o dan Reol Sefydlog 11.21, a galwaf ar Aled Roberts i gynnig y cynnig. Motion NNDM5713 Aled Roberts, Paul Davies, Rhun ap Iorwerth Supported by Mike Hedges, Ann Jones, Jenny Rathbone, Keith Davies, Mark Isherwood, Julie Morgan, John Griffiths, Byron Davies, Peter Black. To propose that the National Assembly for Wales: 1. Notes the economic contribution of the Welsh steel industry and the thousands of jobs it supports. 2. Regrets that overseas imports flooding the market have created an un-even playing field. 3. Calls for the Welsh Government to adopt the Charter for British Sustainable Steel, which will see all Government procurement of carbon steel rebar meeting the BES 6001 responsible sourcing standard. <i>Motion moved.</i>	Y Senedd.tv Fideo Video
15:02	Aled Roberts Bywgraffiad Biography Diolch, Lywydd. Mae'n bleser cael cyflwyno y ddadl yma y prynhawn yma yn enwau Paul Davies, Rhun ap Iorwerth a minnau, ac rydym ni'n ddiolchgar iawn hefyd am gefnogaeth y naw Aelod y mae eu henwau nhw'n ymddangos ar yr agenda y prynhawn yma.	Thank you, Presiding Officer. It's a pleasure to open this debate this afternoon in the names of Paul Davies, Rhun ap Iorwerth and me, and we're very grateful for the support of the nine Members whose names appear on the agenda this afternoon.	Senedd.tv Fideo Video

Mae'n bwysig ein bod ni'n atgoffa ein hunain o bwysigrwydd y diwydiant dur yma yng Nghymru a hefyd ar draws y Deyrnas Gyfunol. Mae yna 30,000 ar hyn o bryd yn cael eu cyflogi yn y diwydiant ar draws Prydain, a 7,500 o'r rheini yma yn Nghymru, yn Celsa Steel yng Nghaerdydd, Cogent Power, Mir Steel a hefyd Tata ym Mhort Talbot, Llan-wern ac yn y gogledd. Mae gwerth y diwydiant hefyd o bwys: tua £9.5 biliwn ar lefel Brydeinig, ac mae tua £4.9 biliwn ar hyn o bryd yn cael ei allforio o ynysoedd Prydain. Mi oedd Celsa eu hunain yn cael eu disgrifio fel diwydiant o bwys ac yn gwmni angor gan Lywodraeth Cymru yn 2012.

So, why are we bringing this debate here this afternoon? Well, it's to ask the Welsh Government to consider supporting the charter for sustainable steel actually put forward by UK Steel and currently supported by a number of local authorities. That's against a background where, although steel demand has increased by 15 per cent across the UK in the first four months of 2014 compared with the same period in 2013, the main beneficiaries were in fact foreign producers. Steel imports during that period rose by 24 per cent, taking imports to a market share of 60 per cent, compared with 56 per cent in 2013. The higher demand, combined with a progressive strengthening of sterling, the stagnation of eurozone demand, and the dramatic slowdown in domestic growths, particularly in China, made the UK the market of choice for many overseas steel producers. As a result, steel output across the UK rose by only 3 per cent in the first 11 months of the year. Output was still 23 per cent; therefore, below 2008 levels. The market for commodity products, such as the reinforcing bar made by Celsa Steel here in Cardiff—who support 3,000 jobs—has been particularly affected by these trends.

The steel industry has no wish to become protectionist, but they do feel that they're entitled to protection from unfair trade, as set out by World Trade Organization rules. Protection against unfair trade is largely a European Commission competence, but member states do have a vote on whether to adopt protective measures proposed by the Commission. The UK is widely perceived by others in the European Union and by the Commission as consistently opposing unfair trade measures. So, one of our purposes in bringing this debate here this afternoon is to ask that the Welsh Government actually acknowledges that they have a responsibility towards the Welsh steel industry and, more importantly, the people actually employed within that industry, to support Commission proposals to discipline unfair trade from third-party countries and to use their influence on the UK Government to actually support that position.

It is important that we remind ourselves of the importance of the steel industry here in Wales and across the UK. There are 30,000 people currently employed in the industry across Britain, and 7,500 of those are employed here in Wales, in Celsa Steel in Cardiff, Cogent Power, Mir Steel, and also Tata in Port Talbot, Llanwern and in north Wales. The value of the industry is also important: about £9.5 billion at a UK level, and some £4.9 billion is currently exported from the British isles. Celsa was itself described as a major industry and an anchor company by the Welsh Government in 2012.

Felly, pam rydym yn cyflwyno'r ddadl hon yma y prynhawn yma? Wel, er mwyn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried cefnogi'r siarter ar gyfer dur cynaliadwy a gyflwynwyd gan UK Steel ac sy'n cael ei chefnogi ar hyn o bryd gan nifer o awdurdodau lleol. Dyma'r cefndir: er bod y galw am ddir wedi cynyddu 15 y cant ledled y DU ym mhedwar mis cyntaf 2014 o gymharu â'r un cyfnod yn 2013, roedd y prif fuddiolwyr, mewn gwirionedd, yn gynhyrchwyr tramor. Cododd mewnfurion dur yn ystod y cyfnod hwnnw 24 y cant, gan gynyddu cyfran mewnfurion o'r farchnad i 60 y cant, o gymharu â 56 y cant yn 2013. Mae'r galw uwch, ynghyd â sterling yn cryfhau'n gynyddol, diffyg cynnydd yn y galw yn ardal yr ewro, a thwf domestig gwledydd yn arafu'n sylweddol, yn enwedig yn Tsieina, wedi golygu mai marchnad y DU yw'r farchnad ddelfrydol i lawer o gynhyrchwyr dur tramor. O ganlyniad, ni welwyd mwy na 3 y cant o gynnydd yn yr allbwn dur ledled y DU yn ystod 11 mis cyntaf y flwyddyn. Roedd yr allbwn yn dal i fod yn 23 y cant, ac felly'n is na lefelau 2008. Mae'r farchnad gynhyrchion nwyddau, fel y barrau atgyfnerthu a wneir gan Celsa Steel yma yng Nghaerdydd—sy'n cynnal 3,000 o swyddi—wedi ei heffeithio'n arbennig gan y tueddiadau hyn.

Nid yw'n ddymuniaid gan y diwydiant dur i fod yn warchodol, ond maent yn teimlo bod ganddynt hawl i amddiffyniad rhag masnach annheg, fel y nodir yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd. I raddau helaeth, rhan o gymhwysedd y Comisiwn Ewropeaidd yw diogelu yn erbyn masnachu annheg, ond mae gan aelod-wladwriaethau bleidlais o ran a ddylid mabwysiadu mesurau amddiffynnol a argymhellir gan y Comisiwn ai peidio. Ystyrir gan eraill yn yr Undeb Ewropeaidd a chan y Comisiwn fod y DU yn gwrthwynebu mesurau masnach annheg yn gyson. Felly, un o'n dibenion wrth gyflwyno'r ddadl hon y prynhawn yma yw gofyn i Lywodraeth Cymru gydnabod bod ganddi gyfrifoldeb tuag at y diwydiant dur yng Nghymru mewn gwirionedd, ac yn bwysicach, tuag at y bobl a gyflogir yn y diwydiant hwnnw, i gefnogi argymhellion y Comisiwn i ddisgyblu masnach annheg gan wledydd trydydd parti, ac i ddefnyddio eu dylanwad i annog Llywodraeth y DU i gefnogi'r safbwynt hwnnw.

Most of the actual increase in imports has been as a result of Chinese rebar imports. Recent years have seen a vast increase in the use of imported steel reinforcement for concrete, or rebar, which substantially damages local industry and also contributes to environmental pollution. The worst example of surging unfairly traded steel has been the import of Chinese rebar. Historically, the Chinese never sold rebar in the European Union, probably because the cost of transport alone made their product uncompetitive. However, stimulated by their own excess capacity, the Chinese rose to take 36 per cent of the rebar market in the second quarter of 2014. A surge of this proportion is unprecedented. There's also concern that substandard steel reinforcing bar imports have increased tenfold over the past two years, and are putting domestic manufacturers and jobs at risk.

The UK Certification Authority for Reinforcing Steels has verified that some of the rebar sold in the UK does not comply with British standards, which is why we ask for the Welsh Government to actually look at influencing procurement policies in particular with regard to use of the British standards. Why is that? Chinese data show that all the rebar sold in the UK has small amounts of other elements added in order to qualify the steel as alloy, and must benefit from their own export tax rebates. A significant but unknown proportion of the Chinese rebar sold in the UK contains boron in excess of 8 parts per million. Samples have been tested with boron at 30 parts per million, and the Welding Institute has issued guidance that rebar containing boron in excess of 5 parts per million should require different welding techniques. So, there is a real but unquantifiable risk that welded structures using Chinese rebar could fail.

The other argument we put forward is an environmental one. Non-EU imports can contain as little as 15 per cent recycled material, making it a highly unsustainable product. In contrast, steel rebar made here in Cardiff, for example, is made from 98 per cent recycled material. In addition, steel made in the UK historically travels fewer than 500 miles from scrap metal dealer to construction site. Some of the imports, whether they be from Turkey or China, can travel as much as 10,000 miles to reach their destination.

Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd mewn mewnforion wedi bod o ganlyniad i fewnforion barrau atgyfnerthu dur o Tsieina. Mae cynnydd enfawr wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf yn y defnydd o farrau atgyfnerthu dur wedi'u mewnforio ar gyfer concret, neu 'rebar', sy'n niweidio diwydiant lleol yn sylweddol a hefyd yn cyfrannu at lygredd amgylcheddol. Yr enghraifft waethaf a welwyd o'r ymchwydd mewn dur wedi'i fasnachu'n annheg yw mewnforio barrau atgyfnerthu o Tsieina. Yn hanesyddol, nid oedd Tsieina yn arfer gwerthu barrau atgyfnerthu yn yr Undeb Ewropeaidd, yn ôl pob tebyg am fod costau cludiant yn unig yn gwneud eu cynnyrch yn anghystadlneuol. Fodd bynnag, wedi'u hysgogi gan eu gorgapasiti eu hunain, cynyddodd Tsieina ei chyfran o'r farchnad barrau atgyfnerthu i 36 y cant yn ail chwarter 2014. Mae ymchwydd o'r maint hwn yn ddigynsail. Mae pryder hefyd fod dengwaith cymaint o farrau atgyfnerthu dur is-safonol wedi cael ei fewnforio dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan roi gweithgynhyrchwyr a swyddi domestig mewn perygl yn ogystal.

Mae Awdurdod Ardystio y DU ar gyfer Duroedd Atgyfnerthu wedi cadarnhau nad yw peth o'r cynnyrch atgyfnerthu dur a werthir yn y DU yn cydymffurfio â'r safonau Prydeinig, a dyna pam y gofynnwn i Lywodraeth Cymru ystyried dylanwadu ar bolisiau caffael yn benodol mewn perthynas â defnydd o'r safonau Prydeinig. Pam hynny? Mae data Tseiniaidd yn dangos bod yr holl farrau atgyfnerthu dur a werthir yn y DU yn cynnwys ychydig bach o elfennau eraill wedi eu hychwanegu er mwyn i'r dur fod yn gymwys i'w alw'n aloi, a rhaid ei fod yn elwa o'u had-daliadau treth allforio eu hunain. Mae cyfran sylweddol ond anhysbys o'r barrau atgyfnerthu Tseiniaidd a werthir yn y DU yn cynnwys lefelau boron sy'n uwch na 8 rhan y filiwn. Mae samplau wedi cael eu profi sy'n cynnwys lefelau boron ar 30 rhan y filiwn, ac mae'r Sefydliad Weldio wedi cyhoeddi canllawiau y dylai barrau atgyfnerthu sy'n cynnwys lefelau boron dros 5 rhan y filiwn alw am ddefnyddio technegau weldio gwahanol. Felly, mae perygl gwirioneddol ond anfesuradwy y gallai strwythurau sydd wedi eu weldio gan ddefnyddio barrau atgyfnerthu o Tsieina fethu.

Mae'r ddadl arall rydym yn ei chyflwyno yn un amgylcheddol. Gall mewnforion o'r tu hwnt i'r UE gynnwys cyn lleied â 15 y cant o ddeunydd wedi'i ailgylchu, gan ei wneud yn gynnyrch anghynaliadwy iawn. Ar y llaw arall, mae barrau atgyfnerthu dur a wneir yma yng Nghaerdydd, er enghraifft, yn cynnwys 98 y cant o ddeunydd ailgylchu. Yn ogystal, mae dur a wnaed yn y DU yn hanesyddol yn teithio llai na 500 milltir rhwng y deliwr metel sgrap a'r safle adeiladu. Gall rhai o'r mewnforion, boed o Dwrci neu Tsieina, deithio cymaint â 10,000 o filltiroedd i gyrraedd eu cychfan.

So, what we ask is that the Welsh Government take the lead and ensure that all procurement over which it has any influence is based on a total value-for-money assessment. I listened very carefully to the response given by the Minister for Finance and Government Business yesterday to the question from Jenny Rathbone, in which she indicated that there was a reluctance to actually adopt what might be perceived as being a protectionist policy. But we know full well that there are European countries that use different techniques to actually enforce local supply, and the technique in this case could be that the Government should ask that all procurement policies be based on a total value-for-money assessment, including the positive economic impact of sourcing locally, and also the environmental cost of not sourcing locally.

My other colleagues will actually provide greater detail with regard to procurement pressures that can be brought to bear by the Welsh Government. This isn't an attempt to dictate protectionist policies whatsoever, but it is an attempt to ask the Government to have regard to the environmental and safety consequences of this move, and the fact that imports now are accounting for a much greater share of the British market. After all, if the UK and Welsh Governments are actually seeking to address some of the problems that we have within our own economy by increasing infrastructure investment and providing investment opportunities within the construction industry, surely one of the main effects of that policy should be to provide work and, if at all possible, increase employment opportunities within the UK and, more importantly, here in Wales.

15:11

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think Aled Roberts makes some very important points about the sustainability of the supply chain, and the importance of recycling steel locally and of not having steel products coming from thousands of miles away, which obviously adds to carbon emissions. So, I think it's extremely important that we maintain a domestic steel industry that is the foundation stone not only of the construction industry but of most other forms of manufacturing. So, this is an absolutely key industry for us.

I think one of the issues that hasn't been discussed in this so far is the cost of the energy required to operate a steel plant, and the comparative expensiveness of the cost of electricity in the UK compared with competitors, say, in Germany, France or Norway. I think that that has been a very significant issue for steel producers in Wales. I think that it's partly to do with the fact that electricity prices have now been loaded with different levies, supposedly to be applied to mitigate climate change by forcing the electricity suppliers to invest in renewables, but I'm afraid that the results have, so far, been pretty disappointing. Meanwhile, the steel industry is having to pay a much greater cost for their energy, because of, in my view, the UK Government's failure to diversify out of oil, gas and coal-based energy generation. That is most definitely very, very notable when you compare our performance with Germany's. In the UK, less than 1 per cent of electrical generation from renewables is in the steel industry. So, it's really no wonder that the steel industry is struggling in this country for the lack of a micro-industrial policy.

Felly, yr hyn a ofynnwn yw bod Llywodraeth Cymru yn arwain y blaen ac yn sicrhau bod yr holl gaffael y mae ganddi unrhyw ddylanwad drosto yn seiliedig ar asesiad o gyfanswm gwerth am arian. Gwrandewais yn astud iawn ar yr ymateb a roddodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ddoe i gwestiwn Jenny Rathbone, pan nododd fod yna amharodrwydd i fabwysiadu'r hyn y gellid ei ystyried yn bolisi gwarchodol. Ond gwyddom fod yna wledydd Ewropeaidd sy'n defnyddio gwahanol dechnegau i orfodi cyflenwi lleol, ac yn yr achos hwn mae'n bosibl mai'r dechneg orau fyddai i'r Llywodraeth ei gwneud yn ofynnol i bob polisi caffael fod yn seiliedig ar asesiad o gyfanswm gwerth am arian, gan gynnwys effaith economaidd gadarnhaol cyrchu'n lleol, yn ogystal â chost amgylcheddol peidio â chyrchu'n lleol.

Bydd fy nghydweithwyr eraill yn rhoi mwy o fanylion o ran pwysau caffael y gellir ei roi ar Lywodraeth Cymru. Nid ymgais mo hon i bennu polisiau gwarchodol o gwbl, ond ymgais i ofyn i'r Llywodraeth roi sylw i ganlyniadau newid o'r fath o ran yr amgylchedd a diogelwch, a'r ffaith fod cyfran lawer mwy o'r farchnad Brydeinig yn fewnforion bellach. Wedi'r cyfan, os yw Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael mewn gwirionedd â rhai o'r problemau sydd gennym o fewn ein heconomi hunain drwy gynyddu buddsoddi yn y seilwaith a darparu cyfleoedd buddsoddi yn y diwydiant adeiladu, 'does bosibl nad un o brif effeithiau'r polisi hwnnw fyddai darparu gwaith, ac os yn bosibl, cynyddu cyfleoedd cyflogaeth yn y DU, ac yn bwysicach, yma yng Nghymru.

Credaf fod Aled Roberts yn gwneud rhai pwyntiau pwysig iawn ynghylch cynaliadwyedd y gadwyn gyflenwi, a phwysigrwydd ailgylchu dur yn lleol a pheidio â chael cynnyrch dur yn dod yma o filoedd o filltiroedd i ffwrdd, sy'n amlwg yn ychwanegu at allyriadau carbon. Felly, credaf ei bod yn eithriadol o bwysig ein bod yn cynnal diwydiant dur domestig sy'n sylfaen, nid yn unig i'r diwydiant adeiladu, ond i'r rhan fwyaf o fathau eraill o weithgynhyrchu. Felly, mae hwn yn ddiwydiant cwbl allweddol i ni.

Credaf mai un o'r materion sydd heb eu trafod hyd yn hyn yw cost yr ynni sydd ei angen i weithredu gwaith dur, a chostau cymharol trydan yn y DU o gymharu â chystadleuwyr, er enghraifft, yn yr Almaen, Ffrainc neu Norwy. Credaf fod hynny wedi bod yn fater o bwys mawr i gynhyrchwyr dur yng Nghymru. Credaf fod hynny'n ymwneud yn rhannol â'r ffaith fod prisiau trydan yn cynnwys nifer o wahanol ardollau, a fwrriadwyd er mwyn lliniaru'r newid yn yr hinsawdd drwy orfodi'r cyflenwyr trydan i fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, ond rwy'n ofni bod canlyniadau hyd yn hyn wedi bod yn eithaf siomedig. Yn y cyfamser, mae'r diwydiant dur yn gorfod talu llawer mwy am ei ynni, oherwydd methiant Llywodraeth y DU, yn fy marn i, i arallgyfeirio o gynhyrchu ynni'n seiliedig ar olew, nwy a glo. Mae hynny'n arbennig o amlwg os cymharwch ein perfformiad â pherfformiad yr Almaen. Yn y DU, mae llai nag 1 y cant o gynhyrchiant trydan o ffynonellau adnewyddadwy yn y diwydiant dur. Felly, nid yw'n syndod fod y diwydiant dur yn ei chael hi'n anodd yn y wlad hon oherwydd diffyg polisi micro-ddiwydiannol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The recovery that Mr Osborne talks about is built on a mountain of debt, rather than any substance in relation to a manufacturing policy. So, we have to worry about what can be done, in the immediate term, to sustain our steel industry until we have a Government that's keen to develop a manufacturing policy. There has been some compensation granted to energy-intensive industries since 2012. However, the effects of these relief measures so far have not been as great as promised. Celsa Steel, for example, is expecting to pay £4 million more in 2015 than in 2010 for its electricity bills.

Mae'r adferiad y mae Mr Osborne yn sôn amdano wedi ei adeiladu ar fynydd o ddyled, yn hytrach nag unrhyw sylwedd o ran polisi gweithgynhyrchu. Felly, mae'n rhaid i ni bryderu ynghylch yr hyn y gellir ei wneud, yn y tymor byr, i gynnal ein diwydiant dur hyd nes y bydd gennym Lywodraeth sy'n awyddus i ddatblygu polisi gweithgynhyrchu. Rhoddwyd rhywfaint o iawndal i ddiwydiannau ynni-ddwys ers 2012. Fodd bynnag, hyd yma nid yw effeithiau'r mesurau lliniarol wedi bod cystal ag a addawyd. Mae Celsa Steel, er enghraifft, yn disgwyl talu £4 miliwn yn fwy am ei drydan yn 2015 o gymharu â 2010.

15:14 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:14 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes.

Gwnaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:14 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would you accept that, in the 2014 budget, there was an undertaking by the UK Government to increase the renewables obligation? Although I accept that that was deferred until 2016, one of the issues that we need to ensure with the incoming Government, whoever that may be, is that, as soon as state aid clearance is obtained for those renewables obligations, they are actually immediately put into effect?

A fydddech yn derbyn bod Llywodraeth y DU yng nghyllideb 2014 wedi addo cynyddu'r ymrwymiad i ynni adnewyddadwy? Er fy mod yn derbyn bod hynny wedi ei ohirio nes 2016, un o'r materion y mae angen i ni ei sicrhau gyda'r Llywodraeth newydd, pwy bynnag a fyddant, yw bod y rhwymedigaethau ynni adnewyddadwy hynny'n cael eu rhoi ar waith yn syth ar ôl sicrhau caniatâd o ran cymorth gwladwriaethol?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:14 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I agree with that, and I was about to mention that that has been recognised and that, in theory, there will be some further mitigation coming forward in the autumn of 2016, assuming that we get the permission from the European Union, to ensure that that isn't deemed to be state aid, or that it's allowable state aid.

Ydw, rwy'n cytuno â hynny, ac roeddwn ar fin sôn bod hynny wedi cael ei gydnabod, ac mewn egwyddor, y bydd mesurau lliniaru pellach yn cael eu cyflwyno yn hydref 2016, gan gymryd ein bod yn cael caniatâd gan yr Undeb Ewropeaidd, i sicrhau na fydd hynny'n cael ei ystyried yn gymorth gwladwriaethol, neu ei fod yn gymorth gwladwriaethol a ganiateir.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think, in the meantime, it's interesting to see what the steel industry is able to do for itself. I'm particularly struck by what Tata Steel has been doing on its own site, both its current generation of electricity, which is quite significant, but also the future generation of its own electricity, using some of the steam generated from its production processes to power its new turbines, which will double the amount of electricity it's generating. So, that will make a very significant contribution to reducing the energy bills it has to pay by taking energy from elsewhere, but also it will mean that less of these gases will have to be flared off, which is simply contributing to climate change.

Yn y cyfamsr, credaf ei bod yn ddi-ddorol gweld beth y gall y diwydiant dur ei wneud drosto'i hun. Rwyf wedi fy synnu'n benodol gan yr hyn y mae Tata Steel wedi bod yn ei wneud ar eu safle, o ran eu cynhyrchiant trydan ar hyn o bryd, sy'n eithaf sylweddol, ond hefyd o ran cynhyrchu eu trydan eu hunain yn y dyfodol, gan ddefnyddio peth o'r stêm a gynhyrchir gan eu prosesau i bweru eu tyrbinau newydd, a fydd yn dyblu faint o drydan y maent yn ei gynhyrchu. Felly, bydd hynny'n gwneud cyfraniad sylweddol iawn at leihau'r biliau ynni y mae'n rhaid iddynt eu talu am ynni o fannau eraill, ond mae'n golygu hefyd y bydd yn rhaid tanio llai o'r nwyon hyn sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd.

So, I think that the approach that Tata Steel has taken has been entirely commendable and it's something that other steel producers in Wales ought to be looking at, because ground-source heat pumps, biomass fuels and, indeed, the new tidal power generation that's coming on-stream should help make it a more attractive option for the steel industry in this country.

Felly, rwy'n meddwl bod dull Tata Steel o weithredu wedi bod yn gwbl ganmoladwy ac mae'n rhywbeth y dylai cynhyrchwyr dur eraill yng Nghymru edrych arno gan y dylai pypiau gwres o'r ddaear, tanwyddau biomas ac yn wir, y dull newydd o gynhyrchu ynni'r llanw sy'n dod yn rhan o'r ffrwd cyllido helpu i'w wneud yn opsiwn mwy deniadol ar gyfer y diwydiant dur yn y wlad hon.

15:16	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Time's up.	Amser ar ben.	Senedd.tv Fideo Video
15:16	Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography But, in the meantime, I would like to reiterate what Aled Roberts has said: I do not think that signing the charter for renewable energy is in any way being protectionist; it is merely ensuring that there is a floor of quality in the steel that we are using for our construction.	Ond yn y cyfamser, hoffwn ailadrodd yr hyn a ddywedodd Aled Roberts: nid wyf yn credu bod arwyddo'r siarter ynni adnewyddadwy yn warchodol mewn unrhyw ffordd; mae'n sicrhau bod ansawdd sylfaenol i'r dur a ddefnyddiwn ar gyfer ein gwaith adeiladu, dyna'i gyd.	Senedd.tv Fideo Video
15:16	Paul Davies Bywgraffiad Biography Rwy'n falch o ychwanegu fy enw i at y cynnig hwn gydag Aled Roberts a Rhun ap Iorwerth, sy'n amlwg yn cael ei gefnogi gan Aelodau o'r pedwar plaid yn y Siambr hon. Mae'r cynnig ei hun yn hunanesboniadol. Holl bwynt y ddadl hon yw cydnabod pwysigrwydd y diwydiant dur yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru ac i annog Llywodraeth Cymru i fabwysiadu siarter ar gyfer dur cynaliadwy Prydeinig. Rwy'n falch iawn bod y siarter wedi ei chroesawu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, o gofio bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi dweud, ac rwy'n dyfynnu: Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cefnogi ymdrechion y diwydiant barau atgyfnerthu i ddangos ansawdd a chynaliadwyedd ei gynnyrch. Oherwydd natur trawsbleidiol y cynnig hwn, nid oes rheswm pam na allai Llywodraeth Cymru groesawu'r siarter hon hefyd. Rwy'n siŵr y bydd pob Aelod yn cydnabod bod cynhyrchu dur yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru a'i fod yn darparu cyfogaeth o safon uchel yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy'r gadwyn gyflenwi. Rwy'n siŵr ein bod ni i gyd yn cydnabod y gwahanol sectorau a diwydiannau y mae'r diwydiant dur yn eu cefnogi, ac mae llawer ohonom ni'n adnabod etholwyr sy'n gweithio yn y sectorau hynny, megis y diwydiant moduro, y diwydiant rheilffyrdd ac, wrth gwrs, y diwydiant adeiladu. Nawr, mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud yn glir, er mwyn helpu i ddatblygu a chryfhau'r diwydiant dur yng Nghymru, bod dull rheoli perthynas pwrpasol wedi ei ddatblygu i nodi projectau, ac mae gwaith yn cael ei wneud gyda'r byd academiaidd i hyrwyddo projectau posib a buddsoddiad mewnol. Efallai, wrth ymateb i'r ddadl hon y prynhawn yma, y gall y Gweinidog roi mwy o fanylion i Aelodau am sut y mae'r dull rheoli hwn wedi bod yn gweithio, pa brosiectau sydd wedi cael eu nodi, a sut y mae sefydliadau academiaidd hefyd wedi gweithio yn y fframwaith hwn i gefnogi'r diwydiant dur.	I am pleased to add my name to this motion with Aled Roberts and Rhun ap Iorwerth, and it is clearly supported by Members of the four parties in this Chamber. The motion itself is self-explanatory. The whole point of this debate is to recognise the importance of the steel industry in the United Kingdom and in Wales and to urge the Welsh Government to adopt the sustainable British steel charter. I am very pleased that the charter has been welcomed by the UK Government, given that the Secretary of State for Wales has said, and I quote: 'The UK Government supports the efforts of the rebar industry to demonstrate the quality and sustainability of its product.' Given the cross-party nature of this motion, there is no reason why the Welsh Government couldn't welcome this charter as well. I am sure that all Members will acknowledge that steel production makes a significant contribution to the Welsh economy and provides high-quality employment both directly and indirectly, through the supply chain. I am sure that we all recognise the different sectors and industries that the steel industry supports, and many of us know constituents who work in those sectors, such as the automotive industry, the rail industry and, of course, the construction industry. Now, the Welsh Government has made it clear that, in order to help develop and strengthen the steel industry, a dedicated relationship management approach has been developed to identify projects, and work is being done with academia to promote potential projects and internal investment. Perhaps, in responding to the debate this afternoon, the Minister could give us more details of how this management approach has worked, which projects have been identified, and how academic institutions have worked within that framework to support the steel industry.	Senedd.tv Fideo Video

Wrth gwrs, gall Llywodraeth Cymru hefyd gefnogi'r diwydiant dur yn well drwy ei pholisïau caffael. Yn wir, mae'r siarter yn cydnabod y manteision: pan fo arian yn cael ei fuddsoddi mewn projectau cyhoeddus a phreifat, yna mae'n cael ei ailgylchu yn economi Prydain drwy brynu cynnyrch a gynhyrchir yn ddomestig. Rydym wedi clywed gan wleidyddion ar lefel y Deyrnas Unedig yn union pa mor hanfodol yw caffael i'r diwydiant dur ac, o ystyried bod arferion caffael yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru, efallai y gall y Gweinidog ddweud wrthym yn union pa gamau penodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r sector.

Nawr, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, sy'n cynnwys cynlluniau ar gyfer miliynau o bunnoedd o fuddsoddiad yng Nghymru dros y degawd nesaf—rhywbeth a allai, yn sicr, fod o fudd i'r diwydiant dur yng Nghymru—ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn darparu manylion concrit o sut mae'r Llywodraeth yn mynd i gefnogi'r diwydiant yn y dyfodol. Rydym i gyd yn gwybod bod Tsieina a Thwrci yn rhoi cymhorthdal i'w hallforion dur, sy'n ei gwneud bron yn amhosib i gynnyrch dur y Deyrnas Unedig ac Ewrop gystadlu ar faes chwarae gwastad, ac mae hynny, yn ei dro, yn golygu bod cynhyrchu dur yma yng Nghymru yn dioddef. Fel y dywedodd Aled Roberts, mae mewnfurion o Tsieina nawr yn cyfrif am fwy na thraean o'r farchnad ddur yma yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n tyfu'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn. Felly, mae'n rhaid i Lywodraethau ar bob lefel yn y Deyrnas Unedig feddwl yn arloesol am sut y gallant gefnogi'r diwydiant yn well. Yn wir, drwy gefnogi'r cynnig hwn a mabwysiadu'r siarter ar gyfer dur cynaliadwy Prydeinig, bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i sicrhau y bydd pob proses gaffael y Llywodraeth mewn perthynas â barrau atgyfnerthu dur carbon yn bodloni safon cyrchu cyfrifol BSE 6001.

Rydym i gyd wedi clywed adroddiadau am ansawdd y barrau atgyfnerthu dur sy'n cael eu mewnfurio o Tsieina. Drwy lofnodi'r siarter, bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i safon cyrchu cyfrifol BSE 6001, sy'n golygu bod cynnyrch y gwneuthurwr wedi cael ei gynhyrchu mewn amgylchedd diogel a chyfrifol ac mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.

Gall Llywodraeth Cymru hefyd gefnogi'r diwydiant ymhellach drwy gyflwyno strategaeth ryngweithiol ar gyfer y sectorau diwydiannol yng Nghymru. Rwy'n derbyn bod Llywodraeth Cymru wedi nodi Tata Steel a Celsa Steel UK fel cwmnïau angori allweddol, gan gydnabod eu cyfraniad pwysig i economi Cymru a'u potensial i ddatblygu'r economi drwy gyflogaeth. Ond, yn syml, mae angen gwneud mwy. O ystyried pwysigrwydd dur i'r sector gweithgynhyrchu, mae'n hanfodol bod yna flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r diwydiant dur.

Of course, the Welsh Government can also support the steel industry more effectively through its procurement policies. Indeed, the charter recognises the benefits: when money is invested in public and private projects, it is then recycled in the British economy through the purchasing of domestically produced goods. We have heard from politicians at the UK level just how vital procurement is to the steel industry, and given that procurement practices are the responsibility of the Welsh Government, perhaps the Minister can tell us exactly what specific steps the Welsh Government is taking to support the sector.

Now, the Welsh Government has published its infrastructure investment plan for Wales, which includes plans for millions of pounds of investment in Wales over the next decade—something that could certainly be of benefit to the steel industry in Wales—and I hope that the Minister will provide some concrete details of how the Government is going to support the industry in the future. We all know that China and Turkey provide subsidies for their steel exports, making it almost impossible for steel produced in the UK and Europe to compete on a level playing field, and that, in turn, means that steel production here in Wales does suffer. As Aled Roberts said, Chinese imports now account for more than a third of the steel market here in the UK, and they are growing significantly from year to year. So, Governments at all levels in the UK have to think innovatively about how they can support the industry more effectively. Indeed, by supporting this motion and adopting the charter for sustainable British steel, the Welsh Government will be committing itself to ensuring that all Government carbon steel rebar procurement processes meet the BSE 6001 standard.

We have all heard reports about the quality of carbon steel rebar imported from China. By signing the charter, the Welsh Government will commit to the BSE 6001 standard, which means that the manufacturer's product is produced in a safe and responsible manner and in a way that is environmentally friendly.

The Welsh Government can also support the industry further by introducing a proactive strategy for the industrial sectors in Wales. I accept that the Welsh Government has identified Tata Steel and Celsa Steel UK as key anchor companies, recognising their important contribution to the Welsh economy and their potential to develop the economy through employment. But, quite simply, more needs to be done. Given the importance of steel to the manufacturing sector, it is essential that priority be given to the steel industry.

Lywydd, mae gan sefydliadau addysg uwch Cymru hanes da o weithio gyda chwmnïau dur mawr yng Nghymru, ac rwy'n derbyn bod Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i gryfhau ei strategaeth ar gyfer hyrwyddo sgiliau STEM, a fydd yn helpu i feithrin y diwydiant a darparu gweithwyr medrus ar gyfer y dyfodol. Mae'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol hefyd wedi dangos ei chefnogaeth i beirianneg drwy gefnogi cynllun addysg peirianneg Cymru, sy'n darparu rhaglen weithgareddau i ddatblygu sgiliau STEM ac annog dysgwyr i ystyried peirianneg a gweithgynhyrchu fel gyrfaoedd. Felly, rwy'n annog Aelodau i gefnogi'r cynnig yma heddiw.

Presiding Officer, Welsh higher education institutions have a good history of working with major steel companies in Wales, and I accept that the Welsh Government has set out to strengthen its strategy for promoting STEM skills, which will help nurture the industry and provide skilled workers for the future. The National Science Academy has also demonstrated its support for engineering by supporting an engineering education scheme for Wales, which provides a programme of activities to develop STEM skills and encourages learners to consider engineering and manufacturing as possible careers. So, I urge members to support this motion today.

15:22

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm very pleased to speak in this afternoon's debate on the steel industry in Wales, because, as Members will be aware, my constituency contains my home town of Port Talbot, a very proud steel town, and an industry that has provided jobs and apprenticeships to the people of my town and the area for over 100 years. In fact, steel has been produced in Port Talbot since 1902 in large-scale steel-making, and it is probably the only steelmaking plant left in Wales, because I don't think there are any other blast furnaces in Wales that make steel today. So, we have a history, we have an industry and we have a vital aspect of our economy in the Abbey works in Port Talbot.

The steel industry is not a sunset industry; it's an industry that has a future. In fact, it should have a vibrant and economically viable future here in Wales and in the UK, and in the global marketplace. It's a vital strategic industry, as has already been mentioned, and it exists here in Wales. It is fundamental to strategic sectors. Construction has been mentioned. There is also the automotive sector, our white goods sector and other manufacturing sectors, and as Jenny Rathbone has pointed out, there is also the recycling as well, because it undertakes that aspect as well, so it's suited to an aspect of sustainability.

The World Steel Association has estimated that global steel use will rise from 1.5 billion tonnes a year currently to around 2.5 billion tonnes by 2050. And consequentially, the steel industry can contribute direct jobs and investment plus innovation, skills and a broader economic regional growth that has the potential to enjoy a long, sustainable and productive future here in Wales.

But the industry does face a number of urgent and critical challenges today. A true, meaningful partnership between industry and Government is required to overcome these challenges; Paul Davies mentioned all levels of Government, and I agree with that. I also appreciate the work that has already been done by the Welsh Government, particularly by the First Minister and the Minister for Economy, Science and Transport in actually working to build that partnership here in Wales, and I would particularly highlight the work that they've done with Tata Steel in my town. Through this, the value that the sector contributes to Wales will not just be maintained—it actually should be growing.

Rwy'n falch iawn o gael siarad yn y ddadl y prynhawn yma ar y diwydiant dur yng Nghymru, oherwydd, fel y gŵyr yr Aelodau, mae fy etholaeth yn cynnwys fy nhref enedigol, sef Port Talbot, tref ddur falch iawn a diwydiant sydd wedi darparu swyddi a phrentisiaethau i bobl fy nhref a'r ardal ers dros 100 mlynedd. Yn wir, cynhyrchwyd dur ym Mhort Talbot ers 1902 mewn diwydiant cynhyrchu dur ar raddfa fawr, ac mae'n debyg mai dyma'r unig safle cynhyrchu dur sydd ar ôl yng Nghymru, gan nad wyf yn credu bod unrhyw ffwrneisi chwyth eraill yng Nghymru yn cynhyrchu dur heddiw. Felly, mae gennym hanes, mae gennym ddiwydiant ac mae gennym agwedd hanfodol ar ein heconomi yng ngweithfeydd dur Abbey ym Mhort Talbot.

Nid yw'r haul yn machlud ar y diwydiant dur; mae'n ddiwydiant ag iddo ddyfodol. Yn wir, dylai fod iddo ddyfodol bywiog a hyfyw yn economaidd yma yng Nghymru ac yn y DU, ac yn y farchnad fyd-eang. Mae'n ddiwydiant strategol hollbwysig, fel y crybwyllwyd eisoes, ac mae'n bodoli yma yng Nghymru. Mae'n hanfodol i sectorau strategol. Soniwyd am adeiladu. Mae'n hanfodol hefyd i'r sector moduro, ein sector nwyddau gwynion a sectorau gweithgynhyrchu eraill, ac fel y nododd Jenny Rathbone, mae mater ailgylchu hefyd, gan ei fod yn cyflawni'r agwedd honno hefyd, felly mae'n gweddu fel agwedd ar gynaliadwyedd.

Mae Cymdeithas Dur y Byd wedi amcangyfrif y bydd y defnydd o ddur yn fyd-eang yn codi o 1.5 biliwn o dunelli y flwyddyn ar hyn o bryd i oddeutu 2.5 biliwn o dunelli erbyn 2050. O ganlyniad, gall y diwydiant dur gyfrannu swyddi uniongyrchol a buddsoddiad yn ogystal ag arloesedd, sgiliau a thwf economaidd rhanbarthol ehangach gyda photensial i gael dyfodol hir, cynaliadwy a chynhyrchiol yma yng Nghymru.

Ond mae'r diwydiant yn wynebu nifer o heriau dwys ac allweddol heddiw. Mae angen partneriaeth ddilys ac ystyrlon rhwng diwydiant a'r Llywodraeth i oresgyn yr heriau hyn; crybwyllodd Paul Davies bob lefel o Lywodraeth, ac rwy'n cytuno â hynny. Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig gan y Prif Weinidog a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth sy'n gweithio i ddatblygu'r bartneriaeth honno yma yng Nghymru a hoffwn dynnu sylw arbennig at y gwaith y maent wedi'i wneud gyda Tata Steel yn fy nhref. Drwy hyn, bydd y gwerth y mae'r sector yn ei gyfrannu i Gymru nid yn unig yn cael ei gynnal—mewn gwirionedd, fe ddylai fod yn tyfu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

And we know that in order to build the right conditions for that growth and the long-term investment we need to attract investment into Wales, because it is an attractive area for the location of manufacturing—we have some of the core skills already here—we must continue to demonstrate innovation. We must continue to actually develop the skills and sustainability. For example, Tata Steel in Port Talbot are already working with Swansea University. Paul Davies mentioned some of the HE work. Specifically in my area is a perfect example of the work going on, not just in linking the work in the steel industry, but also how that steel can go into manufacturing, and the new coatings that are produced can actually create new energy-generating buildings as a consequence of that. So, opportunities do exist here in Wales.

We must also ensure that we maximise the value capture for Wales, and the supply chains here in Wales. The changing nature of the economy has meant that we now import most of our steel—I think Aled Roberts already highlighted the points on that aspect. Most of the steel, actually—. In the 1970s, 90 per cent of the steel made in Britain was used in Britain. Unfortunately, that's gone down to about 20 per cent. But, the amount of steel being used hasn't changed, so you can see that we've lost a large portion of our own market as a consequence of that, and we must look at how we can do that. I agree with Paul Davies there are areas that we can't deal with, but we need a level playing field, at least in Europe, and that's an important aspect.

Now, the demand for steel in 2015 is forecast to be 75 per cent of pre-recession levels. In Germany, it's actually 94 per cent, and in China, 180 per cent of the growth is there. For a capital-intensive business, like steel, these demand levels are a problem for us. In 2012, the UK metal sector was worth £45.5 billion to the economy. In Port Talbot, it currently employs 3,500 people directly, and probably the equivalent amount of people on contract-basis—high-value, high-skilled opportunities—and that's an area of the economy that we must continue to look at.

Talking about the economy, I cannot miss the opportunity, in this debate, to express my huge concern over the recent announcement by Tata Steel to close the British Steel pension scheme to all members. Our economy is also built upon people's pensions, and on pensions staying in our area, and I hope, Minister, that you will be able to work with the First Minister, perhaps, to meet with management and unions to see if we can resolve this issue and come to an agreement that is of benefit to all, and particularly of benefit to the industry.

I want to make one final point. The commitment of the workforce cannot be overstated. I hope that I don't need to remind anyone of the dangers they face daily, working in the steel industry. Port Talbot steelworks has seen many tragedies, and many people—young and old—have lost their lives. Many more have suffered severe injuries. We need to ensure that we not only develop our industry, but that we protect our workers, so we can build that economy in our locality.

Ac er mwyn datblygu'r amodau cywir ar gyfer y twf a buddsoddiad hirdymor, gwyddom fod angen i ni ddenu buddsoddiad i Gymru, oherwydd ei bod yn ardal ddeniadol ar gyfer lleoli diwydiannau gweithgynhyrchu—mae gennym rai o'r sgiliau craidd yma eisoes—rhaid i ni barhau i ddangos arloesedd. Rhaid i ni barhau i ddatblygu sgiliau a chynaliadwyedd. Er enghraifft, mae Tata Steel ym Mhort Talbot eisoes yn gweithio gyda Phrifysgol Abertawe. Crybwyllodd Paul Davies rywfaint o'r gwaith Addysg Uwch. Yn benodol, mae enghraifft berffaith o'r gwaith sy'n digwydd i'w gweld yn fy ardal i, nid yn unig o ran cysylltu â'r gwaith yn y diwydiant dur, ond hefyd o ran y modd y gellir cynnwys dur mewn prosesau gweithgynhyrchu a gall yr haenau newydd sy'n cael eu cynhyrchu greu adeiladau newydd sy'n cynhyrchu ynni o ganlyniad i hynny. Felly, mae cyfleoedd i'w cael yma yng Nghymru.

Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr hefyd ein bod yn sicrhau'r gwerth mwyaf i Gymru, a'r cadwyni cyflenwi yma yng Nghymru. Mae natur newidiol yr economi wedi golygu ein bod bellach yn mewnfario'r rhan fwyaf o'n dur—rwy'n meddwl bod Aled Roberts eisoes wedi tynnu sylw at y pwyntiau ar yr agwedd honno. Y rhan fwyaf o'r dur, a dweud y gwir—. Yn y 1970au, câi 90 y cant o'r dur a wneid ym Mhrydain ei ddefnyddio ym Mhrydain. Yn anffodus, mae hynny wedi mynd i lawr i tua 20 y cant. Ond nid yw faint o ddur sy'n cael ei ddefnyddio wedi newid, felly gallwch weld ein bod wedi colli cyfran fawr o'n marchnad ein hunain o ganlyniad i hynny a rhaid inni edrych ar sut y gallai hynny fod. Rwy'n cytuno â Paul Davies fod yna feysydd na allwn ymdrin â hwy, ond mae angen maes chwarae gwastad, yn Ewrop o leiaf, ac mae honno'n agwedd bwysig.

Yn awr, rhagwelir y bydd y galw am ddur yn 2015 yn 75 y cant o lefel y galw cyn y dirwasgiad. Yn yr Almaen, mae'n 94 y cant, ac yn Tsieina, mae 180 y cant o dwf yno. Ar gyfer busnes cyfalaf-ddwys, fel dur, mae'r lefelau galw hyn yn broblem i ni. Yn 2012, roedd sector metel y DU yn werth £45.5 biliwn i'r economi. Ym Mhort Talbot, mae ar hyn o bryd yn cyflogi 3,500 o bobl yn uniongyrchol, a nifer cyfatebol o bobl, yn ôl pob tebyg, ar sail contract—cyfleoedd gwerth uchel, sgiliau uwch—a dyna ran o'r economi y mae'n rhaid inni barhau i edrych arni.

A siarad am yr economi, ni allaf anwybyddu'r cyfle yn y ddadl hon i fynegi fy mhryder mawr ynghylch y cyhoeddiad diweddar gan Tata Steel ynglŷn â chau cynllun pensiwn Dur Prydain i bob aelod. Mae ein heconomi wedi'i hadeiladu ar bensiynau pobl hefyd ac ar sicrhau bod pensiynau'n aros yn ein hardal, ac rwy'n gobeithio, Weinidog, y gallwch weithio gyda'r Prif Weinidog, efallai, i gyfarfod â'r rheolwyr a'r undebau i weld os gallwn ddatrys y mater a dod i gytundeb sydd o fudd i bawb, ac i'r diwydiant yn arbennig.

Rwyf am wneud un pwynt olaf. Ni ellir gorbwysleisio ymroddiad y gweithlu. Gobeithio nad oes angen i mi atgoffa neb o'r peryglon y maent yn eu hwynebu'n ddyddiol wrth weithio yn y diwydiant dur. Mae llawer o drasiadau wedi taro gwaith dur Port Talbot a llawer o bobl—hen ac ifanc—wedi colli eu bywydau. Mae llawer mwy wedi dioddef anafiadau difrifol. Mae angen i ni sicrhau ein bod nid yn unig yn datblygu ein diwydiant, ond ein bod yn diogelu ein gweithwyr er mwyn inni allu datblygu'r economi hon yn ein hardal.

British steel is quality steel manufactured with high production values. Steel is a foundation industry in Wales and the UK, employing 30,000 people, but fierce competition from importers means that margins remain tight. Let me repeat that although steel demand across the UK was up 15 per cent in the first 10 months of last year, steel imports rose 24 per cent as UK output rose only 3 per cent, with overseas producers taking 60 per cent of the market. Our steel industry is not protectionist, but it is entitled to protection against unfair trade. That's why we're calling for the Welsh Government to adopt the charter for British sustainable steel, pledging only to purchase carbon steel reinforcement for concrete from suppliers adhering to the framework standard for responsible sourcing.

North-east Wales needs world-class manufacturing for a world-class workforce. Tata Steel Colours at Shotton is a dynamic business and big exporter, and critically dependent upon the supply chain for sustainable British steel. They apply twenty-first century innovation in their buildings, and their Shotton site offers huge potential for development. However, they're directly affected by sub-standard imports of carbon steel rebar because of their reliance on feedstock from the heavy end in south Wales. As they told me, this issue affects subsequent parts of the supply chain. They also emphasise their commitment to investment in sustainability. They're working with the Welsh Government and Natural Resources Wales to meet the industrial emissions directives. Their commitment to improving their environmental performance is making a big contribution to Welsh Government targets.

Tata Steel is a leading Welsh Government anchor company, and the largest private investor into the Welsh economy. Cardiff Business School has calculated that 18,000 jobs depend on them, and they are Wales's largest, by volume, exporter and user of transport infrastructure. They have over 300 apprentices in the pipeline and will be recruiting over 100 this year, and have relationships with key Welsh universities for teaching, training, research and development. They're also a major investor into our communities. They recognise that some important competitiveness challenges have been acknowledged by the UK and Welsh Governments, and accept that they must shoulder primary responsibility for offering practical solutions. However, they add that the industry faces some important challenges, and they state that a true meaningful partnership between industry and government is required to overcome this. Getting this right would not just maintain the sector's contribution to Wales, but also grow it into the future.

Mae Dur Prydain yn ddu o safon uchel a weithgynhyrchwyd gan ddefnyddio gwerthoedd cynhyrchu uchel. Mae dur yn ddiwydiant sylfaen yng Nghymru a'r DU sy'n cyflogi 30,000 o bobl, ond mae cystadleuaeth ffyrnig gan fewnforwyr yn golygu bod maint yr elw'n parhau'n fach. Gadewch i mi ailadrodd, er bod y galw am ddu ledled y DU 15 y cant yn uwch yn ystod 10 mis cyntaf y llynedd, cynyddodd mewnfurion dur 24 y cant er mai 3 y cant yn unig o gynnydd a fu yn allbwn y DU, gyda 60 y cant o'r farchnad yn mynd i gynhyrchwyr tramor. Nid yw ein diwydiant dur yn warchodol ond mae ganddo hawl i gael ei ddiogelu rhag masnach annheg. Dyna pam y galwn ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu'r siarter ar gyfer dur cynaliadwy Prydeinig, gan addo prynu atgyfnerthiad dur carbon ar gyfer concrit gan gyflenwyr sy'n cadw at fframwaith y safon cyrchu cyfrifol yn unig.

Mae gogledd-ddwyrain Cymru angen gweithgynhyrchiant o'r radd flaenaf ar gyfer gweithlu o'r radd flaenaf. Mae Tata Steel Colours yn Shotton yn fusnes deinamig, yn allforiwr mawr ac yn gwbl ddibynol ar y gadwyn gyflenwi ar gyfer dur cynaliadwy Prydeinig. Maent yn defnyddio arloesedd yr unfed ganrif ar hugain yn eu hadeiladau ac mae eu safle yn Shotton yn cynnig potensial enfawr ar gyfer datblygu. Fodd bynnag, cânt eu heffeithio'n uniongyrchol gan fewnfurion is-safonol o farrau atgyfnerthu dur carbon oherwydd eu dibyniaeth ar gynnyrch o'r pen trwm yn ne Cymru. Fel y dywedwyd wrthyf, mae'r mater hwn yn effeithio ar rannau dilynol o'r gadwyn gyflenwi. Maent hefyd yn pwysleisio eu hymrwymiad i fuddsoddi mewn cynaliadwyedd. Maent yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i gydymffurfio â'r cyfarwyddbau allyriadau diwydiannol. Mae eu hymrwymiad i wella eu perfformiad amgylcheddol yn cyfrannu'n fawr at dargedau Llywodraeth Cymru.

Mae Tata Steel yn un o gwmnïau angori blaenllaw Llywodraeth Cymru, a'r buddsoddwr preifat mwyaf yn economi Cymru. Mae Ysgol Fusnes Caerdydd wedi cyfrifo bod 18,000 o swyddi yn dibynnu arnynt a dyma allforwyr mwyaf Cymru, a'r defnyddwyr mwyaf ar y seilwaith trafniadaeth yn ôl cyfaint. Mae ganddynt dros 300 o brentisiaethau yn yr arfaeth a byddant yn recriwtio dros 100 eleni. Mae ganddynt gysylltiadau â phrifysgolion allweddol yng Nghymru ar gyfer addysgu, hyfforddi, ymchwil a datblygu. Maent hefyd yn buddsoddi'n helaeth yn ein cymunedau. Maent yn cydnabod bod rhai heriau pwysig o ran cystadleurwydd wedi cael eu cydnabod gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac yn derbyn mai hwy sydd â'r cyfrifoldeb pennaf dros gynnig atebion ymarferol. Fodd bynnag, maent yn ychwanegu bod y diwydiant yn wynebu rhai heriau pwysig ac yn datgan bod angen partneriaeth ystyrlon rhwng y diwydiant a'r llywodraeth i oresgyn hyn. Byddai cael hyn yn iawn nid yn unig yn cynnal cyfraniad y sector i Gymru, ond hefyd yn ei ehangu ar gyfer y dyfodol.

The UK's metal industry has come together under the metals forum to write the UK's first industrial strategy for the metals industry. This calls for a strategic approach to supply chains, to ensure that activity in any new sectors, like automotive or aerospace, is robustly considered, through to foundation industries like steel and chemicals, so that the fullest value is captured for Wales and the UK. With cost competitiveness being essential for domestic and export success, this calls for a level playing field for assets and energy-intensive businesses like steel, in terms of energy costs and business rates.

They welcomed the Chancellor's plans to reduce energy costs for foundation industries, but want relief against the spiralling costs of the renewable obligation to be brought forward. They also welcomed the Chancellor's removal of plant and machinery from business rates valuations being made a key reference point in the UK Government's business rates review, and they welcomed the proposed extension of the list of qualifying technologies to enhance capital allowances.

However, the changing nature of the economy has meant that the UK now imports more of the steel it consumes, largely in the shape of finished goods. In 1970, 90 per cent of the steel consumed in the UK came from the UK; that share is now below 20 per cent, although consumption is broadly the same. We've heard that UK steel demand is forecast to be at 25 per cent of pre-recession levels, against 94 per cent in Germany and 180 per cent in China. But, for a capital-intensive business like steel, these demand levels are a real problem.

The UK steel sector continues to make radical, and sometimes painful, changes to put itself in the best position it can to compete, and win, in such a market. But, given the long-term nature of the sector, and the nature of its contribution to Wales and the UK, it needs to work in partnership with Governments to achieve this. I therefore urge the Welsh Government to back this motion, and to build the right conditions for long-term steel investment. Thank you.

Mae diwydiant metel y DU wedi dod ynghyd o dan arweiniad y fforwm fetelau i ysgrifennu strategaeth ddiwydiannol gyntaf y DU ar gyfer y diwydiant metelau. Geilw am agwedd strategol tuag at gadwyni cyflenwi er mwyn sicrhau bod gweithgaredd mewn unrhyw sectorau newydd, megis moduro neu awyrofod, yn cael ei ystyried yn drwyadl yr holl ffordd at ddiwydiannau sylfaenol fel dur a chemegau er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf i Gymru a'r DU. Gyda chystadleurwydd o ran y costau'n hanfodol ar gyfer llwyddiant domestig ac allforion, mae galw am faes chwarae gwastad i asedau a busnesau ynni-ddwys fel dur o ran costau ynni ac ardrethi busnes.

Roeddent yn croesawu cynlluniau'r Canghellor i leihau costau ynni ar gyfer diwydiannau sylfaen, ond yn awyddus i weld gostyngiad yng nghostau cynyddol y rhwymedigaeth ynni adnewyddadwy sydd i'w chyflwyno. Roeddent hefyd yn croesawu'r ffaith fod penderfyniad y Canghellor i hepgor peiriannau a pheirianwaith o brisiadau ardrethi busnes wedi ei wneud yn bwynt cyfeirio allweddol yn adolygiad Llywodraeth y DU o ardrethi busnes, ac yn croesawu'r cynnig i ymestyn y rhestr o dechnolegau cymwys er mwyn gwella lwfansau cyfalaf.

Fodd bynnag, mae natur newidiol yr economi wedi golygu bod y DU bellach yn mewnfario mwy o ddur nag y mae'n ei ddefnyddio, yn bennaf ar ffurf nwyddau gorffenedig. Yn 1970, ddi 90 y cant o'r dur a ddefnyddiwyd yn y DU o'r DU; mae'r gyfran honno bellach yn is na 20 y cant, er bod y defnydd yr un fath at ei gilydd. Rydym wedi clywed y rhagwelir y bydd y galw am ddur y DU yn 25 y cant o'r lefelau cyn y dirwasgiad, o gymharu â 94 y cant yn yr Almaen a 180 y cant yn Tsieina. Ond ar gyfer busnes cyfalaf-ddwys fel dur, mae lefelau'r galw yn broblem go iawn.

Mae'r sector dur yn y DU yn parhau i wneud newidiadau radical a phoenus weithiau i sicrhau ei fod yn y sefyllfa orau i allu cystadlu, ac ennill, mewn marchnad o'r fath. Ond o gofio natur hirdymor y sector a natur ei gyfraniad i Gymru a'r DU, mae angen iddo weithio mewn partneriaeth gyda llywodraethau i gyflawni hyn. Felly rwy'n annog Llywodraeth Cymru i gefnogi'r cynnig hwn ac i ddatblygu'r amodau cywir ar gyfer buddsoddiad hirdymor mewn dur. Diolch yn fawr.

15:32

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think it's very clear from the debate today that steel still has a very strong role in the economy and communities of Wales. And, obviously, that's particularly so in some constituencies, and certainly my area of Newport East is one of those, with the big Llanwern works and a number of other steel sites in addition. It is very true that these are still highly skilled, well-paid jobs. There's a lot of investment, a lot of research and development by our steel companies. They are great strengths for Wales, particularly in terms of all the difficulties that manufacturing in general faces. And, of course, the supply chain and the local spend that the steel industry allows are also very, very important to us. So, with that sort of background, Llywydd, I think this is a very worthwhile debate today, and I think there's much common cause across the Chamber in terms of the points made by Members.

Rwy'n credu ei bod yn glir iawn o'r ddadl heddiw fod dur yn dal â rôl gref iawn i'w chwarae yn economi a chymunedau Cymru. Ac yn amlwg, mae hynny'n arbennig o wir mewn rhai etholaethau. Yn sicr, mae fy ardal i yn Nwyrain Casnewydd yn un o'r rheini, gyda gwaith mawr Llan-wern a nifer o safleoedd dur eraill yn ogystal. Mae'n wir fod y rhain yn swyddi medrus iawn sy'n talu'n dda o hyd. Mae yna lawer o fuddsoddi a llawer o ymchwil a datblygu yn cael ei wneud gan ein cwmnïau dur. Maent yn gryfderau gwych i Gymru, yn enwedig o ystyried yr holl anawsterau y mae gweithgynhyrchu yn gyffredinol yn ei wynebu. Ac wrth gwrs, mae'r gadwyn gyflenwi a gwariant lleol y mae'r diwydiant dur yn ei ganiatáu yn hynod o bwysig i ni hefyd. Felly, gyda chefnidir o'r fath, Llywydd, rwy'n credu bod hon yn ddadl werthfawr iawn heddiw ac rwy'n credu bod llawer yn gyffredin rhwng y pwyntiau a wnaed gan yr Aelodau ar draws y Siambr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Certainly, I think that there is much that Welsh Government is doing, and can do. Procurement is one area that's obviously vital to this particular debate, and we know that value-for-money assessment, including local, positive social and economic impacts, is very important to the steel industry, and those factors need to be central to decision making, and contracts given. And we also know, of course, that there's much we can do around energy and energy efficiency, by working with the industry to make sure that expertise and capacity are built to take forward further energy efficiency work, on top of much improvement already made.

I will give way to David Rees.

Yn sicr, credaf fod llawer y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud, ac y gallai ei wneud. Mae caffael yn un maes sy'n amlwg yn hanfodol i'r ddadl benodol hon a gwyddom fod asesiad gwerth am arian, gan gynnwys effeithiau cymdeithasol ac economaidd lleol cadarnhaol yn bwysig iawn i'r diwydiant dur, ac mae angen i'r ffactorau hynny fod yn ganolog wrth wneud penderfyniadau a rhoi contractau. Ac rydym hefyd yn gwybod, wrth gwrs, fod yna lawer y gallwn ei wneud mewn perthynas ag ynni ac effeithlonrwydd ynni, drwy weithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod arbenigedd a gallu yn cael eu datblygu er mwyn symud gwaith pellach ar effeithlonrwydd ynni ei flaen, ar ben y gwelliant helaeth a wnaed eisoes.

Ildiaf i David Rees.

15:34 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I thank the Member for taking an intervention? Do you agree with me that perhaps the UK Government should be looking at schemes to support industries that are making the effort to actually recycle energy, such as Tata Steel, so that they should have some rebate, basically, to allow them to actually pursue that, because they are making the efforts to both recycle and become sustainable, and be environmentally friendly, but they still face some high, intensive costs?

A gaf fi ddiolch i'r Aelod am dderbyn ymyriad? A ydych yn cytuno â mi efallai y dylai Llywodraeth y DU edrych ar gynlluniau i gefnogi diwydiannau sy'n gwneud ymdrech mewn gwirionedd i ailgylchu ynni, megis Tata Steel, fel y dylent gael rhywfaint o ad-daliad, yn y bôn, i'w galluogi i wneud hynny, gan eu bod yn gwneud ymdrech i ailgylchu a dod yn gynaliadwy, a bod yn ecogyfeillgar hefyd, ond maent yn dal i wynebu rhai costau uchel a dwys?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:34 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I absolutely agree with that. I think there's much that UK Government can do, and Welsh Government can do working with the UK Government, and recognising good practice in terms of recycling in general, actually, but recycling of energy as well, makes perfect sense. It can contribute to our climate change targets and our energy policy, and UK Government should recognise and act on that.

Cytunaf yn llwyr â hynny. Rwy'n credu bod llawer y gall Llywodraeth y DU ei wneud, ac y gall Llywodraeth Cymru ei wneud drwy weithio gyda Llywodraeth y DU, a chydabod bod arferion da o ran ailgylchu yn gyffredinol, mewn gwirionedd, ond ailgylchu ynni yn ogystal, yn gwneud synnwyr perffaith. Gall gyfrannu at ein targedau newid yn yr hinsawdd a'n polisi ynni a dylai Llywodraeth y DU gydnabod a gweithredu ar hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Skills is another area where Welsh Government is working very closely with the steel industry in Wales, but I know that the steel industry still feels that there's more that can be done to make sure that the skills they require are available to them. Forging good relationships with local further education colleges and other training providers is crucial to that particular matter.

Mae sgiliau yn faes arall lle y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos iawn gyda'r diwydiant dur yng Nghymru, ond gwn fod y diwydiant dur yn dal i deimlo bod yna fwy y gellir ei wneud i sicrhau bod y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gael iddynt. Mae meithrin perthynas dda gyda cholegau addysg bellach lleol a darparwyr hyfforddiant eraill yn hanfodol i'r mater penodol hwnnw.

We also know that there's a great deal of innovation in the steel industry, and a lot of that is around sustainability. But, again, I think that Welsh Government, and organisations that Welsh Government has relationships with, can play a big part in helping the steel industry to take forward that innovation and that sustainability. So, I think there is much that Welsh Government is doing, but much that can be done because, as always, there is more that we can take forward here in Wales on these particular matters.

Rydym hefyd yn gwybod bod yna lawer iawn o arloesi yn y diwydiant dur ac mae llawer o hynny'n ymwneud â chynaliadwyedd. Ond unwaith eto, credaf fod Llywodraeth Cymru, a sefydliadau y mae gan Lywodraeth Cymru berthynas â hwy, yn gallu chwarae rhan fawr yn helpu'r diwydiant dur i ddatblygu arloesedd a chynaliadwyedd o'r fath. Felly, rwy'n meddwl bod llawer y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud, ond mae llawer y gellir ei wneud oherwydd, fel bob amser, mae yna fwy y gallwn fwrw ymlaen ag ef yma yng Nghymru ar y materion penodol hyn.

The last thing I would say, Llywydd, is that the trade unions, of course, are absolutely key in terms of working with Welsh Government and the steel industry. They have a great deal of experience on the ground—experience of these issues. I know that Welsh Government works very closely with them. So, I hope very much that it will—and I know that it will—continue that close working with the trade unions in taking all of these matters forward. I do believe there's an awareness in Wales, within the steel industry, that Welsh Government is very committed to that industry. It does understand its importance and it is committed to doing even more than it has already done and I hope very much that that will be the spirit with which Welsh Government will approach this particular debate and these particular matters.

Y peth olaf y byddwn yn ei ddweud, Lywydd, yw bod yr undebau llafur, wrth gwrs, yn gwbl allweddol o ran gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r diwydiant dur. Mae ganddynt lawer o brofiad ar lawr gwlad—profiad o'r materion hyn. Gwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos iawn gyda hwy. Felly, rwy'n gobeithio'n fawr y bydd yn parhau i gydweithio'n agos gyda'r undebau llafur—a gwn y gwnaiff—er mwyn symud pob un o'r materion hyn yn ei flaen. Rwy'n credu bod yna ymwybyddiaeth yng Nghymru o fewn y diwydiant dur fod Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig iawn i'r diwydiant hwnnw. Mae'n deall ei bwysigrwydd ac wedi ymrwymo i wneud hyd yn oed yn fawr nag y mae eisoes wedi'i wneud, ac rwy'n gobeithio'n fawr mai yn yr ysbryd hwn y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i drafod y materion penodol hyn.

15:36

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n falch i gefnogi'r ddadl y prynhawn yma ac rwy'n cytuno gyda'r rhan fwyaf o bethau y mae pobl wedi ei ddweud. Mae gan Lanelli, fel y mae pawb yn gwybod, gân enwog, 'Sosban Fach', ond hefyd os ydych yn byw yn y gorllewin, ni allwch sôn am hanes Llanelli heb sôn am y gwaith dur. Mae gwaith mawr gyda Tata Steel yn Llanelli, Aled—nid wyf yn siŵr os wyt ti'n gwybod ai peidio.

Beth yr wyf eisiau sôn amdano nawr yw bod Tata a llwyth o gwmnïau eraill yn bwysig i Lanelli a threfi tebyg eraill. Mae'n hysbys i bawb fod allforion dur Prydain yn anferthol ac yn ffactor bwysig o ran mantolen ariannol y wlad. Un o'r problemau mwyaf a ddyfynnwyd yw'r galw is am gynnyrch, sydd wedi'i waethygu gan y sefyllfa ariannol bresennol. Beth sydd ei angen gan Lywodraethau yw hwb economaidd i'r diwydiant gan ddod â'u projectau adeiladwaith ymlaen—penderfyniad a fyddai'n amlwg hefyd yn creu swyddi. Rwy'n falch i ddweud bod Llywodraeth Llafur Cymru wedi ceisio rhoi arweiniad trwy hybu projectau adeiladu. Mae Aelodau Seneddol Llafur wedi bod yn galw am yr un peth yn San Steffan, ond, yn anffodus, mae ymyrryd yn yr economi yn wrthun i athroniaeth y Ceidwadwyr.

Gweithred i hybu'r economi hefyd yw gwneud defnydd o gadwyni cyflenwi lleol, sef rhywbeth y gwyddom ein bod wedi edrych i mewn iddo yng Nghymru a bu galwadau yn San Steffan am gynnydd yn y maes. Hoffwn gael diweddariad gan y Gweinidog ar y gwaith a wnaed yng Nghymru yn gysylltiedig â chymalau mantais gymunedol Ewrop. Pa drafodaethau a ydych wedi eu cael gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfuno'r amcanion a'u gweithredu nhw? Mae'r pwynt yma'n rhedeg ynghyd â nod cynaliadwyedd yn y diwydiant dur. Bydd angen cynnyrch dur arnom am genedlaethau. Trwy ganolbwyntio ar allu tymor hir y sector, rydym yn diogelu ac yn ehangu swyddi a buddsoddiad. Mae'r diwydiant dur yn cyflenwi ac yn cefnogi diwydiannau megis ceir, awyrennau, adeiladwaith ac yn y blaen, fel y dywedodd John Griffiths nawr, sydd yn eu tro yn dal swyddi a hwb economaidd yn y gogledd, y de ac yn gorllewin Cymru.

I'm pleased to support this afternoon's debate and I agree with most of what's been said. Llanelli, as everyone will know, has a famous song, 'Sosban Fach', but also if you live in west Wales, you cannot mention the history of Llanelli without mentioning the steelworks. Tata Steel has a major plant in Llanelli, Aled—I don't know if you're aware of that or not.

What I want to mention is that Tata and a whole host of other companies are important to Llanelli and other similar towns. It's well known to everyone that British exports of steel are enormous and an important factor on the financial balance sheet of the country. One of the major problems mentioned is the lower demand for produce, which is exacerbated by the current financial climate. What is needed from the Government is an economic boost to the industry by bringing their infrastructure projects forward—a decision that would clearly also create jobs. I'm pleased to say that the Welsh Labour Government has tried to take a lead on this by promoting building projects. Labour MPs have been calling for a similar thing in Westminster, but, unfortunately, intervention in the economy is at odds with Conservative philosophy.

Another action to boost the economy is to make use of local supply chains, which is something that I know we've looked into in Wales and there have been calls in Westminster for progress in this area. I would like an update from the Minister on the work done in Wales related to European community benefit clauses. What discussions have you had with the UK Government in terms of joint aims and their implementation? This point runs along with the sustainability aim within the steel industry. We will need steel products for generations to come. By concentrating on the long-term prospects of the sector, we are safeguarding and enhancing jobs and investment. The steel industry supplies and supports industries such as the motor industry, aerospace, construction and so on, as John Griffiths just said, which in turn retain jobs and provide an economic boost in north, south and west Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n croesawu'r gwaith ymchwil a datblygu sydd yn mynd ymlaen yn y gwasanaeth dur, sydd yn ganolog os yw'r Deyrnas Unedig am fod yn gystadleuol yn rhyngwladol yn yr ugeinfed ganrif ar hugain. Fel y dywedodd David Rees yn gynharach, mae enghreifftiau da o'r rhain gennym ni yn y gorllewin. Mae'r gwaith dur ym Mhort Talbot yn gweithio gyda Phrifysgol Abertawe ar baneli solar. Hefyd mae yna ganolfan ymchwil ym Mhort Talbot ar gyfer pobl sy'n astudio peirianeg ym Mhrifysgol Abertawe.

Rwyf, wrth gwrs, yn cefnogi prif bwrpas heddiw, sef siarter dros ddr cynaliadwy Prydeinig—nid jest mater ymylol y dylem ni oll ei gefnogi oherwydd geiriau cynnes; rwy'n credu bod materion real iawn o ran ethos ac economi. Mae mewnfurion o du fas i'r Undeb Ewropeaidd wedi cynyddu ar raddfa helaeth dros y blynyddoedd diwethaf, fel y mae sawl un wedi sôn y prynhawn yma. Nid yw'r cynnyrch o'r safon iawn; nid yw'n cwrdd â safon BES 6001. Fel y dywedodd David Rees hefyd, hoffwn dalu teyrnged i'r gweithwyr a'r undebau. Yr ymgyrch Sefyll dros Ddur, dyna beth rŷm ni'n sôn amdano nawr. Maent wedi bod ar flaen y gad yn addasu, yn moderneiddio a gwella effeithlonrwydd y diwydiant. Mae hyn yn galw am weledigaeth ac mae'r undebau cymunedol yn sefyll yn gadarn dros y diwydiant dur. Gweledigaeth ac nid ceisio amddiffyn beth sy'n perthyn, erbyn hyn, i'r gorffennol.

Mae Llafur yn San Steffan wedi bod yn galw ar y Llywodraeth i greu strategaeth mwy blaengar i'r sector, gyda phenderfyniad megis gostwng pris uchel y llawr carbon sydd wedi cael ei godi gyda Tata yn lleol. Nid yw'n helpu ymdrechion cynaliadwyedd y diwydiant, fel y dywedodd Jenny gynnu. Mae angen rhagor o fanylion ar gyllideb wythnos diwethaf yn rhoi cymorth i ddiwydiannau ynni dwys. Pecyn i fod i ddod mewn erbyn Ebrill 2016; beirniadaeth amdano a galwadau gweithredu ar amserlen gyflymach. Na chwaith ydy'r niwed ac achlysur gan gynlluniau'r Llywodraeth yn San Steffan i fwrw ymlaen gyda'r refferendwm yn Ewrop. Nid yw hyn yn cyfrannu dim i'r sadrwydd fydd am y dyfodol a sicrwydd gwaith pobl leol fel yn ne Cymru. Mae gwaith dur Tata, er enghraifft, hefyd yn gyfrifol am gynhyrchu caniau a phapur lapio holograffig doeddwn i ddim yn gwybod amdano. Bois bach, mae deunydd penillion ychwanegol i 'Sosban Fach' yma am ddegawdau i ddod.

I welcome the research work and the development that is happening in the steel industry, which is key if the UK is to be competitive internationally in the twenty-first century. As David Rees said earlier, there are excellent examples in west Wales. The steelworks in Port Talbot work closely with Swansea University on solar panels. Also, there is a research centre in Port Talbot for those studying engineering at Swansea University.

I, of course, support the main purpose of this debate, which is the charter for sustainable British steel—it is not just a peripheral issue that we should all support because of its warm words; there are real issues covered there in terms of the ethos and the economy. Imports from outwith the European Union have increased at a huge rate over the past few years, as many people have already mentioned this afternoon. The produce isn't of a sufficiently high standard and doesn't meet the BES 6001 certification. As David Rees also said, I'd like to pay tribute to the workers and the unions in the industry. The Stand Up for Steel campaign, that's what we're talking about here. They've been in the vanguard of modernising and improving efficiency within the industry. This demands real vision and the community unions are standing firm for the steel industry. It's vision rather than protecting what belongs, by now, in the past.

Labour in Westminster has been calling on the Government to create a more innovative strategy for the sector, with decisions such as lowering the high price of the carbon floor, which has been raised with me with Tata locally. It doesn't help the industry's sustainability efforts, as Jenny said earlier. We need more detail on last week's budget on what support can be provided to energy-intensive industries. A package should be coming in by April 2016; there has been criticism of it and demands for implementation on a speedier timescale. Now, the damage created by Westminster Government proposals to actually continue with the referendum on Europe. This isn't going to contribute anything to the stability of the industry for the future and the assurances of employment for people in areas such as south Wales. Tata, for example, is responsible for producing cans and holographic wrapping paper—I wasn't aware of that. Now, we could actually have additional verses for 'Sosban Fach' here for decades to come.

15:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Time's up.

Mae'r amser ar ben.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:42 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd.

Thank you, Presiding Officer.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I call on the Minister to speak on behalf of the Government—Edwina Hart.

Diolch yn fawr. Galwaf ar y Gweinidog i siarad ar ran y Llywodraeth—Edwina Hart.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Thank you, Presiding Officer. Steel production is a significant contributor to the economy of Wales, illustrated, I think, by the number of heartfelt contributions on the issue today. It provides high-quality employment both directly and indirectly. In 2012, primary steel making and associated downstream steel and metal-related businesses provided employment for around 17,000 people in Wales. David Rees outlined the history of the steel industry as part of our economy, but I think that the important message for us all that's come across today is the importance of the industry in the future for our economy and the economy of the UK.

For many years, we've been in regular dialogue and have had a close relationship with the industry in Wales, especially with Tata Steel and Celsa, both of which are Welsh Government anchor companies. We also have close relationships with the trade unions in that sector, which work well with the employers in bringing about changes with industry to working practices and which are continually looking for improvements in product development. John Griffiths made some points about training. Training issues have never been raised by me in terms of the industry, but it's certainly something I will take up in my regular meetings now. We continue to concentrate on how we can support such an important industry through regular dialogue, both at ministerial and official level, so it can be sustained and hopefully grown in the future, but we have to be aware with steel that there are big state aid issues when steel is mentioned in the context of the European Union. But, if I can digress, on death blows to the steel industry in the UK, there would be if we withdrew from the European Union, because we have to recognise the common market in terms of steel production and we have to have faith in terms of what we need to do, being members of the European Union.

In Wales, we have some of the most modern steel-making plants in Europe. People have talked about Tata Steel, but they've significantly invested in energy efficiency technology at Port Talbot to capture and reuse gas in the industrial process to generate energy. Celsa's Cardiff melt shop is one of Europe's lowest emitters of carbon dioxide per tonne of steel produced. At Port Talbot, Tata is trying to make the plant even more efficient with ambitious plans for a new power plant, which will go a considerable way to making the operation self-sufficient in energy generation. So, you can see the level of investment that steel companies are prepared to make in their premises in Wales to ensure the security of jobs and their investment in the Welsh economy.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:44.

Diolch i chi, Lywydd. Mae cynhyrchu dur yn cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru, ac mae hynny'n amlwg, rwy'n meddwl, yn ôl y nifer o gyfraniadau galon a gafwyd ar y mater heddiw. Mae'n darparu cyflogaeth o ansawdd uchel yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Yn 2012, roedd cynhyrchu dur sylfaenol a busnesau dur a metel cysylltiedig a ddeiliai o hynny yn rhoi gwaith i oddeutu 17,000 o bobl yng Nghymru. Amlinellodd David Rees hanes y diwydiant dur fel rhan o'n heconomi, ond rwy'n credu mai'r neges bwysig i bob un ohonom a ddaeth yn amlwg heddiw yw pwysigrwydd y diwydiant yn y dyfodol i'n heconomi ac economi'r DU.

Ers nifer o flynyddoedd, rydym wedi cael trafodaeth reolaidd a pherthynas agos â'r diwydiant yng Nghymru, yn enwedig gyda Tata Steel a Celsa, dau o gwmnïau angori Llywodraeth Cymru. Mae gennym hefyd berthynas agos â'r undebau llafur yn y sector sy'n gweithio'n dda gyda'r cyflogwyr i sicrhau newidiadau i arferion gwaith gyda'r diwydiant ac sy'n chwilio'n gyson am welliannau wrth ddatblygu cynnyrch. Gwnaeth John Griffiths rai pwyntiau am hyfforddiant. Nid oes neb wedi crybwyll materion hyfforddi wrthyf o ran y diwydiant ond mae'n sicr yn rhywbeth y byddaf yn ei drafod yn fy nghyfarfodydd rheolaidd yn awr. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar sut y gallwn gefnogi diwydiant mor bwysig drwy ddeialog reolaidd, ar lefel gweinidogion a swyddogion, fel y gellir ei gynnal, a'i ehangu gobeithio, yn y dyfodol, ond mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol fod yna faterion pwysig yn codi o ran cymorth gwladwriaethol pan sonnir am ddir yn nghyd-destun yr Undeb Ewropeaidd. Ond os caf fynd ar ôl un ysgyfarnog, byddai gadael yr Undeb Ewropeaidd yn hoelen yn arch y diwydiant dur yn y DU, gan fod yn rhaid i ni gydhabod y farchnad gyffredin o ran cynhyrchu dur a rhaid i ni gael hyder yn yr hyn sydd angen inni ei wneud, gan ein bod yn aelodau o'r Undeb Ewropeaidd.

Yng Nghymru, mae gennym rai o'r gweithfeydd dur mwyaf modern yn Ewrop. Mae pobl wedi siarad am Tata Steel, ond maent wedi buddsoddi'n sylweddol mewn technoleg effeithlonrwydd ynni ym Mhort Talbot i ddal ac aildddefnyddio nwy yn y broses ddiwydiannol er mwyn cynhyrchu ynni. Mae gwaith toddi Celsa yng Nghaerdydd yn un o'r gweithfeydd sy'n allyrru'r lleiaf o garbon deuocsid am bob tunnell o ddir a gynhyrchir yn Ewrop. Ym Mhort Talbot, mae Tata yn ceisio gwneud y safle hyd yn oed yn fwy effeithlon gyda chynlluniau uchelgeisiol ar gyfer pwerdydd newydd a fydd yn mynd gryn dipyn o'r ffordd tuag at wneud y gwaith yn hunangynhaliol o ran cynhyrchu ynni. Felly, gallwch weld y lefel o fuddsoddiad y mae cwmnïau dur yn barod i'w wneud yn eu safleoedd yng Nghymru er mwyn sicrhau diogelwch swyddi a'u buddsoddiad yn economi Cymru.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:44.

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have continually raised, at the highest levels of the UK Government, Welsh steel industry concerns about the impacts of high UK energy prices on its international competitiveness and the need to ensure that Welsh businesses can operate on a level playing field, not only in the UK, but within global markets, and, in terms of energy, an even playing field in terms of energy within the European Union as well.

We are concerned about the financial pressures that are directly threatening the ongoing sustainable operation of the Welsh steel industry. It is clear that the industry has been impacted by the import of cheap steel, primarily from China, and the spiralling costs associated with energy and compliance with environmental regulation. I think it is quite clear that all Members are aware of what's happening with some of the cheap imports from China and quality issues, which people are also concerned about and mentioned in this Chamber, about Chinese steel.

These combined pressures mean that a number of Wales-based companies are reaching a very critical point. The situation is compounded further by the fact that demand for steel in Europe is still well below the levels that existed prior to the start of the recession.

The main competition to the Welsh operation situated in mainland Europe benefits from a supply of energy that is considerably cheaper than that sourced in the UK. We have repeatedly raised with the UK Government the adverse effects that energy prices are having on energy-intensive companies, including those in the steel industry here in Wales. The UK wholesale electricity prices show a large and persistent premium to most continental European prices, with a significant gap compared with Germany.

Global economic factors have also had a significant impact on gas prices, and the major competitive gap is between European prices and the shale-driven US price—the EU price is at 2.5 to three times higher, and I think that is a considerable sum in the context of talking about energy prices.

The charter is a UK steel initiative and seeks to promote the use of sustainable British steel in construction products. I very much agree with Aled; it is not about being protectionist, it's about looking—. Environmental considerations, transport, and quality are all the key issues. As such, the charter will go some way to addressing sourcing, quality and importing matters, but, clearly, the wider pressures on the industry also need, in my opinion, to be addressed.

Ar lefelau uchaf Llywodraeth y DU, rydym yn gyson wedi mynegi pryderon y diwydiant dur yng Nghymru ynghylch effeithiau prisiau ynni uchel yn y DU ar ei chystadleurwydd rhyngwladol a'r angen i sicrhau y gall busnesau Cymru weithredu ar faes chwarae gwastad, nid yn unig yn y DU, ond mewn marchnadoedd byd-eang, a maes chwarae gwastad o ran ynni yn yr Undeb Ewropeaidd yn ogystal.

Rydym yn pryderu am y pwysau ariannol sy'n bygwth gweithrediad cynaliadwy parhaus y diwydiant dur yng Nghymru yn uniongyrchol. Mae'n amlwg fod y diwydiant wedi cael ei effeithio gan fewnforio dur rhad, yn bennaf o Tsieina, a'r costau cynyddol sy'n gysylltiedig ag ynni a chydymffurfio â rheoliadau amgylcheddol. Credaf ei bod yn gwbl glir fod pob Aelod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd gyda rhai o'r mewnforion rhad o Tsieina a materion ansawdd y mae pobl yn bryderus yn eu cylch ac a grybwyllwyd yn y Siambr hon ynghylch dur o Tsieina.

Mae pwysau cyfunol o'r fath yn golygu bod nifer o gwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn cyrraedd pwynt allweddol iawn. Mae'r sefyllfa wedi ei gwaethygu ymhellach gan y ffaith fod lefel y galw am ddur yn Ewrop yn dal i fod yn llawer is na chyn y dirwasgiad.

Mae'r brif gystadleuaeth i waith dur Cymru ar dir mawr Ewrop yn elwa o gyflenwad o ynni cryn dipyn yn rhatach na'r hyn a geir yn y DU. Dro ar ôl tro, rydym wedi sôn wrth Lywodraeth y DU am yr effeithiau niweidiol y mae prisiau ynni yn eu cael ar gwmnïau ynni-ddwys, gan gynnwys y rhai yn y diwydiant dur yma yng Nghymru. Mae prisiau trydan drwy gyfanwerthwyr yn y DU yn dangos premiwm mawr a pharhaus i'r rhan fwyaf o'r prisiau ar gyfandir Ewrop, gyda bwlbwlch sylweddol o'i gymharu â'r Almaen.

Mae ffactorau economaidd byd-eang hefyd wedi cael effaith sylweddol ar brisiau nwy, ac mae'r prif fwlch cystadleuol rhwng prisiau Ewropeaidd a phris yr Unol Daleithiau sy'n cael ei ysgogi gan nwy siâl—mae pris yr UE 2.5 i dair gwaith yn uwch a chredaf ei fod yn swm sylweddol yng nghyd-destun y sôn am brisiau ynni.

Menter gan UK Steel yw'r siarter ac mae'n ceisio hyrwyddo'r defnydd o ddur cynaliadwy Prydeinig mewn cynhyrchion adeiladu. Cytunaf yn llwyr ag Aled; nid yw'n ymwneud â bod yn warchodol, mae'n ymwneud ag edrych—. Mae'r ystyriaethau o ran yr amgylchedd, trafnidiaeth ac ansawdd oll yn faterion allweddol. Fel y cyfryw, bydd y siarter yn gwneud cryn dipyn i fynd i'r afael â materion cyrchu, ansawdd a mewnforio, ond yn amlwg, mae angen rhoi sylw i'r pwysau ehangach ar y diwydiant hefyd, yn fy marn i.

We welcome the charter—excuse me a second—and recognise its importance to the UK steel industry and suppliers, as it provides the opportunity to safeguard much-valued jobs and enables growth. Our Wales procurement policy statement, which was published in 2012, is fully supportive of the principles of the charter, and Members have touched quite a lot on the procurement issues. The policies and tools highlighted in the policy statement as good practice go a long way to ensure that sustainability issues relating to the supply chain, and environmental, social and economic factors, are assessed, understood and managed in all key procurement decisions before the procurement process begins.

This policy will be further strengthened with the transposition of the new EU procurement directives that were implemented in the UK in February 2015, and our progressive procurement policies already in place complement the aims of the charter. I think that fits in well with Aled Roberts's contribution on procurement.

Whilst Wales has a large number of major projects in development—Wylfa Newydd, for example—there are further opportunities, ranging from transport to construction, across the rest of the UK that provide opportunities for the Welsh steel industry.

We continue to press the UK Government to invest in major infrastructure projects to stimulate demand for high-quality Welsh steel, and the charter directly supports a large steel industry. But, of course, we must be conscious of and understand what impacts the charter and standards like British standards will have on SMEs. That is an important point.

In recognition of this, we are adopting the broad procurement policy in the spirit of the charter and this is the best approach for the Welsh steel industry and its associated supply chain.

Now, procurement for me is only one part of the solution. We can also support the industry through the implementation of energy-efficiency measures, and we've spoken about Tata. The company is putting considerable effort into progressing innovative steel-making technologies, which could ultimately lower costs. At the same time, they are looking at reducing emissions and improving the environment.

The announcement in the UK budget last week of a partial acceleration of the energy-intensive industries compensation scheme provides a recognition that the UK Government is seeking to address some of these matters. However, we do need further clarity on when these measures will be enacted, and much more needs to be done to support this important industrial sector.

It is essential that the Welsh position is appropriately reflected with any UK-wide interventions and there needs to be tailored approaches for Wales. It is also clear that the UK regulatory context has presented real and immediate risk to the sustainable and ongoing operation of steel and wider energy-intensive industries in Wales.

Rydym yn croesawu'r siarter—esgusodwch fi am eiliad—ac yn cydnabod ei bwysigrwydd i'r diwydiant dur a chyflenwyr dur yn y DU, gan ei fod yn rhoi cyfle i ddiogelu swyddi gwerthfawr ac yn galluogi twf. Mae ein datganiad polisi caffael ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd yn 2012, yn gwbl gefnogol i egwyddorion y siarter, ac mae'r Aelodau wedi crybwyll cryn dipyn ar y materion caffael. Mae'r polisiau a'r adnoddau a amlygwyd yn y datganiad polisi fel arfer da yn mynd gryn dipyn o'r ffordd tuag at sicrhau bod materion cynaliadwyedd sy'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, yn cael eu hasesu, eu deall a'u rheoli ym mhob penderfyniad caffael allweddol cyn i'r broses gaffael ddechrau.

Bydd y polisi hwn yn cael ei gryfhau ymhellach wrth droi cyfarwydddebau caffael newydd yr UE a roddwyd ar waith yn y DU ym mis Chwefror 2015 ac mae ein polisiau caffael blaengar sydd eisoes ar waith yn ategu amcanion y siarter. Credaf fod hynny'n cyd-fynd yn dda â chyfraniad Aled Roberts ar gaffael.

Er bod gan Gymru nifer fawr o brosiectau mawr sy'n cael eu datblygu—Wylfa Newydd, er enghraifft—mae yna gyfleoedd pellach, yn amrywio o drafnidiaeth i adeiladu ar draws gweddill y DU sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer y diwydiant dur yng Nghymru.

Rydym yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith mawr i ysgogi galw am ddur o ansawdd uchel o Gymru, ac mae'r siarter yn cefnogi diwydiant dur mawr yn uniongyrchol. Ond wrth gwrs, rhaid inni fod yn ymwybodol o'r effeithiau y bydd y siarter a safonau fel safonau Prydeinig yn eu cael ar fusnesau bach a chanolig, a'u deall. Mae hwnnw'n bwynt pwysig.

I gydnabod hyn, rydym yn mabwysiadu polisi caffael cyffredinol yn ysbryd y siarter a dyma'r dull gorau o weithredu ar gyfer diwydiant dur Cymru a'i gadwyn gyflenwi gysylltiedig.

Nawr, nid yw caffael i mi ond yn rhan o'r ateb yn unig. Gallwn hefyd gefnogi'r diwydiant drwy weithredu mesurau effeithlonrwydd ynni, ac rydym wedi siarad am Tata. Mae'r cwmni'n gwneud ymdrech sylweddol i ddatblygu technolegau cynhyrchu dur arloesol a allai leihau costau yn y pen draw. Ar yr un pryd, maent yn edrych ar leihau allyriadau a gwella'r amgylchedd.

Mae'r cyhoeddiad yng nghyllideb y DU yr wythnos diwethaf ynghylch cyflymu cynllun iawndal y diwydiannau ynni-ddwys yn rhannol yn cydnabod bod Llywodraeth y DU yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Fodd bynnag, mae angen eglurder pellach ynglŷn â pha bryd y bydd y mesurau'n cael eu rhoi mewn grym, ac mae angen gwneud llawer mwy i gefnogi'r sector diwydiannol pwysig hwn.

Mae'n hanfodol fod y sefyllfa yng Nghymru yn cael ei hadlewyrchu'n briodol mewn ymyriadau ar draws y DU ac mae angen dulliau wedi'u teilwra ar gyfer Cymru. Mae hefyd yn amlwg fod cyd-destun rheoleiddiol y DU wedi creu perygl gwirioneddol ac uniongyrchol i weithrediad cynaliadwy a pharhaus y diwydiant dur a diwydiannau ynni-ddwys ehangach yng Nghymru.

We continue to lobby the UK Government—and Keith Davies has urged me to do so—in the face of uncertain UK-level energy policies and the increasing regulatory burdens faced by energy-intensive industries, including steel in Wales. We raised this repeatedly, but it is clear that we have to raise our voice more, because I'm not sure how well our voice is being heard, and, to this end, I am determined to champion the position of the Welsh steel industry in terms of discussions with Government.

The steel industry is important to Wales. The steel industry is important to the UK. The steel industry and the people who work within it and the companies that employ them deserve to play the game on an even playing field.

Rydym yn parhau i lobio Llywodraeth y DU—mae Keith Davies wedi fy annog i wneud hynny—yn wyneb polisïau ynni ansicr ar lefel y DU a'r beichiau rheoleiddio cynyddol a wynebir gan ddiwydiannau ynni-ddwys, gan gynnwys dur yng Nghymru. Rydym wedi tynnu sylw at hyn dro ar ôl tro, ond mae'n amlwg fod yn rhaid i ni godi ein llais eto, oherwydd nid wyf yn siŵr pa mor dda y caiff ein llais ei glywed, ac i'r perwyl hwn, rwy'n benderfynol o hyrwyddo safbwynt y diwydiant dur yng Nghymru wrth drafod gyda'r Llywodraeth.

Mae'r diwydiant dur yn bwysig i Gymru. Mae'r diwydiant dur yn bwysig i'r DU. Mae'r diwydiant dur a'r bobl sy'n gweithio ynddo a'r cwmnïau sy'n eu cyflogi yn haeddu chwarae'r gêm ar faes chwarae gwastad.

15:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Rhun ap Iorwerth to reply to the debate.

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i ymateb i'r ddatl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:50 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf i ddiolch i bawb am eu cyfraniadau i'r ddatl y prynhawn yma? Mae hi wedi bod yn ddatl bwysig am nifer o resymau. Yn gyntaf, mae o'n gyfle i atgoffa ein hunain o'r rhan y mae'r diwydiant dur yn dal i'w chwarae yn economi Cymru. Rwy'n dweud 'dal i'w chwarae' achos ar ôl y crebachu, wrth gwrs, sydd wedi bod dros y degawdau diwethaf, mi allai rhai meddwl efallai mai dim ond sgerbwdd neu gysgod o hen ddiwydiant sydd gennym ni. Ond y gwir amdani, wrth gwrs, er colli gweithfeydd a cholli miloedd o swyddi, mae'r diwydiant dur yn dal yn rhan hollbwysig o'n hisadeiledd diwydiannol ni.

Yn sgil hynny, y rheswm arall wedyn bod y ddatl yma wedi bod mor werthfawr ydy ei fod o'n fodd i dynnu sylw at y fenter benodol yma gan y diwydiant dur ei hun sy'n cynnig cyfle i'r Llywodraeth gymryd cam pendant i warchod buddiannau ein diwydiant dur ni ac i wneud datganiad pendant ynglŷn â'i hymroddiad i wneud popeth o fewn ei gallu i roi hwb i'r diwydiant.

What we've been talking about today is a concrete step, or perhaps I should say a steel-reinforced concrete step, that the Welsh Government could take to protect the interests of the Welsh steel industry. The background to why we've been talking about it is difficult. It's a context, yes, of signs of some economic recovery, but of a recovery that hasn't really benefitted the Welsh steel industry. I'll remind you of some of the figures that Aled Roberts gave us: steel demand in the UK up 15 per cent in the last year, but with imports being the main beneficiary; a 15 per cent increase in demand, but only a 3 per cent increase in UK steel output, almost a quarter less output than pre-recession levels.

Now, if we look at the steel-reinforced bar market in particular, our market is being flooded by imports because other producers need somewhere to get rid of their over-produced stock. On cost alone, we cannot compete in that context.

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I thank everyone for their contributions to this afternoon's debate? It has been an important debate for a number of reasons. First, it is an opportunity to remind ourselves of the part that the steel industry still plays in the economy of Wales. I say 'still plays' because after the contraction, of course, that there has been over the last few decades, some might think perhaps that it's only a skeleton or shadow industry that we have here. But the truth is, of course, despite the loss of plants and thousands of jobs, the steel industry is still a vital part of industrial infrastructure.

In the wake of that, another reason why this debate has been so valuable is that it is a way of drawing attention to this particular initiative by the steel industry itself that offers an opportunity for the Government to take a definite step to protect the interests of our steel industry and to make a definite statement about its commitment to do everything within its ability to give the industry a boost.

Yr hyn rydym wedi bod yn siarad amdano heddiw yw'r cam concrit, neu efallai y dylwn ddweud cam concrit wedi'i atgyfnerthu gan ddur, y gallai Llywodraeth Cymru ei gymryd i ddiogelu buddiannau'r diwydiant dur yng Nghymru. Mae'r cefndir i'r rheswm pam ein bod wedi bod yn siarad amdano yn anodd. Mae'n gyd-destun o arwyddion o rywfaint o adferiad economaidd, ydy, ond mae'n adferiad nad yw wedi bod o fudd gwirioneddol i'r diwydiant dur yng Nghymru. Fe'ch atgoffaf o rai o'r ffigurau a roddodd Aled Roberts i ni: mae galw am ddur yn y DU 15 y cant yn uwch yn y flwyddyn ddiwethaf, ond mewnforwyr sydd wedi elwa fwyaf, cynnydd o 15 y cant yn y galw, ond cynnydd o 3 y cant yn unig yn allbwn dur y DU, bron chwarter yn llai o allbwn na'r lefelau cyn y dirwasgiad.

Nawr, os edrychwn ar y farchnad barrau atgyfnerthu dur yn arbennig, mae ein marchnad yn cael ei gorlifo gan fewnforion oherwydd bod cynhyrchwyr eraill angen rhywle i gael gwared ar y stoc a orgynhyrchwyd ganddynt. Ar gost yn unig, ni allwn gystadlu yn y cyd-destun hwn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

So, what the charter of sustainable steel says, simply, is consider something other than cost, something vitally important in construction in particular, and that is safety. If we can pledge only to procure steel-reinforced bar certified to BES 6001, we can ensure our steel industry, with its impeccable standards, is protected.

Now, we've heard the case being made eloquently today about the effect that would have for doing all we can to help the industry from Jenny Rathbone, supported by the Minister too, on the need to address the energy issues. There are very serious energy issues surrounding our steel industry.

Paul Davies emphasised the sheer economic value of the industry still—the economic activity and wages paid not only directly in the industry but in the huge supply chain in Wales too. It's a very long list of benefits that the industry brings to Wales and a very long list, therefore, of reasons why we should do what we can to help and support that industry.

So, we knew that the Welsh Government supported this in principle. The First Minister said so recently, and I'm very pleased to hear the Minister today saying that the Government is certainly happy to adopt the spirit of the charter. Of course, the sooner we move to the adoption of the demands that this charter places on Government in ensuring that, through its procurement practices, it takes very clear steps to making sure that the standards required under BES 6001 are adhered to, then that is how we can make a real difference.

I recognise, of course, the need to dance very carefully through the state-aid maze. I recognise that there are concerns that the Government may have with the adoption, in its entirety, of this charter, but I'm confident that Government can find a way to adopt the charter in its entirety. But, certainly, it's an important step today, and, by getting this motion supported today, it's a very clear message being sent out.

We're all in agreement, then, about the value of the Welsh steel industry. It's valuable culturally, of course, as well as economically. It's part of the fabric of our nation, our industrial heritage, as David Rees said, and it's one thing that hits you hard when you visit the Port Talbot steelworks, as I did recently: what history there is behind the ugly, beautiful, dirty, technological industry that there is there in Port Talbot and in other parts of Wales. It's because of that history and the fact that we owe it to the people who made that history that the Government, actually, as David Rees said, needs to take very clear steps in trying to influence Tata on the pensions issue and make sure that we reach a resolution there.

Felly, yr hyn y mae'r siarter dur cynaliadwy yn ei ddweud, yn syml, yw ystyriwch rywbeth ar wahân i gost, rhywbeth hanfodol bwysig yn y diwydiant adeiladu yn arbennig, sef diogelwch. Os gallwn addo na fyddwn yn caffael barrau atgyfnerthu dur heb ardystiad BES 6001, gallwn sicrhau bod ein diwydiant dur, gyda'i safonau di-fai, yn cael ei warchod.

Nawr, rydym wedi clywed yr achos yn cael ei wneud yn huawdl heddiw am yr effaith y byddai hynny'n ei chael i wneud popeth y gallwn i helpu'r diwydiant gan Jenny Rathbone, gyda chefnogaeth y Gweinidog hefyd, ar yr angen i fynd i'r afael â'r materion ynni. Mae materion ynni difrifol iawn yn gysylltiedig â'n diwydiant dur.

Pwysleisiodd Paul Davies werth economaidd pur y diwydiant o hyd—y gweithgarwch economaidd a'r cyflogau a delir nid yn unig yn uniongyrchol yn y diwydiant, ond yn y gadwyn gyflenwi enfawr yng Nghymru hefyd. Mae rhestr hir iawn o fuddiannau yn deillio o'r diwydiant i Gymru a rhestr hir iawn, felly, o resymau pam y dylem wneud yr hyn a allwn i'w helpu a'i gefnogi.

Felly, roeddem yn gwybod bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi hyn mewn egwyddor. Dywedodd y Prif Weinidog hynny'n ddiweddar ac rwy'n falch iawn o glywed y Gweinidog yn dweud heddiw fod y Llywodraeth yn sicrhau yn hapus i fabwysiadu ysbryd y siarter. Wrth gwrs, gorau po gyntaf y cawn ni fabwysiadu'r gofynion y mae'r siarter hon yn eu gosod ar y Llywodraeth o ran sicrhau ei bod yn rhoi camau clir iawn ar waith, drwy ei harferion caffael, i sicrhau bod y safonau sy'n ofynnol o dan BES 6001 yn cael eu dilyn, a dyna sut y gallwn wneud gwahaniaeth go iawn.

Wrth gwrs, rwy'n cydnabod yr angen i fod yn hynod o ofalus wrth fynd drwy ddrysfa cymorth gwladwriaethol. Rwy'n cydnabod efallai fod y Llywodraeth yn bryderus ynghylch mabwysiadu'r siarter yn ei chyfanrwydd, ond rwy'n hyderus y gall ddod o hyd i ffordd o wneud hynny. Ond yn sicrhau, mae'n gam pwysig heddiw, a thrwy gael cefnogaeth i'r cynnig hwn heddiw, mae'n cyfleu neges glir iawn.

Rydym i gyd yn gytûn, felly, ynglŷn â gwerth y diwydiant dur yng Nghymru. Mae'n werthfawr yn ddiwylliannol, wrth gwrs, yn ogystal ag yn economaidd. Mae'n rhan o wead ein cenedl, ein treftadaeth ddiwydiannol, fel y dywedodd David Rees, ac mae'n un peth sy'n eich taro'n galed pan fyddwch yn ymweld â gwaith dur Port Talbot, fel y gwneuthum yn ddiweddar: mae cymaint o hanes ynghlwm wrth y diwydiant hyll a hardd, budr a thechnolegol sydd yno ym Mhort Talbot ac mewn rhannau eraill o Gymru. Oherwydd yr hanes hwn a'r ffaith fod arnom ddyletswydd i'r bobl a greodd yr hanes hwnnw, mae angen i'r Llywodraeth roi camau clir ar waith, fel y dywedodd David Rees, i geisio dylanwadu ar Tata mewn perthynas â mater pensynau a sicrhau ein bod yn cael ateb ar hynny.

In preparing for this debate this afternoon, I came across a book called 'The Economic History of Steelmaking 1867-1939'—you may have read it, I don't know. In a section on the growth of the industry in Yorkshire, actually, it said development of the industry there was 'dominated by Welsh technicians' because Welsh steelmaking expertise was a huge export. Now, it's time to recognise our Welsh steelmaking expertise here in Wales, and recognise that we will accept nothing less than the standards demanded by our steelmakers when it comes to public sector procurement. So, on behalf of the three of us who have tabled this motion today, and the nine Members who've supported it, I urge you to support the motion and support our steel industry. Diolch yn fawr.

Wrth baratoi ar gyfer y ddadl y prynhawn yma, deuthum ar draws llyfr o'r enw 'The Economic History of Steelmaking 1867-1939'—efallai eich bod wedi'i ddarllen, wn i ddim. Mewn adran ar dwf y diwydiant yn Swydd Efrog mewn gwirionedd, mae'n dweud bod datblygiad y diwydiant yno 'wedi'i ddominyddu gan dechnegwyr o Gymru' am fod arbenigedd cynhyrchu dur yng Nghymru yn allforyn o werth enfawr. Nawr, mae'n bryd inni gydnabod ein harbenigedd yma yng Nghymru ym maes cynhyrchu dur a chydabod na fyddwn yn derbyn safonau sy'n is na'r hyn a fynnir gan ein cynhyrchwyr dur o ran caffael yn y sector cyhoeddus. Felly, ar ran y tri ohonau sydd wedi cyflwyno'r cynnig hwn heddiw, a'r naw Aelod a'i cefnogodd, rwy'n eich annog i gefnogi'r cynnig a chefnogi ein diwydiant dur. Diolch yn fawr.

15:56

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36

4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Diwydiannau Creadigol

Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.

4. Welsh Conservatives Debate: The Creative Industries

The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.

15:56

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Item 4 is the Welsh Conservatives debate on the creative industries, and I call on Suzy Davies to move the motion.

Eitem 4 yw Dadl y Ceidwadwyr Cymreig ar y diwydiannau creadigol, a galwaf ar Suzy Davies i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5735 Paul Davies

Motion NDM5735 Paul Davies

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

1. Yn nodi pwysigrwydd a photensial y diwydiannau creadigol i'n bywyd diwylliannol ac economi Cymru;

1. Notes the importance and potential of creative industries to our cultural life and the Welsh economy.

2. Yn gresynu at y diffyg eglurder y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig mewn perthynas â:

2. Regrets the lack of clarity from the Welsh Government about:

(a) dyfodol y Panel Diwydiannau Creadigol; a

(a) the future of the Creative Industries Panel; and

(b) y camau nesaf o ran cyflawni'r blaenoriaethau sydd wedi eu nodi ar gyfer y sector yn Nghynllun Cyflenwi'r Sectorau.

(b) the next steps in achieving the priorities that have been set out for the sector in the Sectors Delivery Plan.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

3. Calls on the Welsh Government to:

a) roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am unrhyw gynnydd yn y maes hwn yn dilyn Adroddiad Hargreaves;

a) update the Assembly on any progress in this area following the Hargreaves Report;

b) amlinellu unrhyw ymchwil newydd sydd wedi cael ei gomisiynu mewn perthynas â'i strategaeth ar gyfer y sector diwydiannau creadigol; ac

b) outline any new research that has been commissioned in relation to its strategy for the creative industries sector; and

c) esbonio sut y mae targedau ar gyfer buddsoddiad stiwdio Pinewood a'r gyllideb buddsoddi yn y cyfryngau yn eu cyfanrwydd wedi cael eu gosod, a nodi manylion ynghylch pa mor llwyddiannus y mae'r buddsoddiadau hyn wedi bod yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol.

Cynigiwyd y cynnig.

c) explain how targets for the Pinewood Studio investment and the Media Investment Budget as a whole have been set, and detail how successful these investments have been against key performance indicators.

Motion moved.

15:56

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Thanks also to other Members who will be taking part in the debate today. I formally move the motion, and welcome the Liberal Democrat amendments, one of which, of course, mentions the Bay Studios in my own region, and I really should have included that in the motion myself, shouldn't I? Along with the new university campus, the studios are a key player in the quality regeneration of this part of Swansea bay and something of a happy ending to the story of that site. I look forward to Peter Black sharing the good news on the value our broadcasters and the collaboration between S4C and the University of Wales Trinity St David on the relocation to Carmarthen, and I would wish to associate myself, in advance, with any remarks that any colleague might wish to make about the Swansea bay universities really running with the opportunities that they offer the local economy.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Diolch hefyd i Aelodau eraill a fydd yn cymryd rhan yn y ddadl heddiw. Byddaf yn cynnig y cynnig yn ffurfiol, ac yn croesawu gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol. Mae un ohonynt, wrth gwrs, yn sôn am Stiwdios y Bae yn fy rhanbarth i, a dylwn yn wir fod wedi cynnwys hynny yn y cynnig ei hun, oni ddylwn? Yn ogystal â'r campws prifysgol newydd, mae'r stiwdios yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o adfywio ansawdd y rhan hon o fae Abertawe ac yn ddiweddglo digon hapus i stori'r safle hwn. Rwy'n edrych ymlaen at glywed Peter Black yn rhannu'r newyddion da ar werth ein darlledwyr a'r cydweithio rhwng S4C a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar adleoli i Gaerfyrddin, a byddwn yn dymuno ategu ymlaen llaw unrhyw sylwadau y byddai cyd-Aelodau'n dymuno eu gwneud am y modd y mae prifysgolion bae Abertawe yn llwyddo i gynnig y cyfleoedd gorau i'r economi leol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:57

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:57

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I certainly will, Mike.

Wrth gwrs y gwnaf, Mike.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:57

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you join me in congratulating University of Wales Trinity St David students and the work they've done in the creative bubble in the city centre, which you and I both visited last week?

A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch myfyrwyr Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a'r gwaith a wnaethant yn y swigen greadigol yng nghanol y ddinas yr ymweloch chi a minnau â hi yr wythnos diwethaf?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:58

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd be very happy to join you in those congratulations, Mike, and I'm sure that we'll hear about other success stories in constituencies and regions from Members across the Chamber, and I welcome that as well.

Fe fyddwn yn hapus iawn i ymuno â chi i longyfarch y rheini, Mike, ac rwy'n siŵr y byddwn yn clywed am lwyddiannau eraill mewn etholaethau a rhanbarthau gan Aelodau ar draws y Siambr, ac rwy'n croesawu hynny hefyd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I also want to welcome evidence of Welsh Government progress and achievement—not just a regurgitation of press releases full of ambitious plans or significant numbers of jobs, but evidence. This is a genuine opportunity for you, Minister, on the floor of the Senedd, to tell us about Government achievements in supporting our creative industries.

Rwyf hefyd yn awyddus i groesawu tystiolaeth o gynnydd a chyflawniad Llywodraeth Cymru—nid ailgyfogiad yn unig o ddatganiadau i'r wasg yn llawn o gynlluniau uchelgeisiol neu nifer sylweddol o swyddi, ond tystiolaeth. Mae hwn yn gyfle go iawn i chi ddweud wrthym, Weinidog, ar lawr y Senedd, am gyflawniadau'r Llywodraeth yn cefnogi ein diwydiannau creadigol.

In terms of our cultural life, we may have seen the Arts Council of Wales shrink the number of organisations that it funds, and some of us may have personal views about the importance of the work done by some of the artists or, indeed, some of the authors who receive financial support. And let's encourage that debate—outside the political arena, of course—on the merits or otherwise of particular pieces of work. It's stimulating in and of itself, but without that kind of personal and national interest in culture—the willingness to be daring and to articulate challenging ideas—then we will settle for stasis.

The permission to be inventive in solving our local problems was the idea behind the Swansea bay bid to become the city of culture. I supported that philosophy, because I am fed up of living in a Wales where so many people cling to the status quo, where it's seen as disloyal, rather than constructive, to try and move on from the past. Cultural engagement at any level helps build the confidence to be brave and to take risks, and that is why we need it across our economic activity, and not just in the creative industries themselves.

It's why I get so mad when local authorities take the axe to the culture budget whenever they are under financial pressure. All are guilty to some degree—Cardiff, of course—but I'm looking particularly at Neath Port Talbot, which thinks it's just fine to knee-cap West Glamorgan Youth Theatre. How much economic benefit did 'The Passion' bring to Port Talbot? Would it have happened without Michael Sheen? Would Michael Sheen have happened without the West Glamorgan Youth Theatre? All the benefits of 'Doctor Who' and 'Torchwood'—I'm sure we'll hear about them: would they have happened without Russell T. Davies? And would Russell T. Davies have happened without West Glamorgan Youth Theatre?

Now, not all our publicly funded bodies are quite so short sighted. I seem to remember that the Government itself introduced a graduate employment scheme developed by the technology strategy board—another board. Is that still going? I am pleased that some of our broadcasters—and the Millennium Centre, just across the way, for example—offer apprenticeships to young people who already understand that careers in the creative industries aren't all about appearing on 'The X Factor'. They could be about producing, directing, designing the set, the sound, the lighting, the rigging, the wardrobe, the stage managing, the editing, the promoting, the scripting, the filming, the choreographing, the location managing, the digital broadcasting, and carrying out the administrative and legal work for 'The X Factor', though, and then designing, licensing and manufacturing all manner of spin-off products, from baseball caps to console games.

O ran ein bywyd diwylliannol, efallai ein bod wedi gweld Cyngor Celfyddydau Cymru yn crebachu nifer y sefydliadau y mae'n eu hariannu, ac efallai y bydd gan rai ohonom farn bersonol am bwysigrwydd y gwaith sy'n cael ei wneud gan rai o'r artistiaid neu'n wir, rai o'r awduron sy'n cael cymorth ariannol. A gadewch inni annog y drafodaeth honno—y tu allan i'r arena wleidyddol, wrth gwrs—ar rinweddau neu ddiffyg rhinweddau darnau penodol o waith. Mae'n ysgogol ynddo'i hun, ond heb y math hwnnw o ddiddordeb personol a chenedlaethol mewn diwylliant—y parodrwydd i fod yn feiddgar ac i fynegi syniadau heriol—yna byddem yn bodloni ar sefyll yn llonydd.

Y caniatâd i fod yn ddyfeisgar wrth ddatrys ein problemau lleol oedd y syniad sy'n sail i gais bae Abertawe i fod yn ddinas diwylliant. Cefnogais yr athroniaeth honno am fy mod wedi cael llond bol ar fyw mewn Cymru lle y mae cymaint o bobl yn glynu at y status quo, lle y caiff ceisio symud ymlaen o'r gorffennol ei ystyried yn annheyrngar yn hytrach nag yn adeiladol. Mae ymgysylltiad diwylliannol ar unrhyw lefel yn helpu i feithrin hyder i fod yn ddewr a chymryd risgiau, a dyna pam y mae ei angen ar draws ein gweithgarwch economaidd, ac nid yn y diwydiannau creadigol eu hunain yn unig.

Dyna pam rwy'n gwylltio cymaint pan fo awdurdodau lleol yn codi'r fwyell at y gyllideb ddiwylliant pan fyddant o dan bwysau ariannol. Maent i gyd yn euog i ryw raddau—Caerdydd, wrth gwrs—ond rwy'n edrych yn arbennig ar Gastell-nedd Port Talbot, sy'n credu ei bod yn iawn i beledu Theatr Ieuencid Gorllewin Morgannwg. Faint o fudd economaidd a gyflwynodd 'The Passion' i Bort Talbot? A fyddai wedi digwydd heb Michael Sheen? A fyddai Michael Sheen wedi digwydd heb Theatr Ieuencid Gorllewin Morgannwg? Holl fanteision 'Doctor Who' a 'Torchwood'—rwy'n siwr y byddwn yn clywed amdanynt: a fyddent wedi digwydd heb Russell T. Davies? A fyddai Russell T. Davies wedi digwydd heb Theatr Ieuencid Gorllewin Morgannwg?

Nawr, nid yw ein holl gyrff sy'n derbyn arian cyhoeddus mor fyr eu golwg. Rwy'n cofio bod y Llywodraeth ei hun wedi cyflwyno cynllun cyflogi graddedigion a ddatblygwyd gan y bwrdd strategaeth technoleg—bwrdd arall. A yw hwnnw'n dal i fynd? Rwy'n falch fod rhai o'n darlledwyr—a Chanolfan y Mileniwm ar draws y ffordd, er enghraifft—yn cynnig prentisiaethau i bobl ifanc sydd eisoes yn deall nad yw gyrfaedd yn y diwydiannau creadigol yn ymwneud yn unig ag ymddangos ar 'The X Factor'. Fodd bynnag, gallent fod yn ymwneud â gwaith cynhyrchu, cyfarwyddo, dylunio set, sain, goleuo, rigio, gwisgoedd, rheoli llwyfan, golygu, hyrwyddo, sgriptio, ffilmio, coreograffi, rheoli lleoliadau, darlledu digidol, a gwaith gweinyddol a chyfreithiol ar gyfer 'The X Factor', neu ddylunio, trwyddedu a gweithgynhyrchu pob math o sgil-gynhyrchion, o gapiau pêl fas i gemau consol.

I was going to say that we need to embrace the creative not the committee, but then I remembered that the Minister's department is the showcase for task and finish groups and advisory panels. But, in all fairness, the Hargreaves report back in 2010-11 did recommend some steps in that direction. In 2012, we learned that the Minister had established a digital Wales board, an independent broadcasting advisory panel and a creative industries sector panel, but even today I'm not entirely sure whether those together have the same role as the creative industries board, suggested by Professor Hargreaves. I hope, in responding to part 2 of the motion, that the Minister will be clear about the creative sector panel's role, its specific achievements, and its future. Its lifespan seems to be being extended and I would be grateful if the Minister would tell us on what terms and for what purpose.

We have some steer from the sectors delivery plan, and the two pages devoted to the creative industries are clearly influenced by the Hargreaves recommendations. Like so many Government publications, online anyway, it seems to be undated, but on the basis that the Hargreaves report is about to reach its fifth anniversary, I'm hoping that you will provide us with evidence, Minister, about the implementation of those plans and any targets met or otherwise.

Finally from me, Dirprwy Lywydd, I ask Members to consider part 3c) of the motion. I was very quick to support the initial announcement of the Pinewood investment, and so was the First Minister, who has used it consistently as the example of your good inward investment policy. But from day one it has proven impossible to find out some of the detail behind the decision. We were told that 2,000 jobs and a £90 million spend with Welsh businesses was expected from this investment—an investment of £6 million purchase price and a further £30 million over time. In February 2014, after offering my confident support for this investment, I asked the finance Minister how you calculated the financial and employment benefits of the investment. I asked again in June, and I asked again this year, in January. I've still received no answer. The supplementary budget last year showed that £32 million was transferred from Government reserves into the sector's capital main expenditure group, and I asked if this capital funding was towards the Pinewood project. But, I've had no answer. I have asked if the deal included a further option to Pinewood beyond the five-year commitment, and that's a question that certainly needs answering as it has already taken one year to confirm one production—a commitment I welcome, of course—but no answer to my original question. I finally managed to get the nature of your key performance indicators from you, but no targets or idea of what level of measurement against those KPIs you would consider a success.

Roeddwn yn mynd i ddweud bod angen i ni groesawu'r creadigol, nid y pwylgor, ond fe gofiais wedyn mai adran y Gweinidog yw'r man arddangos i waith y grwpiau gorchwyl a gorffen a phaneli ymgynghorol. Ond a bod yn deg, yn ôl yn 2010-11 argymhellodd adroddiad Hargreaves rai camau i'r perwyl hwnnw. Yn 2012, fe ddysgom fod y Gweinidog wedi sefydlu bwrdd Cymru ddigidol, panel cynghori annibynnol ar ddarlledu a phanel sector y diwydiannau creadigol, ond hyd yn oed heddiw nid wyf yn hollol siŵr a oes gan y rheini gyda'i gilydd yr un rôl â'r bwrdd diwydiannau creadigol a awgrymodd yr Athro Hargreaves. Wrth ymateb i ran 2 y cynnig, rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn glir ynglŷn â rôl y panel sector creadigol, ei gyflawniadau penodol, a'i ddyfodol. Mae ei oes i'w weld yn cael ei ymestyn a byddwn yn ddiolchgar pe galla'r Gweinidog ddweud wrthym ar ba delerau ac i ba bwrpas.

Mae gennym beth arweiniad yng nghynllun cyflawni'r sectorau, ac mae'r ddwy dudalen sydd wedi'u neilltuo ar gyfer y diwydiannau creadigol yn amlwg wedi cael eu dylanwadu gan argymhellion Hargreaves. Fel cynifer o gyhoeddiadau Llywodraeth, cyhoeddiadau ar-lein yn bendant, mae i'w weld heb ei ddyddio, ond ar y sail fod adroddiad Hargreaves ar fin cyrraedd ei bumed penblwydd, rwy'n gobeithio y byddwch yn rhoi tystiolaeth i ni, Weinidog, ynglŷn â gweithredu'r cynlluniau hynny ac unrhyw dargedau a gyrhaeddwyd, neu fel arall.

Yn olaf gennyf fi, Ddirprwy Lywydd, gofynnaf i'r Aelodau ystyried rhan 3c) y cynnig. Roeddwn yn gyflym iawn i gefnogi'r cyhoeddiad cyntaf am fuddsoddiad Pinewood, ac felly hefyd y Prif Weinidog, sydd wedi ei ddefnyddio'n gyson fel esiampl o'ch polisi mewnfuddsoddi da. Ond o'r diwrnod cyntaf, mae wedi bod yn amhosibl dod o hyd i rai o'r manylion sydd wrth wraidd y penderfyniad. Dywedwyd wrthym fod disgwyl y gwelid 2,000 o swyddi a gwariant o £90 miliwn gyda busnesau yng Nghymru yn deillio o'r buddsoddiad—buddsoddiad o £6 miliwn, sef y pris prynu, a £30 miliwn arall dros gyfnod o amser. Ym mis Chwefror 2014, ar ôl cynnig fy nghefnogaeth hyderus i'r buddsoddiad hwn, gofynnais i'r Gweinidog cyllid sut yr aethoch ati i gyfrifo manteision ariannol a manteision cyflogaeth y buddsoddiad. Gofynnais eto ym mis Mehefin, a gofynnais unwaith eto eleni, ym mis Ionawr. Rwy'n dal i fod heb gael ateb. Dangosodd y gyllideb atodol y llynedd fod £32 miliwn wedi'i drosglwyddo o gronfeydd wrth gefn y Llywodraeth i mewn i brif grŵp gwariant cyfalaf y sector, a gofynnais a oedd y cyllid cyfalaf hwn ar gyfer prosiect Pinewood. Ond nid wyf wedi cael ateb. Rwyf wedi gofyn a oedd y fargen yn cynnwys opsiwn pellach i Pinewood y tu hwnt i'r ymrwymiad pum mlynedd, ac mae'n gwestiwn sy'n bendant angen ei ateb gan ei bod eisoes wedi cymryd blwyddyn i gadarnhau un cynhyrchiad—ymrwymiad rwy'n ei groesawu, wrth gwrs—ond nid wyf wedi cael ateb i fy nghwestiwn gwreiddiol. Llwyddais o'r diwedd i gael natur eich dangosyddion perfformiad allweddol gennyh, ond ni chafwyd targedau na syniad o ba lefel o fesuriadau yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol y byddech yn ei hystyried yn llwyddiant.

Full answers to these questions do not risk commercial confidentiality, Minister. They're questions about Government performance. I think you should answer them. I want us to be a creative country, but that does not mean that you can be creative with accountability. I want to be as confident as you are about Pinewood, and I'm sure that this Assembly, the people we represent, the job hopefuls, and the supply chain beneficiaries, the producers and investors really want that too, but the more you don't tell us about this investment the sooner we start to doubt your decisions. Please tell us what we need to know, Minister, and let us share your good news and confidence. Thank you.

Nid yw atebion llawn i'r cwestiynau hyn yn peryglu cyfrinachedd masnachol, Weinidog. Cwestiynau am berfformiad y Llywodraeth ydynt. Rwy'n meddwl y dylech eu hateb. Rwyf am i ni fod yn wlad greadigol, ond nid yw hynny'n golygu y gallwch fod yn greadigol gyda'ch atebolrwydd. Rwyf am fod mor hyderus â chithau ynghylch Pinewood ac rwy'n siŵr bod y Cynulliad hwn, y bobl rydym yn eu cynrychioli, y rhai sy'n gobeithio am swyddi, a buddiolwyr y gadwyn gyflenwi, y cynhyrchwyr a'r buddsoddwyr eisiau hynny'n wirioneddol hefyd, ond po fwyaf nad ydych yn ei ddweud wrthym am y buddsoddiad hwn y cynharaf oll y byddwn yn dechrau amau eich penderfyniadau. Dywedwch wrthym yr hyn sydd angen inni ei wybod, Weinidog, a gadewch inni rannu eich newyddion da a'ch hyder. Diolch yn fawr.

16:04

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have selected the two amendments to the motion. I call on Peter Black to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Amendment 1—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 2 and renumber accordingly:

Yn croesawu pwysigrwydd datblygiadau fel Stiwdios y Bae yn Abertawe a datblygiad S4C yng Nghaerfyrddin i'r economïau lleol.

Welcomes the importance of developments such as Bay Studios in Swansea and the S4C development in Carmarthen to the local economies.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Amendment 2—Aled Roberts

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new sub-point at end of motion:

gweithio gyda darlledwyr a rhwydweithiau fel y BBC, C4, ITV ac S4C er mwyn cynyddu cyfleoedd buddsoddi yng Nghymru.

work with broadcasters and networks such as BBC, C4, ITV and S4C in order to increase investment opportunities in Wales.

Cynigiwyd gwelliannau 1 a 2.

Amendments 1 and 2 moved.

16:04

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I move amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts, and welcome the fact that we're able to have this debate today? I think debates on the creative industries have been fairly rare of late, and I think that we do need, possibly, to do a bit more in terms of scrutinising the Government's performance in that regard. I very much welcome, therefore, Suzy Davies's part 3c) of the motion, because I think it's important that, where the Welsh Government is involved in investment, we do have answers in terms of the effectiveness of that investment and how that boosts the economy.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi gynnig gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts, a chroesawu'r ffaith ein bod yn gallu cael y ddadl hon heddiw? Rwy'n credu bod dadleuon ar y diwydiannau creadigol wedi bod yn weddol brin yn ddiweddar, ac rwy'n meddwl bod angen i ni, o bosibl, wneud ychydig mwy o ran craffu ar berfformiad y Llywodraeth yn hynny o beth. Felly, rwy'n croesawu rhan 3c) Suzy Davies o'r cynnig yn fawr iawn, gan fy mod yn meddwl ei bod yn bwysig, lle y mae Llywodraeth Cymru yn rhan o fuddsoddiad, ein bod yn cael atebion o ran effeithiolrwydd y buddsoddiad a sut y mae hynny'n rhoi hwb i'r economi.

Of course, the creative industries are very important to us, but they're also a major economic driver in our country and I think that Pinewood studios will hopefully demonstrate that that's the case. But, the Pinewood studios are, of course, a Johnny-come-lately compared with the Bay Studios in Swansea, which were there beforehand. We already have an established production there, in 'Da Vinci's Demons', and a very successful studio it is turning out to be. It's certainly attracting jobs and investment to the Swansea area, as well as giving it a boost. Being directly opposite, of course, the new second campus, or just quite opposite the new second campus, no doubt there will be links there, hopefully, in terms of filming opportunities as well, as part of that and also in terms of with the university.

But, I do think that that is a particularly good example of a home-grown investment, as opposed to the inward investment of Pinewood studios. It's actually showing what we can do in terms of the creative industries. And when you look at the investment, you talked about the S4C development in Carmarthenshire, which, of course, takes the heart of Welsh-language broadcasting into the heart of the Welsh language. But, the work that they've been doing since they were established, in terms of working with indigenous companies producing programmes, has been absolutely amazing in terms of creating jobs. Nearly 80 per cent of S4C's income goes to the independent sector and I think their relocation to Carmarthen will cement that, particularly as a large number of those companies are in that particular area. Also, I think that they are utilising and nurturing talent, contributing to the economy of the area and to Wales as a whole. And, of course, S4C tell us that every £1 invested by them in the creative industries is worth £2 to the economy, which I believe is a good return on investment, which the Welsh Government has been supporting and which it needs to continue to support as part of that.

Pinewood studios in Wales, a diverse and vibrant independent company, can feed into that supply chain as well, I hope. But, also I think we need to look at the contribution of other television companies in terms of taking advantage of those production companies that have largely been nurtured by S4C, and which have been built on in terms of the BBC's investment in Wales. Also, we need to encourage ITV and Channel 4 to follow suit as well.

Wrth gwrs, mae'r diwydiannau creadigol yn bwysig iawn i ni, ond maent hefyd yn sbardun economaidd pwysig yn ein gwlad. Credaf y bydd stiwdios Pinewood, gobeithio, yn dangos bod hynny'n wir. Ond mae stiwdios Pinewood wrth gwrs yn ddatblygiad diweddar o gymharu â Stiwdios y Bae yn Abertawe, a oedd yno o'r blaen. Eiso, mae gennym gynhyrchiad wedi ei sefydlu yno, sef 'Da Vinci's Demons', ac mae'n datblygu'n stiwdio lwyddiannus iawn yn wir. Mae'n sicr yn denu swyddi a buddsoddiad i ardal Abertawe, yn ogystal â rhoi hwb iddi. Gan eu bod yn union gyferbyn â'r ail gampws newydd, wrth gwrs, neu bron iawn gyferbyn â'r ail gampws newydd, bydd cysylltiadau yno yn ddi-os, gobeithio, o ran cyfleoedd ffilmio yn rhan o hynny, a hefyd yn gysylltiedig â'r brifysgol.

Ond rwy'n meddwl bod hon yn enghraifft arbennig o dda o fuddsoddiad cartref, yn hytrach na'r buddsoddiad o'r tu allan yn stiwdios Pinewood. Mae'n dangos yr hyn y gallwn ei wneud mewn gwirionedd o ran y diwydiannau creadigol. A phan edrychwch ar y buddsoddiad, fe sonioch am ddatblygiad S4C yn Sir Gaerfyrddin, sydd wrth gwrs yn mynd â chalon darlledu yn yr iaith Gymraeg at galon yr iaith Gymraeg. Ond mae'r gwaith y maent wedi bod yn ei wneud ers iddynt gael eu sefydlu, o ran gweithio gyda chwmnïau cynhenid sy'n cynhyrchu rhaglenni wedi bod yn hollol anhygoel o ran creu swyddi. Mae bron i 80 y cant o incwm S4C yn mynd i'r sector annibynnol ac rwy'n credu y bydd eu hadleoli i Gaerfyrddin yn atgyfnerthu hynny, yn enwedig gan fod yna nifer fawr o gwmnïau yn yr ardal benodol honno. Hefyd, rwy'n meddwl eu bod yn defnyddio ac yn meithrin talent, gan gyfrannu at economi'r ardal ac i Gymru gyfan. Ac wrth gwrs, mae S4C yn dweud wrthym fod pob £1 a fuddsoddir ganddynt yn y diwydiannau creadigol yn werth £2 i'r economi, ac rwy'n credu bod hynny'n elw da ar fuddsoddiad a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru ac sy'n rhaid iddi barhau i'w gefnogi yn rhan o hynny.

Gall stiwdios Pinewood yng Nghymru, cwmni annibynnol amrywiol a bywiog, fwydo i mewn i'r gadwyn gyflenwi hefyd, gobeithio. Ond hefyd rwy'n credu bod angen inni edrych ar gyfraniad cwmnïau teledu eraill o ran cymryd mantais o'r cwmnïau cynhyrchu sydd wedi cael eu meithrin i raddau helaeth gan S4C, ac sydd wedi eu datblygu gan fuddsoddiad y BBC yng Nghymru. Hefyd, mae angen i ni annog ITV a Channel 4 i wneud yr un peth.

In April 2014, Tony Hall, the director-general of the BBC, acknowledged the decline in English-language programming in Wales by all broadcasters over the last decade. He also noted, in response to the budget cuts, that the balance of BBC programming in Wales had shifted to focus on news and current affairs, at the expense of English-language programming covering other aspects of life in Wales, and that, between 2011 and 2013, there was a decline of 101 hours in BBC non-network/nations programming, with non-news programming declining the most. However, the BBC is still providing the bulk of non-news, non-network programming in Wales—in 2013 providing 222 hours, as opposed to 34 hours by ITV Wales. It is also the most significant provider of non-network TV news in Wales and, by a smaller margin, current affairs programming. I'm very much grateful to Ofcom for those figures. But, I certainly think it's important that ITV and Channel 4 catch up.

Channel 4, for a long time, relied on S4C to do its work for it. S4C was boosting the Welsh-language sector, but Channel 4 was not following suit in terms of taking advantage of those production companies in terms of the English-language sector. I think they're starting to catch up, but I think they need to do a lot more. They have increased their commitments to out-of-London commissioning. Several producers in Wales, for example Rondo Media, with production, have taken advantage of Channel 4's Alpha fund, and it is notable that Channel 4 outspends the BBC in terms of out-of-London independent commissions, although I'm not quite sure how much of that actually made it into Wales. But, certainly, I would like to see a lot more presence from the TV companies, like Channel 4 and ITV, in Wales as well.

I think, Deputy Presiding Officer, that this is a very useful debate and one that, again, underlines the advantages and the investment that the creative industries can bring to Wales and to certain parts of Wales. I certainly think that we need to do a lot more to keep encouraging creative industries and to work on that. I think that the fact that we've now started having another debate here possibly could kick-start a more detailed scrutiny of the Welsh Government's work on the creative industries and how they are encouraging that sector here as well. Thank you.

16:09

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm delighted also to take part in today's Welsh Conservative debate regarding the creative industries, which are so often, I think, overlooked when the economy is discussed. But, of course, the sector is a central part of the UK's global appeal and underpins a thriving creative economy. Now, the sector was one of the fastest growing in Wales between 2009 and 2011, with employment growing by 16 per cent.

Ym mis Ebrill 2014, cydnabu Tony Hall, cyfarwyddwr cyffredinol y BBC, y dirywiad a fu yn nifer y rhaglenni Saesneg yng Nghymru gan yr holl ddarleddwyr dros y degawd diwethaf. Nododd hefyd, mewn ymateb i doriadau yn y gyllideb, fod cydbwysedd rhaglennu'r BBC yng Nghymru wedi newid i ganolbwyntio ar newyddion a materion cyfoes ar draul rhaglenni Saesneg sy'n cwmpasu agweddau eraill ar fywyd yng Nghymru, a bod 101 yn llai o oriau o raglenni nad ydynt yn rhaglenni rhwydwaith/gwledydd y BBC rhwng 2011 a 2013, gyda'r gostyngiad mwyaf i'w weld yn nifer rhaglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion. Fodd bynnag, y BBC sy'n dal i ddarparu'r rhan fwyaf o raglenni nad ydynt yn rhaglenni newyddion na'n rhaglenni rhwydwaith yng Nghymru—yn 2013, darparodd 222 o oriau o gymharu â 34 awr gan ITV Wales. Y BBC hefyd yw'r darparwr mwyaf sylweddol o newyddion teledu heb fod yn newyddion rhwydwaith yng Nghymru, a rhaglenni materion cyfoes hefyd, er bod y bwlch yn llai. Rwy'n ddiolchgar iawn i Ofcom am y ffigurau hyn. Ond rwy'n sicr yn credu ei bod yn bwysig i ITV a Channel 4 ddal i fyny.

Roedd Channel 4 am amser hir yn dibynnu ar S4C i wneud ei waith ar ei ran. Roedd S4C yn rhoi hwb i'r sector Cymraeg ei iaith, ond nid oedd Channel 4 yn dilyn o ran manteisio ar y cwmnïau cynhyrchu hynny o ran y sector Saesneg ei iaith. Rwy'n credu eu bod yn dechrau dal i fyny, ond rwy'n meddwl bod angen iddynt wneud llawer mwy. Maent wedi cynyddu eu hymrwymadau i gomisiynu y tu allan i Lundain. Mae nifer o gynhyrchwyr yng Nghymru, er enghraifft Rondo Media gyda chynhyrchu, wedi manteisio ar gronfa Channel 4 Alpha, ac mae'n werth nodi bod Channel 4 yn gwario mwy na'r BBC ar gomisiynau annibynnol y tu allan i Lundain, er nad wyf yn hollol siŵr faint o'r rheini sydd wedi dod i Gymru mewn gwirionedd. Ond yn sicr, hoffwn weld llawer mwy o bresenoldeb gan y cwmnïau teledu, fel Channel 4 ac ITV, yng Nghymru hefyd.

Rwy'n meddwl, Ddirprwy Lywydd, fod hon yn ddadl ddefnyddiol iawn ac yn un sydd, unwaith eto, yn tanlinellu'r manteision a'r buddsoddiad y gall y diwydiannau creadigol eu dwyn i Gymru ac i rai rhannau o Gymru. Rwy'n sicr yn credu bod angen i ni wneud llawer mwy i ddal i annog diwydiannau creadigol ac i weithio ar hynny. Credaf y gallai'r ffaith ein bod bellach wedi dechrau cael trafodaeth arall yma roi cychwyn o bosibl ar broses graffu fwy manwl ar waith Llywodraeth Cymru ar y diwydiannau creadigol a sut y maent yn annog y sector hwnnw yma hefyd. Diolch yn fawr.

Rwyf innau hefyd wrth fy modd yn cymryd rhan yn nadl y Ceidwadwyr Cymreig heddiw ynglŷn â'r diwydiannau creadigol, sydd mor aml, rwy'n meddwl, yn cael eu hanwybyddu pan fydd yr economi yn destun trafodaeth. Ond wrth gwrs, mae'r sector yn rhan ganolog o apêl fyd-eang y DU ac yn sail i economi creadigol sy'n ffynnu. Nawr, mae'r sector yn un o'r rhai a oedd yn tyfu gyflymaf yng Nghymru rhwng 2009 a 2011, gyda chyflogaeth yn cynyddu 16 y cant.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

On Monday 16 March, the First Minister held a press conference at Pinewood, where he announced that provisional figures show that the record was broken last year for the number of foreign-investment projects attracted to Wales, with Pinewood becoming our fiftieth anchor company. But it can be argued that, since the number of foreign investment projects started at such a low base, that this record-breaking figure, perhaps, is still some way behind other regions and the full potential of Wales.

It's clear that Wales, as part of a UK drive, has the potential to cement our position as the world's leading creative hub, provided we take steps, I believe, to now build on existing progress and ensure that all the underlying industries involved have the foundations in place for long-term success.

The Welsh Government, I believe, needs to show the Assembly and the creative industries sector how it intends to keep foreign investment in Wales and what aftercare it is providing businesses operating in the creative industries sector.

Creative industries make a vital contribution to the economy. As we know, the UK has particular strengths in music, broadcasting, video games and fashion. Together, they account for something in the region of 11 per cent of the UK's exports and 1.5 million jobs. The UK boasts the largest broadcasting hub in Europe, the leading online advertising market in Europe, one of the world's largest music industries in terms of exports, and the fastest growing digital economy in the G20.

In the Confederation of British Industry's report, 'Playing our strongest hand: Maximising the UK's industrial opportunities', it called on Governments in Wales and Westminster to spearhead a new strategy to support sectors of the economy where the UK has particular strengths and high-growth potential, identifying the creative industries as a key sector to get behind. The CBI report said that, whilst the Welsh Government offers a wide range of support to the creative sector, we need to take steps to secure the future of the global competitiveness of the industry through closer Government and business collaboration.

In a recent article, Dr Trefor Lewis, a member of the Gorwel working group on the Welsh economy, outlined the need to empower a creative economy in Wales to overcome its economic difficulties. Bringing investment into Wales is necessary to spur economic growth. The plans to improve the infrastructure and generate economic growth through core cities such as Cardiff are important schemes. However, there remains another means to create economic prosperity, and that is through creativity.

Ar ddydd Llun 16 Mawrth, cynhaliodd y Prif Weinidog gynhadledd i'r wasg yn Pinewood, lle y cyhoeddodd fod y ffigurau dros dro yn dangos bod y record wedi'i thorri y llynedd o ran y nifer o brosiectau buddsoddiad tramor a ddenwyd i Gymru, gyda Pinewood yn dod yn hanner canfed cwmni angori i ni. Ond gellir dadlau, gan fod nifer y prosiectau buddsoddiad tramor wedi dechrau o sylfaen mor isel, fod y ffigur hwn sy'n torri'r record yn dal i fod yn eithaf pell y tu ôl i ranbarthau eraill efallai, a photensial llawn Cymru.

Mae'n glir bod gan Gymru, fel rhan o ymgyrch y DU, y potensial i gadarnhau ein safle fel canolbwynt creadigol mwyaf blaenllaw y byd, ar yr amod ein bod yn rhoi camau ar waith, yn fy marn i, i adeiladu yn awr ar y cynnydd presennol a sicrhau bod yr holl ddiwydiannau sylfaenol sy'n rhan o'r broses â'r seiliau yn eu lle ar gyfer llwyddiant hirdymor.

Rwy'n credu bod angen i Lywodraeth Cymru ddangos i'r Cynulliad a'r sector diwydiannau creadigol sut y mae'n bwriadu cadw buddsoddiad tramor yng Nghymru a pha ôl-ofal y mae'n ei ddarparu i fusnesau sy'n gweithredu yn y sector diwydiannau creadigol.

Mae diwydiannau creadigol yn gwneud cyfraniad hanfodol i'r economi. Fel y gwyddom, mae gan y DU gryfderau penodol mewn cerddoriaeth, darlledu, gemau fideo a ffasiwn. Gyda'i gilydd, maent yn creu oddeutu 11 y cant o allforion y DU a 1.5 miliwn o swyddi. Y DU sydd â'r ganolfan ddarlledu fwyaf yn Ewrop, y farchnad hysbysebu ar-lein fwyaf yn Ewrop, un o ddiwydiannau cerddoriaeth mwyaf y byd o ran allforion, a'r economi ddigidol sy'n tyfu gyflymaf yn y G20.

Roedd adroddiad Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, 'Playing our strongest hand: Maximising the UK's industrial opportunities', yn galw ar y Llywodraethau yng Nghymru a San Steffan i arwain strategaeth newydd i gefnogi sectorau o'r economi lle y mae gan y DU gryfderau penodol a photensial ar gyfer twf da, gan nodi'r diwydiannau creadigol fel sector allweddol i'w gefnogi. Roedd adroddiad y CBI yn dweud, er bod Llywodraeth Cymru yn cynnig ystod eang o gymorth i'r sector creadigol, mae angen i ni gymryd camau i sicrhau dyfodol cystadleurwydd byd-eang y diwydiant drwy gydweithio agosach rhwng y Llywodraeth a busnes.

Mewn erthygl ddiweddar, amlinellodd Dr Trefor Lewis, aelod o weithgor Gorwel ar economi Cymru, yr angen i roi grym i economi creadigol yng Nghymru oresgyn ei hanawsterau economaidd. Mae angen dod â buddsoddiad i Gymru er mwyn sbarduno twf economaidd. Mae'r cynlluniau i wella'r seilwaith a chreu twf economaidd drwy ddinasoedd craidd megis Caerdydd yn gynlluniau pwysig. Fodd bynnag, mae yna ffordd arall o greu ffyniant economaidd, a hynny drwy greadigrwydd.

Here is where I want to end with a particular plug—it's already been mentioned—for South Wales West and, in particular, the Bay Studios business park, which was host to the 'Da Vinci's Demons' series, and the investment it brought into Swansea and the surrounding area. Now, having toured it and both seen and appreciated its potential, I think that we have to recognise and support such a home-grown business, coupled, of course, with—as has already been mentioned by Peter Black—the second Swansea campus. And it is important that investment in the creative industries is spread across Wales and does not further the brain drain, as it were, from across Wales to Cardiff.

The Bay Studios business park has the potential for direct employment of between 500 and 1,000 jobs, depending on the make-up of a full site. With 600,000 sq ft, it would be a sizeable contribution to the creative industries in Wales and the UK. So I say that we must support the industry in the Cardiff region and outside of it. I'm incredibly proud, actually, that one of Wales's biggest productions, namely the 'Da Vinci's Demons' series—hugely popular in the USA—was filmed in the Swansea region, and made possible by a local businessman from Swansea.

Members, I commend this motion. We need to build on the work of the creative industries to date and, with the investment, deliver within the Conservative long-term economic plan. There is no reason why Wales cannot take advantage of the growth and potential that this sector provides us. Thank you.

16:14

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Beth am y diwydiannau creadigol? Beth mae'r sector wedi ei greu yn barod? Wel, 50,000 o swyddi mewn dros 4,500 o fusnesau; cynnydd gwariant yn agos at £1 biliwn yn flynyddol; rhestr cleientiaid sy'n cynnwys Disney, Google a Vodafone; cynnydd yn y nifer sy'n gweithio yn y sector o 58 y cant rhwng 2005 a 2013, gyda thwf diwydiannol uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig dros y cyfnod. Felly, er fy mod yn nodi pwysigrwydd y sector i'r economi, a'r nifer o swyddi sy'n cael eu creu, ni allaf gefnogi dadl mor feirniadol ar weithred y Llywodraeth sydd wedi cyflawni hyn, ond rwy'n falch i gefnogi gwelliannau 1 a 2.

Y panel sector: wrth sefydlu'r panel, y sialens wirioneddol oedd sicrhau bod Cymru yn parhau yn gystadleuol.

Since the panel's inception, the creative industries sector team has helped create or safeguard over 2,900 jobs, and to attract more than £105 million in investment into Wales.

Dyma lle rwyf am orffen drwy roi hysbysrwydd penodol—mae eisoes wedi cael ei grybwyll—i Orllewin De Cymru ac yn arbennig, i barc busnes Stiwdios y Bae a oedd yn gartref i gyfres 'Da Vinci's Demons' a'r buddsoddiad a ddenodd i Abertawe a'r ardal gyfagos. Nawr, ar ôl teithio o'i amgylch a gweld a gwerthfawrogi ei botensial, credaf fod yn rhaid i ni gydnabod a chefnogi busnes cynhenid o'r fath, ynghyd ag ail gampws Abertawe, fel y mae Peter Black eisoes wedi sôn, wrth gwrs. Ac mae'n bwysig bod buddsoddiad yn y diwydiannau creadigol yn cael ei wasgaru ar draws Cymru ac nad yw'n gwaethygu'r draen dawn, fel petai, o bob rhan o Gymru i Gaerdydd.

Mae potensial gan barc busnes Stiwdios y Bae i greu gwaith uniongyrchol i rhwng 500 a 1,000 o bobl yn dibynnu ar gyfansoddiad safle llawn. Gyda 600,000 o droedfeddi sgwâr, byddai'n gyfraniad sylweddol i'r diwydiannau creadigol yng Nghymru ac yn y DU. Felly, rwy'n dweud bod yn rhaid i ni gefnogi'r diwydiant yn rhanbarth Nghaerdydd a thu hwnt. Rwy'n hynod o falch, mewn gwirionedd, fod un o gynrychiadau mwyaf Cymru, sef cyfres 'Da Vinci's Demons'—sy'n hynod o boblogaidd yn yr Unol Daleithiau—wedi'i ffilmio yn ardal Abertawe a bod hynny wedi'i wneud yn bosibl gan ddyn busnes lleol o Abertawe.

Aelodau, rwy'n cymeradwyo'r cynnig hwn. Mae angen i ni adeiladu ar waith y diwydiannau creadigol hyd yma a chyflawni gyda'r buddsoddiad o fewn cynllun economaidd hirdymor y Ceidwadwyr Cymreig. Nid oes unrhyw reswm pam na all Cymru fanteisio ar y twf a'r potensial y mae'r sector hwn yn ei gynnig i ni. Diolch yn fawr.

What of the creative industries? What has the sector already created? Well, 50,000 jobs in more than 4,500 businesses; increased expenditure of nearly £1 billion annually; a client list that includes Disney, Google and Vodafone; an increase in the number employed in the sector of 58 per cent between 2005 and 2013, with higher industrial growth than the UK average over the period. So, although I note the importance of the sector to the economy, and the number of jobs that are created, I cannot support such a critical debate on the actions of the Government that has actually achieved this, but I am pleased to support amendments 1 and 2.

The sector panel: in establishing the panel, the real challenge was to ensure that Wales remained competitive.

Ers sefydlu'r panel, mae tîm sector y diwydiannau creadigol wedi helpu i greu neu ddiogelu dros 2,900 o swyddi, ac i ddenu mwy na £105 miliwn o fuddsoddiad i Gymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Bwriad y panel oedd adrodd i'r Gweinidog pan fod angen, yn hytrach nag adroddiad rheolaidd. Ymysg yr amcanion hirdymor—rwyf am drafod rhai ohonyn nhw—yn gyntaf, darpariaeth band eang, sydd i'w gymeradwyo am ei fod newydd daro hanner ffordd. Wrth gwrs, mae rhannau o'r m hetholaeth i yn aros am y gwasanaeth o hyd, ond rwyf hefyd wedi ysgrifennu at ddarparwyr 4G, ac rwy'n gweld bod hwn yr un mor bwysig i fusnesau bach ag i bobl sy'n symud. Yn ail, cefnogaeth busnes arbenigol a chyllid: gwyddom am ddarpariaeth Llywodraeth Cymru megis y gronfa datblygu digidol, Comisiwn Sgrîn Cymru ac Ewrop Creadigol. Yn drydydd, hyfforddiant y gweithlu: prifysgolion Cymru sy'n cynhyrchu dros 5,000 o raddedigion bob blwyddyn yn ymwneud â'r diwydiannau creadigol. Ac yn olaf, cefnogaeth ariannol Ewropeaidd: mae 'Y Gwyll' wedi derbyn £0.5 miliwn o gyllid Ewrop, ac rydym ni'n aros i WEFO nawr i ryddhau ei flaenoriaethau newydd. A fyddan nhw'n cynnwys y diwydiannau creadigol?

S4C: yn gyflym, rwyf eisiau sôn am adleoli S4C, a fydd yn ffurfio rhan enfawr o'r diwydiant yn y gorllewin. Wrth gwrs, hefyd rwy'n canolbwyntio ar ddarllediad cyfrwng Cymraeg y sianel, sydd wedi arwain y ffordd i'r Alban ac Iwerddon yn eu hieithoedd hwy. Ers 1982, mae S4C wedi denu buddsoddiad uniongyrchol o £2.2 biliwn i'r economi o du hwnt i Gymru a'i wario bron i gyd yng Nghymru. Mae pob punt a fuddsoddir, fel y dywedodd Peter Black yn gynharach, werth bron £2 i'r economi. Yn wahanol i'r BBC, nid yw S4C yn cynhyrchu ei rhaglenni ei hun, felly, o'r arian, mae oddeutu 80 y cant yn mynd yn syth i'r cwmnïau creadigol ac yn y blaen. Fel y dywedodd adolygiad Hargreaves yn 2010,

'Heb S4C, hwyrach na fyddai gan Gymru unrhyw gwmnïau cynhyrchu teledu annibynnol o gwbl.'

Yn 2013, cynyddodd cyrhaeddiad S4C at 6.5 miliwn sy'n dangos y cynnwys o'r radd flaenaf y mae'r cwmnïau creadigol yn cynhyrchu ar gyfer cynulleidfaoedd S4C—pwyntiau sy'n cryfhau'r economi, hyfforddiant a statws yr iaith yn y gorllewin. Rwy'n edrych ymlaen at yr adleoliad, ac at drafodaethau o sut y gallwn gynnig y pecyn orau o gefnogaeth.

Beth am ganolfan Yr Egin, y ganolfan newydd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant? Pwynt cyntaf i sôn amdano: heblaw Amgueddfa Cymru blynyddoedd yn ôl, dyma'r sefydliad cyntaf i symud ei bencadlys y tu allan i Gaerdydd. Dyna beth mae S4C yn ei wneud. Bydd yn gartref i dros 25 o gwmnïau ac asiantaethau cysylltiedig, ac yn ymddwyn fel hwb. Yr amcangyfrif hefyd yw y bydd 200 o swyddi yn Yr Egin, gan gynnwys 50 o swyddi gan S4C a gaiff eu hadleoli o Gaerdydd, a gobeithio y bydd y 150 arall yn dod o'r gorllewin. Y bwriad yw creu effaith economaidd mawr, yn bennaf drwy fod yn gartref i elfennau creadigol, digidol a diwylliannol mewn un adeilad, yn cyfuno sgiliau a chreu cyfleoedd i rannu gwybodaeth a bod ar y blaen. Bydd yn actio fel canolfan hyfforddiant cenedlaethol i'r diwydiannau creadigol ac yn cael effaith positif ar y ffordd mae'r gweithlu cyfredol yn cael ei hyfforddi a'i uwchsgilio. I orffen, Weinidog, os byddech yn creu ardal fenter diwydiannau creadigol, lle gwell na sir Gâr? Bydd e fel MediaCityUK yn Salford. Diolch.

The aim of the panel was to report to the Minister when required, rather than providing a regular report. Among the long-term objectives that I want to discuss, first of all, the provision of broadband, which is to be applauded in having just reached 50 per cent. Of course, parts of my constituency are still waiting for that service, but I've also written to 4G providers, and I see that that is just as important to small business as it is to people on the move. Secondly, expert business support and finance: I know of the provision provided by Welsh Government such as the digital development fund, Wales Screen Commission and Creative Europe. Thirdly, workforce training: Welsh universities produce over 5,000 graduates annually who are related to the creative industries. Finally, European financial support: 'Y Gwyll/Hinterland' received £0.5 million in European funding, and we're waiting now for WEFO to release their new priorities. Will they include the creative industries?

S4C: very briefly, I want to mention the relocation of S4C, which will form a huge part of the industry in west Wales. Of course, I concentrate also on the Welsh-medium output of the channel, which has led the way for Scotland and Ireland in their own languages. Since 1982, S4C has attracted direct investment of £2.2 billion to the economy from outwith Wales and has spent almost all of that in Wales. Every pound invested, as Peter Black said earlier, is worth some £2 to the economy. Unlike the BBC, S4C doesn't produce its own output, so some 80 per cent of the funding is provided directly to creative companies and so on. As the Hargreaves review said in 2010,

'Without S4C, Wales may well not have any independent television production companies at all.'

In 2013, the output of S4C reached 6.5 million people, which demonstrates the first-class produce that the creative companies create for S4C's audiences—points that strengthen the economy, training, and the status of the language in west Wales. I look forward to the relocation and to discussions on how we can offer the best package of support.

What about Yr Egin, the new centre in the University of Wales Trinity St David? The first point to mention is that apart from National Museum Wales, years ago, this is the first institution to move its headquarters out of Cardiff. That is what S4C is currently doing. It will be a home to over 25 companies and related agencies, and will act as a hub. It's estimated also that some 200 jobs will be created within Yr Egin, including some 50 jobs with S4C that will be relocated from Cardiff, and hopefully another 150 will come from west Wales. The intention is to have a major economic impact in the area, mainly by being a home to creative, digital and cultural elements all within the one location, combining skills and creating opportunities to share information and to be in the vanguard. It will become a national centre for training for the creative industries and have a positive impact on the way that the current workforce is trained and upskilled. To conclude, Minister, if you create a creative industries enterprise zone, where better than Carmarthenshire? It'll be like MediaCityUK in Salford. Thanks.

I welcome the opportunity to contribute in the debate today. Creative industries are a rapidly growing sector of the economy. I would suggest much of that growth is attributed to the current Government's budget advantages that they've brought forward over the last five years that is helping to sustain the long-term economic plan that we've brought forward. When you look at, in particular, the jobs that have been created, and some of the figures that have been mentioned by Members from across the Chamber over the sums of money involved, we are talking huge sums of money that generate high-value jobs, but it is something that we do need to reflect on—exactly where we're going with the creative industries and, in particular, the Government's developments and supported schemes that they have—because, obviously, previous Welsh Governments haven't got a particularly good record in this field. I think of Dragon studios, for example, just outside Pencoed, which promised much and delivered very little. Obviously, some of those facilities still stand today, and it would be interesting to hear what the Minister can outline as to exactly what is happening with those facilities in Pencoed, because they did enjoy European funding moneys, and, as I understand it, there's very little going on there at the moment.

When we look at the creative industries, we are talking not just about tv, stage and film, which a lot of people would, traditionally, think of, but we're thinking about animation, in particular, because that's a huge growth area, and social media and the ability to develop social media. If you just think of the Facebooks of this world, and the Microsofts et cetera, they started off as very small ideas, and now they are global titans that dominate the commercial sector that they operate in. That is the area, surely, that we need to be linking up with our higher education facilities and, in particular, our further education colleges, because it is important that we can train people to work within the creative industries sector. What I do find disappointing is, obviously, the Government's current stance on apprenticeships, in particular, with the budget round that has come forward that has seen some 9,000 apprenticeships disappear, or an inability to fund 9,000 apprenticeship places in the current budget settlement. Again, I would be very pleased to hear from the Minister as to how she views the accessibility into HE and FE for the creative industries, because it's one thing locating production companies here for temporary film work, but what we want to create is a truly pan-Wales industry that can offer opportunities, whether they be in the north, south, east or west.

Croesawaf y cyfle i gyfrannu at y ddatl heddiw. Mae diwydiannau creadigol yn sector o'r economi sy'n tyfu'n gyflym. Byddwn yn awgrymu bod llawer o'r twf hwnnw i'w briodoli i fanteision cyllidebol y Llywodraeth bresennol a gyflwynwyd ganddynt yn ystod y pum mlynedd diwethaf sy'n helpu i gynnal y cynllun economaidd hirdymor rydym wedi ei gyflwyno. Pan edrychwch yn arbennig ar y swyddi sydd wedi eu creu a rhai o'r ffigurau sydd wedi cael eu crybwyll gan Aelodau o bob rhan o'r Siambr o ran y symiau o arian dan sylw, rydym yn sôn am symiau enfawr o arian sy'n creu swyddi o werth uchel, ond mae'n rhywbeth y mae angen i ni ei ystyried—i lle'n union rydym yn mynd â'r diwydiannau creadigol ac yn arbennig, datblygiadau'r Llywodraeth a'r cynlluniau cymorth sydd ganddynt—oherwydd, yn amlwg, nid oedd gan Lywodraethau Cymru yn flaenorol record arbennig o dda yn y maes. Rwy'n meddwl am stiwdios y Ddraig, er enghraifft, ychydig y tu allan i Bencoed, a addawodd lawer a darparu ychydig iawn. Yn amlwg, mae rhai o'r cyfleusterau hynny'n dal i sefyll heddiw a byddai'n ddiddorol clywed yr hyn y gall y Gweinidog ei ddweud o ran beth yn union sy'n digwydd gyda'r cyfleusterau hyn ym Mhencoed, gan iddynt ddenu arian cyllido o Ewrop ac yn ôl a ddeallaf, ychydig iawn sy'n digwydd yno ar hyn o bryd.

Pan edrychwn ar y diwydiannau creadigol, rydym yn sôn nid yn unig am deledu, llwyfan a ffilm y byddai llawer o bobl, yn draddodiadol, yn meddwl amdanynt, ond rydym yn meddwl hefyd am animeiddio, yn arbennig, gan fod hwnnw'n faes twf enfawr, a chyfryngau cymdeithasol a'r gallu i ddatblygu cyfryngau cymdeithasol. Os ydych yn meddwl am Facebooks y byd hwn, a'r Microsofts ac ati, maent yn deillio o syniadau bach iawn ac erbyn hyn maent yn gewri byd-eang sy'n dominyddu'r sector masnachol y gweithredant ynddo. Dyna'r maes, yn sicr, sydd angen i ni ei gysylltu â'n cyfleusterau addysg uwch ac yn benodol, ein colegau addysg bellach, oherwydd mae'n bwysig ein bod yn gallu hyfforddi pobl i weithio yn y sector diwydiannau creadigol. Testun siom i mi, yn amlwg, yw safbwynt presennol y Llywodraeth ar hyn o bryd ar brentisiaethau, yn arbennig, gyda chyflwyno cylch cyllideb sydd wedi arwain at gael gwared ar oddeutu 9,000 o brentisiaethau, neu anallu i ariannu 9,000 o leoedd prentisiaeth yn y setliad cyllidebol cyfredol. Unwaith eto, byddwn yn falch iawn o glywed gan y Gweinidog o ran sut y mae'n gweld ffordd i mewn i'r diwydiannau creadigol i Addysg Uwch ac Addysg Bellach, am mai un peth yw lleoli cwmnïau cynhyrchu yma ar gyfer gwaith ffilm dros dro, ond yr hyn rydym am ei greu yw diwydiant ar gyfer Cymru gyfan mewn gwirionedd a all gynnig cyfleoedd yn y gogledd, y de, y dwyrain a'r gorllewin.

The move by S4C to Carmarthen does offer a great opportunity to develop, as Keith Davies touched on, a MediaCityUK-type concept. Listening to the debate, I also felt a little worry creeping in, because I think it was Peter Black who said that it was moving to its heartlands in Carmarthenshire. Surely, if you have ambition and you are bold, you actually want to break out of those heartlands and create energy in other parts of Wales as well, rather than just being in your comfort zone. I really hope that it really does build a strong presence in Carmarthenshire, and, ultimately, then, breaks out and develops opportunities, as I said earlier, across the whole of Wales—north Wales and east Wales—because, ultimately, that's how we will succeed in developing and enriching the Welsh language, and, above all, offer the opportunity for English and Welsh production to flourish. That, surely, is one of the unique talents and aspects we have here in Wales—the ability to produce productions and create developments in the creative industries in two wonderful languages. We can sell those products globally, and that will bring valuable resource into Wales.

I think of my own electoral region, here in South Wales Central, that has the Roath Lock development of recent years and also the BBC's commitment to develop its own Welsh headquarters in Cardiff. I think, in the Vale of Glamorgan, over the last five or six years, of the amount of productions that have taken place in my own village of St Hilary—'Sherlock', for example, was filmed there—and, very often, you see the local filling station's car park full up with production vehicles because people have moved into the area for an element of filming for the last couple of weeks of that particular production. That is a great opportunity for the local community to be part of that, but it also puts money into that local community as well.

However, I do think that we need to be making sure that we don't just look at it through the premise of the traditional view of film, stage and tv, and that we do need to reflect on how we can develop the social media side of it and the animation side of the creative industries. We do need the Welsh Government to give us the assurances that were called for earlier, given schemes like Dragon studios, which did prove to be a bit of a white elephant. Ultimately, we do need the assurances that there are the opportunities in our higher education facilities and in FE colleges for apprenticeships and courses to create the backbone of the industry that we want to create in Wales—a vibrant twenty-first century creative industries sector.

Fel y soniodd Keith Davies, mae symud S4C i Gaerfyrddin yn gyfle gwych i ddatblygu cysyniad o fath MediaCityUK. Wrth wrando ar y ddaidl, roeddwn innau hefyd yn dechrau teimlo braidd yn boenus, oherwydd rwy'n credu mai Peter Black a ddywedodd ei bod yn symud i'w chadarnleoedd yn Sir Gaerfyrddin. Yn sicr, os oes gennych uchelgais a'ch bod yn feiddgar, mewn gwirionedd fe fyddwch yn awyddus i dorri allan o'r cadarnleoedd hynny a chreu egni mewn rhannau eraill o Gymru yn ogystal, yn hytrach nag aros yn y man mwyaf cyffyrddus i chi. Rwy'n gobeithio y bydd yn datblygu presenoldeb cryf yn Sir Gaerfyrddin ac yn y pen draw, yn torri allan ac yn datblygu cyfleoedd, fel y dywedais yn gynharach, ar draws Cymru gyfan—gogledd a dwyrain Cymru—oherwydd, yn y pen draw, dyna sut y llwyddwn i ddatblygu a chyfoethogi'r iaith Gymraeg, ac yn anad dim, dyna sut y gallwn gynnig cyfle i gynyrchiadau Saesneg a Chymraeg i ffynnu. Hynny, yn sicr, yw un o'r talentau a'r agweddau unigryw sydd gennym yma yng Nghymru—y gallu i gynhyrchu cynyrchiadau a chreu datblygiadau yn y diwydiannau creadigol mewn dwy iaith wych. Gallwn werthu'r cynhyrchion hynny'n fyd-eang, gan ddod ag adnoddau gwerthfawr i Gymru.

Rwy'n meddwl am fy rhanbarth etholiadol fy hun, yma yng Nghanol De Cymru, sydd wedi gweld datblygiad Porth y Rhath dros y blynyddoedd diwethaf ac ymrwymiad y BBC hefyd i ddatblygu ei bencadlys Cymreig ei hun yng Nghaerdydd. Rwy'n meddwl am Fro Morgannwg, dros y pump neu chwe blynedd diwethaf, o ran faint o gynyrchiadau sydd wedi digwydd yn fy mhentref hun sef St Hilari—cafodd 'Sherlock', er enghraifft, ei ffilmio yno—ac yn aml iawn, fe welwch faes parcio'r orsaf betrol leol yn orlawn o gerbydau cynhyrchu am fod pobl wedi symud i mewn i'r ardal ar gyfer elfen o ffilmio dros ychydig wythnosau diwethaf y cynhyrchiad penodol hwnnw. Mae'n gyfle gwych i'r gymuned leol fod yn rhan ohono, ond mae hefyd yn dod ag arian i mewn i'r gymuned leol.

Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod angen i ni wneud yn siŵr nad ydym yn edrych arno'n unig o'r safbwynt traddodiadol am ffilm, llwyfan a theledu, ac mae angen i ni ystyried sut y gallwn ddatblygu ochr y cyfryngau cymdeithasol iddo ac ochr animeiddio'r diwydiannau creadigol. Rydym angen i Lywodraeth Cymru roi'r sicrwydd y galwyd amdano'n gynharach, o ystyried cynlluniau fel stiwdios y Ddraig, a oedd yn dipyn o eliffant gwyn. Yn y pen draw, rydym angen sicrwydd fod cyfleoedd i'w cael yn ein cyfleusterau addysg uwch ac mewn colegau addysg bellach ar gyfer prentisiaethau a chyrtsiau i greu asgwrn cefn i'r diwydiant rydym am ei greu yng Nghymru—sector diwydiannau creadigol bywiog ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

Thank you to the Conservatives for bringing the debate today. I do agree with Peter Black, actually: I think we haven't been discussing this sector enough in the last few months. While we're on the topic of the Bay Studios, I, too, would like to endorse the fact that it is in our region. Obviously, I have some actor friends who took part in 'Da Vinci's Demons', and it's actually quite good for them as, quite often, freelancers, who don't know where they're going from day to day, to be able to film in Wales and to be able to have that resource on their doorstep. Perhaps if James Bond had gone to Swansea, he might have been more welcome than he was in the Chamber of the National Assembly for Wales, but then that's a debate for another day.

I think, though, when we're talking about bringing investment to Wales in relation to that sector, for starters, I do believe that it has dropped from the programme for government to have more production made in Wales by independent Welsh production companies. So, I would like to see that be put higher up on the political agenda because, only this morning, I had a meeting with the BBC, and they were saying that only an hour and a half of original—original—Welsh drama has been made. That is tragic really, because obviously I think it gets lost in the whole debate around 'Doctor Who', 'Sherlock' and 'Casualty'; actually they're made in Wales, but are not defined as original drama from Wales. So, when we're talking about Welsh actors, Welsh scriptwriters, Welsh production staff, they're not being utilised as much as they could be. For example, when I spoke to Rondo—a few years ago now, I must say—they were sending production teams out to England because they weren't able to get as much work in Wales. Isn't it a tragedy for Wales-based, indigenous companies to have to always, perhaps, look out to other countries, as opposed to being able to get the work here in Wales, naturally, so to speak? So, I would like to see more of an emphasis on that, and more information, as Suzy Davies said, on the Pinewood Studios financial aspects.

When we look at Hargreaves, I think there are still quite a lot of question marks, especially when I was looking through my notes. For example, we were told that there was going to be a map of the creative industries in Wales; well, I can't find information on that. A strategy for the sector—can we have more information on that? A creative intellectual property fund—can we have an update on that? An annual audit by BBC, S4C and Channel 4 on the economic impact on Wales of the production of work in this sector—I haven't seen details on that. When we come to the Welsh Music Foundation, well we know that money was removed from the Welsh Music Foundation. They were just about to look at setting up a model for a performing rights royalties system for Wales—a Wales collection society—because of the debacle that existed with the Performing Rights Society funding for Welsh-language musicians, but what is happening now with that, considering that the Welsh Music Foundation lost its funding?

Diolch i'r Ceidwadwyr am gyflwyno'r ddatl heddiw. Rwy'n cytuno â Peter Black, mewn gwirionedd: Rwy'n credu nad ydym wedi trafod y sector yn ddigonol dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Gan ein bod yn sôn am Stiwdios y Bae, fe hoffwn innau hefyd gymeradwyo'r ffaith eu bod yn ein hardal ni. Yn amlwg, mae gennyf rai ffrindiau sy'n actorion a gymerodd ran yn 'Da Vinci's Demons', ac mewn gwirionedd mae wedi bod yn dda iddynt ffilio yng Nghymru a chael yr adnodd ar garreg eu drws, gan nad yw gweithwyr ar eu liwt eu hunain yn aml iawn yn gwybod i lle y maent yn mynd o ddydd i ddydd. Pe bai James Bond wedi mynd i Abertawe, efallai y gallai fod wedi cael mwy o groeso nag a gafodd yn Siambr Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ond mae honno'n datl at rywbryd eto.

Fodd bynnag, pan fyddwn yn sôn am ddot â buddsoddiad i Gymru mewn perthynas â'r sector, i ddechrau, rwy'n credu bod sicrhau mwy o gynhyrchu a wnaed yng Nghymru gan gwmnïau cynhyrchu Cymreig annibynol wedi cael ei ddileu o'r rhaglen llywodraethu. Felly, hoffwn weld hynny'n cael ei osod yn uwch ar yr agenda wleidyddol. Y bore yma, cefais gyfarfod gyda'r BBC ac roeddent yn dweud mai awr a hanner yn unig o ddrama wreiddiol o Gymru—gwreiddiol—a wnaed. Mae hynny'n drist mewn gwirionedd gan ei fod yn amlwg yn mynd ar goll, rwy'n credu, yn y drafodaeth ynghylch 'Doctor Who', 'Sherlock' a 'Casualty'; mewn gwirionedd cânt eu gwneud yng Nghymru, ond nid ydynt yn cael eu diffinio fel dramâu gwreiddiol o Gymru. Felly, pan fyddwn yn sôn am actorion Cymreig, sgriptwyr Cymreig, staff cynhyrchu Cymreig, nid ydynt yn cael eu defnyddio cymaint ag y gellid. Er enghraifft, pan siaradais â Rondo—ychydig flynyddoedd yn ôl erbyn hyn, mae'n rhaid i mi ddweud—roeddent yn anfon timau cynhyrchu i Loegr am nad oeddent yn gallu cael cymaint o waith yng Nghymru. Onid yw'n drasiedi fod cwmnïau cynhenid wedi'u lleoli yng Nghymru yn gorfod edrych ar weithio mewn gwledydd eraill bob amser yn hytrach na'u bod yn gallu cael gwaith yma yng Nghymru, yn naturiol, fel petai? Felly, hoffwn weld mwy o bwyslais ar hynny, a mwy o wybodaeth, fel y dywedodd Suzy Davies, am agweddau ariannol Pinewood Studios.

Pan edrychwn ar Hargreaves, rwy'n credu bod nifer o gwestiynau'n dal i'w gofyn, yn enwedig pan oeddwn yn edrych drwy fy nodiadau. Er enghraifft, dywedwyd wrthym fod y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn mynd i gael eu mapio; wel, ni allaf ddot o hyd i wybodaeth am hynny. Strategaeth ar gyfer y sector—a gawn ni ragor o wybodaeth am hynny? Cronfa eiddo deallusol creadigol—a gawn ni'r wybodaeth ddiweddaraf am hynny? Archwiliad blynyddol gan y BBC, S4C a Channel 4 ar effaith economaidd cynhyrchu gwaith yn y sector hwn ar Gymru—nid wyf wedi gweld y manylion ar hynny. Wrth ystyried y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig, wel rydym yn gwybod bod yr arian ar gyfer y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig wedi ei dynnu'n ôl. Roeddent ar fin edrych ar sefydlu model ar gyfer system breindaliadau hawliau perfformio i Gymru—cymdeithas casgliadau Cymru—oherwydd y llanastr a ddigwyddodd gyda chyllid y Gymdeithas Hawliau Perfformio i gerddorion Cymraeg eu hiaith, ond beth sy'n digwydd yn awr gyda hynny, o ystyried bod y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig wedi colli eu cyllid?

I hosted, a few months ago, a culture day as part of the brief for being spokesperson for Plaid Cymru in this area—it was the second one, as I did the previous one a few years ago. What I heard from people in the creative industries sector, and in the arts sector in general, was that they wanted to see culture and the creative industries permeating through every part of Welsh Government. As Suzy said—and rightly so—earlier, it seems that culture is always the first thing to go, as opposed to being that rock behind a lot of Government policies. I think when you've got culture, when you've got music, when you've got the success of creative industries in your life, then other things follow suit. It provides that positivity for people when times are difficult, when cuts are happening.

So, when West Glamorgan drama students are faced with the realisation that they may not get that in the future, then where are the aspiring actors of tomorrow if that funding goes? Cuts to music services—well, where are the viola players? I know that the Minister and myself are viola players; where are the viola players of the future if music—[Interruption.] And Kirsty; I didn't know that. [Interruption.] Oh, daughter. Kirsty's daughter. I was going to list all of the viola players in the National Assembly then. Let's have a chamber orchestra. [Laughter.] I don't want to go totally off piste now. But, we need to have those people coming through. If we don't promote the arts and culture and the existence of those services in our communities, then they will actually disappear. So, I welcome this debate here today and hope that we can carry on having such debates in the future.

Ychydig fisoedd yn ôl, cynhaliais ddiwrnod diwylliant yn rhan o'r briff ar gyfer bod yn llefarydd ar ran Plaid Cymru yn y maes hwn—yr ail un, i ddilyn un a wnes yn flaenorol ychydig flynyddoedd yn ôl. Yr hyn a glywais gan bobl yn y sector diwydiannau creadigol, ac yn y sector celfyddydau yn gyffredinol, oedd eu bod am weld diwylliant a'r diwydiannau creadigol yn treiddio drwy bob rhan o Lywodraeth Cymru. Fel y dywedodd Suzy yn gynharach—yn berffaith iawn—mae'n ymddangos mai diwylliant yw'r peth cyntaf i fynd bob amser, yn hytrach na bod yn graig sy'n sail i lawer o bolisiau Llywodraeth. Pan fydd gennych ddiwylliant, pan fydd gennych gerddoriaeth, pan fydd gennych lwyddiant diwydiannau creadigol yn eich bywyd, rwy'n meddwl y bydd pethau eraill yn dilyn wedyn. Mae'n cyfrannu'r agwedd gadarnhaol honno i bobl pan fydd pethau'n anodd, pan fydd toriadau'n digwydd.

Felly, pan fydd myfyrwyr drama Gorllewin Morgannwg yn wynebu'r sylweddoliad efallai na fyddant yn cael hynny yn y dyfodol, yna lle y mae darpar actorion y dyfodol os yw'r arian yn mynd? Toriadau i wasanaethau cerddoriaeth—wel, lle mae'r chwaraewyr fiola? Gwn fod y Gweinidog a minnau yn chwaraewyr fiola; lle mae chwaraewyr fiola'r dyfodol os yw cerddoriaeth—[Torri ar draws.] A Kirsty; nid oeddwn yn gwybod hynny. [Torri ar draws.] O, merch. Merch Kirsty. Roeddwn yn mynd i restru pob un o'r chwaraewyr fiola yn y Cynulliad Cenedlaethol. Gadewch i ni gael cerddorfa siambr. [Chwerthin.] Nid wyf eisiau mynd oddi ar y trywydd yn gyfan gwbl nawr. Ond mae angen i ni sicrhau bod y bobl hynny'n dod trwodd. Os nad ydym yn hyrwyddo'r celfyddydau a diwylliant a bodolaeth y gwasanaethau hynny yn ein cymunedau, yna byddant yn diflannu mewn gwirionedd. Felly, croesawaf y ddatl hon yma heddiw a gobeithio y gallwn barhau i gael trafodaethau o'r fath yn y dyfodol.

16:29

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm pleased to be able to take part in this debate. We know that Wales has some tremendous creative talent and I, for one, just want to trumpet the fact that some of it is indeed in my own constituency. Of course, I'm not talking about myself; I'm talking about those very clever people at TAPE in my own constituency. It's a social enterprise, a charity, which does some tremendous work, particularly with young people, helping to maximise the opportunities for them to engage in the arts and in the world of media. Some of those young people have gone on to develop careers in the creative arts, and I want to commend TAPE for its work—for the high-quality projects that it's delivered on behalf sometimes of the public sector, and, indeed, on behalf of the private sector too. It undertakes workshops and person-led opportunities as well, and it's done a number of pieces of commercial work. They have a very professional studio, which is also home to a local cinema. They offer workshops there, local community groups are able to meet there as well and they do the whole host—not just film—of creative industries, right from creative writing to music opportunities, podcasting even, and, of course, it's a venue also for rehearsal and recordings. So, I want to commend them for their work, and any Assembly Members that want to tune into them can do so on the internet on their TAPE TV online channel.

Rwy'n falch o allu cymryd rhan yn y ddatl hon. Rydym yn gwybod bod gan Gymru dalent greadigol aruthrol ac rwy'n bendant eisiau datgan y ffaith fod peth ohono yn fy etholaeth i, yn wir. Wrth gwrs, nid sôn amdanaf fy hun wyf fi; rwy'n sôn am y bobl glyfar iawn yn TAPE yn fy etholaeth i. Menter gymdeithasol yw hi, elusen sy'n gwneud gwaith aruthrol, yn enwedig gyda phobl ifanc, gan helpu i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd iddynt gymryd rhan yn y celfyddydau ac ym myd y cyfryngau. Mae rhai o'r bobl ifanc hyn wedi mynd ymlaen i ddatblygu gyrfaedd yn y celfyddydau creadigol, ac rwyf am ganmol gwaith TAPE—am y prosiectau o ansawdd uchel y mae wedi eu cyflwyno ar ran y sector cyhoeddus weithiau, ac yn wir, ar ran y sector preifat hefyd. Mae'n cynnal gweithdai ac yn darparu cyfleoedd dan arweiniad yr unigolyn hefyd, ac mae wedi gwneud llawer o waith masnachol. Mae ganddynt stiwdio broffesiynol iawn sydd hefyd yn gartref i sinema leol. Maent yn cynnig gweithdai yno, gall grwpiau cymunedol lleol gwrdd yno hefyd ac maent yn ymgymryd â lluo ddiwydiannau creadigol—nid ffilmio'n unig—o ysgrifennu creadigol i gyfleoedd cerddorol, podledu hyd yn oed, ac wrth gwrs, mae'n lleoliad hefyd ar gyfer ymarfer a recordio. Felly, rwyf am eu canmol am eu gwaith, a gall unrhyw Aelodau Cynulliad sy'n awyddus i'w dilyn fynd ar y rhyngwrdd i'w sianel deledu TAPE ar-lein.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

But I want to spend just a few moments, if I may, talking about the opportunities that might also be presented in linking better north Wales to the fantastic hub in Manchester for the creative industries, because we forget that it's within a very short driving distance down the road—a very short commute down the road—that we have this tremendous hub in the north-west, and, given the existing economic links between the north-west of England and north Wales, I think we don't do enough to exploit those in terms of the links with the creative industries. I'd like to see, Minister, some more work from the Welsh Government on just helping to draw that in across the border into north Wales, so that the success of MediaCityUK in Salford and in Manchester can spill over into north Wales, and help to have a positive economic impact there.

I have to say as well—I just want to put on record—how disappointed I was that there was a decision taken to rule out the use of this Chamber as a venue for a 007 production. I know that many of us—. It certainly shocked the living daylights out of me, I'll tell you. I was left very shaken and stirred by the decision. I have to say, I know the decision lay with the Presiding Officer, but why should it be for her eyes only? Frankly, I think that giving the Presiding Officer only a licence to kill these things off is entirely inappropriate. It's not good enough, and we need to have a better policy that all Assembly Members can be consulted on, so that we can have the opportunity to give our views on whether these sorts of productions ought to be allowed into the Chamber in the future, especially given that there could be an economic driver benefit, which reduces costs to the taxpayer of the use of this building. We know that the House of Commons changed its policy a couple of years ago, and now allows drama productions to take place in the House of Commons Chamber. That was a wise decision; there is a benefit to the public purse as a result, and I want to see those sorts of benefits to the Welsh public purse as well. I certainly have zero quantum of solace in the decision-making process to date, and I want to see that change again in the future. I can think, frankly, of no better venue to portray the headquarters of a group of villains in terms of SPECTRE's headquarters. And, of course, we know that it would have given priceless publicity to Cardiff, to the Senedd and to Wales, because we know that there are huge economic benefits when places feature in what is the largest film franchise in world history.

Ond rwyf am dreulio ychydig o funodau, os caf, yn siarad am y cyfleoedd y gellid eu cyflwyno hefyd i gysylltu gogledd Cymru yn well â'r ganolfan wych ym Manceinion ar gyfer y diwydiannau creadigol, gan ein bod yn anghofio ei fod o fewn pellter gyrru byr iawn iddynt—pellter cymudo byr iawn ar hyd y ffordd—fod gennym y ganolfan aruthrol hon yn y gogledd-orllewin, ac o ystyried y cysylltiadau economaidd presennol rhwng gogledd-orllewin Lloegr a gogledd Cymru, credaf nad ydym yn gwneud digon i fanteisio ar y rheini o ran y cysylltiadau â'r diwydiannau creadigol. Weinidog, hoffwn weld mwy o waith gan Lywodraeth Cymru ar helpu i dynnu hynny ar draws y ffin i ogledd Cymru, fel y gall llywyddiant MediaCityUK yn Salford ac ym Manceinion orlifo i ogledd Cymru a helpu i gael effaith economaidd gadarnhaol yno.

Rhaid i mi ddweud hefyd—rwy'n awyddus i gofnodi hyn—pa mor siomedig oeddwn i ynghylch y penderfyniad i ddiystyru defnyddio'r Siambr hon fel lleoliad ar gyfer cynhyrchiad 007. Gwn fod llawer ohonom—. Mae'n sicr wedi fy nychryn. Cefais fy ysgwyd, a'm cyffroi gan y penderfyniad. Rhaid i mi ddweud, gwn mai penderfyniad y Llywydd ydoedd, ond pam mai ar gyfer ei llygaid hi yn unig oedd hyn? A dweud y gwir, credaf fod rhoi trwydded i ladd y bwriadau hyn i'r Llywydd yn unig yn gwbl amhriodol. Nid yw'n ddigon da, ac mae angen inni gael polisi gwell fel bod modd ymgynghori â holl Aelodau'r Cynulliad yn ei gylch er mwyn inni gael cyfle i roi ein barn ynglŷn ag a ddylid caniatáu'r mathau hyn o gynyrchiadau i mewn i'r Siambr yn y dyfodol, yn enwedig o ystyried y gallai fod budd i hyn fel sbardun economaidd sy'n lleihau costau i'r trethdalwr am ddefnyddio'r adeilad hwn. Gwyddom fod Tŷ'r Cyffredin wedi newid ei bolisi flwyddyn neu ddwy yn ôl, ac yn awr, mae'n caniatáu i gynyrchiadau drama ddigwydd yn siambr Tŷ'r Cyffredin. Roedd hwnnw'n benderfyniad doeth; mae yna fudd i'r pwrs cyhoeddus o ganlyniad, ac rwyf am weld y mathau hynny o fanteision yn dod i bwrs y wlad yng Nghymru yn ogystal. Yn sicr, nid wyf wedi cael unrhyw gysur o'r broses benderfynu hyd yn hyn, ac rwyf am weld hynny'n newid eto yn y dyfodol. A dweud y gwir, ni allaf feddwl am leoliad gwell i bortreadu pencadlys grŵp o ddihirod SPECTRE. Ac wrth gwrs, rydym yn gwybod y byddai wedi rhoi cyhoeddusrwydd amhrisiadwy i Gaerdydd, i'r Senedd ac i Gymru, oherwydd gwyddom fod manteision economaidd enfawr pan fo llefydd yn ymddangos yn y fasnachfaint ffilm fwyaf yn hanes y byd.

- | | | | |
|-------|--|--|--|
| 16:34 | Mark Isherwood Bywgraffiad Biography
Will you give way? | A wnech chi ildio? | Senedd.tv
Fideo Video |
| 16:34 | Darren Millar Bywgraffiad Biography
I certainly give way. | Rwy'n sicr yn ildio. | Senedd.tv
Fideo Video |
| 16:34 | Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography
No, you don't have time. Well, I'm not giving you time for this. | Na, nid oes gennych amser. Wel, nid wyf yn rhoi amser i chi ar gyfer hyn. | Senedd.tv
Fideo Video |
| 16:34 | Mark Isherwood Bywgraffiad Biography
Would you agree that it was an odd job and that anyone with a golden eye could have seen the opportunities? | A fydddech yn cytuno ei fod yn 'odd job', ac y gallai unrhyw un â llygad aur fod wedi gweld y cyfleoedd? | Senedd.tv
Fideo Video |

16:34 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I most certainly would, Mark Isherwood, and I'm very grateful for that intervention, because I didn't think of those points to make myself. But I just want to say that we have to grab every opportunity that comes to us. If there's a potential for economic benefit, whether that's to the taxpayers of Wales or, indeed, to the wider economy, we need to grasp every opportunity. We can't afford to turn these opportunities down.

Rwy'n sicr y byddai, Mark Isherwood, ac rwy'n ddiolchgar iawn am yr ymyriad, gan na feddyliais am y pwyntiau hynny i'w gwneud fy hun. Ond hoffwn ddweud bod yn rhaid i ni fanteisio ar bob cyfle a ddaw i ni. Os oes potensial i sicrhau budd economaidd, naill ai i drethdalwyr Cymru neu'n wir i'r economi ehangach, mae angen i ni fanteisio ar bob cyfle. Ni allwn fforddio gwrthod y cyfleoedd hyn.

16:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I call on the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Galwaf ar Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

16:34 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Thank you very much indeed, Deputy Presiding Officer. I certainly welcome the opportunity to reaffirm the importance and the potential of creative industries to our cultural life, and, of course, the Welsh economy. But I won't take any lectures about the importance that the Government regards the creative industries with. We have a policy on creative industries, and I really have to, actually, thank my predecessor, the former Deputy First Minister, Ieuan Wyn Jones, for establishing the sectoral approach that has enabled us to go from strength to strength in terms of creative industries, because they are a real success story in our economy. The number of people who work in the creative industries sector in Wales has increased by 58.5 per cent since 2005. In the same time frame, the number of enterprises active in the sector has increased by 22.9 per cent, the biggest percentage increase of all the priority sectors. The sector also has the highest average weekly full-time salary, and the highest qualified workforce, and I was very much taken by Bethan Jenkins's points about people who currently can't always get employment in Wales in the acting profession—how good it's been that we've had local productions that they've been able to become part and parcel of, and that can go on their CVs so that they can get future work. So, we've seen very broad, I think, good news that's come out of the development of the creative industries sector.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n sicr yn croesawu'r cyfle i ailddatgan pwysigrwydd a photensial diwydiannau creadigol i'n bywyd diwylliannol, ac wrth gwrs, i economi Cymru. Ond nid wyf yn barod i wrando ar unrhyw bregethau ynghylch y pwyslais y mae'r Llywodraeth yn ei roi ar y diwydiannau creadigol. Mae gennym bolisi ar y diwydiannau creadigol, ac yn wir, mae'n rhaid i mi ddiolch i fy rhagflaenydd, y cyn Ddirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones, am sefydlu'r dull sector o weithredu sydd wedi ein galluogi i fynd o nerth i nerth o ran y diwydiannau creadigol, oherwydd eu bod yn llwyddiant gwirioneddol yn ein heconomi. Mae nifer y bobl sy'n gweithio yn y sector diwydiannau creadigol yng Nghymru wedi cynyddu 58.5 y cant ers 2005. Yn yr un cyfnod o amser, mae nifer y mentrau gweithredol yn y sector wedi cynyddu 22.9 y cant, y cynnydd canrannol mwyaf o'r holl sectorau â blaenoriaeth. Yn y sector hefyd y mae'r cyflog cyfartalog wythnosol llawn amser uchaf, a'r gweithlu mwyaf cymwys, ac mae pwyntiau Bethan Jenkins am bobl nad ydynt yn gallu cael gwaith bob amser ar hyn o bryd yn y proffesiwn actio yng Nghymru wedi creu argraff arnaf—mae hi wedi bod yn wych ein bod wedi cael cynrychiadau lleol iddynt allu dod yn rhan ohonynt. Gall hynny fynd ar eu CVs er mwyn iddynt gael gwaith yn y dyfodol. Felly, rwy'n credu ein bod wedi gweld newyddion da i raddau eang iawn yn dod o'r datblygiadau yn y sector diwydiannau creadigol.

We've also put a number of mechanisms in place, including a dedicated business development team and sector panel to strengthen the creative industries sector in Wales. I understand the point that Andrew R.T. Davies made about the importance of UK tax credits for the creative industries. It has been a useful incentive, in particular for film and TV production. But Wales was one of the first areas in the UK to attract high-end drama from the United States, via 'Da Vinci's Demons', and that was secured before tax credits, so we already had the policy in place and were already targeting the States before any of these policies came in. But I do welcome what has been done at a UK level, and so do the businesses that come to the UK to work.

Rydym hefyd wedi rhoi nifer o systemau ar waith, gan gynnwys tîm datblygu busnes a phanel sector ymroddedig i gryfhau'r sector diwydiannau creadigol yng Nghymru. Rwy'n deall y pwynt a wnaeth Andrew R.T. Davies am bwysigrwydd credydau treth y DU ar gyfer y diwydiannau creadigol. Mae wedi bod yn gymhelliant defnyddiol, yn enwedig ar gyfer gwaith cynhyrchu ffilm a theledu. Ond Cymru oedd un o'r ardaloedd cyntaf yn y DU i ddenu drama ym mhen uchaf y farchnad o'r Unol Daleithiau, drwy 'Da Vinci's Demons', a chafodd hynny ei sicrhau cyn y credydau treth, felly roedd gennym y polisi ar waith eisoes ac roeddem yn targedu'r Unol Daleithiau cyn i unrhyw un o'r polisiâu hyn gael eu cyflwyno. Ond rwy'n croesawu'r hyn a wnaed ar lefel y DU ac mae'r busnesau sy'n dod i'r DU i weithio yn ei groesawu hefyd.

So, we've obviously strengthened the creative industries sector in Wales with the work we've done. Since April 2012, creative businesses have been awarded Welsh Government funding to a total value of £25 million. Since the panel's inception, we've helped to create or safeguard over 3,000 jobs and attract more than £170 million-worth of investment into Wales.

Now, the creative industries panel has been, and continues to be, led by Ron Jones, chair and founder of Tinopolis, the fourth largest TV company now in the UK. Under Ron's guidance, we've created a clear and coherent plan that prioritises delivering support for the commercial creative sector, and, as the economics statistics show, Wales has had significant success in its creative economy.

Following the deal with Pinewood, I've created another panel that advises on Pinewood deals specifically. The panel is led by some of the most successful people in the creative industries from both the UK and the USA. My sector delivery plan makes clear the importance of supporting the exploitation of digital content, and we've done this, with success in digital media. As the recent Tech City UK report concludes, this sub-sector has grown 87 per cent in Wales. I've also done this through supporting games development. In the sub-sector, Nesta recently reported that Cardiff is now in the top four fastest-growing gaming cities in the UK. In terms of achieving the priorities I set with my creative industries sector panel, we've performed very well, and the statistics evidence this. The next step in achieving our priorities is to focus on building the crew and services that Wales has to ensure it benefits fully from all the success we're currently having in the sector. I think you've only got to look at the fact, when you have productions—for instance, I visited 'Atlantis', and the sixth-form college, the local college, had been there, and the wardrobe mistress was telling me about the skills they gained during that period. You can't beat that going on a CV; they might apply then to go into further or higher education and do more.

Now, the recent Tech Nation report provides recognition of the south Wales digital industries and acknowledges their rapid growth. I'm pleased to see Welsh Government initiatives, including the digital development fund, GloWorks, the Welsh Innovation Centre for Enterprise, and Digital 2015, being held up as examples of good practice and for their benefit for the digital community. Now, GloWorks, which is the Welsh Government's flagship hub for the creative industries in Porth Teigr, is now fully occupied. Boom and Sequence were the first tenants who moved in, followed by other companies, including Gorilla, Bait and Hartswood Films West. The digital development fund continues to support projects that exploit new business markets in the global digital economy through emerging digital technologies, with some notable successes that are creating very high-value jobs in Wales.

Felly, rydym yn amlwg wedi cryfhau'r sector diwydiannau creadigol yng Nghymru gyda'r gwaith rydym wedi ei wneud. Ers mis Ebrill 2012, mae'r busnesau creadigol wedi derbyn cyfanswm o £25 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Ers sefydlu'r panel, rydym wedi helpu i greu neu ddiogelu dros 3,000 o swyddi a denu dros £170 miliwn o fuddsoddiad i mewn i Gymru.

Nawr, mae'r panel diwydiannau creadigol yn cael ei arwain gan Ron Jones, cadeirydd a sylfaenydd Tinopolis, a oedd, ac sy'n parhau i fod y pedwerydd cwmni teledu mwyaf yn y DU bellach. O dan gyfarwyddyd Ron, rydym wedi creu cynllun clir a chydlynol sy'n blaenoriaethu darparu cymorth i'r sector creadigol masnachol, ac fel y mae'r ystadegau economeg yn dangos, mae Cymru wedi cael llwyddiant sylweddol yn ei heconomi creadigol.

Yn dilyn cytundeb gyda Pinewood, rwyf wedi creu panel arall sy'n rhoi cyngor ar gytundebau Pinewood yn benodol. Caiff y panel ei arwain gan rai o'r bobl fwyaf llwyddiannus yn y diwydiannau creadigol yn y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau. Mae fy nghynllun cyflawni ar gyfer y sector yn ei gwneud yn glir pa mor bwysig yw cefnogi'r broses o ddatblygu cynnwys digidol, ac rydym wedi gwneud hyn yn llwyddiannus gyda'r cyfryngau digidol. Daw adroddiad diweddar adroddiad Tech City UK i'r casgliad fod yr is-sector hwn wedi tyfu 87 y cant yng Nghymru. Rwyf wedi gwneud hyn hefyd drwy roi cefnogaeth i ddatblygu gemau. Yn yr is-sector hwn, adroddodd y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau (Nesta) yn ddiweddar fod Caerdydd yn awr ymhlith y pedair dinas sy'n tyfu gyflymaf yn y DU ym maes datblygu gemau cyfrifiadurol. O ran cyflawni'r blaenoriaethau a osodais gyda fy mhanol sector ar gyfer y diwydiannau creadigol, rydym wedi perfformio'n dda iawn, ac mae'r ystadegau'n dystiolaeth o hynny. Y cam nesaf o ran cyflawni ein blaenoriaethau yw canolbwyntio ar ddatblygu'r criw a'r gwasanaethau sydd gan Gymru er mwyn sicrhau ei bod yn elwa'n llawn o bob llwyddiant a gawn ar hyn o bryd yn y sector. Rwy'n meddwl nad oes ond angen i chi edrych ar y ffaith, pan fydd gennych gynrychiadau—er enghraifft, fe ymwelais ag 'Atlantis', ac roedd y coleg chweched dosbarth, y coleg lleol, wedi bod yno, ac roedd y person gwisgoedd yn dweud wrthyf am y sgiliau a gawsant yn ystod y cyfnod hwnnw. Ni allwch guro hynny i fynd ar CV; efallai y byddant yn gwneud cais wedyn i fynd i mewn i addysg bellach neu addysg uwch a gwneud mwy.

Nawr, mae adroddiad diweddar Tech Nation yn rhoi cydnabyddiaeth i ddiwydiannau digidol de Cymru ac yn cydnabod eu twf cyflym. Rwy'n falch o weld mentrau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y gronfa datblygu digidol, GloWorks, Canolfan Arloesi Menter Cymru a Digidol 2015, yn cael eu nodi fel enghreifftiau o arfer da ac am eu budd i'r gymuned ddigidol. Nawr, mae GloWorks, sef canolbwynt blaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiannau creadigol ym Mhorth Teigr bellach yn llawn. Boom a Sequence oedd y tenantiaid cyntaf a symudodd i mewn, wedi'u dilyn gan gwmnïau eraill, gan gynnwys Gorilla, Bait a Hartswood Films West. Mae'r gronfa datblygu digidol yn parhau i gefnogi prosiectau sy'n manteisio ar farchnadoedd busnes newydd yn yr economi ddigidol fyd-eang drwy dechnolegau digidol sy'n datblygu, gyda rhai llwyddiannau nodedig sy'n creu swyddi o werth uchel iawn yng Nghymru.

If I can now turn to the Hargreaves review, which was commissioned by the former Deputy First Minister, Ieuan Wyn Jones, it was very useful in informing our strategy for the sector at that time. However, the Hargreaves review was five years ago. It's a very fast-moving sector, and there have been many developments since the review was published. One significant piece of work that has happened, which was recommended in the review, is that we've changed the mechanisms within the Government so as to better support the sector.

We've done those through the creation of the fund and also through the film and TV production funding, which we've been successful at distributing to job and growth-creating projects. We've commissioned the mapping of the sector, which I think was the point that Bethan Jenkins asked about, and key research into education and training, as we view the ability to deliver the right skills as a key priority going forward.

The final point in the motion refers to the media investment budget. The main performance indicators for this include production expenditure in Wales, the number of trainee positions for each projection, jobs created and safeguarded, and indirect benefits, such as increased capacity in the supply chain and tourism impacts. And, of course, there is the delivery of Wales's first fully fledged film studio, which was officially opened by the First Minister last week, less than a year from when the project was announced. Now, as well as these measures, the growing success of our film and tv industry is clear—you've only got to look at the tv productions all the way down the M4 corridor from Newport to Swansea, bringing millions of pounds into the Welsh economy. We've got 'The Crow', which was announced at Pinewood, and companies have had enormous support when they've come into Wales, and they've also found that there is a lot of talent in Wales to actually participate in the creative sector. We have a unique offering for tv production companies. We have a range of big global hitters, and that's very important for us.

Our indigenous businesses are also thriving, with Wales-based companies, crews and supply chains producing 'Doctor Who', 'Sherlock', 'Da Vinci's Demons', 'Atlantis', 'Upstairs Downstairs', 'Being Human', 'Stella', 'Torchwood', 'The Indian Doctor', and 'Wizards vs Aliens' to name but a few. Series 9 of 'Doctor Who' is currently filming in Wales, with series 5 of 'Stella' starting in April 2015. We've had the second series of 'Hinterland' finished. They're on their third now within Aberystwyth. This is good news.

Os caf droi'n awr at adolygiad Hargreaves, a gomisiynwyd gan y cyn Ddirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones, roedd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer llywio ein strategaeth ar gyfer y sector ar y pryd. Fodd bynnag, cyhoeddwyd adolygiad Hargreaves bum mlynedd yn ôl. Mae'n sector sy'n symud yn gyflym iawn ac mae llawer o ddatblygiadau wedi bod ers i'r adolygiad gael ei gyhoeddi. Un gwaith sylweddol a ddigwyddodd, a argymhellwyd yn yr adolygiad, yw ein bod wedi newid systemau'r Llywodraeth er mwyn cefnogi'r sector yn well.

Rydym wedi gwneud hynny drwy greu'r gronfa a hefyd drwy'r cyllid cynhyrchu ffilm a theledu y llwyddasom i'w ddosbarthu i brosiectau creu twf a swyddi. Rydym wedi comisiynu'r gwaith o fapio'r sector, sef y pwynt y gofynnodd Bethan Jenkins yn ei gylch rwy'n credu, ac ymchwil allweddol i addysg a hyfforddiant, wrth i ni edrych ar y gallu i ddarparu'r sgiliau iawn fel blaenoriaeth allweddol wrth symud ymlaen.

Mae'r pwynt olaf yn y cynnig yn cyfeirio at y gyllideb fuddsoddi yn y cyfryngau. Ymhlith y prif ddangosyddion perfformiad ar gyfer hyn mae gwariant ar gynhyrchu yng Nghymru, nifer y swyddi dan hyfforddiant ar gyfer pob amcanestyniad, swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd, a manteision anuniongyrchol, megis mwy o gapasiti yn y gadwyn gyflenwi ac effeithiau twristiaeth. Ac wrth gwrs, mae cyflwyno stiwdio ffilm gyflawn gyntaf Cymru a agorwyd yn swyddogol gan y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf, lai na blwyddyn ers cyhoeddi'r prosiect. Nawr, yn ogystal â'r mesurau hyn, mae llwyddiant cynyddol ein diwydiant ffilm a theledu yn amlwg—nid oes ond raid i chi edrych ar y cynrychiadau teledu yr holl ffordd ar hyd coridor yr M4 o Gasnewydd i Abertawe, sy'n dod â miliynau o bunnoedd i mewn i economi Cymru. Mae gennym 'The Crow' y cyhoeddwyd ei fod yn dod i Pinewood, ac mae cwmnïau wedi cael cefnogaeth aruthrol wrth ddod i Gymru. Maent hefyd wedi gweld bod llawer o dalent yng Nghymru i gymryd rhan yn y sector creadigol mewn gwirionedd. Mae gennym gynnig unigryw ar gyfer cwmnïau cynhyrchu teledu. Mae gennym amrywiaeth o enwau mawr byd-eang ac mae hynny'n bwysig iawn i ni.

Mae ein busnesau cynhenid hefyd yn ffynnu, gyda chwmnïau, criwiau a chadwyni cyflenwi a leolir yng Nghymru yn cynhyrchu 'Doctor Who', 'Sherlock', 'Da Vinci's Demons', 'Atlantis', 'Upstairs Downstairs', 'Being Human', 'Stella', 'Torchwood', 'The Indian Doctor', a 'Wizards vs Aliens' i enwi ond ychydig. Mae Cyfres 9 o 'Doctor Who' ar hyn o bryd yn ffilmio yng Nghymru, gyda chyfres 5 o 'Stella' yn dechrau yn Ebrill 2015. Rydym wedi cael yr ail gyfres o 'Hinterland' wedi'i gorffen. Maent ar eu trydedd yn awr yn Aberystwyth. Mae hyn yn newyddion da.

Can I say, when people say things about companies, that companies are actually very complimentary about how we as a Government deal with them and how we're very progressive in terms of what we want to do with them? This is certainly an industry of the future. It's an industry we've been successful in, but there's certainly more to do. We want to have opportunities for more of our young people to be able to become involved in the creative industries. We have excellent examples of collaboration with further and higher education. This is a good news story for us, and, instead of criticising, there should be praise for the initiatives that this Government and the previous Government took in this area.

Pan fydd pobl yn dweud pethau am gwmnïau, a gaf fi ddweud bod y cwmnïau mewn gwirionedd yn ganmoliaethus iawn ynghylch y ffordd rydym ni fel Llywodraeth yn ymdrin â hwy a sut rydym yn flaengar iawn o ran yr hyn rydym am ei wneud â hwy? Mae'n sicr yn ddiwydiant ar gyfer y dyfodol. Mae'n ddiwydiant rydym wedi bod yn llwyddiannus ynddo, ond mae mwy i'w wneud, yn sicr. Rydym yn awyddus i gael cyfleoedd i ragor o'n pobl ifanc allu cymryd rhan yn y diwydiannau creadigol. Mae gennym enghreifftiau gwych o gydweithio ag addysg bellach ac addysg uwch. Mae hon yn stori newyddion dda i ni, ac yn hytrach na beirniadu, dylai fod canmoliaeth i'r mentrau y mae'r Llywodraeth hon a'r Llywodraeth flaenorol wedi eu rhoi ar waith yn y maes.

16:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nick Ramsay to reply to the debate.

Nick Ramsay i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:42 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I thank everyone who's taken part in today's serious and entertaining debate, recognising the importance of the creative industries to our cultural life? I have to say, Minister, it's been a long time that I've waited for you to mention 'Wizards vs Aliens' in this Chamber. I did wonder what the context would be, and, clearly, this debate was the best one for you. We have, of course, been made particularly aware of the issue of the importance of the creative industries over the last few weeks, as Bethan Jenkins and Darren Millar alluded to, with the much-debated decision to turn James Bond away from this Chamber. I'm not going to get into the discussion about whether Swansea would have done the same thing. I think you probably opened a can of worms with that discussion, Bethan. But no doubt, as many AMs here will know, the scale of public anguish at this decision was palpable and showed how important creative industry issues are to the people of this country.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y ddadl ddfrifol a difyr hon heddiw, gan gynnabod pwysigrwydd y diwydiannau creadigol i'n bywyd diwylliannol? Mae'n rhaid i mi ddweud, Weinidog, rwyf wedi bod yn disgwyl i chi grybwyll 'Wizards vs Aliens' yn y Siambr hon ers amser hir. Fe wnes i feddwl tybed beth fyddai'r cyd-destun, ac yn amlwg, y ddadl hon oedd yr orau i chi. Wrth gwrs, rydym wedi bod yn arbennig o ymwybodol o bwysigrwydd y diwydiannau creadigol dros yr ychydig wythnosau diwethaf, fel y nododd Bethan Jenkins a Darren Millar, gyda'r penderfyniad y bu trafod mawr arno i wahardd James Bond o'r Siambr hon. Nid wyf yn mynd i ymhelaethu ar y drafodaeth ynglŷn ag a fyddai Abertawe wedi gwneud yr un peth. Rwy'n credu eich bod yn ôl pob tebyg wedi agor tuniad o gynrhon gyda'r drafodaeth honno, Bethan. Ond heb os, fel y bydd llawer o'r ACau yma yn gwybod, mae pa mor siomedig yw'r cyhoedd ynghylch y penderfyniad yn amlwg ac yn dangos pa mor bwysig yw materion diwydiant creadigol i bobl y wlad hon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Let's face it, many people don't understand or don't proclaim to understand politics, but they do get James Bond, they do get 'Doctor Who', they do get 'Casualty', 'Gogglebox'. These programmes are what a lot of people are interested in, and it's not just for them to get in with what we're saying—it's for us to understand them and to understand the issues that interest them and communicate in their terms.

Gadewch i ni wynebu'r ffaith, nid yw llawer o bobl yn deall na'n honni eu bod yn deall gwleidyddiaeth, ond maent yn deall James Bond, maent yn deall 'Doctor Who', maent yn deall 'Casualty' a 'Gogglebox'. Rhaglenni felly yw'r hyn y mae gan lawer o bobl ddiddordeb ynddynt ac nid mater o'u cael i gytuno â'r hyn rydym yn ei ddweud ydyw—mae'n rhaid i ni eu deall, a deall y materion sydd o ddiddordeb iddynt a chyfathrebu â hwy yn eu termau eu hunain.

In opening, Suzy Davies spoke of the willingness to be daring, and I like that term. You also spoke about the need to avoid stasis. You mentioned Russell T. Davies and his links with the West Glamorgan Youth Theatre. Without these organisations, many of our stars and our writers probably wouldn't have seen the light of day creatively. So, these organisations certainly deserve to be supported. Peter Black said that the Pinewood Studios and the earlier studio in Swansea demonstrate the importance of inward investment in the creative sector. Yes, opportunities need to be grasped and they need to be encouraged.

Wrth agor, siaradodd Suzy Davies am y parodrwydd i fod yn feiddgar, ac rwy'n hoff o'r term. Fe siaradodd hefyd am yr angen i osgoi stasis. Fe soniodd am Russell T. Davies a'i gysylltiadau â Theatr Ieuencid Gorllewin Morgannwg. Heb y sefydliadau hyn, mae'n debyg na fyddai llawer o'n sêr a'n hawduron wedi gweld golau dydd yn greadigol. Felly, mae'r sefydliadau hyn yn sicr yn haeddu cael eu cefnogi. Dywedodd Peter Black fod Stiwdios Pinewood a'r stiwdio gynharach yn Abertawe yn dangos pa mor bwysig yw mewnfuddsoddiad yn y sector creadigol. Oes, mae angen bachu ar gyfleoedd ac mae angen iddynt gael eu hannog.

As we heard, every £1 of investment is worth £2 in spin-offs. It always bemuses me how these assessments of the number of pounds made in spin-offs that came from £1 are made in so many different ways, but it is an effective way of making the point. The CBI's report, 'Playing our strongest hand', called on Governments to support the economic areas where we have strengths and there is no doubt about it, we certainly do have strength in this area, as the Minister said.

As Byron Davies said, Wales should be developed as a creative hub. How does the Welsh Government intend to retain this creative investment in Wales? And, it is not just getting that investment into the country; it's keeping it—points that were made in the Welsh Conservative document, 'Destination Cymru'. Keith Davies supported Welsh Government policies—well, no surprise there—but you did forget to mention, Keith, that the UK coalition Government—a point that Andrew R.T. Davies didn't forget, actually—is supporting the creative industries in Wales and the recent budget confirmed that. The film industry here will benefit from an increase in film tax reliefs—the rate is set at 25 per cent for the first £20 million and 20 per cent thereafter. Video game developers will benefit from a £4 million video game prototype fund designed to enable start-up game designers to develop their ideas, and of course, the skills investment fund will be boosted by £4 million to support the development of world-class skills.

Now, although we're talking about this element of the economy in isolation today, it is, of course, part of the wider economy and affected by similar issues. Apprenticeships in the creative industries should be promoted far more. As the Enterprise and Business Committee reported, too often, apprenticeships have an old-fashioned image associated with traditional industries, and not so much with newer or creative industries. We need to move on from this, as I'm sure the Minister would recognise.

I did notice, Minister, that yesterday, in your update on progress that's been made in the fulfilment of the recommendations of the Enterprise and Business Committee's report, you mentioned three reports, but you didn't update us on the apprenticeship report. You mentioned the young entrepreneurship, but not apprenticeships, per se. So, I think it would be helpful if we had an update on progress that's being made in that area.

We are starting from a lower base than in England in terms of apprenticeships, and there are some good aspects to work that has been done here, but there are other areas where we do need to catch up, and that's pretty clear.

Fel y clywsom, mae pob £1 o fuddsoddiad yn werth £2 mewn manteision deilliedig. Mae bob amser yn rhyfeddod i mi sut y gwneir yr asesiadau hyn ynghylch y nifer o bunnoedd a wnaed mewn manteision deilliedig o bob £1 mewn cymaint o wahanol ffyrdd, ond mae'n ffordd effeithiol o wneud y pwynt. Galwai adroddiad y CBI, 'Playing our strongest hand', ar Lywodraethau i gefnogi'r meysydd economaidd lle y mae gennym gryfderau ac nid oes amheuaeth fod gennym gryfder yn y maes hwn, fel y dywedodd y Gweinidog.

Fel y dywedodd Byron Davies, dylai Cymru gael ei datblygu fel canolbwynt creadigol. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw'r buddsoddiad creadigol hwn yng Nghymru? Ac nid mater o gael y buddsoddiad i mewn i'r wlad yn unig ydyw; mae'n fater o'i gadw—pwyntiau a wnaed yn nodfen y Ceidwadwyr Cymreig, 'Cyrchfan Cymru'. Cefnogodd Keith Davies bolisiau Llywodraeth Cymru—nid yw hynny'n syndod—ond fe anghofioch chi sôn, Keith, fod Llywodraeth glymblaid y DU—pwynt nad anghofiodd Andrew R.T. Davies mewn gwirionedd—yn cefnogi'r diwydiannau creadigol yng Nghymru a chadarnhaodd y gyllideb ddiweddar hynny. Bydd y diwydiant ffilm yma yn elwa o gynnydd mewn gostyngiadau yn y dreth ffilm—mae'r gyfradd wedi'i gosod ar 25 y cant ar gyfer yr £20 miliwn cyntaf ac 20 y cant wedi hynny. Bydd datblygwyr gemau fideo yn elwa o gronfa prototeipiau gemau fideo gwerth £4 miliwn a gynlluniwyd i alluogi cwmnïau dylunio gemau newydd i ddatblygu eu syniadau, ac wrth gwrs, bydd y gronfa fuddsoddi sgiliau yn cael hwb o £4 miliwn i gefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau o safon fyd-eang.

Nawr, er ein bod yn sôn am yr elfen hon o'r economi ar ei phen ei hun heddiw, mae'n rhan o'r economi ehangach wrth gwrs, ac yn cael ei effeithio gan faterion tebyg. Dylai prentisiaethau yn y diwydiannau creadigol gael eu hyrwyddo'n llawer gwell. Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Menter a Busnes, yn rhy aml, mae delwedd hen ffasiwn i brentisiaethau sy'n gysylltiedig â diwydiannau traddodiadol, ac nid yn gymaint â diwydiannau mwy newydd neu greadigol. Mae angen i ni symud ymlaen o hyn, fel rwy'n siŵr y byddai'r Gweinidog yn cydnabod.

Weinidog, wrth i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf ddoe am y cynnydd a wnaed ar gyflawni argymhellion adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes, fe sylwais eich bod wedi sôn am dri adroddiad, ond ni roesoch y wybodaeth ddiweddaraf inni am yr adroddiad prentisiaeth. Fe sonioch am entrepreneuriaeth ieuencid, ond nid am brentisiaethau fel y cyfryw. Felly, rwy'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol pe baem yn cael y newyddion diweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y maes hwnnw.

Rydym yn dechrau o sylfaen is nag yn Lloegr o ran prentisiaethau ac mae rhai agweddau da ar y gwaith a wnaed yma, ond mae meysydd eraill lle y mae angen i ni ddal i fyny, ac mae hynny'n eithaf clir.

I think, Deputy Presiding Officer, that, rather than going through many of the points that have been made today, I would say that all speakers have made very important points about where we need to be going with the creative industries. But, it's too easy to simply stand up and have these debates month after month, year after year, and then, nothing actually happens. I think it's time that we did recognise fully the role that the creative industries can play. The point that Darren Millar made about local drama groups showed that there are many different levels to this and I'm sure that many of us could point to drama groups in our own constituencies in different parts of Wales. I'm thinking of Everyman Theatre in Cardiff, which, I know, does a lot of good work in bringing on young actors. Those groups are, in their own way, just as important as some of the bigger groups and some of the bigger companies that we're hoping to promote through the Pinewood studios.

Darren Millar, well, if there was a contest on today to get the most Bond puns into an Assembly speech and debate, then you clearly have bagged that one. Yes, you pointed out that the public were clearly outraged by the James Bond decision—I think we're all aware of that. As one constituent said to me, 'Nobody does it wetter'. Yes, there is a missed opportunity for this Assembly. Let's make sure, as we move forward, that we seize future opportunities, that we don't miss those opportunities when they come along, because they don't come along that often, but when they do come along, we can grasp those opportunities, we can develop them and we can have spin-offs for the economy, which we might not even envisage at the start of that process. So, we're happy to work with you, Minister. I hope that you're going to support our motion today.

Ddirprwy Lywydd, yn hytrach na mynd drwy nifer o'r pwyntiau sydd wedi'u gwneud heddiw, rwy'n meddwl y byddwn yn dweud bod pob siaradwr wedi gwneud pwyntiau pwysig iawn ynglŷn ag i lle y mae angen i ni fynd gyda'r diwydiannau creadigol. Ond mae'n rhy hawdd gwneud dim ar wahân i sefyll ar ein traed a chael y trafodaethau hyn fis ar ôl mis, flwyddyn ar ôl blwyddyn, a dim yn digwydd mewn gwirionedd. Rwy'n credu ei bod yn bryd i ni gydnabod yn llawn y rôl y gall y diwydiannau creadigol ei chwarae. Mae'r pwynt a wnaeth Darren Millar am grwpiau drama lleol yn dangos bod yna lawer o lefelau gwahanol i hyn ac rwy'n siŵr y gallai llawer ohonom dynnu sylw at grwpiau drama yn ein hetholaethau ein hunain mewn gwahanol rannau o Gymru. Rwy'n meddwl am Everyman Theatre yng Nghaerdydd y gwn eu bod yn gwneud llawer o waith da yn cyflogi actorion ifanc. Yn eu ffordd eu hunain, mae'r grwpiau hyn yr un mor bwysig â rhai o'r grwpiau mwy o faint a rhai o'r cwmnïau mawr rydym yn gobeithio eu hyrwyddo drwy stiwdios Pinewood.

Darren Millar, wel, pe bai cystadleuaeth heddiw i gael y mwyaf o fwyseiriau Bond i mewn i araith a dadl yn y Cynulliad, yna rydych yn amlwg wedi ennill honno. Do, fe dynnoch sylw at y ffaith fod y cyhoedd yn amlwg wedi eu cythruddo gan y penderfyniad ynghylch James Bond—rwy'n credu ein bod i gyd yn ymwybodol o hynny. Fel y dywedodd un etholwr wrthyf, 'Nobody does it wetter'. Ydy, mae'n gyfle a gollwyd i'r Cynulliad hwn. Gadewch i ni wneud yn siŵr, wrth inni symud ymlaen, ein bod yn achub ar gyfleoedd yn y dyfodol, nad ydym yn colli'r cyfleoedd hynny pan fyddant yn ymddangos, gan nad ydynt yn dod heibio'n aml, ond pan fyddant yn dod, gallwn fanteisio ar y cyfleoedd, gallwn eu datblygu a gallwn gael manteision deilliadedig i'r economi, na fyddem efallai wedi eu rhagweld hyd yn oed ar ddechrau'r broses honno. Felly, rydym yn hapus i weithio gyda chi, Weinidog. Rwy'n gobeithio eich bod yn mynd i gefnogi ein cynnig heddiw.

16:49

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] I defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

5. Dadl Plaid Cymru: Arfau Niwclear

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, a gwelliant 2 yn enw Aled Roberts. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-dethol.

5. Plaid Cymru Debate: Nuclear Weapons

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Jane Hutt, and amendment 2 in the name of Aled Roberts. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected.

16:49

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Item 5 yw dadl Plaid Cymru ar arfau niwclear. Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i wneud y cynnig.

Item 5 is the Plaid Cymru debate on nuclear weapons. I call Rhodri Glyn Thomas to move the motion.

Cynnig NDM5733 Elin Jones

Motion NDM5733 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gwrthwynebu adleoli system arfau niwclear y DU i Gymru;

1. Opposes any relocation of the UK's nuclear weapons system to Wales.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau yn nodi hyn i Lywodraeth y DU;
3. Yn gwrthwynebu adnewyddu neu newid y system Trident bresennol gan Lywodraeth y DU; a
4. Yn cefnogi ymdrechion rhyngwladol i ymgymryd â diarfogwch niwclear ledled y byd.

Cynigiwyd y cynnig.

2. Calls on the Welsh Government to make such representations to the UK Government.
3. Opposes the renewal or replacement of the current Trident system by the UK Government.
4. Supports international efforts for world-wide nuclear disarmament.

Motion moved.

16:49

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n eironig, braidd, bod y ddadl yma yn dilyn dadl a gafodd ei meddiannu'n gyfan gwbl gan James Bond, oherwydd, yn y fan honno, rydym ni'n sôn, wrth gwrs, am ffuglen—ffuglen sy'n sôn am fygythiad i ddiogelwch y byd. Ond, ffuglen yw hi. Yn awr, rydym yn troi at y realiti: y realiti sy'n ein hwynebu ni oherwydd ein bod yn byw mewn oes niwclear.

Mae'n bleser mawr gen i i gynig y ddadl yma sydd wedi'i chyflwyno yn enw Elin Jones ar ran Plaid Cymru—dadl sydd yn galw ar Lywodraeth Cymru ac ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wrthwynebu adleoli system arfau niwclear y Deyrnas Unedig i Gymru. Ar ryw ystyr, mae hynny yn ymddangos yn ddatganiad rhyfedd, oherwydd nid yw'n fater sydd wedi ei ddatganoli, ond, wrth gwrs, fe ddewisodd y Prif Weinidog estyn gwahoddiad cynnes i adleoli arfau niwclear i Gymru. Felly, mae'n bwysig ein bod ni fel corff yn gwneud datganiad clir, diamwys y prynhawn yma nad ydym am weld hynny yn digwydd. Fe fyddai'n dda o beth i Lywodraeth Cymru wneud hynny hefyd.

Rydym ni hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau a nodi hyn i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Rydym ni'n gofyn am wrthwynebu adnewyddu neu newid y system Trident bresennol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac yn cefnogi ymdrechion rhyngwladol i ymgymryd â diarfogwch niwclear ledled y byd.

Mae arfau niwclear, wrth reswm, yn bwnc sy'n ymwneud â diogelwch. Mae hefyd, yn fy marn i, yn bwnc moesol ac y mae hefyd yn bwnc economaidd, oherwydd, y gwir amdani ydy ein bod ni i gyd, os nad ydym ni'n gwrthwynebu gwariant ar arfau niwclear, yn cefnogi gwario ar arfau niwclear yn hytrach na gwario ar wasanaethau hanfodol drwy'r Deyrnas Unedig ac yng Nghymru heddiw.

It is somewhat ironic that this debate follows a debate that was entirely themed around James Bond, because, there, we were talking, of course, about fiction—fiction that revolves around a threat to global security. But, it is fiction. Now, we turn to the reality: the reality facing us because we live in a nuclear age.

It gives me great pleasure to move this motion tabled in the name of Elin Jones on behalf of Plaid Cymru—a motion that calls on the Welsh Government and the National Assembly for Wales to oppose the relocating of the United Kingdom's nuclear weapons system to Wales. In one sense, that appears to be a strange statement, because it is not a devolved issue, but, of course, the First Minister chose to extend a warm invitation to relocate nuclear weapons to Wales. So, it is important that we as a body make a clear and unambiguous statement this afternoon that we do not want to see that happen. It would be good to see the Welsh Government do that, too.

We also call on the Welsh Government to make representations to the UK Government. We are asking for the Assembly to oppose the renewal or replacement of the current Trident system by the UK Government and to support international efforts for world-wide nuclear disarmament.

Nuclear weapons are, of course, an issue related to security. It is also, in my view, a moral issue and an economic issue, because the truth is that we all, unless we oppose expenditure on nuclear weapons, support expenditure on nuclear weapons rather than on essential services throughout the United Kingdom and in Wales today.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yr amcangyfrif yw, dros 30 mlynedd, y byddai adnewyddu Trident yn costio £100 biliwn. Nawr, petai'r arian hwnnw'n cael ei wario ar wasanaethau, fe fyddai hynny'n golygu y byddai yna arian yn dod drwy fformiwla Barnett i Gymru. Dros dymor y Cynulliad, fe allai'r swm hwnnw fod o gwmpas £825 miliwn, neu £165 miliwn bob blwyddyn. Nawr, os oes unrhyw un yn fan hyn am ddadlau nad oes angen yr arian hwnnw ar ein gwasanaeth iechyd ni yng Nghymru, neu ar ddarpariaeth addysg yng Nghymru, neu nad oes angen yr arian hwnnw ar lywodraeth leol sy'n cyflenwi gymaint o wasanaethau hanfodol i bobl Cymru, popeth yn iawn. Ond, os ydym ni'n derbyn bod yna argyfwng gwirioneddol yn wynebu'r gwasanaethau yma i gyd, yna mae gennym ni ddewis. Mae gennym ni ddewis i wario arian ar arfau neu i wario arian ar wasanaethau hanfodol i'n pobl ni.

Y ddadl draddodiadol sydd wedi cefnogi'r syniad o arfau niwclear ydy eu bod nhw, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, yn atalfa. Beth yn union y maen nhw'n ei atal, nid wyf yn siŵr. Byddai'n dda o beth i bobl sy'n cefnogi arfau niwclear petai nhw'n gallu esbonio i mi y prynhawn yma beth yn union mae arfau niwclear wedi'i atal. Os oedd yna, ar unrhyw adeg yn ystod y rhyfel oer, unrhyw fath o rym i'r ddadl honno, mae'r dyddiau hynny wedi hen fynd heibio. Yr hyn sy'n fygythiad i ddiogelwch yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru y dyddiau yma yw terfysgaeth. Sut, mewn difri calon, y mae arfau niwclear yn atal bygythiad o derfysgaeth? Nid yw wedi atal rhyfeloedd yn Irac nac yn Affganistan. Yn sicr, nid yw'n fygythiad i ISIS ar hyn o bryd. Nid yw hyd yn oed yn fygythiad i Vladimir Putin yn yr Wcráin. Nid yw wedi atal unrhyw beth ac, yn sicr, mae'n wariant cwbl ofer ar hyn o bryd.

Yn wir, mae yna rym i ddadl a fyddai'n ailfuddsoddi arian sy'n cael ei wario ar arfau niwclear yn awr ar arfau confensiynol. Mae llawer iawn o arbenigwyr ar filitariaeth yn dweud wrthym ni bod y gwariant ar arfau confensiynol ac ar y gweithlu o ran y fyddin a'r llynges a'r awyrlu wedi cael ei wasgu yn ormodol a bod hynny yn creu bygythiad. Lle mae'r arian wedi mynd? Mae wedi mynd ar yr arfau niwclear.

Felly, mae yna ddewisiadau syml iawn yn ein hwynebu ni. Beth sydd ei angen yng Nghymru ar hyn o bryd yw llais unedig a llais cryf yn gwrthwynebu'r gwario gorffwyll yma ar arfau niwclear ar adeg pan na allwn ni fodoli fel grym niwclear. Allwn ni ddim fforddio bod felly. Mae'r syniad bod hynny rywsut yn gwanhau ein sefyllfa ni yn nonsens. Fe allem ni fodoli fel gwladwriaeth ac fel gwlad o fewn gwladwriaeth ddi-niwclear o fewn Ewrop. Fe allem ni fodoli felly o fewn NATO. Mae'r rhan fwyaf o wledydd o fewn NATO heb arfau niwclear ac fe fyddai'n berffaith bosibl inni fodoli felly a gwneud llawer iawn gwell defnydd o'r arian yna.

The estimate is that, over 30 years, Trident renewal would cost £100 billion. Now, if that money was to be spent on services, it would bring Barnett consequential funding to Wales. Over the term of an Assembly, that could amount to around £825 million, or £165 million annually. Now, if anyone here wants to argue that we don't need that money in our health service in Wales, or in education in Wales, or that there is no need for that money in local government, which provides so many crucial services to the people of Wales, so be it. But, if we accept that there is a real crisis facing all of these services, then we do have a choice to make. We can choose to spend money on weapons or to spend money on crucial services for our people.

The traditional argument put forward in support of nuclear weapons is that they, in some way or another, are a deterrent. Exactly what they are a deterrent against, I am not sure. It would be good if those people who support nuclear weapons could explain to me this afternoon exactly what nuclear weapons have deterred. If, at any point during the cold war, there was any justification for that argument, those days are long gone. The threat to security in the United Kingdom and in Wales these days is terrorism. How on earth can nuclear weapons be a deterrent to the threat of terrorism? They have not deterred wars in Iraq or Afghanistan. They are certainly not a deterrent against ISIS at the moment. They are not even a deterrent against Vladimir Putin in Ukraine. They haven't been a deterrent at all and certainly constitute futile expenditure at present.

Indeed, there is merit to an argument for reinvesting money spent on nuclear weapons in conventional weapons. Many military experts tell us that expenditure on conventional weapons and on the workforce in terms of the army, the navy and the air force, has been cut excessively and that that in itself constitutes a threat. Where has that money gone? It has gone on the nuclear weapons.

So, there are very simple choices facing us. What we need in Wales at the moment is a united and strong voice opposing the insane expenditure on nuclear weapons at a time when we cannot exist as a nuclear power. We can't afford to be that power. The idea that that somehow weakens our position is nonsense. We could exist as a nuclear-free state and as a nation within a nuclear-free state within Europe and also within NATO. Most countries in NATO do not have nuclear weapons and it would be perfectly possible for us to exist in that scenario and make much better use of that money.

16:55

Nick Ramsay [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you for taking the intervention. It's true to say, though, isn't it, that the members of the UN Security Council do all have nuclear weapons?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Dweud roeddwn i nad yw pob gwladwriaeth—pob gwlad—o fewn NATO felly. Felly, nid oes rheswm pam fod rhaid i'r Deyrnas Unedig gael arfau niwclear. Nid yw'r ffaith bod gwladwriaethau eraill yn dewis gwario ar arfau niwclear yn ddadl dros wario arnyn nhw yn y sefyllfa bresennol sydd yn ein hwynebu ni.

The point that I was making is that not all nations—all countries—in NATO have these weapons. So, there is no reason why the UK must have nuclear weapons. The fact that other states choose to spend on nuclear weapons is not a case for such spending here, given the climate currently facing us.

Y gwir amdani ydy nad oes yna unrhyw wrthwynebiad, bellach, yn San Steffan i'r gwario yma ar arfau niwclear. Mae'r pleidiau Llundainig i gyd wedi arwyddo lan i gefnogi'r gwariant yma. Yr unig wrthwynebiad sy'n dod ydy oddi wrth yr SNP yn yr Alban, Llywodraeth yr Alban, a hefyd oddi wrth Blaid Cymru ac, o ran hynny, y Blaid Werdd.

The truth is that there is no opposition now in Westminster to this expenditure on nuclear weapons. The London parties have all signed up to support this expenditure. The only opposition comes from the SNP in Scotland, from the Scottish Government, and from Plaid Cymru, and, for that matter, the Green Party.

Os caf i gyfeirio at welliant y Democratiaid Rhyddfrydol, rwy'n gwybod ei fod yn beth syn bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn ceisio cymryd clod am geisio negodi safbwynt y Deyrnas Unedig—nid yw hynny'n beth sydd yn digwydd yn aml iawn. Maen nhw'n ceisio cymryd y clod yn y gwelliant yma, ond, wrth gwrs, y gwir amdani ydy fod yr hyn roedden nhw'n ceisio ei negodi hyd yn oed yn fwy hurt na'r hyn a oedd yn cael ei gyflwyno gan eu partneriaid nhw yn y glymblaid, y Blaid Geidwadol. Felly, rydym ni'n gwrthod y gwelliant hwnnw, ac rydym ni hefyd yn gwrthod gwelliant y Llywodraeth. Allwch chi, fel Llywodraeth, ddim ar y naill law ddweud, 'Does ag arfau niwclear ddim byd i'w wneud â ni' ac wedyn ganiatáu i'r Prif Weinidog groesawu adleoli arfau niwclear yng Nghymru. Un ai nid yw e ddim byd i'w wneud â chi, a mater i'r Deyrnas Unedig yw e, neu y mae'n rhywbeth y mae gan Brif Weinidog Cymru a Llywodraeth Cymru ddiddordeb ynddo fe. Mae'n bryd ichi wneud eich safbwynt yn glir ar hynny.

If I may refer to the Liberal Democrat amendment, I know that it's surprising that the Liberal Democrats are trying to take credit for negotiating the UK's stance—that does not happen very often. They are trying to take credit in the amendment here, but, of course, the truth is that what they were trying to negotiate was even more absurd than what was being put forward by their partners in the coalition, the Conservative Party. So, we reject that amendment, and we also reject the Government amendment. You, as a Government, can't on the one hand say, 'Nuclear weapons are nothing to do with us', and then allow the First Minister to welcome the relocation of nuclear weapons to Wales. Either it has nothing to do with you, and it is a matter for the UK, or it is something that the First Minister of Wales and the Welsh Government has an interest in. It is time for you to make your position clear on that.

Ond y dewis sylfaenol sy'n ein hwynebu ni ydy gwastraffu mwy a mwy o arian ar adnewyddu arfau nad ydyn nhw o unrhyw berthnasedd i'r sefyllfa o ran diogelwch yn ein byd ni, nac yn ein gwlad ni, nac yn y Deyrnas Unedig, neu fuddsoddi'r arian hwnnw mewn gwasanaethau gwirioneddol yng Nghymru a drwy'r Deyrnas Unedig.

But the fundamental choice facing us is wasting more and more money renewing weapons that are of no relevance to the situation in terms of global security, or the security of our own country, or the UK, or to invest that money in real services in Wales and throughout the UK.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Os derbynir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol. Galwaf ar y Prif Weinidog i gynnig yn ffurfiol welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt.

I have selected the two amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected. I call on the First Minister to move formally amendment 1 tabled in the name of Jane Hutt.

Gwelliant 1—Jane Hutt

Amendment 1—Jane Hutt

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Delete all and replace with:

Yn nodi nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau i benderfynu ble i leoli arfau niwclear ac yn cydnabod mai mater i Lywodraeth y DU yw hwn.

Notes that the Welsh Government has no powers to determine the siting of nuclear weapons and recognises that this is a matter for the UK Government.

Cynigiwyd gwelliant 1.

Amendment 1 moved.

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Ffurfiol, Ddirprwy Lywydd.

Formally, Deputy Presiding Officer.

16:58

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar Peter Black i gynneg gweliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I call on Peter Black to move amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Amendment 2—Aled Roberts

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Insert as new point 3 and renumber accordingly:

Yn croesawu'r penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth y DU i beidio ag adnewyddu Trident yn ystod y tymor seneddol hwn o ganlyniad i'r Democratiaid Rhyddfrydol yn mynnu hyn.

Welcomes the decision taken by the UK Government not to renew Trident during this parliamentary term at the insistence of the Liberal Democrats.

Cynigiwyd gweliant 2.

Amendment 2 moved.

16:58

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I think, certainly, we know there's a general election in the offing when we start debating topics like this in this Chamber, when we don't have any responsibility for it. In fact, on what is, I think, a fairly bizarre day, we have now gone from James Bond to Dr Strangelove. But I do think that, in that regard, I just want to reply to Rhodri Glyn Thomas's criticism of our amendment, because I think the fact is, Rhodri Glyn, that if the Liberal Democrats had not been in the coalition Government, you would already now be committed to a Trident replacement. I think that's almost certain. It was only because the Liberal Democrats are in Government that we managed to delay the commitment to a Trident replacement and, thus, enabled us to have this debate today and, actually, to have a proper discussion about what should happen in the next Parliament.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n meddwl, yn sicr, ein bod yn gwybod bod etholiad cyffredinol ar y gweill pan fyddwn yn dechrau trafod pynciau fel hyn yn y Siambr, pan nad oes gennym unrhyw gyfrifoldeb drosto. Yn wir, ar yr hyn sydd, rwy'n meddwl, yn ddiwrnod eithaf rhyfedd, rydym bellach wedi symud oddi wrth James Bond at Dr Strangelove. Ond yn hynny o beth, rwy'n credu fy mod am ymateb i feirniadaeth Rhodri Glyn Thomas o'n gweliant, oherwydd credaf mai'r ffaith amdani yw, Rhodri Glyn, pe na bai'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi bod yn y Llywodraeth glymblaid, byddech eisoes yn ymrwymedig yn awr i newid y system Trident. Rwy'n credu bod hynny bron yn sicr. Oherwydd bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn y Llywodraeth yn unig y llwyddasom i ohirio'r ymrwymiad i newid Trident gan ein galluogi felly i gael y ddaid hon heddiw ac mewn gwirionedd, i gael trafodaeth briodol am yr hyn a ddylai ddigwydd yn y Senedd nesaf.

16:59

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

But isn't it a fact, Peter, that most people recognise that what you negotiated will actually cost more than renewing Trident, as the Conservative Government intended to do?

Ond onid yw'n wir, Peter, fod y rhan fwyaf o bobl yn cydnabod y bydd yr hyn a drafodwyd yn costio mwy mewn gwirionedd na newid Trident, fel oedd y Llywodraeth Geidwadol yn bwriadu ei wneud?

16:59

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

No, that's absolutely untrue. All we've negotiated with the Government is a delay in the Trident renewal programme. We have not, as yet, had a discussion with the coalition in terms of what would replace that. That decision will now come in the next Parliament and will be made by whoever is in Government in the next Parliament. Obviously, the Liberal Democrats will take a view into that Parliament and we will put that view forward. But certainly, in terms of where we are at the moment, the fact that we have not yet renewed Trident, or committed to that renewal, is entirely down to the fact that the Liberal Democrats in Government have prevented it from taking place.

Na, mae hynny'n gwbl anghywir. Y cyfan rydym wedi ei drafod gyda'r Llywodraeth yw gohirio rhaglen adnewyddu Trident. Hyd yma, nid ydym wedi cael trafodaeth gyda'r glymblaid ar yr hyn a fyddai'n cymryd ei le. Daw'r penderfyniad hwnnw yn awr yn ystod y Senedd nesaf a bydd yn cael ei wneud gan bwy bynnag sy'n Llywodraeth yn y Senedd nesaf. Yn amlwg, bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ffurfio safbwynt yn y Senedd honno a byddwn yn cyflwyno'r farn honno. Ond yn sicr, o ran ein sefyllfa ar hyn o bryd, mae'r ffaith nad ydym wedi adnewyddu Trident eto, nac ymrwmo i adnewyddu, yn deillio'n llwyr o'r ffaith fod y Democratiaid Rhyddfrydol yn y Llywodraeth wedi atal hynny rhag digwydd.

I just wanted to refer to the issue of Milford Haven because, actually, when the original shortlist was drawn up for basing Trident's predecessor, Polaris, in the 1960s, Milford Haven in Pembrokeshire was one of the candidates. The reason for that was because it was considered that this site was an attractive option because it is a natural deep-water port. But, of course, in the 1960s Esso had just established an oil refinery in the town and the Ministry of Defence decided that the two were incompatible on safety grounds, according to William Walker, one of the authors of a book called, 'Uncharted Waters: The UK, Nuclear Weapons and the Scottish Question'. I quote from this book. He said:

'The dangers of handling and storing high explosives near major oil facilities ruled it out. Imagine a big submarine colliding with a tanker. It's common sense—even if there is a low probability, the consequences could be horrific'.

I would certainly endorse that view and I certainly agree that that is not a suitable place to relocate Trident if it is renewed and if Scotland decides that they don't want it there and the UK Government agrees with that. Because we now have an even trickier situation as Milford Haven, of course, is home to two liquefied natural gas facilities, it handles 30 per cent of the UK's gas supply, it hosts two oil refineries, and it will soon have a new power station. So, I think that we are agreed with the main motion that this is an unsuitable place to relocate nuclear submarines.

But the Liberal Democrats are crystal clear in our opposition to a like-for-like Trident replacement. We are committed to a global elimination of nuclear weapons and are committed to the nuclear non-proliferation treaty. The UK still maintains and operates our nuclear deterrent with a cold war mentality. The security threat has changed, and by not recognising this, we are failing to show our commitment to meeting international commitments to reducing nuclear weapons under the non-proliferation treaty. The world has moved on, and so too should the way that we protect our country. The Liberal Democrats are the only UK party willing to acknowledge this.

While we cannot predict the future, taking this first step down the nuclear ladder is not the right thing to do. In terms of renewing Trident we certainly need to make sure that we don't have that like-for-like replacement. There is a fundamental tension between our commitments to universal human rights, the responsibility to protect, combating preventable disease, mitigating the effects of climate change and the millennium development goals on the one hand, and the likely destruction that would accompany even modest use of nuclear weapons on the other. We therefore believe that efforts towards international nuclear disarmament, especially with the non-proliferation treaty, lessen the probability of nuclear war.

Roeddwn am gyfeirio at fater Aberdaugleddau oherwydd pan luniwyd y rhestr fer wreiddiol ar gyfer lleoli rhagflaenydd Trident, Polaris, yn y 1960au, roedd Aberdaugleddau yn Sir Benfro yn un o'r ymgeiswyr. Y rheswm am hynny oedd bod y safle'n opsiwn deniadol oherwydd ei fod yn borthladd dŵr dwfn naturiol. Ond wrth gwrs, yn y 1960au roedd Esso newydd sefydlu purfa olew yn y dref a phenderfynodd y Weinyddiaeth Amddiffyn fod y ddau'n anghydnaws ar sail diogelwch, yn ôl William Walker, un o awduron llyfr o'r enw, 'Uncharted Waters: The UK, Nuclear Weapons and the Scottish Question'. Dyfynnaf o'r llyfr:

'Roedd y peryglon o drin a storio ffrwydrion cryf ger cyfeusterau olew mawr yn golygu ei fod yn cael ei ddiystyru. Dychmygwch long danfor fawr yn taro tancer. Mae'n synnwyr cyffredin—hyd yn oed os yw'r tebygolrwydd yn isel, gallai'r canlyniadau fod yn erchyll'.

Byddwn yn sicr yn ategu'r farn honno ac rwy'n sicr yn cytuno nad yw'n fan addas i adleoli Trident os caiff ei adnewyddu ac os yw'r Alban yn penderfynu nad ydynt ei eisiau yno a Llywodraeth y DU yn cytuno â hynny. Mae gennym bellach sefyllfa hyd yn oed yn anos gan fod Aberdaugleddau, wrth gwrs, yn gartref i ddau gyfeuster nwy hylifedig naturiol, mae'n trin 30 y cant o gyflenwad nwy y DU, mae'n cynnal dwy burfa olew, ac yn fuan bydd yno bwerdy newydd. Felly, rwy'n meddwl ein bod yn cytuno gyda'r prif gynnig fod hwn yn lleoliad anaddas ar gyfer adleoli llongau tanfor niwclear.

Ond mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn hollol glir yn ein gwrthwynebiad i newid un system Trident am system gyfatebol. Rydym wedi ymrwymo i ddileu arfau niwclear yn fyd-eang ac wedi ymrwymo i'r cytuniad i atal amlhau arfau niwclear. Mae'r DU yn dal yn cynnal ac yn gweithredu ein harfau niwclear ataliol gyda meddylfryd y rhyfel oer. Mae'r bygythiad diogelwch wedi newid, a thrwy beidio â chydabod hyn, rydym yn methu â dangos ein hymrwymiad i gyflawni ymrwymadau rhyngwladol i leihau arfau niwclear o dan y cytuniad i atal amlhau arfau. Mae'r byd wedi symud yn ei flaen, ac felly hefyd y dylai'r ffordd rydym yn amddiffyn ein gwlad. Y Democratiaid Rhyddfrydol yw'r unig blaid ar gyfer y DU yn gyfan sy'n barod i gydnabod hyn.

Er na allwn ragweld y dyfodol, nid cymryd y cam cyntaf i lawr yr ysgol niwclear yw'r peth iawn i'w wneud. O ran adnewyddu Trident, yn sicr mae angen i ni wneud yn siŵr nad ydym yn newid i system gyfatebol. Mae tensiwn sylfaenol rhwng ein hymrwymadau i hawliau dynol byd-eang, y cyfrifoldeb i amddiffyn, trechu clefydau y gellir eu hatal, lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd a nodau datblygu'r mileniwm ar y naill law, a'r dinistr tebygol a fyddai'n deillio o ddefnydd cymedrol hyd yn oed o arfau niwclear ar y llaw arall. Felly, rydym yn credu bod ymdrechion tuag at ddiarfogi niwclear rhyngwladol, yn enwedig gyda'r cytuniad i atal amlhau arfau, yn lleihau'r tebygolrwydd o ryfel niwclear.

Just turning to our amendment, Deputy Presiding Officer, the Liberal Democrats in Government, as I said, are the only ones who stopped the renewal of Trident, planned by Tony Blair and supported by the Conservatives. In May 2011, the then defence secretary, Liam Fox, announced the initial gate design phase of the Trident replacement. We've ensured in Government that the final decision on main gate—effectively the position of no return for a like-for-like replacement for Trident—will not be made until 2016, and we will continue to make the case for alternatives in the meantime. The coalition agreement says that the Liberal Democrats will continue to make that case for alternatives, and we will continue to say, in Government or outside Government if necessary, that a like-for-like Trident replacement cannot be justified in terms of cost or security. We believe that. We commissioned the Trident alternatives review, which is the most thorough review of nuclear systems and postures the UK has ever made public, and this review showed that ending 24-hour patrols and procuring fewer submarines would both make savings and still keep the UK safe. I therefore ask that we support the amendment. Thank you, Deputy Presiding Officer.

I droi at ein gweliant, Ddirprwy Lywydd, y Democratiaid Rhyddfrydol yn y Llywodraeth, fel y dywedais, yw'r unig rai a ataliodd y broses o adnewyddu Trident, proses a gynlluniwyd gan Tony Blair a'i chefnogi gan y Ceidwadwyr. Ym mis Mai 2011, cyhoeddodd yr ysgrifennydd amddiffyn ar y pryd, Liam Fox, y cam cynllunio porth cychwynnol ar gyfer newid system Trident. Rydym wedi sicrhau yn y Llywodraeth na fydd y penderfyniad terfynol ar y prif borth—i bob pwrpas y pwynt lle na ellir troi'n ôl ohono ar gyfer newid system Trident am system gyfatebol—yn cael ei wneud tan 2016, a byddwn yn parhau i gyflwyno'r achos dros ddewisiadau amgen yn y cyfamser. Mae cytundeb y glymblaid yn dweud y bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn parhau i gyflwyno'r achos dros ddewisiadau amgen, a byddwn yn parhau i ddweud, yn y Llywodraeth neu'r tu allan i'r Llywodraeth os oes angen, na ellir cyfiawnhau newid system Trident am system gyfatebol ar sail cost na diogelwch. Rydym yn credu hynny. Rydym wedi comisiynu'r adolygiad o ddewisiadau amgen yn lle Trident, sef yr adolygiad mwyaf trylwyr o systemau a safiadau niwclear a gyhoeddwyd gan y DU erioed, a dangosai'r adolygiad y byddai rhoi diwedd ar batrolau 24 awr a chaffael llai o longau tanfor yn sicrhau arbedion ac yn dal i gadw'r DU yn ddiogel. Gofynnaf felly i chi gefnogi'r gweliant. Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd.

17:04

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'r ddadl hon heddiw yn gyfle i ni ym Mhlaid Cymru i ailddatgan ein gwrthwynebiad sylfaenol i arfau niwclear—yr arfau hynny na all neb eu defnyddio, wrth gwrs, heb ddod a chwalfa yn eu sgil na welodd y byd ei debyg. Ond, mae'n gyfle hefyd i wrthwynebu'r syniad yma o adleoli Trident yma yng Nghymru.

Wrth gwrs, fe greoedd ymchwydd Plaid Genedlaethol yr Alban yr her fwyaf i arfau niwclear y Deyrnas Gyfunol yn eu hanes diweddar. Ond, mi greoedd hefyd y posibilrwydd y gellid symud Trident, neu ei olynnydd, i fan arall ac i Gymru yn benodol. Yn Siambr y Cynulliad hwn, fe ddywedodd y Prif Weinidog y buasai ef yn 'mwy na'i groesawu'. Mi ddywedodd wedi hynny mai peth hollol academaidd oedd ei groeso, gan y byddai'r Alban yn aros yn rhan o'r Deyrnas Gyfunol. Ond, beth bynnag am hynny, fe erys y ffaith y dylem, fel rhan o'n gwrthwynebiad i Trident yn ei gyfanrwydd, ei gwneud yn hollol glir na ddylai'r un Llywodraeth yn Llundain yn y dyfodol synied am Gymru fel dewis fan pan ddaw'n fater o adleoli Trident.

Wrth gwrs, mi allai'r Prif Weinidog geisio cyfiawnhau'r symud ar sail creu swyddi newydd, fel petai pwrpas y swyddi yn amherthnasol. Pe bai cwmni, felly, sy'n adeiladu bomiau clwstwr, er enghraifft, yn cynnig sefydlu yng Nghymru, a fyddem yn eu croesawu nhw, trwy ddweud, 'Swyddi ydy swyddi'. Ai dyna ydy safbwynt y Prif Weinidog? Ac yna, wrth i bobl ddiniwed a phlant gael eu chwalu'n ddarnau poenus gan y bomiau diefflig hynny, beth fyddem ni'n ei ddweud? Edrych y ffordd arall a chodi'n hysgwyddau, mae'n debyg, ie? Dim ond gwlad sy'n fodlon gwerthu ei henaid a fyddai'n cynllunio economi ar seiliau mor ddioglyddor. Roedd yna amser, wrth gwrs, pan oedd y Blaid Lafur â charfan gref o'i mewn yn gwrthwynebu arfau niwclear, ond nid felly bellach, yn anffodus.

This debate today is an opportunity for us in Plaid Cymru to restate our fundamental opposition to nuclear weapons—those weapons that nobody can use, of course, without destroying the world in a way that hasn't been seen before. But, it is also an opportunity to oppose this idea of the relocation of Trident to Wales.

Of course, the Scottish National Party's surge created the greatest challenge to the United Kingdom's nuclear weapons system in its recent history, but it also created the possibility that Trident, or its successor, could be moved to another location and to Wales specifically. In the Chamber of this Assembly, the First Minister said that he would 'more than welcome it'. After that he said that his welcome was academic because Scotland would remain a part of the UK. But, regardless of that, the fact remains that we should, as part of our opposition to Trident in its entirety, make it clear that no Government in London in the future should consider Wales as an option when the relocation of Trident becomes an issue.

Of course, the First Minister can try and justify the move on the basis of the creation of new jobs, as if the purpose of the jobs were irrelevant. If a company building cluster bombs, for example, offered to establish itself in Wales, would we welcome them by saying that 'Jobs are jobs'? Is that the view of the First Minister? And as innocent people and children are blown to pieces by those evil bombs, what would we say? We would look the other way and shrug our shoulders, would we? It's only a country that would be willing to sell its soul that would plan an economy on such an unprincipled basis. There was a time, of course, when the Labour Party had a strong element within it that opposed nuclear weapons, but that is not the case now, unfortunately.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Fel y dywedodd Peter Black, Aberdaugleddau ydy'r unig leoliad dichonadwy yng Nghymru ar gyfer Trident, ond y gobaith yw y byddai pwysigrwydd economaidd yr ardal yn rhwystro presenoldeb unrhyw arfau niwclear i'r dyfodol. Fel y cyfeiriwyd, fe ddywedodd Sefydliad Brenhinol y Lluoedd Unedig, yn ei ymchwil yn ystod y cyfnod cyn refferendwm yr Alban, na allai terfynell LNG South Hook weithredu o dan y cyfyngiadau diogelwch a fyddai'n dod yn sgil Trident. Hynny ydy, o'i rhoi yn blaen, nid yw 'nukes' a nwy yn cymysgu. Mae'n debyg bod hynny yn rhyw achubiaeth inni, er gwaethaf croeso gwresog y Prif Weinidog i'r arfau yma.

Wel, yn Senedd nesaf San Steffan, fe fydd y ddaid dros Trident yn parhau, hyd yn oed os bydd mwyafrif o Aelodau Seneddol o'r pleidiau Llafur a Cheidwadol o blaid ei adnewyddu, neu i gael rhywbeth yn ei le. Ac er ein bod yn sylweddoli mai mater i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ydy hyn, mae'n ffaith, er hynny, y gall Llywodraeth Cymru wneud sylwadau, gan ei bod hi wedi gwneud sylwadau yn y gorffennol. Mi fyddai symud unrhyw arfau niwclear i Gymru yn gamgymeriad, er gwaethaf yr hyn sydd wedi cael ei ddweud yn y gorffennol.

Nick Ramsay a gododd—

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni yma heddiw, i ni yma yn y Cynulliad, gael gwneud ein safbwynt yn glir, ac rwy'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru ddatgan yn ddiamwys nad ydym ni fel cenedl yn cefnogi adleoli Trident, nag unrhyw arfau dinistr eraill, yma i Gymru. Diolch.

As Peter Black said, Milford Haven is the only feasible location in Wales for Trident, but the hope is that the economic importance of the area would prevent the relocation of any nuclear weapons in the future. As has been mentioned, the Royal United Services Institute said, in its research during the period before the Scottish referendum, that the South Hook LNG terminal couldn't operate under the safety restrictions that would be brought about by the relocation of Trident. That is, putting it plainly, nukes and gas don't mix. I suppose that that is some sort of saving grace for us, despite the warm welcome offered by the First Minister to these weapons.

Well, in the next Westminster Parliament, the debate on Trident renewal will continue, even if a majority of MPs from the Labour and Conservative parties are in favour of renewal or replacement. And although we realise that this is an issue for the UK Government, it is a fact, however, that the Welsh Government can make representations, as it has done in the past. The relocation of any nuclear weapons to Wales would be a mistake, despite what has been said in the past.

Nick Ramsay rose—

So, I think it's important for us here today, in the Assembly, to make our views clear, and I do think that the Welsh Government should state unambiguously that we, as a nation, do not support the relocation of Trident, or any other weapons of mass destruction, here to Wales.

- | | | | |
|-------|---|---|--|
| 17:08 | Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography
Nick Ramsay. | Nick Ramsay. | Senedd.tv
Fideo Video |
| 17:08 | Nick Ramsay Bywgraffiad Biography
I think he's finished. | Rwy'n credu ei fod wedi gorffen. | Senedd.tv
Fideo Video |
| 17:08 | Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography
Have you given way or concluded? | A ydych wedi ildio neu wedi gorffen? | Senedd.tv
Fideo Video |
| 17:08 | Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography
Sorry, I've finished. | Mae'n ddrwg gennyf, rwyf wedi gorffen. | Senedd.tv
Fideo Video |
| 17:08 | Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography
Mike Hedges. | Mike Hedges. | Senedd.tv
Fideo Video |
| 17:08 | Mike Hedges Bywgraffiad Biography
Thank you, Deputy Presiding Officer. Great Britain has had an independent nuclear deterrent since it became the third country to test an independently developed nuclear weapon in 1952. In 1957, a Royal Air Force bomber dropped the United Kingdom's first nuclear bomb—something many of us are very sad about. The UK is currently thought to have over 200 thermonuclear warheads, of which 160 are operational, but it has refused to declare the exact number it's got. | Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Mae Prydain wedi cael arfau niwclear ataliol annibynnol ers iddi ddod yn drydedd wlad i brofi arf niwclear a ddatblygwyd yn annibynnol yn 1952. Yn 1957, gollyngodd awyren fomio y Llu Awyr Brenhinol fom niwclear cyntaf y Deyrnas Unedig—rhywbeth y mae llawer ohonom yn drist iawn yn ei gylch. Credir bod gan y DU dros 200 o arfbennau thermoniawclear ar hyn o bryd, ac mae 160 ohonynt yn weithredol, ond mae wedi gwrthod datgan yr union nifer sydd ganddi. | Senedd.tv
Fideo Video |

Since 1998, the Trident programme has been the British Government's operational nuclear weapon. The word 'deterrent' means 'to deter' and the dictionary definition includes,

'military strength or an ability to defend a country or retaliate strongly enough to deter an enemy from attacking'.

So, if Britain's nuclear deterrents worked, then no non-nuclear power would dare to attack Britain or any of its dependencies, allies or overseas territories. This is a script not read by the Argentinian junta, who invaded the Falkland isles without fear of a nuclear strike. The nuclear deterrent failed completely to deter Argentina, which believed, correctly, that not only would we not use nuclear weapons, we would not even threaten to use nuclear weapons. Other countries we have failed to deter—and this is not a full list—include Iraq, over its invasion of Iraq, and Egypt, over the annexing of the Suez canal. But nuclear deterrents have not only failed to deter aggressors of Britain. The United States may have had nuclear weapons and while it used heavy conventional bombing and napalm, it never threatened North Vietnam with nuclear attack, let alone used nuclear weapons on it, despite being forced out of South Vietnam. The USSR failed to use or threaten to use nuclear weapons in Afghanistan, where the Taliban were not deterred by their nuclear arsenal, and the USSR was forced out of Afghanistan.

So, who has been deterred by these weapons? Supporters will say that they have stopped a major war in Europe. Of course, we have had a huge number of minor wars in Europe, including one between two NATO countries—Greece and Turkey. That's, perhaps, been overlooked: we haven't had a major war. But, even if the mutual assured destruction of the nuclear arms race was true of the immediate post-war period, until the fall of the Berlin wall, does anybody seriously expect the current Russia to threaten to drop nuclear weapons on anybody else? They're more likely to threaten to turn the gas supply off, which would have a far more serious effect on a number of countries. So, why do we continue to want to invest in nuclear weapons that we're not going to use, but we're not even threatening to use?

Ers 1998, rhaglen Trident yw arf niwclear gweithredol Llywodraeth Prydain. Mae'r gair 'arf ataliol' yn golygu 'atal' ac mae diffiniad y geiriadur yn cynnwys,

'cryfder milwrol neu allu i amddiffyn gwlad neu i ddial yn ddigon cryf i atal gelyn rhag ymosod'.

Felly, os yw arfau niwclear ataliol Prydain yn gweithio, yna ni fyddai unrhyw rym di-niwclear yn meiddio ymosod ar Brydain nac unrhyw un o'i gwledydd dibynnol, ei chynghreiriaid neu ei thiriogaethau tramor. Mae hon yn sgript na chafodd ei darllen gan jwnta yr Ariannin a ymosododd ar ynysoedd y Falklands heb ofni ymosodiad niwclear. Methodd yr arfau niwclear ataliol yn llwyr ag atal yr Ariannin, a oedd yn credu, yn gywir, nid yn unig na fyddem yn defnyddio arfau niwclear, ni fyddem hyd yn oed yn bygwth defnyddio arfau niwclear. Mae gwledydd eraill rydym wedi methu â'u hatal—ac nid yw hon yn rhestr lawn—yn cynnwys Irac, mewn perthynas â'i hymosodiad ar Irac, a'r Aifft, dros gipio rhannau o gamlas Suez. Ond nid ymosodwyr ar fuddiannau Prydain yn unig y mae arfau niwclear ataliol wedi methu â'u hatal. Efallai fod arfau niwclear gan yr Unol Daleithiau a'i bod wedi defnyddio bomiau confensiynol trwm a napalm, ni fygythiodd Ogledd Fietnam ag ymosodiad niwclear erioed, heb sôn am eu defnyddio yno, er iddi gael ei gorfodi allan o Dde Fietnam. Methodd yr Undeb Sofietaidd â defnyddio neu fygwth defnyddio arfau niwclear yn Affganistan, lle na chafodd y Taliban eu hatal gan ei arfau niwclear, a chafodd yr Undeb Sofietaidd ei orfodi allan o Affganistan.

Felly, pwy sydd wedi cael ei atal gan yr arfau hyn? Bydd cefnogwyr yn dweud eu bod wedi rhoi diwedd ar ryfel mawr yn Ewrop. Wrth gwrs, rydym wedi cael nifer fawr o fân ryfeloedd yn Ewrop, gan gynnwys un rhwng dwy wlad NATO—Gwlad Groeg a Thwrci. Efallai bod hynny wedi cael ei anghofio: nid ydym wedi cael rhyfel mawr. Ond hyd yn oed os oedd dinistr cilyddol sic y ras arfau niwclear yn wir am y cyfnod yn syth ar ôl y rhyfel, hyd nes y cwmpodd wal Berlin, a oes unrhyw un o ddifrif yn disgwyl i'r Rwsia gyfoes fygwth gollwng arfau niwclear ar unrhyw un arall? Maent yn fwy tebygol o fygwth diffodd y cyflenwad nwy a fyddai'n cael effaith lawer mwy difrifol ar nifer o wledydd. Felly, pam rydym yn parhau i fod eisiau buddsoddi mewn arfau niwclear nad ydym yn mynd i'w defnyddio, ac nad ydym hyd yn oed yn bygwth eu defnyddio?

When a British overseas territory is invaded, we say, 'Do nothing with them'. They just sit there. Of course, the reason that they will not be used are either political or environmental and just to see the terrible nature of nuclear weapons, it's unlikely any respectable Government would do them because of the backlash from the rest of the world. Why, then, do we have the continued existence of this misnamed nuclear deterrent? The answer appears less military than political. They are seen as the means of guaranteeing Britain's continual place as one of the permanent five on the UN Security Council. Of course, Trident is not even an independent nuclear weapon; it can only be fired if the US say so. We have to ask permission first. The nuclear weapons that we currently have, while probably obsolete, if intended for use against another nuclear-weapon power, we might as well keep. I speak as somebody who is actually a supporter—.

Pan ymosodir ar diriogaeth dramor Brydeinig, rydym yn dweud, 'Peidiwch â gwneud dim â hwy'. Gorwedd yno'n unig y mae'r arfau. Wrth gwrs, mae'r rheswm na chânt eu defnyddio naill ai'n wleidyddol neu amgylcheddol ac o weld natur ofnadwy arfau niwclear, mae'n annhebygol y byddai unrhyw Lywodraeth barchus yn eu defnyddio oherwydd ymateb gweddill y byd. Pam, felly, rydym yn parhau i gadw'r arfau niwclear hyn a gamenwyd fel rhai ataliol? Mae'r ateb i'w weld yn fwy gwleidyddol na milwrol. Maent yn cael eu gweld fel ffordd o warantu lle parhaus Prydain yn un o'r pum aelod parhaol ar Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig. Wrth gwrs, nid yw Trident yn arf niwclear annibynnol hyd yn oed; ni ellir ond ei danio os yw'r Unol Daleithiau yn dweud. Mae'n rhaid i ni ofyn caniatâd yn gyntaf. Os bwriedir defnyddio'r arfau niwclear sydd gennym ar hyn o bryd, er eu bod wedi darfod yn ôl pob tebyg, yn erbyn grym arall sydd ag arfau niwclear, byddai waeth inni eu cadw. Rwy'n siarad fel rhywun sydd mewn gwirionedd yn gefnogwr—.

- 17:11 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Will you give way?
A wnewch chi ildio?
Senedd.tv [Fideo Video](#)
- 17:11 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Can I just finish there? I'm actually a supporter of unilateral nuclear disarmament, but in order not to push it on that, I would say, let's just keep the ones we've got. We're not going to use them. They're not doing any harm at the moment, so why not just keep them? I'll give way.
A gaf fi orffen yn y fan honno? Mewn gwirionedd rwy'n cefnogi diarfogi niwclear unochrog, ond er mwyn peidio â gwthio ar hynny, byddwn yn dweud, gadewch i ni gadw'r rhai sydd gennym. Nid ydym yn mynd i'w defnyddio. Nid ydynt yn gwneud unrhyw niwed ar hyn o bryd, felly'n syml iawn, pam na allwn eu cadw? Fe ildiaf.
Senedd.tv [Fideo Video](#)
- 17:11 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Do you agree with Labour's UK shadow secretary of defence, Mr Coaker, who said, I believe, that this is a minimum independent credible deterrent, based on continuous at-sea deterrence, and of course we want to do that in the most cost-effective way? He was referring to the proposals to replace Trident.
A ydych chi'n cytuno ag ysgrifennydd amddiffyn Llafur yr wrthblaid ar gyfer y DU, Mr Coaker, a ddywedodd, rwy'n credu, mai dyma'r arf ataliol annibynnol lleiaf sy'n gredadwy, yn seiliedig ar gadw arf ataliol yn y môr yn barhaus, ac wrth gwrs rydym am wneud hynny yn y modd mwyaf costeffeithiol? Roedd yn cyfeirio at yr argymhellion ar gyfer newid y system Trident.
Senedd.tv [Fideo Video](#)
- 17:12 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I'm glad you gave me his view. [Laughter.]
Rwy'n falch eich bod wedi rhoi ei farn i mi. [Chwerthin.]
Senedd.tv [Fideo Video](#)
- 17:12 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
It's a Labour Party view.
Dyna farn y Blaid Lafur.
Senedd.tv [Fideo Video](#)
- 17:12 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I am not responsible to him; I'm responsible to the constituents of Swansea East, who, I'm sure, feel the same way as I do.
Nid wyf yn atebol iddo; rwy'n atebol i etholwyr Dwyrain Abertawe, sy'n teimlo'r un fath â mi, rwy'n siŵr.
Senedd.tv [Fideo Video](#)

What we've got is an opportunity to spend tens of billions of pounds on buying something that we're not going to use, we're not going to threaten to use, and we'll send around at sea for a few years before we spend another hundred million pounds or so to replace it. It's not an argument for unilateral nuclear disarmament; it is one for not spending money on something that cannot be used and will not be used. It's an economic argument, not a moral argument, and I think that we really do need to ask what we want to spend our money on—weapons we can't use or spending and investing in the economy to benefit our country.

Yr hyn sydd gennym yw cyfle i wario degau o biliynau o bunnoedd ar brynu rhywbeth nad ydym yn mynd i'w ddefnyddio, nid ydym yn mynd i fygwth ei ddefnyddio a rhywbeth rydym yn mynd i'w anfon o gwmpas yn y môr am ychydig flynyddoedd cyn inni wario £100 miliwn arall neu fwy ar ei newid. Nid yw'n ddadl dros ddiarfogi niwclear unochrog; mae'n un dros beidio â gwario arian ar rywbeth na ellir ei ddefnyddio ac na chaiff ei ddefnyddio. Mae'n ddadl economaidd, nid dadl foesol, a chredaf fod angen inni ofyn ar beth rydym am wario ein harian mewn gwirionedd—arfau na allwn eu defnyddio neu wario a buddsoddi yn yr economi er budd ein gwlad.

17:12

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm just going to start with a military analogy. Those who question the Trident replacement really do put their head above the parapet. The debate around our nuclear defence has been structured by most Westminster parties and the defence establishment in such a way that it ignores need, ignores cost and ignores the changing world. Instead, anyone who thinks that those points are important are shouted down with claims of national security. This argument is frequently used by our generals to call out Governments. The inference is that if they don't get the spend they need for what they think is important—whether it really is or whether it's just a pet project—they can claim that the Government of the day has gone soft on our enemies, even when we aren't exactly sure who our enemies are, and whom we should be pointing these enormous weapons at.

You only have to look at the Ministry of Defence's books to see why the debate has been framed in this way. Billions and billions and billions of pounds of overspend is an abiding feature of defence procurement. So, my contribution today focuses on prudent and proper public spending, and why we are right to demand it before even considering a project of this scale.

Let's start with some figures. Nimrod—£3.4 billion spent on a replacement that was scrapped; two new aircraft carriers—cost almost doubled, rising by £2.8 billion over original cost estimates of £3.5 billion; a new armoured fighting vehicle—£1.1 billion spent and not one yet delivered. What is happening with the three astute class nuclear-powered submarines is instructive here. Ordered in 1995, the project required an additional £430 million pumped from the taxpayer in 2002, when seriously behind schedule. The reason given was a lack of computer-aided design skills. The initial cost estimate at approval was £4.4 billion. In 2012, costs had risen to £9.75 billion—by over 100 per cent. In addition, the first sub arrived with many design flaws, according to a leaked Ministry of Defence memo.

Rwyf am ddechrau gyda chyfatebiaeth filwrol. Mae'r rhai sy'n cwestiynu'r angen i newid y system Trident yn rhoi eu pen uwchben y parapet go iawn. Mae'r ddadl ynglŷn ag amddiffyn niwclear wedi cael ei strwythuro gan y rhan fwyaf o bleidiau San Steffan a'r sefydliad amddiffyn yn y fath fodd fel ei bod yn anwybyddu'r angen, yn anwybyddu'r gost ac yn anwybyddu'r byd sy'n newid. Yn lle hynny, caiff unrhyw un sy'n meddwl bod y pwyntiau hyn yn bwysig ei geryddu gyda honiadau ynghylch diogelwch cenedlaethol. Caiff y ddadl ei defnyddio'n aml gan ein cadfridogion i gymell Llywodraethau i ryfel. Os nad ydynt yn cael y gwariant sydd ei angen arnynt ar gyfer yr hyn y maent yn credu sy'n bwysig—pa un a yw'n bwysig mewn gwirionedd neu'n hoff brosiect yn unig—yr awgrym yw y gallant honni bod y Llywodraeth ar y pryd wedi meddalu tuag at ein gelynion, hyd yn oed pan na fyddwn yn berffaith sicr pwy yw ein gelynion a phwy y dylem fod yn pwyntio'r arfau enfawr hyn atynt.

Nid oes ond angen i chi edrych ar lyfrau'r Weinyddiaeth Amddiffyn i weld pam y mae'r ddadl wedi cael ei fframio fel hyn. Un nodwedd amlwg o gaffael ym maes amddiffyn yw'r biliynau a biliynau a biliynau o bunnoedd o orwariant. Felly, mae fy nghyfraniad heddiw yn canolbwyntio ar wariant cyhoeddus doeth a phriodol, a pham rydym yn iawn i alw amdano cyn inni hyd yn oed ystyried prosiect o'r maint hwn.

Gadewch inni ddechrau gyda rhai ffigurau. Nimrod—gwariwyd £3.4 biliwn ar ei newid cyn ei ddiddymu; dwy long awyrennau—y gost bron â dyblu, gan godi £2.8 biliwn yn uwch na'r amcangyfrifon gwreiddiol o £3.5 biliwn; cerbyd ymladd arfog newydd—£1.1 biliwn wedi'i wario ac nid oes un wedi'i gyflenwi hyd yma. Mae'r hyn sy'n digwydd gyda'r tair llong danfor dosbarth Astute wedi'u pweru ag ynni niwclear yn addysgiadol yma. Fe'u harchebwyd yn 1995, roedd y prosiect angen £430 miliwn ychwanegol wedi'i dalu gan y trethdalwr yn 2002, pan oedd y gwaith ar ei hôl hi'n ddifrifol. Y rheswm a roddwyd oedd diffyg sgiliau cynllunio gyda chymorth cyfrifiadu. Yr amcangyfrif o'r gost gychwynnol ar adeg cymeradwyo'r prosiect oedd £4.4 biliwn. Yn 2012, roedd y costau wedi codi i £9.75 biliwn—dros 100 y cant. Ar ben hynny, pan gyrhaeddodd y llong danfor gyntaf, roedd llawer o ddiffygion yn ei chynllun yn ôl memorandwm o'r Weinyddiaeth Amddiffyn a ddatgelwyd yn answyddogol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Then there is the Eurofighter Typhoon. The Soviet Union came to an end almost a quarter of a century ago, yet it was for the cold war that the Typhoon was first conceived. Delivery was delayed to 2003, with active duty beginning in 2007. According to the National Audit Office, costs rose from £7 billion to £20.2 billion, almost three times the initial estimate, despite the MOD purchasing 72 fewer aircraft.

As for the Trident replacement, let's start by getting away from this £20 billion price tag. It isn't going to cost £20 billion. That was the estimate in 2007. By 2013, it had risen to £35.8 billion. If it continues rising at the same rate, by 2025, the first time we could expect to see any replacement, it would be just short of £80 billion. However, Westminster's Public Accounts Committee reported in 2012 that the 15 largest defence projects were delayed by a total of 322 months—that's over 26 years. If the Trident replacement is delayed even by five years its costs could soar to £140 billion, and that will be on the conscience of the Liberal Democrats.

We live in a world of public spending austerity. In any circumstances, could anyone justify that kind of spending? Particularly when we have no-one to point these missiles at, because, as has been said previously, you can't fire them at ISIS—they're not intimidated by these things—and when the development, lead-in and delay times are so long that the geopolitical situation could have totally changed. You only need to look at the costs as they stand now. This is one of the most expensive, if not the most expensive, military projects ever undertaken by the UK. That also means, as we know, that things can go wrong, and that costs can rise more steeply when they go wrong. Even if you believe in a nuclear deterrent, and I don't, even if you think we still need cold-war style conventional weapons, and I don't, even if you think the threat for the foreseeable future will come from so-called rogue states, and I don't, you have to see that this kind of spend requires hard thinking before going ahead.

We cannot allow our defence establishments to undemocratically lead us into this huge project whether we need it or not. A white elephant is one thing; a £100 billion-plus white elephant is scarcely something our children will forgive us for.

Yna ceir yr Eurofighter Typhoon. Daeth yr Undeb Sofietaidd i ben bron i chwarter canrif yn ôl, eto i gyd dyfeisiwyd y Typhoon yn gyntaf ar gyfer y rhyfel oer. Ni chafodd ei gyflenwi tan 2003, a daeth yn weithredol ar ddechrau 2007. Yn ôl y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, cododd y costau o £7 biliwn i £20.2 biliwn, bron i dair gwaith yr amcangyfrif cychwynnol, er gwaethaf y ffaith fod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi prynu 72 yn llai o awyrennau.

O ran newid Trident, gadewch i ni ddechrau drwy symud oddi wrth y pris hwn o £20 biliwn. Nid yw'n mynd i gostio £20 biliwn. Dyna oedd yr amcangyfrif yn 2007. Erbyn 2013, roedd wedi codi i £35.8 biliwn. Os yw'n parhau i godi ar yr un gyfradd, erbyn 2025, yr adeg gyntaf y gallem ddisgwyl gweld unrhyw newid i'r system, byddai'n costio ychydig o dan £80 biliwn. Fodd bynnag, adroddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus San Steffan yn 2012 fod y 15 o brosiectau amddiffyn mwyaf wedi cael eu gohirio 322 o fisoedd i gyd—sef dros 26 mlynedd. Os yw'r broses o newid y system Trident yn cael ei gohirio am bum mlynedd hyd yn oed, gallai'r costau godi i £140 biliwn, a bydd hynny ar gydwylbod y Democratiaid Rhyddfrydol.

Rydym yn byw mewn byd o galedi o ran gwariant cyhoeddus. Mewn unrhyw amgylchiadau, a allai unrhyw un gyfiawnhau'r math hwn o wariant? Yn enwedig pan nad oes gennym neb i bwyntio'r taflegrau hyn atynt, oherwydd, fel y dywedwyd o'r blaen, ni allwch eu tanio at ISIS—ni chânt eu dychryn gan y pethau hyn—a phan fo'r amser datblygu, yr amser cyflwyno a'r amser oedi mor hir, gallai'r sefyllfa geowleidyddol newid yn llwyr. Nid oes ond angen i chi edrych ar y costau fel y maent ar hyn o bryd. Dyma un o'r prosiectau milwrol drutaf, os nad y drutaf a gyflannwyd erioed gan y DU. Mae hynny hefyd yn golygu, fel y gwyddom, y gall pethau fynd o chwith, a gall costau godi'n fwy serth pan fydd pethau'n mynd o chwith. Hyd yn oed os ydych yn credu mewn arfau niwclear ataliol, ac nid wyf fi, hyd yn oed os ydych yn meddwl ein bod yn dal i fod angen arfau confensiynol o'r math a fodolai adeg y rhyfel oer, ac nid wyf fi, hyd yn oed os ydych yn meddwl y bydd y bygythiad yn y dyfodol agos yn dod gan 'wladwriaethau drwg' fel y'u gelwir, ac nid wyf fi, rhaid i chi weld bod y math hwn o wariant yn gofyn am gryn dipyn o feddwl cyn bwrw ymlaen.

Ni allwn ganiatáu i'n sefydliadau amddiffyn ein harwain yn annemocrataidd i mewn i'r prosiect enfawr hwn pa un a oes ei angen arnom ai peidio. Mae eliffant gwyn yn un peth; prin fod eliffant gwyn gwerth £100 biliwn a mwy yn rhywbeth y bydd ein plant yn maddau i ni yn ei gylch.

17:18

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the opportunity to speak in this debate today, albeit, as has previously been mentioned, it's not a subject that we have competence over. That said, it shouldn't be something that should be off limits. There are very strong views held on both sides of the argument here, and I respect those views.

Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl hon heddiw, er nad yw'n bwnc y mae gennym gymhwysedd drosto, fel y crybwyllwyd eisoes. Wedi dweud hynny, ni ddylai fod yn rhywbeth na ddylem ei drafod. Mae yna farn gref iawn ar y ddwy ochr i'r dadl, ac rwy'n parchu'r safbwyntiau hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I certainly believe in the nuclear deterrent that we have, and my party believes in that. But I've listened to the arguments put, and I can understand why people believe those points very forcibly. As we've seen earlier on, in the 1980s and 1990s there was a very strong movement around the prevention of the siting of cruise missiles here in the United Kingdom when, obviously, the cold war was very much at its height. Again, they were very principled points that were put forward, but, ultimately, I believe that that strong position taken at that time defeated the Soviet Union and ultimately liberated many millions of people in eastern Europe. I've listened also to many of the points that have been put today about, 'Well, you're never going to use them'. Well, we take insurance policies out on our homes and we hope that they won't be burnt down. We take insurance policies out on our cars, and we hope that we're not going to run them into another car. I believe that a sensible, developed democracy that has played a leading role in world politics over the years, does ultimately have a responsibility to play a leading role in securing areas of the globe as well as our own security and defence. I think it is a sensible policy for a UK Government to invest in that security. There is a debate about the capacity, the size of the deterrent that we would want. There has been a downsizing of the current Trident fleet with warheads—yes, there are still four submarines, but they carry far fewer warheads today than when they were commissioned in the —[Interruption.] Yes, I'm happy to take an intervention.

Rwy'n sicr yn credu yn yr arfau niwclear ataliol sydd gennym ac mae fy mhlaid yn credu yn hynny. Ond rwyf wedi gwrandao ar y dadleuon a gyflwynwyd, a gallaf ddeall pam y mae pobl yn credu'n gadarn iawn yn y pwyntiau hynny. Fel y gwelsom yn gynharach, yn y 1980au a'r 1990au roedd mudiadau'n sefyll yn gadarn iawn yn erbyn lleoli taflegrau criws yma yn y Deyrnas Unedig pan oedd y rhyfel oer ar ei anterth, wrth gwrs. Unwaith eto, cyflwynwyd pwyntiau egwyddorol iawn, ond yn y pen draw, rwy'n credu bod y safiad cryf a gymerwyd ar y pryd wedi trechu'r Undeb Sofietaidd ac wedi rhyddhau miliynau lawer o bobl yn nwyrain Ewrop. Rwyf wedi gwrandao hefyd ar lawer o'r pwyntiau a wnaed heddiw am, 'Wel, nid ydych byth yn mynd i'w defnyddio.' Wel, rydym yn trefnu polisiau yswiriant ar ein cartrefi, ac rydym yn gobeithio na fyddant yn llosgi i'r llawr. Rydym yn trefnu polisiau yswiriant ar ein ceir, ac rydym yn gobeithio nad ydym yn mynd i yrru i mewn i gar arall. Credaf fod gan ddemocratiaeth synhwyrol ddatblygedig sydd wedi chwarae rhan flaenllaw yng ngwleidyddiaeth y byd dros y blynyddoedd gyfrifoldeb yn y pen draw i chwarae rhan flaenllaw yn diogelu rhannau o'r ddaear yn ogystal â'n diogelwch a'n hamddiffyniad ein hunain. Rwy'n credu mai polisi synhwyrol i Lywodraeth y DU yw buddsoddi yn y diogelwch hwnnw. Mae yna ddadl ynghylch y capasiti, maint yr arf ataliol y byddem yn dymuno ei gael. Cafodd maint y fflyd Trident bresennol ei lleihau o ran nifer arfbennau—oes, mae yna bedair llong danfor o hyd, ond maent yn cludo llawer llai o arfbennau heddiw na phan gawsant eu comisiynu yn y—[Torri ar draws.] Ydw, rwy'n hapus i dderbyn ymyriad.

17:19 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I just want to understand what you meant by sensible, because, as we've all outlined, the cost is astronomical, and what is it actually going to defend? I'd like to hear your views on that.

Rwyf ond eisiau deall yr hyn a olygwch drwy ddweud synhwyrol, oherwydd, fel rydym oll wedi'i amlinellu, mae'r gost yn eithriadol, a beth y mae'n mynd i'w amddiffyn mewn gwirionedd? Hoffwn glywed eich barn am hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:20 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You, obviously, have globalised the costs across the entire lifespan of the next deterrent that would be put in place. Take Ukraine, for example, which the opening Member from your side introduced in the debate and said that nuclear weapons were completely useless in Ukraine. If you know your history about Ukraine, in 1994, Ukraine gave up its nuclear weapons on the proviso and the treaty that the Russian Government signed to guarantee the security of Ukraine and never to interfere in the sovereignty of Ukraine and take back Crimea or the eastern part of Ukraine. Today, what are we seeing in that country? I would suggest to you that, if Ukraine had retained its nuclear weapons, then there could well not be the position that they find themselves in today.

Rydych chi, yn amlwg, wedi globaleiddio'r costau ar draws hyd oes gyfan yr arf ataliol nesaf a fyddai'n cael ei roi ar waith. Cymerwch Ukrain, er enghraifft, a gyflwynwyd gan yr Aelod a agorodd y ddadl o'ch ochr chi ac a ddywedodd fod arfau niwclear yn gwbl ddiwerth yn yr Ukrain. Os ydych yn gwybod eich hanes am Ukrain, yn 1994, ildiodd Ukrain ei harfau niwclear ar yr amod a'r cytuniad fod Llywodraeth Rwsia yn llofnodi i warantu diogelwch Ukrain a byth i ymyrryd yn sofraniaeth Ukrain drwy gymryd y Crimea neu'r rhan ddwyreiniol o Ukrain yn ôl. Heddiw, beth a welwn yn y wlad honno? Hoffwn awgrymu pe bai Ukrain wedi cadw ei harfau niwclear, yna gallai'n hawdd fod wedi osgoi'r sefyllfa y maent yn ei hwynebu heddiw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rhodri Glyn Thomas a gododd—

Rhodri Glyn Thomas rose—

17:20 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to enlarge the argument, if I may—if I do have time, because I'm three minutes through already.

Hoffwn ehangu'r ddadl, os caf—os oes gennyf amser, gan fy mod dair munud drwyddi'n barod.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

That is a debating point that has been put forward on many occasions around the conflict in the Ukraine at the moment.

Mae hwnnw'n bwynt dadl a gyflwynwyd ar sawl achlysur ynghylch y gwrthdaro yn yr Ukrain ar hyn o bryd.

It has also been made clear today in the debate that there are only two countries in NATO that have nuclear weapons. Ultimately, the treaty of NATO is that, if one member is attacked, then the other members come to assist that country. It is right and proper that the two leading members of NATO do have a nuclear deterrent. The United States of America is by far the larger partner in that relationship, but I wouldn't sleep easy at night if I thought that we had lost our capacity to defend our interests and support our European neighbours in the fight if they felt that they needed that assistance.

It is right, as the debate has outlined today, ultimately to show that there are all sorts of conflicts going on around the globe at different levels. None of us—none of us—would want to see nuclear weapons used. I, like everyone else, would welcome a nuclear-free world, but the fact of the matter is that the technology is out there—the genie is out of the bottle—and we do have a responsibility, as a permanent member of the United Nations, as a country that has a proud tradition of securing—[Interruption.] It's interesting to listen to the heckling; I listened with courtesy to the points that were put on that side of the argument. There is a clear majority in this country who support the retention of Trident and the development of its replacement. There is a general election, and people can cast their votes accordingly; if they wish not to have Trident, then they can take their pick of the democratic parties. I'll take the intervention.

17:22 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Andrew. In fact, you've actually answered your own statement on the Ukraine, because, as you said, the agreement was that allies would defend the Ukraine. America and the United Kingdom have nuclear weapons; it didn't deter Putin in any way.

Gwnaed yn glir heddiw hefyd yn y ddadl mai dwy wlad yn unig yn NATO sydd ag arfau niwclear. Yn y pen draw, cytuniad NATO yw hyn: os ymosodir ar un o'r aelodau, yna daw'r aelodau eraill i gynorthwyo'r wlad honno. Mae'n iawn ac yn briodol fod y ddau aelod blaenllaw o NATO yn meddu ar arfau niwclear ataliol. Unol Daleithiau America yw'r partner mwyaf yn y berthynas honno o bell ffordd, ond ni fyddwn yn cysgu'n hawdd yn y nos pe bawn yn meddwl ein bod wedi colli ein gallu i amddiffyn ein buddiannau a chefnogi ein cymdogion Ewropeaidd yn y frwydr pe baent yn teimlo eu bod angen cymorth o'r fath.

Fel y mae'r ddadl wedi'i amlinellu heddiw, mae'n iawn yn y pen draw i ddangos fod pob math o wrthdaro'n digwydd o gwmpas y byd ar wahanol lefelau. Nid oes yr un ohonom—neb ohonom—eisiau gweld arfau niwclear yn cael eu defnyddio. Rwyf fi, fel pawb arall, yn croesawu byd di-niwclear, ond y ffaith amdani yw bod y dechnoleg yn bodoli—mae'r 'genie' allan o'r botel—ac mae gennym gyfrifoldeb, fel aelod parhaol o'r Cenhedloedd Unedig, fel gwlad sydd â thraddodiad balch o ddiogelu—[Torri ar draws.] Mae'n ddiddorol gwrandao ar yr heclo; gwrandewais gyda chwarteisi ar y pwyntiau a roddwyd ar yr ochr honno i'r ddadl. Mae yna fwyafirif clir yn y wlad hon sy'n cefnogi cadw system Trident a datblygu system newydd yn ei lle. Mae yna etholiad cyffredinol, a gall pobl fwrw eu pleidlais yn unol â hynny; os nad ydynt yn dymuno cael Trident, yna gallant ddewis o blith y pleidiau democrataidd. Fe gymeraf yr ymyriad.

Diolch i chi, Andrew. Yn wir, rydych wedi ateb eich datganiad eich hun mewn gwirionedd ar Ukrain, oherwydd, fel y dywedoch, y cytundeb oedd y byddai'r cynghreiriaid yn amddiffyn yr Ukrain. Mae gan America a'r Deyrnas Unedig arfau niwclear; ni wnaeth hynny atal Putin mewn unrhyw ffordd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:22 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ultimately, the sovereignty of the Ukraine, I believe, would have been enhanced if it had retained its right to retain the nuclear weapons that were in its sphere. Russia reneged on that agreement. We can disagree over the point, and I am sure we will, Rhodri Glyn, because you have a very deeply held position and I have a deeply held position, but I think Britain is safer and more secure by the retention and the development of a new nuclear deterrent that, ultimately, will safeguard many countries' freedoms. We'll regret the day when we get rid of nuclear arms in this country, unless there is global unilateral disarmament.

Yn y pen draw, byddai sofraniaeth Ukrain yn well, yn fy marn i, pe bai wedi cadw ei hawl i gadw'r arfau niwclear a oedd ganddi ar ei thir. Torrodd Rwsia ei gair ar y cytundeb hwnnw. Gallwn anghytuno dros y pwynt, ac rwy'n sicr y gwnawn, Rhodri Glyn, oherwydd mae gennych safbwynt rydych yn ei arddel gydag argyhoeddiad dwfn iawn ac mae gen i safbwynt rwy'n ei arddel gydag argyhoeddiad dwfn, ond rwy'n meddwl bod Prydain yn fwy diogel yn cadw a datblygu arfau niwclear ataliol newydd a fydd, yn y pen draw, yn diogelu rhyddid llawer o wledydd. Byddwn yn edifar os cawn wared ar arfau niwclear yn y wlad hon, oni bai ein bod yn gweld diarfogi unochrog byd-eang.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:23 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is important, as national representatives, to state our position on this major policy issue, regardless of our lack of ability to make the final decision. I'm very proud to say I don't believe in nuclear weapons, and I'm going to focus my small contribution on why the strategic reasons that are always wheeled out for why we need Trident are wrong.

Mae'n bwysig, fel cynrychiolwyr cenedlaethol, ein bod yn datgan ein safbwynt ar y mater polisi mawr hwn, er ein diffyg gallu i wneud y penderfyniad terfynol. Rwy'n falch iawn o ddweud nad wyf yn credu mewn arfau niwclear, ac rwy'n mynd i ganolbwyntio fy nghyfraniad bach ar pam y mae'r rhesymau strategol sydd bob amser yn cael eu llusgo allan ynglŷn â pham rydym angen Trident yn anghywir.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Of the current threats that we face, nuclear weapons do not make any difference to their outcome. We've heard from a number of speakers that ISIS is not threatened by nuclear weapons and small terror networks are not threatened by nuclear weapons—that much is obvious after the past 15 years. What if we get rid of Trident and a country builds, or tries to build, bombs? Iran is a case in point, as is North Korea. Neither of these countries, despite boasts over many years, has managed to get to that stage before international intervention. If a rogue state did manage to build bombs and actually launch one or two, it would mean that the rulers were, probably, on a suicide mission anyway, and this country, or any other country, having nuclear weapons, would not be a deterrent to people determined to cause destruction.

Let's not forget Iraq. We were told at the time, in 2003, that Iraq could launch weapons of mass destruction—although not nuclear, still deadly powerful weapons—in 45 minutes. Why, then, given the apparent danger to our conventional forces or our country in just 45 minutes did we not launch a tactical nuclear strike on Iraq? Because it would have been inconceivable madness to do so. The argument of deterrence no longer washes. Even if a major non-nuclear war broke out between any of the major powers, then the economic consequences alone would be so catastrophic, mutually assured economic destruction would be guaranteed without anybody firing a shot. The odds of a major global war are steep, not because all sides possess nuclear weapons, but because that scenario would completely destroy the world economy. We live in a world where even major conventional war is vanishing, let alone a nuclear exchange.

Why didn't NATO—why didn't NATO—come to the aid of the Ukraine last year? Because the world isn't going to engage in any kind of war over a small peninsula in 2015. The world has moved on. We should remember Truman and MacArthur during the Korean war, when MacArthur, the national war hero, called for tactical nuclear strikes against China and North Korea at a time when the US still had an essential monopoly on the weapons, since the Soviet arsenal was practically inferior. MacArthur was sacked. The man who ordered their one and only use, against Japan, judged that a repeat use of nuclear weapons was complete madness even then. So, we in the Party of Wales do not see any strategic value in nuclear weapons. It's 2015; the world has moved on since these weapons even had a semi-plausible argument in their favour.

The only point left to make in their favour, and it's a very flawed argument, is that Trident allows the United Kingdom to keep eating at the top table of world affairs, despite its being a second-rate power in the world. That's something that Trident is not going to help with. The UK is a second-rate power now; other countries have eclipsed us.

O'r bygythiadau cyfredol sy'n ein hwynebu, nid yw arfau niwclear yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'w canlyniad. Rydym wedi clywed gan nifer o siaradwyr nad yw ISIS yn cael eu bygwth gan arfau niwclear ac nid yw rhwydweithiau terfysgol bach yn cael eu bygwth gan arfau niwclear—mae hynny'n amlwg ar ôl y 15 mlynedd diwethaf. Beth os cawn wared ar Trident a bod gwlad yn cynhyrchu, neu'n ceisio cynhyrchu, bomiau? Mae Iran yn enghraifft o hyn, fel y mae Gogledd Corea. Nid oes yr un o'r gwledydd hyn, er gwaethaf eu hymffrost dros nifer o flynyddoedd, wedi llwyddo i gyrraedd y cam hwnnw cyn y ceir ymyrraeth ryngwladol. Pe bai 'gwladwriaeth ddrwg' yn llwyddo i greu bomiau ac mewn gwirionedd yn lansio bom neu ddau, byddai'n golygu bod y sawl sy'n ei llywodraethu, yn ôl pob tebyg, ar gyrch hunanleiddiol beth bynnag, ac ni fyddai'r ffaith fod arfau niwclear gan y wlad hon, neu unrhyw wlad arall, yn atal pobl benderfynol rhag achosi dinistr.

Gadewch i ni beidio ag anghofio Irac. Dywedwyd wrthym ar y pryd, yn 2003, y gallai Irac lansio arfau dinistr torfol—er nad oeddent yn rhai niwclear, roeddent yn arfau anghueuol pwerus yr un fath—mewn 45 munud. Pam, felly, o ystyried y perygl amlwg i'n lluoedd confensiynol neu'n gwlad mewn cyn lleied â 45 munud nad aethom ati i lansio arfau niwclear tactegol ar Irac? Oherwydd y byddai wedi bod yn wallgofrwydd annirnadwy i wneud hynny. Nid yw dadl arfau ataliol yn dal dŵr mwyach. Hyd yn oed pe bai rhyfel ddi-niwclear yn cychwyn rhwng unrhyw rai o'r prif bwerau, yna byddai'r canlyniadau economaidd yn unig mor drychinebus fel y byddai dinistr economaidd pendant i'r ddwy ochr heb i neb danio ergyd. Mae rhyfel fawr fyd-eang yn annhebygol, nid am fod pob ochr yn meddu ar arfau niwclear, ond oherwydd y byddai senario o'r fath yn dinistrio economi'r byd yn gyfan gwbl. Rydym yn byw mewn byd lle y mae hyd yn oed rhyfeloedd confensiynol mawr yn diflannu, heb sôn am ryfel niwclear.

Pam na wnaeth NATO—pam nad aeth NATO—i gynorthwyo Ukrain y llynedd? Am nad yw'r byd yn mynd i gymryd rhan mewn unrhyw fath o ryfel dros benrhyn bach yn 2015. Mae'r byd wedi symud ymlaen. Dylem gofio Truman a MacArthur yn ystod rhyfel Corea, pan alwodd MacArthur, yr arwr rhyfel cenedlaethol, am ymosodiadau niwclear tactegol yn erbyn Tsieina a Gogledd Corea ar adeg pan oedd gan yr Unol Daleithiau fonopoli hanfodol o hyd ar yr arfau, gan fod arfau'r Undeb Sofietaidd yn israddol yn ymarferol. Cafodd MacArthur ei ddiswyddo. Barnodd y dyn a orchynnodd eu defnydd yr unig dro y cawsant eu defnyddio, yn erbyn Japan, y byddai ailadrodd y defnydd o arfau niwclear yn wallgofrwydd llwyr bryd hynny hyd yn oed. Felly, nid ydym ym Mhlaid Cymru yn gweld unrhyw werth strategol mewn arfau niwclear. Mae'n 2015; mae'r byd wedi symud ymlaen ers y gellid cyflwyno dadl led gredadwy hyd yn oed o blaid yr arfau hyn.

Yr unig bwynt sydd ar ôl i'w wneud o'u plaid, ac mae'n ddadl ddiffygiol iawn, yw bod Trident yn caniatáu i'r Deyrnas Unedig barhau i fwyta wrth y prif fwrdd ar y llwyfan byd-eang, er ei bod yn bŵer eilradd yn y byd. Mae hynny'n rhywbeth nad yw Trident yn mynd i helpu i'w gyflawni. Mae'r DU yn bŵer eilradd bellach; mae gwledydd eraill wedi ein bwrw i'r cysgod.

17:27

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm really grateful to you for taking the intervention. We spend the most on defence in the European Union, we have the fourth largest economy in the world, and you are saying the United Kingdom is a second-rate country. What on earth would the country that you would choose to develop look like?

Diolch i chi am dderbyn yr ymyriad. Ni yw'r wlad sy'n gwario fwyaf ar amddiffyn yn yr Undeb Ewropeaidd, gennym ni y mae'r economi fwyaf ond tair yn y byd, ac rydych yn dweud bod y Deyrnas Unedig yn wlad eilradd. Sut ar y ddaear y byddai'r wlad y byddech chi'n dewis ei datblygu'n edrych?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:27

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You didn't listen to what I said. It's a second-rate power now and other countries have eclipsed us in their global power, and more will do so as time goes on—as happened at the end of the second world war, when Britain had to accept the loss of its empire. The sooner we accept and involve ourselves in the multi-polar world we live in, in a spirit of co-operation and mutual respect, the better. Getting rid of Trident would be an excellent first step. Bring Trident to Wales at your peril—any Government; any Government. Bring it to Wales at your peril.

Ni wrandawoch ar yr hyn a ddywedais. Mae'n bŵer eilradd yn awr ac mae gwledydd eraill wedi ein bwrw i'r cysgod o ran eu grym byd-eang, a bydd rhagor ohonynt yn gwneud hynny wrth i amser fynd heibio—fel a ddigwyddodd ar ddiwedd yr ail ryfel byd, pan fu'n rhaid i Brydain dderbyn ei bod wedi colli ei hymerodraeth. Gorau po gyntaf y gallwn dderbyn a chynnwys ein hunain yn y byd amlbegynol rydym yn byw ynddo, mewn ysbryd o gydweithrediad a pharch at ein gilydd. Byddai cael gwared ar Trident yn gam cyntaf gwych. Gwae chi os dowch â Trident i Gymru— unrhyw Lywodraeth; unrhyw Lywodraeth. Gwae chi os dowch ag ef i Gymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:28

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, thanks for bringing this debate before us today. Of course, there are no proposals to relocate the UK's nuclear deterrent to Wales, so this motion is, in the first instance, deeply misleading. In the event of the deterrent being moved from Faslane, I think it's difficult to envisage it not going to Devonport, where the facilities for servicing the Royal Navy submarine fleet are already in place. It is true, as other speakers have said, that Milford Haven was on that list as a potential base for the Polaris fleet back in the 1960s, but was categorically ruled out by the Polaris report of 1963 on the basis of the oil and gas industry being there and the economic importance of the haven for shipping.

Wel, diolch am ddod â'r ddaol hon ger ein bron heddiw. Wrth gwrs, nid oes unrhyw gynigion i adleoli arfau niwclear ataliol y DU yng Nghymru felly yn y lle cyntaf, mae'r cynnig hwn yn hynod o gamarweiniol. Os caiff yr arf ataliol ei symud o Faslane, rwy'n credu ei bod yn anodd rhagweld na fydd yn mynd i Devonport, lle y mae'r cyfleusterau ar gyfer gwasanaethu fflyd longau tanfor y Llynges Frenhinol eisoes yn eu lle. Mae'n wir, fel y mae siaradwyr eraill wedi'i ddweud, fod Aberdaugleddau ar y rhestr honno fel canolfan bosibl ar gyfer fflyd Polaris yn ôl yn y 1960au, ond cafodd y dref ei diystyru'n bendant gan adroddiad Polaris yn 1963 ar y sail fod y diwydiant olew a nwy yno a phwysigrwydd economaidd yr harbwr ar gyfer llongau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have to say, I do support point 4 of the motion, supporting international disarmament efforts, and I think, as Andrew R.T. Davies said, that the concerns on that side of the Chamber over nuclear weapons are understandable. However, I think that multilateral disarmament has been the best way to proceed, and remains the best way to proceed. I think that to unilaterally not renew, to give up the nuclear deterrent at this point, would send out completely the wrong signal to rogue states, to other countries, and, indeed, to terrorist groups. In an ideal world, there would be no nuclear weapons, but you cannot uninvent a technology that exists, no matter how much you may like to do so.

Rhaid i mi ddweud, rwy'n cefnogi pwynt 4 y cynnig, sy'n cefnogi ymdrechion diarfogi rhyngwladol, ac fel y dywedodd Andrew R.T. Davies, rwy'n meddwl bod y pryderon ar yr ochr honno i'r Siambr ynghylch arfau niwclear yn ddealladwy. Fodd bynnag, credaf mai diarfogi amlochrog yw'r ffordd orau wedi bod ar gyfer symud ymlaen, ac mae'n parhau i fod y ffordd orau i symud ymlaen. Credaf fod penderfyniad unochrog i beidio ag adnewyddu, i roi'r gorau i arfau niwclear ataliol ar y pwynt hwn yn cyfleu'r neges gwbl anghywir i 'wladwriaethau drwg', i wledydd eraill, ac yn wir, i grwpiau terfysgol. Mewn byd delfrydol, ni fyddai unrhyw arfau niwclear, ond ni allwch ddad-ddyfeisio'r dechnoleg sy'n bodoli, waeth faint yr hoffech wneud hynny o bosibl.

I don't have a problem with the delay in replacing Trident—due, as the amendment says, to the insistence of the Liberal Democrats, but we'll leave out whose insistence it was due to. I think it's clear that we are talking about a considerably sum of money at a time when budgets are tight.

Nid oes gennyf unrhyw broblem â'r oedi o ran newid Trident—sy'n deillio, fel y mae'r gwelliant yn ei ddweud, o'r ffaith fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi mynnu hynny, ond gadawn y cwestiwn ynglŷn â phwy sy'n mynnu allan o hyn. Rwy'n credu ei bod yn glir ein bod yn sôn am gryn dipyn o arian ar adeg pan fo cyllidebau'n dynn.

It's also true that the UK Government needs to think carefully about the nature of the threat and the ability to respond, or to be perceived to be responding. How does the Welsh Government intend to respond to this motion? I have to say, I was absolutely astounded, as I know some other Members of the Chamber were, by Lindsay Whittle's comments in the last contribution. I fully understood the desire of Plaid Cymru to build up Wales—obviously, it's within your party's ethos to want Wales to have further powers—but I cannot understand how you would try to do that by doing down the United Kingdom, of which Wales is a part. Because, by doing that—by doing the United Kingdom down—then you're also doing Wales down as well. So, I think you've fundamentally misunderstood that.

Mae'n wir hefyd fod angen i Lywodraeth y DU feddwl yn ofalus am natur y bygythiad a'r gallu i ymateb, neu i gael ei gweld yn ymateb. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i'r cynnig hwn? Mae'n rhaid i mi ddweud, roeddwn wedi fy syfrdanu, fel rhai o Aelodau eraill y Siambwr, rwy'n gwybod, gan sylwadau Lindsay Whittle yn y cyfraniad diwethaf. Rwy'n llwyr ddeall awydd Plaid Cymru i ganu clogydd Cymru—yn amlwg, mae'n rhan o ethos eich plaid i fod eisiau i Gymru gael rhagor o bwerau—ond ni allaf ddeall sut y byddech yn ceisio gwneud hynny drwy iselhau'r Deyrnas Unedig y mae Cymru'n rhan ohoni. Oherwydd, drwy wneud hynny—drwy iselhau'r Deyrnas Unedig—rydych yn iselhau Cymru hefyd. Felly, rwy'n meddwl eich bod wedi camddeall hynny'n sylfaenol.

17:30 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:30 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I will take an intervention.

Gwnaf, fe gymeraf ymyriad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:30 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Just because we have a different view on where we want to take the arms industry doesn't mean that we're speaking Wales down. We want to have a Wales that is successful economically for different types of businesses, not for the arms trade. I think Lindsay Whittle's point was the fact that the UK is not at the top level of the power structures that exist anymore; he's not trying to talk down the UK in any way, shape or form.

Nid yw'r ffaith fod gennym farn wahanol ar lle rydym am fynd â'r diwydiant arfau yn golygu ein bod yn iselhau Cymru. Rydym yn awyddus i gael Cymru sy'n llwyddiannus yn economaidd ar gyfer gwahanol fathau o fusnesau, nid ar gyfer y fasnach arfau. Rwy'n credu mai pwynt Lindsay Whittle oedd y ffaith nad yw'r DU ar y lefel uchaf o'r strwythurau pŵer sy'n bodoli mwyach; nid yw'n ceisio iselhau'r DU mewn unrhyw ffordd o fath yn y byd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:31 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, to be fair to you, Bethan, I've never heard you talk down the UK in that way, and I'm sure that Lindsay Whittle is grateful for your explanation there. But I certainly heard the term 'second-rate country'—

Wel, i fod yn deg â chi, Bethan, nid wyf erioed wedi'ch clywed chi'n iselhau'r DU yn y ffordd honno, ac rwy'n siŵr bod Lindsay Whittle yn ddiolchgar am eich eglurhad. Ond rwy'n sicr i mi glywed y term 'gwlad eilradd'—

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:31 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, no. He didn't say that.

Na, na. Ni ddywedodd hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:31 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

'Second-rate power'; okay, you be semantic about it. Second-rate power is the same thing. You're trying to play with words but, actually, 'second-rate power' is talking about the United Kingdom. So, you cannot do down the UK as a power in the world and at the same time try to pretend that you're going to big Wales up; it just doesn't make any sense.

'Pŵer eilradd'; iawn, byddwch yn semantig am y peth. Mae pŵer eilradd yr un peth. Rydych yn ceisio chwarae â geiriau, ond mewn gwirionedd, mae 'pŵer eilradd' yn cyfeirio at y Deyrnas Unedig. Felly, ni allwch iselhau'r DU fel pŵer yn y byd a cheisio esgus ar yr un pryd eich bod yn mynd i hybu Cymru; nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

We are clearly in a different world to the 1980s and the 1970s, as Mike Hedges said. The policy of mutually assured destruction may have raised some eyebrows then, but I certainly think that it did create a certain stability during the cold war, albeit a different situation. Today's situation is different in that many threats do now come from terrorism or rogue states—that is true—and these are less likely to be swayed by mutually assured destruction arguments. However, there are still the larger players out there too. Russia possesses around 8,500 nuclear warheads. Of that, between 1,000 and 2,000 are active.

I mentioned earlier in an intervention that the UK seat on the UN Security Council as a permanent member does, of course, stem from the situation at the end of the second world war. All those other countries that are permanent members of that council are also nuclear powers, so before you proceed with giving up unilaterally an aspect of a cornerstone of Britain's defence policy, think very, very carefully about what those consequences would be. I don't think this debate really does recognise that, in moving towards the sort of world that you would like to have, and we would all like to have, you will actually end up giving away something that the UK will never be able to get back and will lead to this country truly being worse off.

Rydym yn amlwg mewn byd gwahanol i'r 1980au a'r 1970au, fel y dywedodd Mike Hedges. Efallai y bydd y polisi o ddinistr sicr i'r ddwy ochr wedi codi rhai aelïau bryd hynny, ond rwy'n sicr yn meddwl ei fod wedi creu rhywfaint o sefydlogrwydd yn ystod y rhyfel oer, er bod y sefyllfa'n wahanol. Mae sefyllfa heddiw'n wahanol am fod llawer o fgythiadau erbyn hyn yn dod o derfysgaeth neu 'wladwriaethau drwg'—mae hynny'n wir—ac mae'r rhain yn llai tebygol o gael eu dylanwadu gan ddadleuon ynghylch dinistr sicr i'r ddwy ochr. Fodd bynnag, mae chwaraewyr mwy o faint byth yn dal i fod allan yno hefyd. Mae Rwsia yn meddu ar tua 8,500 o arfbennau niwclear. O hynny, mae rhwng 1,000 a 2,000 yn weithredol.

Soniais mewn ymyriad yn gynharach fod aelodaeth y DU o Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig fel aelod parhaol yn deillio, wrth gwrs, o'r sefyllfa ar ddiwedd yr ail ryfel byd. Mae pob un o'r gwledydd eraill sy'n aelodau parhaol o'r cyngor hwnnw yn bwerau niwclear hefyd, felly cyn i chi fynd ymlaen i roi'r gorau'n unochrog i agwedd ar un o gonglfeini polisi amddiffyn Prydain, meddylwch yn ofalus iawn iawn am yr hyn fyddai canlyniadau hynny. Wrth symud tuag at y math o fyd yr hoffech ei weld ac y byddem i gyd yn ei hoffi, nid wyf yn credu bod y ddadl hon yn cydnabod mewn gwirionedd y byddwch yn y pen draw yn cael gwared ar rywbeth na fydd y DU byth yn gallu ei gael yn ôl ac a fyddai'n golygu y byddai'r wlad hon ar ei cholled go iawn.

17:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Prif Weinidog.

I call on the First Minister.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Can I thank Members for their contributions to what is a passionate debate, for which there are many views, not least of all within my own party, where there are differing views in terms of how to look to rid the world of these terrible weapons?

Members will not be surprised to hear that, as a Welsh Government, we don't have a policy on this. It's not a devolved area—it's a matter, of course, for the UK Government. So, today, I'm not technically speaking on behalf of the Welsh Government and my contribution will be brief.

Members here will know that we as a party are, of course, committed to a world free of nuclear weapons, and previous Labour Governments have delivered good progress in achieving this goal by pursuing a policy of multilateral disarmament and non-proliferation. And that has to be the aim in the future. It is absolutely right to say that the nature of the global threat has changed massively in the past 50 years. The threat of terrorism has increased; that much is absolutely true. But there are many of us who look at events in the Ukraine and worry that the world may be entering an era of a new cold war. I desperately hope not, but, nevertheless, there are many aspects of what has happened in the Ukraine that give rise to that fear. The last thing the world needs is to see many different centres of conflict where there is great danger, particularly to civilians.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau i ddadl angerddol, lle y ceir llawer o safbwyntiau, nid yn lleiaf yn fy mhlaid fy hun, lle y ceir safbwyntiau gwahanol o ran sut i ystyried cael gwared ar yr arfau ofnadwy hyn o'r byd?

Ni fydd yr Aelodau'n synnu clywed, fel Llywodraeth Cymru, nad oes gennym bolisi ar hyn. Nid yw'n faes datganoledig—mae'n fater, wrth gwrs, i Lywodraeth y DU. Felly, heddiw, nid wyf yn mynd i siarad yn dechnegol ar ran Llywodraeth Cymru a bydd fy nghyfraniad yn gryno.

Bydd yr Aelodau yma yn gwybod ein bod fel plaid, wrth gwrs, wedi ymrwymo i fyd heb arfau niwclear, ac mae Llywodraethau Llafur blaenorol wedi cyflawni cynnydd da tuag at gyflawni'r nod hwn drwy ddilyn polisi o ddiaflogi amlochrog ac atal amlhau arfau. Ac mae'n rhaid i hynny fod yn nod yn y dyfodol. Mae'n hollol iawn i ddweud bod natur y bygythiad byd-eang wedi newid yn aruthrol yn ystod y 50 mlynedd diwethaf. Mae bygythiad terfysgaeth wedi cynyddu; mae hynny'n hollol wir. Ond mae llawer ohonom yn edrych ar ddigwyddiadau yn yr Ukraine ac yn poeni y gall y byd fod yn cychwyn ar gyfnod newydd o ryfel oer. Rwy'n taer obeithio nad yw hynny'n wir, ond mae llawer o agweddau ar yr hyn a ddigwyddodd yn yr Ukraine yn esgor ar yr ofn hwnnw. Y peth olaf sydd ei angen ar y byd yw gweld llawer o wahanol ganolbwyntiau o wrthdaro lle y ceir perylg mawr, yn enwedig i sifiliaid.

So, in a global context, the position of maintaining what my party has described as a 'minimum credible independent nuclear deterrent' is right, but it's absolutely right to say that there needs to be more progress on international multilateral agreements. What I can say is that my party in Westminster has committed to a serious debate around the issue of the UK's nuclear weapons, and, indeed, the UK's defence requirements during the period up to the next strategic defence and security review, which will examine all capabilities, including nuclear. There must be a debate. Points have been made in this Chamber about affordability and morality, and other points have been made in terms of deterrents. These are all points that need to be looked at very carefully and fully as part of the debate leading up to that. It was the Labour MPs Vernon Coaker and Douglas Alexander who wrote to the Prime Minister last year to ensure that the UK was represented at the Vienna Conference on the Humanitarian Impact of Nuclear Weapons, in December of last year.

And, two more points, Dirprwy Lywydd, from me: our party has committed, in the next UK Parliament, to take a leading role, internationally, to push the agenda of anti-proliferation. A Labour-led Government would work with the US and France to advance what has been called 'Global Zero', an action plan for the elimination of nuclear weapons. We live, unfortunately, in a world where the number of nuclear weapons can be measured in the upper teens of thousands, and the true way to make the world a safer place is to, at the very least, reduce the number of operational weapons, ensure that there's no further proliferation of those weapons, and at least begin the task of moving towards a world where nuclear weapons are detested by all.

Felly, mewn cyd-destun byd-eang, mae'r safbwynt y dylid cynnal yr hyn y mae fy mhlaid wedi ei ddisgrifio fel 'yr arf niwclear ataliol annibynnol lleiaf sy'n gredadwy' yn iawn, ond mae'n hollol gywir i ddweud bod angen mwy o gynnydd ar gytundebau amlochrog rhyngwladol. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw bod fy mhlaid yn San Steffan wedi ymrwymo i ddadl ddirifol ynghylch arfau niwclear y DU, ac yn wir, i ofynion amddiffyn y DU yn ystod y cyfnod hyd at yr adolygiad nesaf o drefniadau amddiffyn a diogelwch strategol a fydd yn archwilio'r holl alluoedd, gan gynnwys gallu niwclear. Rhaid cael dadl. Gwnaed pwyntiau yn y Siambr hon ynghylch fforddiadwyedd a moesoldeb, a gwnaed pwyntiau eraill ar arfau ataliol. Mae'r rhain i gyd yn bwyntiau sydd angen eu hystyried yn ofalus iawn ac yn drylwyr fel rhan o'r ddadl sy'n arwain at hynny. Yr ASau Llafur Vernon Coaker a Douglas Alexander a ysgrifennodd at y Prif Weinidog y llynedd i sicrhau bod y DU yn cael ei chynrychioli yng Nghynhadledd Fienna ar Effaith Dyngarol Arfau Niwclear, ym mis Rhagfyr y llynedd.

Ac mae gennyf ddau bwynt arall, Ddirprwy Lywydd: mae ein plaid wedi ymrwymo yn Senedd nesaf y Deyrnas Unedig i gymryd rhan flaenllaw'n rhyngwladol i wthio'r agenda yn erbyn amlhau arfau. Byddai Llywodraeth dan arweiniad Llafur yn gweithio gyda'r Unol Daleithiau a Ffrainc i hyrwyddo'r hyn a elwir yn 'Global Zero', cynllun gweithredu ar gyfer dileu arfau niwclear. Yn anffodus, rydym yn byw mewn byd lle y ceir dros bymtheg mil o arfau niwclear, a'r ffordd gywir o wneud y byd yn lle mwy diogel yw cyfyngu ar nifer yr arfau gweithredol, sicrhau na cheir amlhau arfau pellach, a dechrau o leiaf ar y dasg o symud tuag at byd lle y bydd arfau niwclear yn cael eu casáu gan bawb.

17:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i ymateb i'r ddadl.

I call on Rhodri Glyn Thomas to reply to the debate.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:36 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. A gaf i ymateb i gyfraniad y Prif Weinidog a chroesawu llawer iawn o'r pethau a ddywedodd e? Mae'n edrych ar y sefyllfa yma o safbwynt gwahanol, ac yn credu mai ceisio diarfogi ydy'r ffordd ymlaen, wrth i wledydd gytuno i wneud hynny ar y cyd. Mae hynny yn gam ymlaen o'r datganiad a wnaeth e yn croesawu y diwydiant niwclear i Gymru, ac mae'n ddrwg gen i nad yw e wedi dewis gwneud datganiad clir am hynny y prynhawn yma.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. May I respond to the First Minister's contribution and welcome much of what he said? He is looking at this situation from a different perspective and believes that disarmament is the way forward, as countries agree to do that jointly. That is a step forward from the statement he made in welcoming the nuclear industry to Wales, but I do regret the fact that he hasn't chosen to make a clear statement on that issue this afternoon.

A gaf i gyfeirio'n fyr at y cyfraniadau at y ddadl?

May I refer briefly to the contributions to the debate?

I'd like to thank Peter Black for explaining the Liberal Democrat position to us. I think we were still in the realms of fiction after James Bond. The Liberal Democrats are clearly against nuclear weapons, but they want to build new ones but they're not sure what kind of nuclear weapons they want to build, nor are they sure how much it will cost, but they're certain it will be less than renewing Trident.

Hoffwn ddiolch i Peter Black am esbonio sefyllfa'r Democratiaid Rhyddfrydol i ni. Rwy'n credu ein bod yn dal ym myd ffuglen ar ôl James Bond. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn amlwg yn erbyn arfau niwclear, ond maent yn awyddus i gynhyrchu rhai newydd. Nid ydynt yn siŵr pa fath o arfau niwclear y maent am eu cynhyrchu, ac nid ydynt yn siŵr faint fydd y gost, ond maent yn sicr y bydd yn llai na'r gost o adnewyddu Trident.

Roedd Alun Ffred Jones yn sôn am y sefyllfa gyda swyddi, ac mae hwn yn bwnc eithriadol o bwysig, oherwydd mae'r ddadl yma wedi cael ei defnyddio o ran ceisio cyfiawnhau y diwydiant o ran arfau niwclear. Wrth gwrs, petai yr arian yma yn cael ei ailfuddsoddi mewn gwasanaethau, byddai hynny yn creu swyddi. Byddai £165 miliwn yn flynyddol yn gallu cael ei fuddsoddi i gynnig gwasanaethau, a'r rheini yn eu tro yn cynnig swyddi.

I'd like to thank Mike Hedges for his history lesson—we get a few of these from Mike, normally to do with Swansea. This time, he chose the Ukraine rather than Swansea, and, actually, Mike is right about the Ukraine, while Andrew R.T. Davies is wrong. The Ukraine gave up their nuclear weapons because they couldn't afford them and they thought they could depend on their allies, with their nuclear capability, to deter Russia, and, therefore, were quite happy to accept the guarantees from Russia. That didn't happen. Their allies failed to deter Putin. That's the history lesson from the Ukraine. I thank Mike for his contribution. I have to tell you, Mike, the consistent route now, having made that speech, is to vote for the Plaid Cymru motion. I'm not sure whether your whip will agree with you, but that's the consistent thing to do, when you consider what you said in your speech.

A gaf i ddiolch hefyd i Bethan Jenkins am ei chyfraniad yn pwysleisio'r ffaith bod y symiau yma o arian rŷm ni'n sôn amdany'n nhw, er eu bod nhw'n symiau enfawr o arian, yn mynd i gynyddu. Dyna yw yr hyn rŷm ni wedi'i ddysgu o'r gorffennol. Os nad ydym ni'n troi ein cefn ar y diwydiant yma o arfau niwclear, rŷm ni'n mynd i fod yn buddsoddi mwy a mwy yn yr arfau dinistriol yma. Fel wnaeth Lindsay Whittle ein rhybuddio ni wrth gyfeirio at Irac, nid yn unig nad ydyn nhw o unrhyw werth, ond maent ynddynt eu hunain yn creu bygythiad. Mae'r ffaith fod gennych chi arfau niwclear yn eich gwneud chi'n darged, oherwydd mae bodolaeth arfau niwclear yn fygythiad ynddyn nhw eu hunain.

Andrew R.T. Davies seemed to think that nuclear weapons were some sort of insurance policy. I have to tell you, Andrew, that if they're an insurance policy, the penalty clause is a rather heavy one, because if you use them, you don't only destroy the enemy, you destroy the human race completely. Nick Ramsay made some sound points, but he seemed to be trying to persuade us that the way to disarm is to increase capability. I can't quite understand that one, Nick. If you want to renew Trident, how does that contribute towards multilateral disarmament? Surely, the first step in multilateral disarmament should be for the UK to take a stand and not renew Trident and to offer that in terms of negotiation with other countries.

Alun Ffred Jones mentioned the position in relation to jobs, and that's an extremely important issue, because that argument has been made in trying to justify the nuclear arms industry. Of course, if this money were to be reinvested in services, that would create jobs. A total of £165 million annually could be invested in order to provide services that would, in turn, provide jobs.

Hoffwn ddiolch i Mike Hedges am ei wers hanes—rydym yn cael rhai o'r rhain gan Mike, fel arfer yn ymwneud ag Abertawe. Y tro hwn, dewisodd yr Ukrain yn hytrach nag Abertawe, ac mewn gwirionedd, mae Mike yn iawn am yr Ukrain, ac mae Andrew R.T. Davies yn anghywir. Rhoddodd yr Ukrain y gorau i'w harfau niwclear am na allent eu fforddio ac roeddent yn meddwl y gallent ddibynnu ar eu cynghreiriaid, gyda'u gallu niwclear, i atal Rwsia, ac felly, roeddent yn ddigon hapus i dderbyn y sicrwydd a gawsant gan Rwsia. Ni ddigwyddodd hynny. Methodd eu cynghreiriaid ag atal Putin. Dyna'r wers hanes o Ukrain. Diolch i Mike am ei gyfraniad. Mae'n rhaid i mi ddweud wrthy'ch, Mike, mai'r llwybr cyson yn awr, ar ôl gwneud yr araith honno, yw pleidleisio dros gynnig Plaid Cymru. Nid wyf yn siŵr a fydd eich chwip yn cytuno â chi, ond dyna'r peth cyson i'w wneud, pan fyddwch yn ystyried yr hyn a ddywedoch yn eich araith.

May I also thank Bethan Jenkins for her contribution, emphasising the fact that the sums of money that we're talking about, although they are huge amounts of money, are going to increase. That is what we have learnt from the past. If we don't turn our back on this nuclear weapons industry, we're going to be investing more and more in these destructive weapons. As Lindsay Whittle warned us in referring to Iraq, not only are they of no value, but they in and of themselves create a threat. The fact that you have nuclear weapons makes you a target because the very existence of such weapons is a threat in and of itself.

Roedd hi'n ymddangos bod Andrew R.T. Davies yn meddwl mai rhyw fath o bolisi yswiriant yw arfau niwclear. Mae'n rhaid i mi ddweud wrthy'ch, Andrew, os ydynt yn bolisi yswiriant, mae'r cymal cosb yn un braidd yn drwm, oherwydd os ydych yn eu defnyddio, rydych nid yn unig yn dinistrio'r gelyn, byddwch yn dinistrio'r hil ddynol yn gyfan gwbl. Gwnaeth Nick Ramsay rai pwyntiau cadarn, ond roedd yn ymddangos ei fod yn ceisio ein perswadio mai'r ffordd i ddarfogi yw cynyddu capasiti. Ni allaf ddeall hynny, Nick. Os ydych am adnewyddu Trident, sut y mae hynny'n cyfrannu tuag at ddarfogi amlochrog? 'Does bosibl nad y cam cyntaf i ddarfogi amlochrog fyddai i'r DU wneud safiad a pheidio ag adnewyddu Trident, a chynnig hynny wrth drafod gyda gwledydd eraill.

17:41 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would you give way, Rhodri?

A wnech chi ildio, Rhodri?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:41 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, sure.

Gwnaf, yn sicr.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:41 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

On that point, I thought I was clear, but I'll try and be clearer. I do believe that, ultimately, I'd like to see nuclear weapons gotten rid of, but I think that the UK should be negotiating with other countries to make sure that they're getting rid of theirs at the same time.

Roeddwn yn meddwl fy mod yn glir ar y pwynt hwnnw, ond ceisiaf fod yn gliriach. Yn y pen draw, rwy'n credu yr hoffwn ein gweld yn cael gwared ar arfau niwclear, ond credaf y dylai'r DU fod yn trafod gyda gwledydd eraill i wneud yn siŵr eu bod yn cael gwared arnynt ar yr un pryd.

17:41 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, and I accept that as a valid point from you and from Andrew R.T. Davies and Carwyn Jones. That is a position that I don't agree with, but I respect that position. But you can't argue that renewing Trident is in any way contributing towards multilateral disarmament; it is increasing capability in your nuclear armoury.

Ie, ac rwy'n derbyn hwnnw fel pwynt dilys gennych chi a chan Andrew R.T. Davies a Carwyn Jones. Mae'n safbwynt nad wyf yn cytuno ag ef, ond rwy'n parchu'r safbwynt hwnnw. Ond ni allwch ddadlau bod adnewyddu Trident yn cyfrannu mewn unrhyw ffordd tuag at ddarfogi amlochrog; mae'n cynyddu capasiti yn eich arfogaeth niwclear.

Rwyf am ddod yn ôl at y pwynt sylfaenol yr oeddem ni'n ceisio'i wneud yng nghyd-destun y ddadl yma, sef bod angen datganiad cryf a chadarn gan Lywodraeth Cymru a gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru am le rŷm ni'n sefyll ar y mater yma. A ydym ni eisiau gwario ar arfau neu a ydym ni eisiau buddsoddi mewn gwasanaethau, sydd mor bwysig ac sydd mewn sefyllfa mor fregus yn ein gwlad ni. Fe wnaeth Martin Luther King, yn ystod y tensiynau rhwng y boblogaeth wyn a'r boblogaeth ddu a lliw yn America, ddweud yn un o'i areithiau taw nid pobl ddrwg sydd yn cyflawni troseddau ac sydd yn gyrru'r tensiynau ymlaen, ond pobl sydd yn fodlon eistedd yn gysurus yn eu cadeiriau esmwyth a chaniatáu i'r anghyfiawnder yma fodoli. Ac mae'r un peth yn wir yng nghyd-destun y ddadl yma. Allwn ni ddim dweud, 'Nid yw e'n ddim byd i wneud â ni; nid oes gennym ni'r cymhwyster'. Mae gennym ni lais, ac mae'n gyfrifoldeb arnom ni yn y sefyllfa yma i sicrhau bod y llais hwnnw'n cael ei glywed. Dyna'r her i bawb yma y prynhawn yma: a ydych chi eisiau i'ch llais gael ei clywed yn buddsoddi mewn arfau niwclear, neu a ydych chi eisiau i'ch llais chi gael ei glywed yn dweud, 'Na, mae'n rhaid inni fuddsoddi mewn gwasanaethau hanfodol i'n pobl'?

I want to return to the fundamental point that we were trying to make in the context of this debate, namely that we need a clear, strong statement from the Welsh Government and from the National Assembly for Wales on where we stand on this issue. Do we want to spend money on weapons or do we want to invest in services, which are so important and which are so vulnerable at present in our country. Martin Luther King, during the racial tensions in America, stated in one of his speeches that it's not bad people who commit crimes and who drive these tensions forward, but those people who are willing to sit back comfortably in their chairs and allow that injustice to exist. The same thing is true in the context of this debate. We cannot say that it has nothing to do with us, that we don't have competence. We have a voice, and we are duty-bound in this situation to ensure that that voice is heard. That's the challenge for everyone here this afternoon: do you want your voice to be heard supporting investment in nuclear weapons or do you want your voice to be heard saying, 'No, we must invest in crucial services for our people'?

17:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y cwestiwn yw y dylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? [Objection.] Therefore, I will defer voting under this item until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

17:43 **6. Cyfnod Pleidleisio** Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we will vote on the Welsh Conservatives' debate. I call for a vote on the motion tabled in the name of Paul Davies. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 18; there voted against 28. Therefore, the motion without amendment is not agreed, and we will now vote on the amendments.

Mae amser pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes, felly byddwn yn pleidleisio ar ddadl y Ceidwadwyr Cymreig. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 18 o blaid; pleidleisiodd 28 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio wedi ei dderbyn, a byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau.

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 18, Yn erbyn 28, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 18, Against 28, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5735](#)

[Result of the vote on motion NDM5735](#)

17:44	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call for a vote on amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 47. No votes against. Therefore, amendment 1 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 47, Yn erbyn 0, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnis NDM5735</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 47 o blaid. Ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.</p> <p><i>Amendment agreed: For 47, Against 0, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5735</p>
17:44	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call for a vote on amendment 2 tabled in the name of Aled Roberts. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 47. No votes against. Therefore, amendment 2 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 47, Yn erbyn 0, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5735</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Galwaf am bleidlais ar welliant 2 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 47 o blaid. Ni chafwyd unrhyw bleidleisiau yn erbyn. Felly, mae gwelliant 2 wedi'i dderbyn.</p> <p><i>Amendment agreed: For 47, Against 0, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5735</p>
17:44	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I now call for a vote on the motion as amended.</p> <p>Cynnig NDM5735 fel y'i diwygiwyd</p> <p>Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:</p> <p>1. Yn nodi pwysigrwydd a photensial y diwydiannau creadigol i'n bywyd diwylliannol ac economi Cymru;</p> <p>2. Yn croesawu pwysigrwydd datblygiadau fel Stiwdios y Bae yn Abertawe a datblygiad S4C yng Nghaerfyrddin i'r economïau lleol.</p> <p>3. Yn gresynu at y diffyg eglurder y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnis mewn perthynas â:</p> <p>(a) dyfodol y Panel Diwydiannau Creadigol; a</p> <p>(b) y camau nesaf o ran cyflawni'r blaenoriaethau sydd wedi eu nodi ar gyfer y sector yn Nghynllun Cyflenwi'r Sectorau.</p> <p>4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:</p> <p>a) roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am unrhyw gynnydd yn y maes hwn yn dilyn Adroddiad Hargreaves;</p> <p>b) amlinellu unrhyw ymchwil newydd sydd wedi cael ei gomisiynu mewn perthynas â'i strategaeth ar gyfer y sector diwydiannau creadigol;</p> <p>c) esbonio sut y mae targedau ar gyfer buddsoddiad stiwdio Pinewood a'r gyllideb buddsoddi yn y cyfryngau yn eu cyfanrwydd wedi cael eu gosod, a nodi manylion ynghylch pa mor llwyddiannus y mae'r buddsoddiadau hyn wedi bod yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol; a</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Motion NDM5735 as amended</p> <p>The National Assembly for Wales:</p> <p>1. Notes the importance and potential of creative industries to our cultural life and the Welsh economy.</p> <p>2. Welcomes the importance of developments such as Bay Studios in Swansea and the S4C development in Carmarthen to the local economies.</p> <p>3. Regrets the lack of clarity from the Welsh Government about:</p> <p>(a) the future of the Creative Industries Panel; and</p> <p>(b) the next steps in achieving the priorities that have been set out for the sector in the Sectors Delivery Plan.</p> <p>4. Calls on the Welsh Government to:</p> <p>a) update the Assembly on any progress in this area following the Hargreaves Report;</p> <p>b) outline any new research that has been commissioned in relation to its strategy for the creative industries sector;</p> <p>c) explain how targets for the Pinewood Studio investment and the Media Investment Budget as a whole have been set, and detail how successful these investments have been against key performance indicators; and</p>

d) gweithio gyda darlledwyr a rhwydweithiau fel y BBC, C4, ITV ac S4C er mwyn cynyddu cyfleoedd buddsoddi yng Nghymru.

d) work with broadcasters and networks such as BBC, C4, ITV and S4C in order to increase investment opportunities in Wales.

17:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Open the vote. Close the vote. There voted in favour 23. There voted against 24. Therefore, the motion as amended is not agreed.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Gwrthodwyd cynnig NDM5735 fel y'i diwygiwyd: O blaid 23, Yn erbyn 24, Ymatal 0.

Motion NDM5735 as amended not agreed: For 23, Against 24, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5727 fel y'i diwygiwyd](#)

[Result of the vote on motion NDM5727 as amended](#)

17:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I now call for a vote on the motion tabled in the name of Elin Jones. If the proposal is not agreed, we will vote on the amendments tabled to the motion. So, this is the Plaid Cymru motion. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 9. There voted against 38. Therefore, the motion without amendment is not agreed.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Os na fydd y cynnig yn cael ei dderbyn, byddwn yn pleidleisio ar y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig. Felly, dyma gynnig Plaid Cymru. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 9 o blaid. Pleidleisiodd 38 yn erbyn. Felly, nid yw'r cynnig heb ei ddiwygio yn cael ei dderbyn.

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 9, Yn erbyn 38, Ymatal 0.

Motion not agreed: For 9, Against 38, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5733](#)

[Result of the vote on motion NDM5733](#)

17:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
We will now vote on the amendments. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected. I call for a vote on amendment 1 tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 34. There voted against 13. Therefore amendment 1 is agreed and I deselect amendment 2.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Byddwn yn awr yn pleidleisio ar y gwelliannau. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 34 o blaid. Pleidleisiodd 13 yn erbyn. Felly mae gwelliant 1 yn cael ei dderbyn ac rwy'n dad-ddethol gwelliant 2.

Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 34, Yn erbyn 13, Ymatal 0.

Amendment agreed: For 34, Against 13, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5733](#)

[Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5733](#)

Cafodd gwelliant 2 ei ddad-ddethol.

Amendment 2 deselected.

17:46 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I now call for a vote on the motion as amended.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnig NDM5733 fel y'i diwygiwyd

Motion NDM5733 as amended

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bwerau i benderfynu ble i leoli arfau niwclear ac yn cydnabod mai mater i Lywodraeth y DU yw hwn.

Notes that the Welsh Government has no powers to determine the siting of nuclear weapons and recognises that this is a matter for the UK Government.

17:46	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Open the vote. Close the vote. There voted in favour 38. There voted against 9. Therefore, the motion as amended is agreed.	Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 38 o blaid. Pleidleisiodd 9 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig wedi'i ddiwygio yn cael ei dderbyn.
	<i>Derbyniwyd cynnig NDM5733 fel y'i diwygiwyd: O blaid 38, Yn erbyn 9, Ymatal 0.</i>	<i>Motion NDM5733 as amended agreed: For 38, Against 9, Abstain 0.</i>
	Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5733 fel y'i diwygiwyd	Result of the vote on motion NDM5733 as amended
17:46	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Would those Members who are leaving the Chamber please do so quickly and quietly?	A wnaiff yr Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?
	<i>Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 17:47.</i>	<i>Sandy Mewies took the Chair at 17:47.</i>
17:47	7. Dadl Fer: Cadw Lonydd Gwyrdd yn Wyrdd: Gweithio i Annog Pobl i Beidio â Gyrru oddi ar y Ffordd yng Ngogledd Cymru Sandy Mewies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I now move to the short debate and I call on Aled Roberts to speak on the topic he has chosen.	Symudaf yn awr at y ddadl fer a galwaf ar Aled Roberts i siarad ar y pwnc y mae wedi ei ddewis.
17:47	Aled Roberts Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Diolch, Gadeirydd. Rwy'n falch iawn o'r cyfle i gael cyflwyno'r ddadl yma heno. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r bobl yna sydd wedi aros ar ôl, gan gydnabod ein bod ni ar ein sesiwn olaf cyn y Pasg. Rwyf hefyd wedi cytuno bod Alun Davies yn cael cyfrannu at y ddadl.	Thank you, Chair. I'm very pleased to have the opportunity to introduce this debate this evening. I'm very grateful to those who have stayed behind, recognising that we are on our final session before Easter. I've also agreed that Alun Davies may contribute to the debate.
	Mae'r problemau ynghylch lonydd gwyrdd wedi codi mewn rhai cwestiynau tuag at y Gweinidog yn ddiweddar, ond mae yna gyfle, heddiw, inni drafod materion sydd wedi codi mewn nifer o gyfarfodydd cyhoeddus yn fy rhanbarth i, yn enwedig yn ardaloedd Llangollen, Corwen a Dyffryn Ceiriog.	The problems with green lanes have arisen in several questions to the Minister recently, but there is an opportunity, today, for us to discuss issues that have arisen in a number of public meetings in my region, particularly in the areas of Llangollen, Corwen and the Ceiriog Valley.
	Greenlaning is a relatively new phenomenon that involves off-road vehicles being used on unclassified roads and byways. Open countryside is also used, with 4x4s often travelling in convoys. What might, at first, seem like a harmless bit of fun has led to numerous problems: tracks being eroded; rainwater not running off those byways naturally due to large ruts in the paths caused by the 4x4 tyres; and walking or riding a horse on these pathways has become dangerous due to the convoys, which can block the paths or drive up behind or in front of walkers and riders.	Mae gyrru ar lonydd gwyrdd yn ffenomen gymharol newydd sy'n golygu bod cerbydau oddi ar y ffordd yn cael eu defnyddio ar ffyrdd di-ddosbarth a chilffyrdd. Defnyddir cefn gwlad agored hefyd, gyda cherbydau 4x4 yn aml yn teithio mewn confoi. Mae'r hyn sydd i ddechrau efallai i'w weld fel ychydig o hwyl ddiniwed wedi arwain at nifer o broblemau: traciau'n cael eu herydu; nid yw dŵr glaw yn rhedeg oddi ar y cilffyrdd hynny'n naturiol o ganlyniad i rigolau mawr yn y llwybrau wedi'u hachosi gan deiars cerbydau 4x4; ac mae cerdded neu farchogaeth ceffyl ar y llwybrau hyn bellach yn beryglus oherwydd y confois, a all rwystru'r llwybrau neu yrru i fyny y tu ôl neu o flaen cerddwyr a marchogion.

In fact, if you look on YouTube—and I had, at one time, considered showing YouTube footage in the Senedd—you can actually see the effects of these vehicles on lanes and paths across north Wales. The situation has become extremely contentious and a number of public meetings have been held, some of which have been attended by me, Ken Skates, Llyr Huws Gruffydd and Antoinette Sandbach, and I will refer to those meetings shortly.

I want to say that it's important that the tone of this debate remains about access to and impact on the countryside. This is not about being killjoys, or simply criticising off-roading as a recreational activity. It is not about favouring one type of user over another, but about encouraging the responsible and lawful enjoyment of our beautiful countryside.

Considerable damage is being done to footpaths and bridleways in north Wales by vehicles that are prohibited from using them by law—the clues are in the names, 'footpath' and 'bridleway'. Whilst legislation and guidance exist on this subject, the responsibilities for ensuring compliance and enforcement are vague and complex. Local authorities have a part to play in ensuring compliance with bye-laws, the police have a duty to enforce the Road Traffic Act 1988, and the Welsh Government have a role to play in developing and monitoring compliance through their agencies, so that the public can be confident their rights are being upheld.

Questions have also been raised with local authorities in north Wales as to whether they're meeting their obligations under the Natural Environment and Rural Communities Act 2006 in applying byway-open-to-all-traffic status to protected pathways. Guidance on this matter has been put in place in England for some years, but Wales has not responded to date with the same energy.

In October last year, I asked the Minister whether he intended reviewing the statutory framework regarding access to the countryside. To be fair, the Minister responded by saying that he intended to issue a Green Paper consultation to improve the opportunities for responsible outdoor recreation. I would like to know what progress has been made, because research tells me that, in November 2014, the Welsh Government gave the following comment on the timetable for the access and outdoor recreation Green Paper:

'There is no formal timetable for the publication of the green paper on access and outdoor recreation. The Minister is considering potential proposals for inclusion in the paper, which will be issued in due course.'

This week, the Welsh Government has confirmed that the position on the Green Paper remains the same.

Yn wir, os edrychwch ar YouTube—ac ar un adeg, roeddwn i wedi ystyried dangos ffilm YouTube yn y Senedd—gallwch weld effeithiau'r cerbydau hyn ar lonydd a llwybrau ar draws gogledd Cymru. Mae'r sefyllfa yn hynod ddadleuol bellach ac mae nifer o gyfarfodydd cyhoeddus wedi eu cynnal. Mynychwyd rhai ohonynt gennyf fi, Ken Skates, Llyr Huws Gruffydd ac Antoinette Sandbach, a byddaf yn cyfeirio at y cyfarfodydd hynny cyn bo hir.

Rwyf am ddweud ei bod yn bwysig fod tôn y ddadl hon yn parhau i ymwneud â mynediad i gefn gwlad a'r effaith ar gefn gwlad. Nid yw'n ymwneud â difetha hwyl neu ddim ond beirniadu gyrru oddi ar y ffordd fel gweithgaredd hamdden. Nid yw'n ymwneud â ffafrio un math o ddefnyddiwr ar draul math arall, ond ynglŷn ag annog pobl i fwynhau ein cefn gwlad hardd yn gyfrifol a chyfreithlon.

Mae difrod sylweddol yn cael ei wneud i lwybrau troed a llwybrau ceffylau yng ngogledd Cymru gan gerbydau sy'n cael eu gwahardd gan y gyfraith rhag eu defnyddio—mae'r cliw yn yr enwau, 'llwybr troed' a 'llwybr ceffyl'. Er bod deddfwriaeth a chanllawiau yn bodoli ar y pwnc, mae'r cyfrifoldeb dros sicrhau cydymffurfiaeth a gorfodi yn amwys ac yn gymhleth. Mae gan awdurdodau lleol ran i'w chwarae i sicrhau cydymffurfiaeth ag is-ddeddfau, mae gan yr heddlu ddyletswydd i orfodi Deddf Traffig Ffyrdd 1988, ac mae gan Lywodraeth Cymru ran i'w chwarae yn datblygu a monitro cydymffurfiaeth drwy eu hasiantaethau, er mwyn i'r cyhoedd allu bod yn hyderus fod eu hawliau'n cael eu gwarchod.

Gofynnwyd cwestiynau hefyd i awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru i weld a ydynt yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 wrth gymhwyso statws cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig i lwybrau a ddiogelir. Mae arweiniad ar y mater wedi bod ar waith yn Lloegr ers rhai blynnyddoedd, ond nid yw Cymru wedi ymateb gyda'r un egni hyd yn hyn.

Ym mis Hydref y llynedd, gofynnais i'r Gweinidog a oedd yn bwriadu adolygu'r fframwaith statudol mewn perthynas â mynediad i gefn gwlad. A bod yn deg, ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud ei fod yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad Papur Gwyrdd i wella'r cyfleoedd ar gyfer hamdden awyr agored cyfrifol. Hoffwn wybod pa gynnydd sydd wedi'i wneud, gan fod ymchwil yn dweud wrthyf fod Llywodraeth Cymru, ym mis Tachwedd 2014, wedi gwneud y sylw canlynol ar yr amserlen ar gyfer y Papur Gwyrdd ar fynediad a hamdden awyr agored:

'Nid oes amserlen ffurfiol ar gyfer cyhoeddi'r papur gwyrdd ar fynediad a hamdden awyr agored. Mae'r Gweinidog yn ystyried cynigion posibl i'w cynnwys yn y papur, a fydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.'

Yr wythnos hon, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod y sefyllfa mewn perthynas â'r Papur Gwyrdd yn parhau i fod yr un fath.

On the issue of guidance and councils' uncertainty about the use of routes, I've been advised that this issue is currently being considered internally within the Welsh Government, with a view to inclusion in the Green Paper, if required. An update there, in my respectful submission, is overdue.

Similarly, now that both the Forestry Commission and the Countryside Council for Wales have been merged and amalgamated with the Welsh Government, there appears to be a lack of clarity regarding the use of particular areas of the countryside, which may be compounding the problem. Clearly, the Forestry Commission has, in the past, actively encouraged off-roading, but, more recently, press releases from April and July 2014 on Natural Resources Wales's website acknowledge there is a problem, and they have been active in enforcement with local authorities and North Wales Police.

In fact, recently, Llyr Huws Gruffydd and I accompanied North Wales Police, Natural Resources Wales and the local authorities on an enforcement exercise, which led to a number of bikes and 4x4s being impounded and enforcement action taken against the individuals.

I do believe that there are examples of good practice. As the Minister himself acknowledged in February, he recognised that there were concerns regarding the misuse of bridleways in north Wales. Taking a proactive stance is essential, particularly in areas such as mine where tourism is important to the local rural economy.

In the Lake district, Cumbria County Council designated a 'Hierarchy of Trails Routes' document as a way forward. This document contains details of schemes to assess the suitability for use by recreational vehicles of each lane in Cumbria and the Lake District National Park, and advice is suggested and enforced limitations put on use. Guidance is in place for use of many of these routes in the Lake district, which retain controlled access for vehicles where those routes are very sensitive to damage from erosion. This might be worth consideration as a way forward in Wales.

Cumbria's model does rely on responsible use, stating on their website that

'We have therefore produced the Hierarchy of Trail Routes as a guidance to highlight routes where mechanically propelled vehicles can sustainably go for recreation.... The Lake District National Park Authority ran for years a successful project called "Hierarchy of Trail Routes". This approach involved close partnership with user organisations. The aim of the system is not to promote or prevent use, but to encourage responsible use.'

I am sure that many of the solutions can be implemented locally, and that local authorities and police are in the best position to produce them. However, you will see that this kind of issue means that local authorities are not able to work wholly alone.

Ar fater arweiniad ac ansicrwydd cyngorau ynghylch y defnydd o lwybrau, cefais fy hysbysu bod y mater hwn yn cael ei ystyried yn fewnol ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru, gyda golwg ar ei gynnwys yn y Papur Gwyrdd, os oes angen. Hoffwn awgrymu'n barchus ei bod yn hen bryd symud y mater yn ei flaen.

Yn yr un modd, yn awr bod y Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cael eu cyfuno a'u huno â Llywodraeth Cymru, mae'n ymddangos bod diffyg eglurder ynghylch y defnydd o rannau penodol o gefn gwlad, a gallai hynny fod yn gwaethygu'r broblem. Yn amlwg, yn y gorffennol mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi mynd ati'n frwd i annog gyrru oddi ar y ffordd, ond yn fwy diweddar, mae datganiadau i'r wasg ym mis Ebrill a mis Gorffennaf 2014 ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod bod problem, ac maent wedi bod yn weithgar yn rhoi camau gorfodi ar waith gydag awdurdodau lleol a Heddlu Gogledd Cymru.

Yn wir, yn ddiweddar, roedd Llyr Huws Gruffydd a minnau yn bresennol gyda Heddlu Gogledd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r awdurdodau lleol mewn ymarfer gorfodi'r gyfraith a arweiniodd at nifer o feiciau a cherbydau 4x4 yn cael eu hatafael a chmau gorfodi yn erbyn yr unigolion.

Rwy'n credu bod enghreifftiau o arfer da i'w cael. Fel y dywedodd y Gweinidog ei hun ym mis Chwefror, roedd yn cydnabod bod yna bryderon ynghylch camddefnyddio llwybrau ceffylau yng ngogledd Cymru. Mae'n hanfodol ein bod yn rhagweithiol, yn enwedig mewn ardaloedd fel fy un lle y mae twristiaeth yn bwysig i'r economi wledig leol.

Yn Ardal y Llynnoedd, dynododd Cyngor Sir Cumbria mai'r ddogfen 'Hierarchy of Trails Routes' oedd y ffordd ymlaen. Mae'r ddogfen yn cynnwys manylion am gynlluniau i asesu pa mor addas i'w defnyddio gan gerbydau hamdden yw pob lôn yn Cumbria a Pharc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd, caiff cyngor ei awgrymu a gwneir defnydd o gyfyngiadau sy'n cael eu gorfodi. Mae canllawiau ar gael ar gyfer defnyddio llawer o'r llwybrau hyn yn Ardal y Llynnoedd, sy'n rheoli mynediad i gerbydau lle y mae'r llwybrau yn sensitif iawn i ddifrod erydu. Gallai hyn fod yn werth ei ystyried fel ffordd ymlaen yng Nghymru.

Mae model Cumbria yn dibynnu ar ddefnydd cyfrifol, a nodir ar eu gwefan:

'Rydym felly wedi cynhyrchu Hierarchy of Trail Routes fel arweiniad i dynnu sylw at lwybrau lle y gall cerbydau a yrrir yn fecanyddol fynd yn gynaliadwy at ddibenion hamdden... Am flynyddoedd, bu Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd yn cynnal prosiect llwyddiannus o'r enw "Hierarchy of Trail Routes". Roedd y dull yn ymwneud â phartneriaeth agos â sefydliadau defnyddwyr. Nod y system yw peidio â hyrwyddo neu atal defnydd, ond annog defnydd cyfrifol.'

Rwy'n sicr y gellir rhoi llawer o'r atebion ar waith yn lleol, ac mai'r awdurdodau lleol a'r heddlu sydd yn y sefyllfa orau i'w cynhyrchu. Fodd bynnag, fe welwch fod y math hwn o fater yn golygu nad yw awdurdodau lleol yn gallu gweithio'n gwbl annibynnol.

What became obvious in discussions across north Wales is that there are a lot of issues that arise because many areas are dissected by many invisible county boundaries. Many of those counties have different policies, both with regard to the management of routes and, more importantly, actual byways. There's also the need to avoid widely diverging management strategies existing over these administrative borders that lead to confuse users as they move over boundaries. We've been aware in discussions in north Wales, for example, that there is a danger that, by actually using enforcement powers in one area, all you do is move the problem on.

There are, clearly, supporters of solutions requiring the complete exclusion of one user from the countryside, but I recognise that this is not legally achievable. It is also unreasonable as a blanket action, and there is a risk of such action leading to a possible increase in unmanageable and unlawful activity, unless significant management resources were made available.

Other interventions may involve legislation at national level. For example, byways and unsurfaced roads are classified as roads from a highways management point of view, so they fall under the same legislative regime as surfaced roads. This means that anyone working on such a route, unlike a footpath or a bridleway, has to hold nationally recognised streetworks qualifications and appropriate levels of public liability insurance. This makes getting volunteers to help undertake unsupervised works in such locations difficult, although, as a group, it is often more likely that these sorts of qualifications can be found amongst vehicle users than other users of access.

In concluding, I need to reiterate that this debate is about encouraging the lawful and responsible use of sustainable countryside. If necessary, there should be scope to include reference to the permitted use of vehicles in the countryside within the environment Bill, one objective of which is described on the Welsh Government's website as

'Putting in place a modern statutory process to plan and manage our natural resources in a joined up and sustainable way'.

Yr hyn a ddaeth yn amlwg mewn trafodaethau ar draws gogledd Cymru yw bod yna lawer o faterion sy'n codi oherwydd bod llawer o ffiniau sirol anweledig yn rhannu llawer o ardaloedd. Mae gan lawer o'r siroedd bolisiau gwahanol, o ran rheoli llwybrau ac yn bwysicach, cilffyrdd. Hefyd, mae angen osgoi strategaethau rheoli sy'n amrywio'n eang dros y ffiniau gweinyddol hyn gan arwain at ddrysu defnyddwyr wrth iddynt symud dros ffiniau. Rydym wedi bod yn ymwybodol mewn trafodaethau yng ngogledd Cymru, er enghraifft, fod yna berygl nad yw mynd ati i ddefnyddio pwerau gorfodi mewn un ardal ond yn symud y broblem yn ei blaen.

Yn amlwg, mae rhai'n cefnogi atebion sy'n gofyn am wahardd un math o ddefnyddiwr yn llwyr o gefn gwlad, ond rwy'n cydnabod nad oes modd cyflawni hyn yn gyfreithiol. Mae hefyd yn afresymol fel cam gweithredu cyffredinol, ac mae risg y bydd gweithredu o'r fath yn arwain at gynnydd posibl mewn gweithgaredd anghyfreithlon na ellir ei reoli heb adnoddau rheoli sylweddol.

Gall ymyriadau eraill gynnwys deddfwriaeth ar lefel genedlaethol. Er enghraifft, caiff cilffyrdd a ffyrdd heb wyneb caled eu dosbarthu fel ffyrdd o safbwynt rheoli priffyrdd er mwyn eu cynnwys yr un drefn deddfwriaethol â ffyrdd â wyneb caled. Mae hyn yn golygu bod unrhyw un sy'n gweithio ar lwybr o'r fath, yn wahanol i lwybr troed neu lwybr ceffylau, yn gorfod meddu ar gymwysterau gwaith stryd a gydnabyddir yn genedlaethol a lefelau priodol o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cael gwirfoddolwyr i helpu i ymgymryd â gwaith heb oruchwyliaeth mewn lleoliadau o'r fath, er ei bod yn aml yn fwy tebygol y bydd y mathau hyn o gymwysterau i'w cael ymysg defnyddwyr cerbydau, fel grŵp, na defnyddwyr eraill.

Wrth gloi, mae angen i mi ailadrodd bod y ddatl hon yn ymwneud ag annog y defnydd cyfreithlon a chyfrifol o gefn gwlad cynaliadwy. Os oes angen, dylai fod lle i gynnwys cyfeiriad at y defnydd a ganiateir o gerbydau yng nghefn gwlad yn y Bil amgylchedd, y disgrifir un o'i amcanion ar wefan Llywodraeth Cymru fel

'Rhoi proses statudol fodern ar waith i gynllunio a rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gydgysylltiedig a chynaliadwy'.

Links to the responses to the consultation, which closed on 15 January last year, can be viewed online, but the initial consultation paper made no reference to the misuse of byways. In fact, despite the Minister mentioning the Bill in his response to Antoinette Sandbach last month, a search of the consultation document shows no results for footpaths, roads, byways or green lanes. I would hope that the environment Bill, when it begins its progress through the Assembly before the summer recess, might give us an opportunity to look at the situation. I would expect that legislation should include reference to the protection of these routes in our countryside. Minister, the solutions are out there. This isn't necessarily only a north Wales problem, as was discussed at the rural affairs cross-party group some time ago. There are very, very different problems in some areas of south Wales, which I'm sure Alun Davies will refer to in due course. On behalf of my constituents in the region, I ask you to take control of the situation and take action to implement guidance as a matter of urgency.

Gellir gweld dolenni i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a ddaeth i ben ar 15 Ionawr y llynedd ar-lein, ond nid oedd y papur ymgynghori cychwynnol yn cyfeirio at gamddefnyddio cilffyrdd. Yn wir, er bod y Gweinidog wedi sôn am y Bil yn ei ymateb i Antoinette Sandbach y mis diwethaf, nid yw chwiliad o'r ddogfen ymgynghori yn dangos unrhyw ganlyniadau ar gyfer llwybrau troed, ffyrdd, cilffyrdd na lonydd gwyrdd. Byddwn yn gobeithio y bydd Bil yr amgylchedd, pan fydd yn dechrau ar ei daith drwy'r Cynulliad cyn toriad yr haf, yn rhoi cyfle inni edrych ar y sefyllfa. Byddwn yn disgwyl i'r ddeddfwriaeth gynnwys cyfeiriad at ddiogelu'r llwybrau hyn yng nghefn gwlad. Weiniidog, mae'r atebion yno. Nid problem yng ngogledd Cymru yn unig yw hon o reidrwydd, fel y trafodwyd yn y grŵp trawsbleidiol ar faterion gwledig beth amser yn ôl. Mae yna broblemau gwahanol iawn, iawn mewn rhai ardaloedd yn ne Cymru, ac rwy'n siŵr y bydd Alun Davies yn cyfeirio atynt maes o law. Ar ran fy etholwyr yn y rhanbarth, rwy'n gofyn i chi gymryd rheolaeth ar y sefyllfa a rhoi camau ar waith i weithredu canllawiau ar frys.

17:57

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful to Aled for raising this matter and for allowing me speak in his debate. As he said in closing, this is a significant issue for his constituents in north Wales, but it's also a significant issue for my constituents in Blaenau Gwent and for others in adjoining constituencies. I took the Gwent chief constable, in fact, only last week, with a number of local farmers and commoners, to look at the damage that is being done by offroading in Blaenau Gwent and on the hills surrounding Blaenau Gwent. It is something that we simply cannot ignore. I very much agree with the point that Aled was making in terms of ensuring that we are able to manage lawful access to the countryside, and it might well be a conversation that perhaps we should continue beyond and after this debate. But there is also a need to ensure that we manage illegal activity and that, where the law is deficient, we strengthen it. I think there are significant arguments for strengthening the law on this matter. The conversation I had with the chief constable last week was very instructive about the limitations of policing, and not simply in terms of resourcing, but in terms of the practical policing of open countryside and then addressing the issues of people who are acting in an entirely irresponsible manner. We need to manage access, but we also need the law to have a balance, whereby people are able to access the countryside, but if that access is illegal, creates damage and creates fear amongst farmers and for commoners, we have to say that if the law isn't sufficient, it needs to be strengthened.

Diolch i Aled am godi'r mater ac am ganiatáu imi siarad yn ei dadl. Fel y dywedodd wrth gloi, mae hwn yn fater o bwys i'w etholwyr yn y gogledd, ond mae hefyd yn broblem sylweddol i fy etholwyr innau ym Mlaenau Gwent ac i eraill mewn etholaethau cyfagos. Yr wythnos diwethaf, mewn gwirionedd, fe es â phrif gwnstabl Gwent, gyda nifer o ffermwyr a chominwyr lleol, i edrych ar y difrod sy'n cael ei wneud gan yrru oddi ar y ffordd ym Mlaenau Gwent ac ar y brynau o amgylch Blaenau Gwent. Yn syml iawn, mae'n rhywbeth na allwn ei anwybyddu. Cytunaf yn llwyr â'r pwynt roedd Aled yn ei wneud ynghylch sicrhau ein bod yn gallu rheoli mynediad cyfreithlon i gefn gwlad, a gallai'n hawdd fod yn sgwrs y dylem ei pharhau efallai y tu hwnt ac ar ôl y ddadl hon. Ond mae angen sicrhau hefyd ein bod yn rheoli gweithgareddau anghyfreithlon, a lle bo'r gyfraith yn ddiffygiol, ein bod yn ei chryfhau. Rwy'n meddwl bod yna ddadleuon sylweddol dros gryfhau'r gyfraith ar y mater hwn. Roedd y sgwrs a gefais gyda'r prif gwnstabl yr wythnos diwethaf yn addysgiadol iawn ynglŷn â chyfyngiadau plismona, ac nid yn unig o ran adnoddau, ond o ran ymarferoldeb plismona cefn gwlad agored a mynd i'r afael â phobl sy'n gweithredu mewn modd cwbl anghyfrifol. Mae angen i ni reoli mynediad, ond hefyd rydym angen i'r gyfraith fod yn gytbwys, er mwyn i bobl allu cael mynediad i gefn gwlad, ond os yw'r mynediad yn anghyfreithlon, yn creu difrod ac yn creu ofn ymysg ffermwyr a chominwyr, mae'n rhaid i ni ddweud os nad yw'r gyfraith yn ddigonol, fod angen ei chryfhau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:59

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. I call on the Minister for Natural Resources to reply to the debate. Carl Sargeant.

Diolch yn fawr. Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i ymateb i'r ddadl. Carl Sargeant.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:59

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

Thank you, Deputy Presiding Officer. I thank the Member for bringing this debate to the Chamber. Illegal and irresponsible vehicular use of public rights of way and across our countryside can have significant detrimental impact on the enjoyment and safety of other path users, as well as on farming, the environment and local communities, as outlined by both Aled and Alun Davies this afternoon.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Diolch i'r Aelod am gyflwyno'r ddadl hon i'r Siambr. Gall defnydd anghyfreithlon ac anghyfrifol gan gerbydau o hawliau tramwy cyhoeddus ac ar draws ein cefn gwlad gael effaith niweidiol sylweddol ar fwynhad a diogelwch defnyddwyr eraill y llwybr, yn ogystal ag ar ffermio, yr amgylchedd a chymunedau lleol, fel yr amlinellodd Aled ac Alun Davies y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Off-roading motoring on legal routes is a legitimate activity, but I recognise that it's a very emotive issue across Wales, and has been for a number of years. Around 260 miles of rights of way in Wales are byways open to all traffic, where it's lawful to drive a motor vehicle. These routes are registered on local authorities' definitive maps of public rights of way.

In addition to these legally recorded byways, off-roaders use a network of unclassified unsurfaced roads and other country lanes that have no obvious or standardised legal classification. These are often referred to as green lanes, as explained by Members. The legal status of this extensive network of routes is uncertain or not obvious to the public.

The law is clear that driving where you have no right to do so is a criminal offence. Since the implementation of the Natural Environment and Rural Communities Act 2006, there has been some confusion over the rights associated with green lanes. There is currently a campaign by Save Our Paths to simplify matters by reclassifying all green lanes as restricted byways, which would extinguish the rights or any rights for the public to drive on them. While I sympathise with the group's desire for clarity, a blanket ban would not be appropriate in all cases, as many of the routes form part of the ordinary road network, as Members recognise. It is my intention, as mentioned earlier, to issue a Green Paper on access and outdoor recreation before the end of this calendar year, and this will provide groups like Save Our Paths, and others with interest, to have the opportunity to have their say over how legislation may be amended, clarified or where we can go further in introducing new legislation. It will then be for the next Welsh Government to decide how to use the evidence collected for that consultation.

In the meantime, there is excellent work being done to manage the impacts of off-roading across Wales, including that in the north, recognising the work that North Wales Police and local authorities are doing in this guise. For example, Denbighshire County Council have used Welsh Government funding to monitor the level of legitimate vehicular use in order to ensure that routes remain open and in reasonable condition for all users. To make best use of limited police resources, this monitoring has also helped to establish the levels of illegal activity in open countryside, in order to identify the better hotspots and predicted patterns of activity—exactly what Alun Davies was saying about the police having difficulty managing the rural communities as a whole and more concentrated efforts being required.

Mae moduro oddi ar y ffordd ar lwybrau cyfreithiol yn weithgaredd cyfreithlon, ond rwy'n cydnabod ei fod yn fater emosïynol iawn ar draws Cymru, ac mae wedi bod ers nifer o flynyddoedd. Mae tua 260 o filltiroedd o hawliau tramwy yng Nghymru yn gylffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig, lle y mae'n gyfreithlon i yrru cerbyd modur. Mae'r llwybrau hyn yn cael eu cofrestru ar fapiau diffiniol awdurdodau lleol o hawliau tramwy cyhoeddus.

Yn ogystal â chilffyrdd o'r fath a gofnodwyd yn gyfreithiol, mae gyrywyr oddi ar y ffordd yn defnyddio rhwydwaith o ffyrdd diddosbarth heb wyneb caled a lonydd gwledig eraill heb ddosbarth cyfreithiol amlwg neu safonol. Cyfeirir at y rhain yn aml fel lonydd gwyrdd, fel yr eglurodd yr Aelodau. Mae statws cyfreithiol y rhwydwaith helaeth o lwybrau yn ansicr neu heb fod yn amlwg i'r cyhoedd.

Mae'r gyfraith yn glir fod gyrru lle nad oes gennych hawl i wneud hynny yn drosedd. Ers i Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ddod i rym, bu rhywfaint o ddrysych ynglŷn â hawliau sy'n gysylltiedig â lonydd gwyrdd. Mae ymgyrch gan Save Our Paths i symleiddio materion drwy aiddosbarthu pob lôn werdd fel cilffordd gyfyngedig, a fyddai'n dileu'r hawliau neu unrhyw hawliau i'r cyhoedd yrru arnynt ar hyn o bryd. Er fy mod yn cydymdeimlo ag awydd y grŵp am eglurder, ni fyddai gwaharddiad cyffredinol yn briodol ym mhob achos, gan fod llawer o'r llwybrau yn ffurfio rhan o'r rhwydwaith ffyrdd arferol, fel y mae'r Aelodau'n cydnabod. Fy mwriad, fel y crybwyllwyd yn gynharach, yw cyhoeddi Papur Gwyrdd ar fynediad a hamdden awyr agored cyn diwedd y flwyddyn galendr hon, a bydd hyn yn rhoi cyfle i grwpiau fel Save Our Paths ac eraill sydd â diddordeb i gael cyfle i ddweud eu barn ynglŷn â sut y gellid diwygio neu egluro'r ddeddfwriaeth, neu lle y gallwn fynd ymhellach a chyflwyno deddfwriaeth newydd. Mater i Lywodraeth Cymru wedyn fydd penderfynu sut i ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr ymgynghoriad hwnnw.

Yn y cyfamsr, mae gwaith rhagorol yn cael ei wneud i reoli effeithiau gyrru oddi ar y ffordd ar draws Cymru, gan gynnwys yn y gogledd, gan gydnabod y gwaith y mae Heddlu Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol yn ei wneud yn hyn o beth. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru i fonitro lefel y defnydd cyfreithlon o gerbydau er mwyn sicrhau bod y llwybrau yn aros ar agor ac mewn cyflwr rhesymol ar gyfer pob defnyddiwr. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig yr heddlu, mae'r gwaith monitro hwn hefyd wedi helpu i sefydlu lefelau gweithgarwch anghyfreithlon mewn ardaloedd agored o gefn gwlad, er mwyn nodi'r manau problemus yn well a phatrymau gweithgaredd a ragwelir—sef yn union yr hyn a ddywedodd Alun Davies am yr heddlu'n cael anhawster i reoli cymunedau gwledig yn gyffredinol a bod angen ymdrechion mwy dwys.

So, this is already delivering results, but I do accept also that there is much more to do. There was an operation earlier this year, which was planned in partnership between North Wales Police, Natural Resources Wales and Denbighshire County Council, leading to four vehicles being seized and 12 others reported for various motoring offences. I'm not sure whether you two were part of the crack team on that day. [Laughter.] In addition to Natural Resources Wales, North Wales Police and the Clwyd area of outstanding natural beauty, Wrexham County Borough Council and other landowners have worked to restrict access through infrastructure improvements.

The Welsh Government is committed to promoting reasonable recreation—responsible recreation, I should say, Deputy Presiding Officer. I intend to issue guidance on public rights of way later this year, as I mentioned, and that will include reference to the sections of the Natural Environment and Rural Communities Act 2006. Providing clarity through guidance will help local authorities and communities to determine what is the appropriate use. I will give further considerations following this debate this afternoon. Thank you.

18:04

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. That brings today's proceedings to a close.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:04.

Felly, mae hyn eisoes yn sicrhau canlyniadau, ond rwy'n derbyn hefyd fod llawer mwy i'w wneud. Cynhaliwyd ymarfer yn gynharach eleni, a gafodd ei gynllunio mewn partneriaeth rhwng Heddlu Gogledd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Ddinbych, gan arwain at atafaelu pedwar o gerbydau a riportio 12 arall am wahanol droseddau moduro. Nid wyf yn siŵr a oeddech chi'ch dau'n rhan o'r tîm gweithredol ar y diwrnod hwnnw. [Chwerthin.] Yn ogystal â Cyfoeth Naturiol Cymru, Heddlu Gogledd Cymru ac ardal o harddwch naturiol eithriadol Clwyd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a thirfeddianwyr eraill wedi gweithio i gyfyngu ar fynediad drwy welliannau i'r seilwaith.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo hamdden rhesymol—hamdden cyfrifol, dylwn ddweud, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n bwriadu cyhoeddi canllawiau ar hawliau tramwy cyhoeddus yn ddiweddarach eleni, fel y soniais, a bydd yn cynnwys cyfeiriad at yr adrannau o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Bydd darparu eglurder drwy ganllawiau yn helpu awdurdodau lleol a chymunedau i bennu beth sy'n ddefnydd priodol. Byddaf yn ystyried ymhellach yn dilyn y ddadl hon y prynhawn yma. Diolch yn fawr.

Diolch i chi, Weinidog. Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

The meeting ended at 18:04.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)